

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Siôn Ceri

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodryr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Dylan Foster Evans, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Golygyddion Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DL DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

Swyddog Golygyddol

Glenys Howells, MA, ALA

GWAITH SIÔN CERI

golygwyd gan
A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1996

© Prifysgol Cymru ©, 1996.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 59 9

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Rhagair

Braint yw cael cydnabod fy nyled i'r holl gymwynaswyr a hwylusodd y gwaith o baratoi'r gyfrol hon, sef Mr Gareth Bevan, Golygydd Geiriadur Prifysgol Cymru, Mrs Carys Briddon, Mr W. Gerallt Harries, Dr Ann Parry Owen a'r Athro Gruffydd Aled Williams. Carwn gyfleu fy niolch hefyd i staff Adran y Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i aelodau Bwrdd Golygyddol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr', ac i ymddiried-olwyr Cronfa Syr David Hughes Parry.

Rhestrir y ffynonellau, pan ddigwydd y testun mewn mwy nag un llawysgrif, yn ôl eu pwysigrwydd. Nodir yr amrywiadau bob tro yn orgraff y llawysgrif flaenaf. Defnyddir bachau petryal pan fo gair neu eiriau yn eisiau yn y llawysgrif(au), a chofnodir yr hyn a ychwanegwyd gan y golygydd, pan oedd y testun naill ai'n ddiffygiol neu'n wallus, mewn llythrennau italig.

A. Cynfael Lake

Cynnwys

Tud.

RHAGAIR v

BYRFODDAU

Llyfryddol	xi
Termau a geiriau	xviii

GWAITH SIÔN CERI

RHAGYMDRODD..... 1

TESTUN

1. Moliant Siôn Llwyd ab Ieuan, Gwern-y-gof	21
2. Moliant Huw Llwyd, Gwern-y-gof	23
3. Moliant Ieuan Llwyd ap Dafydd, Bachaethlon	26
4. Marwnad Ieuan Llwyd ap Dafydd, Bachaethlon.....	28
5. Moliant Morys ap Dafydd ap Morys, Ceri	30
6. Moliant Siôn ap Rhys ap Morys, Mochdre	33
7. Awdl foliant i Fathau Goch ap Tomas ap Rhys, y Drenewydd	36
8. Moliant Morys ab Owain, Aberbechan	39
9. Awdl foliant i Rys ap Morys ab Owain, Aberbechan.....	42
10. Moliant Ieuan Goch Benllwyd, y Gwestyd	45
11. Moliant Siôn Wiliam, Llandysul	48
12. Marwnad Dafydd Llwyd ap Gruffudd ap Maredudd, Carno	50
13. Moliant Dafydd ap Hywel ap Dafydd Llwyd, Llanwnnog.....	52
14. Moliant Lewys Gwyn ab Ieuan, Trefeglwys	54
15. Moliant Ieuan Gwyn ap Lewys Gwyn, Glynhafren	56
16. Moliant Ieuan ap Morys ap Siancyn, Clochfaen	58
17. Moliant Siôn Colunwy	60
18. Gofyn tarw gan Owain ap Hywel dros Hywel Gethin, Brontyn.....	62
19. Moliant Lewys Fychan, yr Ystog	65

20.	Moliant Lewys Fychan, yr Ystog	67
21.	Moliant Syr Rhisiart Herbert	69
22.	Moliant Mastr Rhisiart Herbert	72
23.	Moliant Edward Llwyd ap Dafydd Llwyd, y Trallwng.....	74
24.	Moliant Gruffudd ap Dafydd Llwyd	76
25.	Moliant Wmffre Cinast	78
26.	Marwnad Wmffre Cinast.....	80
27.	Gofyn hug gan Owain ap Siôn, Llwydiarth, dros Syr Robart.....	82
28.	Gofyn march gan Owain ab Ieuan, Dolobran, dros Hywel ap Maredudd	84
29.	Moliant Wmffre ap Dafydd, Llanbryn-mair.....	86
30.	Moliant Rhys ab Ieuan ap Dafydd Llwyd, Talerddig	88
31.	Moliant Morys ab Owain, Rhiwsaeson	91
32.	Gofyn tarw gan Forys ab Owain, Rhiwsaeson	93
33.	Moliant Morys ab Owain, Rhiwsaeson	96
34.	Gofyn march gan Owain ap Hywel, Plasmadog.....	99
35.	Moliant Rhys, Cenarth, a Sioned ei wraig.....	101
36.	Moliant Rhys, Cenarth	104
37.	Moliant Siâms ap Rhys, y Mynachdy.....	106
38.	Moliant Ieuan Gwyn ap Siâms ap Rhys, Clwn.....	109
39.	Moliant Owain ap Gruffudd ap Maredudd Fychan, Llanbister.....	112
40.	Gofyn main melin gan Lewys ap Tomas, Llanbadarn, dros Fathau Goch ap Tomas, y Drenewydd	115
41.	Moliant Rhisiart ap Rhys ap Dafydd Llwyd, Gogerddan	119
42.	Moliant Wmffre ap Hywel ap Siancyn, Ynysymaengwyn.....	121
43.	Cywydd i gymodi'r bardd ag Owain	123
44.	Moliant Robert ap Rhys, Plas Iolyn	125
45.	Marwnad Tudur Aled	127
46.	Moliant Tomas Pennant, Abad Dinas Basing.....	130
47.	Marwnad Tomas Pennant, Abad Dinas Basing	132
48.	Moliant Wiliam ap Siôn Edwart, y Waun	134
49.	Gofyn bwced gan Forys ab Ieuan, Llangedwyn, dros Forys Goch	137
50.	Awdl farwnad Syr Rhys ap Tomas.....	140

51.	Moliant i'r Drenewydd.....	144
52.	Moliant i Groesoswallt.....	146
53.	Cywydd i Dduw	148
54.	Crog Aberhodni.....	151
55.	Llwchaearn	153
56.	Cywydd merch	156
57.	Cywydd merch	158
58.	Cywydd merch	161
59.	Ymryson Siôn Ceri a Hywel ap Syr Mathau	164
60.	Englynon Awgrym Llaw	165
NODIADAU.....		167
GEIRFA.....		223
ENWAU PERSONAU		235
ENWAU LLEOEDD		237
LLAWYSGRIFAU.....		239
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF		247
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU.....		249

Byrfoddau

Llyfryddol

Arch Camb	<i>Archaeologia Cambrensis</i> , 1846–
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru Bangor
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BHLIP	Enid Roberts, <i>Braslun o Hanes Llên Powys</i> (Dinbych, 1965)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
BI B XIV	<i>Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Dafydd Johnston (Llandybie, 1989)
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CLC	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)

- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
- Cy *Y Cymmrodor*, 1877–
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- DB Arthur Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams, Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DLIM A. Cynfael Lake, 'Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan' (M.A. Cymru [Abertawe], 1979)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DNB *Dictionary of National Biography* (22 vols., London, 1908–9)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwinn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EmW Robert Williams, *Enwogion Cymru: A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (Llandovery, 1852)
- Esgair Llawysgrif yng nghasgliad Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBEC J.T. Jones, *Geiriadur Bywgraphyddol o Enwogion Cymru* (Aberdar, 1867 (cyf. i), 1870 (cyf. ii))
- GCBM i *Gwaith Cynnddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCC D. Simon Evans, *Gramadeg Cymraeg Canol* (Caerdydd, 1960)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)

- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru (Caerdydd, 1950–)*
- GRB *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys*, gol. J.M. Williams ac Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1976)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1962)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisiardyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad Gwynedd yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor
- Haf Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- HCad Llawysgrif Huw Cadwaladr yn Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Cymru Caerdydd
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales (Aberystwyth, 1943–)*
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- HS *Gwaith barddonol Howel Swrdwal a'i fab Ieuan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)

- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- O. Jones: Cymru Owen Jones, *Cymru: Yn Hanesyddol, Parthedegol, a Bywgraphyddol* (Llundain, 1875)
- JPWM J.R.S. Phillips, *The Justices of the Peace in Wales and Monmouthshire 1541 to 1689* (Cardiff, 1975)
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LGC *The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. Tegid and Gwallter Mechain (Oxford, 1837–9)
- LGCD *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984)
- LPFD *Letters & Papers, Foreign & Domestic of the Reign of Henry VIII* (21 vols., London)
- LSEW *Lists of Sheriffs for England and Wales*, Lists & Indexes No. IX (Public Records Office, London, 1898)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MED *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963–)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868–
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- NBSD Robert Lewis Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn sir Drefaldwyn' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1980)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., Washington, 1967)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Penrhos Llawysgrif yng nghasgliad Penrhos yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of Saint Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13)
- Tn Llawysgrif Tan-y-bwlch yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCh Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1976)

- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- WLI *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- WMW Helen Chandler, 'The Will in Medieval Wales to 1540' (M.Phil. Cymru [Aberystwyth], 1991)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YMTh *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1951)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gan
adf.	adferf	grb.
angh.	anghyflawn	grch.
amhff.	amherffaith	grff.
amhrs.	amhersonol	gthg.
amr.	amrywiad	gw.
anh.	anhysbys	Gwydd.
ardd.	arddodiad, -iaid	H.
arg.	argraffiad	h.y.
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	<i>ib.</i>
b.	benywaidd (ac weithiau berf)	<i>id.</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>
bf.	(f.) berf, -au	ll.
c.	<i>circa</i>	Llad.
c.	(g.) canrif	llau.
C.	Canol	llsgr.
cf.	cymharer	llsgrau.
Cym.	Cymraeg	m.
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.
d.g.	dan y gair	neg.
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>
diw.	diweddar	<i>op.cit.</i>
e.	enw	p.
eb.	enw benywaidd	pres.
e.c.	enw cyffredin	prff.
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.
e.e.	er enghraifft	pth.
eg.	enw gwrywaidd	r
e.p.	enw priod	rh.
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	S.
f.	ffolio	sc.
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	<i>s.n.</i>
ff.	ffolios	td.
ffig.	ffigurol	tt.
g.	(c.) canrif	un.
g.	gwrywaidd	v
gol.	golygydd, golygydd	vols.
		gorberffaith
		gorchmynnol
		gorffennol
		gwrthgyferbynier, -iol
		gweler
		Gwyddeleg
		Hen
		hynny yw
		<i>ibidem</i>
		<i>idem</i>
		<i>loco citato</i>
		lluosog; llinell
		Lladin
		llinellau
		llwysgrif
		llwysgrifau
		mewnol
		mynegol
		negydd, -ol
		<i>obiit</i>
		<i>opere citato</i>
		priod
		presennol
		perffaith
		person, -ol
		perthynol
		<i>recto</i>
		rhagenw, -ol
		Saesneg
		<i>scilicet</i>
		<i>sub nomine</i>
		tudalen
		tudalennau
		unigol
		<i>verso</i>
		<i>volumes</i>

Rhagymadrodd

Y bardd a'i waith

Diogelwyd hanner cant ac wyth o gerddi Siôn Ceri, yn gywyddau ac yn awdlau, ynghyd â dyrnaid o englynion. Lluniodd y bardd dri chywydd crefyddol a thri chywydd serch, ac mewn dau gywydd arall fe'i ceir yn cyfarch trigolion Croesoswallt a'r Drenewydd. Cerddi defodol yw'r hanner cant sy'n weddill, a hynny yn bennaf i deuluoedd hen deyrnas Powys Wenwynwyn a'r cyffiniau, er y dylid nodi wrth fynd heibio fod i'r cywyddau crefyddol, hwythau, gysylltiadau lleol amlwg. Y crogau yn eglwysi Trefeglwys ac Aberhonddu yw testun dau o'r cywyddau hyn. Cywydd i'r sant a roes ei enw i blwyf ac eglwys Llanllwchaearn yw'r trydydd, ac fe'i canwyd ar gais Rhys ap Morys o Aberbechan.

I'r 'canu gŵr' y rhoes Siôn Ceri y flaenoriaeth, fel y dengys y dosbarthiad isod.

Moliant	36
Cymod	1
Gofyn	7
Marwnad	6

Diogelwyd darn o gywydd cymod, a bu'r bardd yn erchi rhoddion ar ei ran ei hun ac ar ran ei noddwyr. Yr hyn sy'n annisgwyl yw prinder y marwnadau ochr yn ochr â'r cerddi gofyn a'r cerddi mawl. Gellid tybio mai gweithgarwch achlysurol i Siôn oedd marwnadu, a chryn anfantais yw hynny pan geisir pennu cyfnod ei weithgarwch, fel y dangosir maes o law. Tair marwnad o blith y chwech sydd ar glawr sy'n perthyn yn ddaearyddol i'r Canolbarth, a pherthyn o leiaf un ohonynt—a'r tair a ganwyd i wŷr o rannau eraill o Gymru, a'r bardd Tudur Aled yn eu plith—i gyfnod cynnar yng ngyrfa'r bardd.¹

Gellir gosod y canu yn ei gyd-destun trwy gyfeirio at ddwy astudiaeth. 'Yr hyn sy'n arbennig yn hanes Powys Wenwynwyn (a sir Drefaldwyn yn ddiweddarach)', esboniodd Enid Roberts, 'yw bywiogrwydd y traddodiad barddol swyddogol, a'r cynnydd eithriadol ynddo ymlaen hyd ganol yr ail

¹ Perthyn 31 o'r cerddi moliant a 6 o'r cywyddau gofyn i'r Canolbarth. Collwyd dechrau'r cywydd cymod yn yr unig ffynhonnell, ac nid oes modd ei leoli o'r herwydd.

ganrif ar bymtheg.² Aeth rhagddi i gyfiawnhau'r gosodiad hwn trwy gyfeirio at y beirdd a hanai o'r dalaith:

Dau fardd, o blith dosbarth Beirdd yr Uchelwyr, y gellir eu lleoli'n bendant ym Mhowys Wenwynwyn yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg ... Yn y bymthegfed ganrif y mae o leiaf ddeg ... Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg y mae un ar bymtheg y gwyddys i sicrwydd eu bod yn hanfod o'r ardal.³

Dangosodd hefyd fod y cartrefi yr ymwelai'r beirdd â hwy wedi amlhau yn ystod y cyfnod dan sylw. Canwyd mewn saith cartref ar hugain yn ystod y bymthegfed ganrif, ond croesawyd beirdd yr unfed ganrif ar bymtheg, canrif Siôn Ceri, ar wyth aelwyd a thrigain, yn ôl cyfrif Enid Roberts.⁴

Ni cheisir dadansoddi arferion y Cywyddwyr, a phatrymau'r nawdd, yn y traethawd ymchwil 'Noddwyr y Beirdd yn sir Drefaldwyn'.⁵ Pennaf cymwynas awdur yr astudiaeth hon oedd rhestru'r cywyddau a'r awdlau a ganwyd ym mhob un o gartrefi'r sir gan feirdd y Canolbarth a'u cymheiriaid o'r taleithiau eraill. Ymglywir yma drachefn â'r ffyniant y cyfeiriodd Enid Roberts ato, ond gall hynny gymylu un ystyriaeth arwyddocaol. Er bod yn y sir deuluoedd ac iddynt draddodiad hir o groesawu beirdd, ac er bod ambell benteulu yn mynnu amlygrwydd ar gyfrif ei nawdd,⁶ at ei gilydd prin iawn yw'r canu sydd ar glawr i'r uchelwyr unigol, a deuir i gasgliad tebyg wrth ystyried gwaith Siôn Ceri.

Ymwelodd Siôn â Chlochfaen a Llwydiarth a oedd yn enwog am eu croeso i feirdd cyn ei ddyddiau ef, a bu cartrefi eraill, Aberbechan a Rhiwsaeson yn eu plith, yn denu Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan a'u tebyg yn ail hanner y ganrif. Yn rhinwedd ei gysylltiadau lleol, canodd Siôn hefyd i deuluoedd na fuasant o anghenraid yn adnabyddus i brydyddion y taleithiau eraill. Cynrychiola'r hanner cant o gerddi defodol ganu i gynifer â deugain noddwr a dau, a dau ar bymtheg ar hugain o gartrefi. Awgryma'r astudiaeth ar weithgarwch y beirdd yn sir Drefaldwyn fod hyd at draean y noddwyr a gyfarchodd Siôn yn wŷr na chanodd yr un bardd arall iddynt.⁷

Y mae'r testunau a olygir am y tro cyntaf yn y gyfrol hon yn dra diddorol oblegid mai canu i noddwyr y Canolbarth gan fardd o'r ardal yw deuparth y casgliad. Tystir i arferion noddi'r uchelwyr ac i'w diddordebau diwylliannol, ond codir cwr y llen hefyd ar y gweithgarwch barddol a

² BHLIP 48.

³ *Ib.* 48–9.

⁴ *Ib.* 49.

⁵ NBSD.

⁶ Gellid cyfeirio, er enghraifft, at y canu i Syr Gruffudd Fychan a'i ddisgynyddion ym Mroniarth, i Ddafydd Llwyd ap Siancyn, Berth-lwyd, Llanidloes, ac i Ddafydd Llwyd, Dolobran.

⁷ Ni restrwyd yn y traethawd holl ganu Siôn i noddwyr y sir, a diau y llenwir ambell fwch wrth i'r canu anolygedig yn y llsgrau. gael ei ddwyn i olau dydd.

ffynnai ar un adeg yn y rhan hon o Gymru. Y mae'r hyn sydd ar glawr yn dra gwerthfawr hefyd am fod lle i gredu i gywyddau di-rif fynd i ddifancoll gyda threigl y canrifoedd. Ar hap y diogelwyd llawer o'r deunydd, a rhaid cofio y gallai'r hyn a erys gynnog inni ddarlun camarweiniol. Llawysgrif deuluol oedd Peniarth 92,⁸ ac ynddi cofnodwyd y canu i sawl cenhedlaeth ar aelwyd Berth-lwyd, Llanidloes. Gwelir ar ddechrau'r llawysgrif bymtheg cerdd foliant, a dwy farwnad, i Ddafydd Llwyd ap Siancyn gan Owain Gwynedd (3), Morys Llwyd ap Wiliam (2), Bedo Hafesb (2), Ieuan Tew (4), Huw Arwystl (5), a Ieuan Heiliarth (1). Ni ddigwydd y rhain mewn unrhyw lawysgrifau eraill,⁹ a phe na buasai am yr un ffynhonnell hon, collasid darn pwysig o dystiolaeth am arferion noddi teulu ac ardal arbennig. Dangosodd Eurys I. Rowlands mai cyffelyb fuasai tynged y corff o ganu i Ddafydd Llwyd o'r Drenwydd a'i ddisgynyddion yn BL Add 14989,¹⁰ llawysgrif y cofnodwyd ynddi bump o gywyddau Siôn Ceri, er na cheir yma y ddwy gerdd a ganodd i'r teulu.¹¹ Casglodd 'mai colli casgliadau cyffelyb sy'n cyfrif i gryn raddau am golli llawer o farddoniaeth y bymthegfed ganrif, ac efallai fod hyn yn arbennig o wir am Ganolbarth Cymru'.¹² O droi at ganu Siôn Ceri, y mae'n arwyddocaol mai mewn un llawysgrif yn unig y digwydd tair cerdd ar ddeg o blith y trigain, a bu un ffynhonnell gynnar ym mhob achos yn gyfrwng diogelu hyd at bedair cerdd ar hugain. I weithgarwch copïwyr megis Wmffre Dafis,¹³ Siâms Dwnn,¹⁴ a Dr John Davies,¹⁵

⁸ RWM i, 569–71. Copïwyd y llsg. rhwng 1625 a 1650.

⁹ Ac eithrio'r gerdd gyntaf o waith Owain Gwynedd y ceir copi ohoni yn BL Add 31061.

¹⁰ Eurys I. Rowlands, 'Moliant Dafydd Llwyd o'r Drefnewydd a'i ddisgynyddion', LICY v (1958–9), 174–84.

¹¹ Ei awdl i Fathau Goch (cerdd 7), a'r cywydd gofyn a ganodd Siôn i erchi main melin (cerdd 40).

¹² Eurys I. Rowlands, *art.cit.* 175.

¹³ ByCy 117. Bu'n ficer Darowen o 1577 hyd ei farw yn 1635. Ei ddwy lsg. bwysicaf yw Bodewryd 1 a Brog 2. Cofnodwyd 15 o gerddi Siôn yn y flaenaf a 21 yn yr ail. Ceir copi o 28 o'i gerddi rhwng y ddwy hyn a Llst 35, Llst 118 a Gwyn 1. Yn Bodewryd 1 y ceir y testunau gorau yn ddiethriad, ond Brog 2 a gopiwyd gyntaf, gw. y 'Llawysgrifau', isod tt. 239–45. Ymddengys i Wmffre Dafis daro ar gopiâu eraill yn y cyfamser a chael cyfle i ddiwygio rhai o ddarlleniadau anfodhaol Brog 2 wrth lunio Bodewryd 1.

¹⁴ CLC 168. Mab y bardd a'r achyddwr Lewys Dwnn o Fetws Cedewain, c.1570–c.1660. Y mae 6 o gywyddau Siôn yn Llst 53, ac ni ddigwydd dau yn unman arall. Lewys Dwnn a gopïodd Bodley Welsh e 4, llawysgrif sy'n cynnwys 8 o gywyddau Siôn (ac unig ffynhonnell dau o gywyddau'r bardd).

¹⁵ CLC 143. Yn 1604 y penodwyd ef yn rheithor Mallwyd. Gwelir 18 o gerddi Siôn yn Pen 100, Llst 30 a BL Add 14976, tair llsg. yn ei law ef a/neu'r copïwyr a gyflogai. Y mae'r testunau a ddiogelwyd yn y llsgrau. hyn yn rhai da a dibynadwy. Cysylltir tair llsg. arall â Dr John Davies, sef LIGC 834B (cerdd 58), LIGC 5269B (cerddi 57–8) a BL Add 14971 (cerdd 40).

Cofnododd Dr John Davies yn ei eiriadur o dan *arial* linell a dadogodd ar Siôn Ceri ond a gollwyd bellach: *Ai dorr yn frwd o arial*. Yn ei ddetholiad o ddyfyniadau, *Flores Poetarum Britannicorum*, a gyhoeddwyd wedi ei farw yn 1710, gwelir darn arall o waith y bardd, sef cwpled sy'n digwydd yn y cywydd a ganodd i Siâms ap Rhys o'r Mynachdy (37.59–60; *Flores* 11).

Mallwyd, gwŷr a chanddynt gyswllt agos â'r Canolbarth, y mae'r diolch fod cynifer o gerddi Siôn Ceri ar glawr heddiw.¹⁶

Noddwyr pwysicaf Siôn, a barnu wrth y deunydd a ddiogelwyd, oedd Morys ab Owain, Rhiwsaeson, gwrthrych dau gywydd moliant ac un gofyn, Lewys Fychan o'r Ystog, a Rhys ap Morys Goch, Cenarth, dau noddwr a gyfarchwyd ar ddau achlysur. Un cywydd a ganwyd i Siôn Llwyd, Gwern-y-gof, Morys ab Owain, penteulu Aberbechan, Lewys Gwyn, Trefeglwys, Syr Rhisiart Herbert, mab Syr Rhisiart Herbert a laddwyd ym Manbri yn 1469, a Siâms ap Rhys o'r Mynachdy. Ond croesawyd Siôn maes o law gan eu meibion, a rhaid rhoi lle blaenllaw felly i'r cartrefi hyn, megis i Fachaethlon ac aelwyd y Cinastiaid gan i Siôn ddychwelyd i farwnadu dau benteulu y cawsai achlysur i'w mawrygu ynghynt. Os oedd llunio awdl yn tystio i berthynas arbennig rhwng bardd a noddwr, rhaid ychwanegu enw Mathau Goch o'r Drenewydd at y rhestr.¹⁷

Hawdd rhoi cyfrif am y cerddi hynny na pherthynant i'r Canolbarth. Gellir rhannu'r rhain yn ddau ddsbarth, sef yn gyntaf, y canu i noddwyr Ceredigion a Meirion, ac yn ail, y canu a gysylltir â'r Gogledd-ddwyrain, ac i'r dosbarth hwn hefyd y perthyn yr awdl farwnad i Syr Rhys ap Tomas. At Lewys ap Tomas o Lanbadarn y troes Mathau Goch o'r Drenewydd pan geisiai fain melin, a dangoswyd bod y ddau hyn yn perthyn i'w gilydd.¹⁸ Yr oedd Rhisiart ap Rhys, gwrthrych yr ail gywydd, yn ewythr i Lewys, a'i wraig, Elliw, yn gyfnither i Wmffre ap Hywel a gyferchir yn y trydydd. Dichon mai'r rhwydwaith priodasol hwn a ddug Siôn Ceri i Lanbadarn, ac i Ogerddan ac Ynysymaengwyn.

Yn ei farwnad i Dudur Aled, gresyna Siôn weld priddo:

F'athro hoywdwf weithredoedd;
A'i air da ym erioed oedd.¹⁹

Tybed a fu iddo ddilyn y pencerdd ar ei deithiau clera, a chanu ei gywyddau i rai o'r noddwyr y gwyddys i Dudur ymweld â hwy ar sawl achlysur, megis Robert ap Rhys o Blas Iolyn, yr Abad Tomas Pennant, Morys ab Ieuan o Langedwyn a Wiliam ap Siôn Edwart, yn ystod ei arhosiad yn y Gogledd yn nauddegau'r ganrif, ar drothwy'r eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerwys, neu yn fuan wedyn?²⁰ A ddilynodd ei athro ar ei daith olaf i'r

¹⁶ Awgrymodd Mr Daniel Huws y geill mai Siôn Ceri ei hun a gopïodd y testun o gerdd 30 sydd yn digwydd yn Pen 87.

¹⁷ Canwyd awdl hefyd i Rys ap Morys, Aberbechan, a grybwyllwyd eisoes. Marwnad i Syr Rhys ap Tomas yw'r drydedd (cerdd 50).

¹⁸ Trafodir y cyswllt yn y nodiadau ar y cywydd.

¹⁹ 45.9–10.

²⁰ TA XLVIII, XLIX, L, CI (Robert ap Rhys); VI, CXXXIX (Tomas Pennant); LXIII (Wiliam ap Siôn Edwart); VII, XII–XIV, XCVIII (Syr Rhys ap Tomas); XXXIV–XXXVI, LXXX (Morys ab Ieuan). Noddwyr eraill y canodd Tudur (a Siôn Ceri) iddynt oedd Wmffre ap Hywel (LXVI), Syr

De i ymweld â Syr Rhys? Ni ellir ateb y cwestiynau hyn, ond gellir casglu bod y cywyddau i'r noddwyr hyn yn perthyn i gyfnod cynnar yn ei yrfa, a gwyddys ymhellach iddo lunio ei farwnadau i'w athro, i Syr Rhys, ac i'r Abad Pennant, o fewn dwy flynedd i'w gilydd, rhwng 1525 a 1527.

Priodol cyfeirio yn y fan hon at a ddywed Siôn ei hun yn ei gywydd i Ieuan Llwyd, Bachaethlon:

Oer fwriais i arferoedd
 I fannau pell; f'anap oedd.
 Nid af ŵyl, e'm diofalwyd,
 Onid o'r llan i dai'r Llwyd.
 Gweilch Einion a gylchynaf,
 Gosawg hir agos y caf.
 I'w dai weithian y deuthum;
 Hir o beth, yn herwa bûm.
 Yno dof fyth, nid af awr
 O'i dai'r ŵyl hyd yr elawr.²¹

Awgryma'r prydydd iddo dreulio peth amser yn clera mewn ardaloedd eraill, ac iddo ymsefydlu nid nepell o Fachaethlon. Yn ei gywydd i'r Drenewydd, awgryma Siôn, sydd erbyn hyn, gellid tybio, yn ŵr oedrannus, ddarfod ei groesawu yn y dref pan oedd yn ŵr ifanc:

Tref i mi tra fo 'mywyd,
 Newydd fawr barch, noddfa'r byd ...
 Dechrau'r byd, iach arbedwyd,
 'Niwedd f'oes fy noddfa wyd.
 Amod hir, yma tariwyf
 I fyw'n eich plith, fynach plwyf.²²

Awgrymir yn y llinellau hyn drachefn iddo adael ei gynefin ac ymsefydlu yn nyffryn Hafren. Rhaid bod y cyswllt â'r cwmwd i'w olrhain i gyfnod cynnar yn ei yrfa gan mai'r enw Siôn Ceri a welir yn ddieithriad yn y llawysgrifau wrth ei gyfansoddiadau.²³ Buasai'r cwmwd yn fan cychwyn hwylus i'w deithiau clera, boed hynny i'r de i gyfeiriad Maeliennydd a Gwerthrynion, i'r gorllewin tua dau gwmwd Arwystli, i Glwn a Threfaldwyn yn y dwyrain,

Rhisiart Herbert (LXI), a bwrdeisiaid Croesoswallt (LXV). Digwydd un cwpled yng nghywydd Tudur i Groesoswallt (LXV.17–18) ac yng nghywydd Siôn Ceri i'r Drenewydd (51.11–12).

²¹ 3.43–52. Gall y cywydd hwn fod yn un cynnar. Ganed Siôn ab Ieuan Llwyd yn 1523.

²² 51.3–4, 47–50.

²³ Yn llsgr. Bodley Welsh e 4 yn unig, wrth droed y cywydd i Wmffre ap Dafydd o Lanbryn-mair, y cofnodwyd ei enw yn llawn: *Siôn ap y bedo ap dd ap holl ap tudur a elwyd ffordd arall John Keri*. Bu'r llsgr. hon ym meddiant Iaco ab Dewi, a digwydd yr enw drachefn wrth droed y copi sydd yn Llst 133, gw. Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 40–1.

neu pan ddewisai ymweld â chartrefi yng Nghedewain, Llannerch Hudol a Mechain tua'r gogledd. Ond pan ystyrir dosbarthiad daearyddol yr uchelwyr a gyfarchodd (a barnu ar sail y deunydd a ddiogelwyd), rhaid cydnabod nad oes i Geri amlygrwydd, ac ni allai Siôn ymfalchïo bod iddo fwy o noddwyr yma (pum teulu) nag yn y cymydau cyfagos (canodd i bedwar teulu yng Nghedewain ac yn Arwystli drachefn); nid oes i Geri hynodrwydd ychwaith pan ystyrir nifer y cerddi a ddiogelwyd; geill Ceri hawlio saith; perthyn pump yr un i Arwystli, Cedewain, Cyfeiliog a Threfaldwyn.

Cofnodir ach y bardd yn WG2 'Idnerth Benfras' 2:

Madog
|
Tudur
|
Maredudd
|
Hywel
|
Deio Fychan
|
Bedo
|
Siôn²⁴

Awgrymir mai gŵr o gwmwd Mechain Is Coed yng nghantref Mechain oedd Tudur ap Madog, a dangosir mai yn Llanfihangel-yng-Ngwynfa ym Mechain Uwch Coed yr ymsefydlodd Marged, merch y bardd, wedi iddi briodi. Cysylltir Siôn, fodd bynnag, â Llanwddyn yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, ryw bum milltir i'r gorllewin o Lanfihangel-yng-Ngwynfa, a phriododd ei fab, Siôn, â merch o'r un plwyf. Nid yw'r ach yn esbonio'r cyswllt â Cheri, ond ach o-dad-i-dad a gofnodwyd uchod. Nid enwir y gwragedd, ac ni ellir gwneud mwy na dyfalu ai ei gysylltiadau priodasol a barodd iddo droi ei olygon i gyfeiriad Ceri.


Ar un achlysur, mynnodd Siôn fod Ieuan ap Morys ap Siancyn o Glochfaen yn Llangurig yn gâr iddo:

O dygir ach,—dy gâr wyf,
A'th fardd awdl i'th fwrdd ydwyf.²⁵

²⁴ WG1 533; WG2 1043. Gwelir bod un genhedlaeth yn eisiau yn yr ach fel y cofnodwyd hi yn Bodley Welsh e 4, a thrachefn yn R. Williams, 'Montgomeryshire Worthies', Mont Coll ix (1876), 148.

²⁵ 16.33–4.

Dangosir y berthynas rhyngddynt isod:



Trwy ddilyn yr ach yn llythrennol—*O dygir ach*—y galluogwyd Siôn i olrhain y cyswllt rhyngddo a'i noddwr, a thystia hyn i'w gynefindra ag achau'r teuluoedd y canai iddynt. Geill fod y berthynas yn nes, a'r trywydd achyddol yn llai astrus nag a awgrymir yn yr ach, ond, ysywaeth, nid oes modd datrys y dirgelwch bellach, nac amgyffred arwyddocâd gosodiad nid annhebyg yn y cywydd gofyn am gymod y collwyd ei ddechrau:

Caredig cywir ydwyf
Ywch dan un ach, d[y nai] wyf.²⁷

Yn y cyswllt hwn, diddorol nodi y gallai Siôn arddel perthynas â Thudur Aled trwy briodas ei fab, Siôn, â merch Siôn Ddu ab Ieuan Crach ap Gruffudd ap Dafydd. Yr oedd Angharad, chwaer Gruffudd ap Dafydd, yn briod â Ieuan ap Llywelyn Chwith. Mab Robert ab Ithel ap Llywelyn Chwith oedd Tudur Aled.²⁸

Unffurf yw'r wybodaeth am y bardd a groniclir yn y bywgraffiadau diweddar. Hysbysir yn y *Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* fel a ganlyn:

²⁶ WG2 1043, 1045; 1709.

²⁷ 43.47–8.

²⁸ WG1 691 a WG2 1317; WG1 511 a WG2 971.

Ceri (Sion), neu Sion ab Bedo ab Dafydd ab Hywel ab Tudur. Bardd enwog o ardal Ceri, rhwng 1500 a 1530. Mae peth o'i farddoniaeth ar gael mewn llawysgrifau.²⁹

Ailadroddir yr wybodaeth yn y *Geiriadur Bywgraphyddol*,³⁰ *Cymru* Owen Jones,³¹ ac *Enwogion Cymru*,³² a thrachefn yn y *Bywgraffiadur*,³³ ond ni chrybwyllir yno y cyswllt â chwmwd Ceri. Ychwanegir dwy ffaith bellach amdano yn *Montgomeryshire Worthies*:

Some of his poems are still preserved in MS., and some were lost in the great fire at Wynnstay. According to an old MS. in the British Museum, he was buried at Llanuwchllyn.³⁴

Diau mai dilyn arweiniad Dr John Davies, Mallwyd, a wnaed wrth geisio pennu cyfnod blodeuo'r bardd. 1520 yw'r dyddiad a nodwyd yn yr adran werthfawr honno yn ei eiriadur, 'Authorum Britannicorum nomina & quando floruerint'. Ni chrybwyllir Siôn yn y rhestrau cyfatebol yng ngeiriaduron Thomas Wiliems³⁵ a Henry Salesbury,³⁶ nac yng ngeirlyfr Wiliam Llŷn.³⁷

Gwelir yr un dyddiad mewn dwy lawysgrif a gysylltir â'r dyneiddiwr o Fallwyd. Yn Llansteffan 30, awgrymir bod Siôn yn ei flodau yn y flwyddyn 1520; yn BL Add 14976, ensynnir mai yn y flwyddyn honno y lluniwyd y cywydd dan sylw.³⁸ Yn rhyfedd iawn, digwydd yr un dyddiad yn union mewn deuddeg llawysgrif wahanol. Ar saith achlysur uniaethir y dyddiad â chyfnod blodeuo'r bardd. Y troeon eraill awgrymir mai dyma ddyddiad llunio'r cywyddau y digwydd y dyddiad wrthynt.³⁹

Nid oes modd ymddiried yn nhystiolaeth y cerddi unigol wrth geisio gwirio'r dyddiad hwn. Geill fod Siôn yn canu cyn gynhared â 1520, a chynigiwyd eisoes iddo ddilyn ei athro, Tudur Aled, ar ei deithiau i ymweld â Phlas Iolyn ac Abaty Dinas Basing, a chartref Wiliam ap Siôn Edwart yn y

²⁹ Td. 118. Cyhoeddwyd gan I. Foulkes (Liverpool, 1870).

³⁰ GBEC i, 63.

³¹ O. Jones: *Cymru* 304.

³² EmW 73.

³³ ByCy 858.

³⁴ R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (Newtown, [1894]), 17.

³⁵ M.T. Burdett-Jones, *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 109–10.

³⁶ *Id.*, *Cylchg LIGC* xxvi (1989–90), 353–6. Atgynhyrchwyd rhestr Dr John Davies yn *ib.* 356–60.

³⁷ Roy Stephens, 'Geirfâu Wiliam Llŷn', *LlCy* xv (1984–8), 312.

³⁸ Wrth droed cerddi 3 (Ll1st 30) a 41 (BL Add 14976).

³⁹ Rhoddir Siôn yn ei flodau yn 1520 yn ôl y llsgrau. hyn: Card 2.623 [= Haf 13] (cerdd 16), Tn (cerdd 33), BL Add 15000 (cerdd 40), Card 4.10 [= RWM 84] (cerdd 41), BL Add 31067 (cerdd 41), LIGC 13067B (cerdd 55), LIGC 21290E (cerddi 56 a 58). Yn ôl y llsgrau. isod, dyddiad llunio'r cywyddau a nodir yw 1520: cerdd 32 (J 101), cerdd 40 (CM 11, Mos 147), cerdd 41 (CM 12), cerdd 53 (LIGC 6499B).

Waun. Yr unig ffaith y gellir bod yn sicr yn ei chylch, fodd bynnag, yw iddo lunio ei gywydd gofyn i Forys ab Ieuan, Llangedwyn, cyn 1525, a'i dair marwnad i Dudur Aled, Syr Rhys ap Tomas a Thomas Pennant rhwng 1525 a 1527. Rhyfygus fyddai mentro cynnig pa bryd y daeth ei yrfa fel bardd i ben. Rhaid bodloni yn unig ar nodi ei bod yn debyg mai yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif, a'r pedwardegau cynnar, y lluniodd Siôn yr hyn sydd ar glawr. Deuir i'r casgliad hwn wrth ystyried dyddiadau marw'r noddwyr a restrir isod,

Morys ab Ieuan (49)	cyn 1525
Thomas Pennant (46)	cyn 1527
Robert ap Rhys (44)	cyn 1531
Wiliam ap Siôn Edwart (48)	cyn 1532
Syr Rhisiart Herbert (21)	cyn 1539
Lewys Fychan (19–20)	cyn 1542
Wmffre ap Hywel (42)	cyn 1545
Ieuan Goch Benllwyd (10)	cyn 1546
Siôn Colunwy (17)	cyn 1550

a'r adegau y gwyddys i eraill fod yn dal swyddi:

Siôn Wiliam (11)	1509–47
Huw Llwyd (2)	1540
Rhisiart ap Rhys (41)	1543
Rhys ap Morys (9)	1543
Mathau Goch (7, 40)	1543
Morys ab Owain (31–3)	1545
Ieuan ap Morys (16)	1545
Ieuan Gwyn (38)	1546

Wrth fwrw golwg dros achresi'r gwyrda y canodd Siôn Ceri iddynt, yr hyn sy'n drawiadol yw'r gwead cymhleth o gysylltiadau a grëwyd drwy gyfres o briodasau dros sawl cenedlaeth rhwng teulu a theulu, a rhwng un gangen a changen arall. Digwydd enwau cyndeidiau megis Gwennwys, un o hynafiaid Syr Gruffudd Fychan, Broniarth, Einion ap Hywel o Fochdre a Meilir Gryg, cyndad teuluoedd Aberbechan, Gregynog a'r Faenor, Aberriw, yn gyson yn y canu. Galwyd sylw at y clymau amlycaf wrth drafod y cywyddau unigol er mwyn dangos mai'r hyn a wnâi Siôn Ceri a'i debyg oedd cynnig diddanwech i ddsbarth cyfan, a galluogi aelodau'r dosbarth hwnnw i ymhyfrydu ar gyfrif eu tras, eu heiddo a'u swyddi. Yr oedd y cysylltiadau hyn yn eu tro yn gyfrwng a hyrwyddai yrfa'r bardd wrth iddo geisio ehangu cylch ei noddwyr, ac ategir hyn gan ddau sylw o eiddo Siôn:

Gwn ar 'y mharch gan roi 'mhwys
Gylchynu gweilch o Wennwys.⁴⁰

Gweilch Einion a gylchynaf.⁴¹

Dywed Iolo Goch yn ei gywydd clera, 'Ymddiddan yr Enaid a'r Corff', iddo deithio trwy Geri a'r Drenewydd:

Dra gerddais, anfonais fawl,
Drwy Geri, gwlad ragorawl,
A'r Drefnewydd lifwydd lefn,
Bwrdeistref baradwystrefn.⁴²

Nid enwodd yr un noddwr yn yr ardaloedd hyn, ond rhoes sylw i un gŵr arbennig o Faelienydd:

Ymlynais ym Maelienydd
Dy ôl di fal helgi hydd,
Ger tai meibion, Leon llu,
Phylip goeth dewrdoeth Dorddu.⁴³

Arwydd o bwysigrwydd Phylip Dorddu yw'r mynych gyfeirio ato ymhlith hynafiaid noddwyr Ceri a'r cymydau eraill. Crybwyllodd Iolo ei feibion, ond yr oedd iddo nifer o frodyr, a Chadwgan, Madog Fychan ac Einion Sais yn eu plith.⁴⁴ Ymsefydlodd eu disgynyddion hwythau ym Maelienydd, a chydag amser ymgysylltwyd â theluoedd yr ardaloedd cyfagos, fel y tystia canu Siôn Ceri.

Diddorol sylwi hefyd ar y cyswllt â theluoedd o rannau eraill o Gymru ac iddynt draddodiad anrhydeddus o noddi. Gallai teluoedd Rhiwsaeson a Chenarth ymfalchïo ar gyfrif eu cyswllt â Pharcrydderch yn Nyffryn Aeron,⁴⁵ a dangosir isod i Siôn ganu i sawl teulu o'r Canolbarth a arddelai gyswllt trwy briodas â Gruffudd Derwas o Nannau.⁴⁶

⁴⁰ 23.29–30.

⁴¹ 3.47.

⁴² GIG XIV.31–4.

⁴³ GIG XIV.35–8.

⁴⁴ WG1 377, 381.

⁴⁵ CLC 454.

⁴⁶ PACF 200; WG1 78; WG2 151.

Gwilym ap Gruffudd Derwas = Elen ferch Dafydd Llwyd,
 y Drenewydd (cerdd 7)
 |
 Marged = Siôn Llwyd, Gwern-y-gof
 (cerdd 1)
 |
 Huw Llwyd (cerdd 2)

Hywel ap Gruffudd Derwas
 |
 Mallt = Lewys Gwyn (cerdd 14)
 |
 Ieuan Gwyn (cerdd 15)

Elliw ferch Gruffudd Derwas = Siancyn ab Iorwerth
 |
 Hywel
 |
 Wmffre (cerdd 42) = Annes f. Syr Rhisiart
 Herbert, Trefaldwyn,
 (cerdd 21)

Perthyn Siôn Ceri i'r oes a welodd ddiddymu'r mynachlogydd. Wedi marw'r abad Tomas Pennant o Ddinas Basing yn 1527, y mae'n arwyddocaol na chanodd i un o gynrychiolwyr y tai crefydd hynny a fu'n ffynhonnell nawdd a chynhaliaeth i brydyddion y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Gellir cynnig bod ei dawedogrwydd yn tystio i'r dirywiad a brysuodd chwalfa canol y tridegau. Ar y llaw arall, traetha'r bardd yn fwy huawdl am yr hinsawdd gymdeithasol yn arglwyddiaethau'r Mers ar drothwy'r Deddfau Uno a arweiniodd at greu yn y diriogaeth yr oedd yn gyfarwydd â hi siroedd Trefaldwyn a Maesyfed. Crybwyllir y gwrthdaro rhwng arglwydd ac uchelwr yn y cywydd i Owain ap Gruffudd ap Maredudd Fychan. Cynilach (ac anos eu datrys) yw'r hyn a ensynnir ar achlysuron eraill, megis yn y cywyddau i Rys o Genarth ac yn y canu i Siôn Llwyd o Geri:

Troes ar ôl y treiswyr aeth
 Trwy Geri yt ragoriaeth.⁴⁷

⁴⁷ 1.39–40.

a thrachefn wrth ganu i'w fab, Huw:

Hyn o wlad fawr, hen lid fu,
 Huw a ddichon heddychu.
 Bu drwy'r tir yn bowdwr tân;
 Bu gas; aeth yn bacs weithian.⁴⁸

At hyn, defnyddia Siôn drosiadau yn ymwneud â byd ymladd yn gyson yn ei ganu. Darlun o fyd ansefydlog yn llawn llid a gwrthdaro a grëir wrth i'r bardd annerch ei noddwyr, ac awgrymir dro ar ôl tro mai trwy nerth braich a grym arfau y llwyddent i ymgynnal:

Myn, er gwg manwyr gweigion,
 Dy ran â phwys dwrn a ffon.
 Aut trwy hafog at ryfel
 Eb waetha'r beilch byth â'r bêl.⁴⁹

Dy gledd â'r bysedd o'r bôn
 Draw a dduriwyd ar ddewrion,
 Dyn â llafn yn dân llifaidd,
 Durfael pawl onn Derfel plaid.
 Dwyn gwayw a'i awch yn dân gwn
 Drwy oreugwyr fal dragwn.⁵⁰

Ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelir iddo ymhoffi yn y delweddau hynny a berthyn i fyd yr hwsmon, megis blodau, yd, gwraidd, had, ac iddo eu defnyddio yn ddiweddar wrth ddisgrifio ymledaeniad y tylwythau a folai, a mynych hefyd y'i gwelir yn cyffelybu cyfrifoldebau arweinydd y gymdeithas, a'r hyn a ddisgwylid ganddo, i'r ych yn derbyn pwysau'r iau. Fel ei gyd-brydyddion, troes at fyd y chwedlau, ond bu'n bur gynnill wrth ddefnyddio'r gronfa gyfoethog hon o gyfeiriadau cyfarwydd, ag un eithriad. Mynnodd gyffelybu pedwar noddwr ar ddeg i Arthur, ac nid annichon mai'r chwedlau am y brenin a'r olion hynny a'i huniaethai â'r Canolbarth a gyffrôdd ddychymyg y bardd, fel y cydiodd yn nychymyg Lewys Glyn Cothi o'i flaen:

Nid gwell gwlad am dda rhad, rhydd,
 no Melynys Maelienydd;
 ynddi bu, gnawd yw eu bod,
 rif y wadd o ryfeddod.

⁴⁸ 2.27–30.

⁴⁹ 16.49–52.

⁵⁰ 17.25–30.

Yndi'r oedd, hyn adroddir,
neithior yr hen Arthur hir,
a'r hen Gaer Ochren, oedd rydd,
y sy 'mlaen rhos Melienydd.⁵¹

Cynganeddion

Dadansoddwyd y gynghanedd yn yr hanner cant a phump o gywyddau a ganodd y bardd, a dengys y tabl isod fynychder y pedwar dosbarth cydnabyddedig:

Cyfanswm llinellau	3474	100%
croes	3136	90.3
traws	134	3.9
sain	175	5.0
llusg	29	0.8

Ni wahaniaethwyd rhwng y sain lefn ar y naill law a'r sain gadwynog a'r sain drosgl ar y llaw arall. Dwy gynghanedd sain drosgl sydd gan y bardd—

Gruffudd wallt melynrudd mân (24.66)
Mân blethau canhwyllau cwyr (58.19)

a saith sain gadwynog, a thri ohonynt yn yr un cywydd, sef 1.19, 5.37, 24.4, 7, 60, 28.46, 55.63.

Y mae'n amlwg mai'r gynghanedd groes a brisid fwyaf gan y bardd, ac yn hynny o beth cyfetyb ei gywyddau i eiddo'r beirdd eraill a oedd yn eu blodau yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg. O edrych ar y cerddi yn unigol, gwelir bod 38 cywydd yn cynnwys 90% neu ragor o gynganeddion croes, ac o'r nifer hwn bod 11 a phob llinell, neu bob llinell namyn un, yn llinellau croes:

Nifer cywyddau	55
90%—	38
80–89%	10
70–79%	5
60–69%	1
llai na 50%	1

⁵¹ GLGC 181.1–8, ac F.G. Payne, *Crwydro Sir Faesyfed*, ii (Llandybïe, 1968), 88.

Yn y pegwn arall, 36% o linellau'r cywydd serch *Cerai*s, *balch yw cwrs y byd* (cerdd 56) sy'n cynnwys y gynghanedd hon, ond y mae cynifer â 13 cynghanedd sain (22%) a 18 traws (31%) yn y darn. Dyma'r unig gywydd na welir ynddo yr un gynghanedd groes o gyswllt; trafodir arwyddocâd y gosodiad hwn gyda hyn. I Siôn yn unig y priodolir y cywydd yn y llawysgrifau, er mai copïau yn llaw Llywelyn Siôn yw pedwar o blith y pump sydd ar glawr. Rhaid amau hawl Siôn ar y cywydd hwn, felly, ar sail ei gyfansoddiad cynganeddol.

Ymddengys fod Siôn Ceri yn dra hoff o'r gynghanedd groes o gyswllt a bod ei phresenoldeb yn arwydd o ddilysrwydd y cerddi a briodolir iddo.

Llinellau croes	3136
croes ⁵²	2662
croes o gyswllt	474

Cynrychiola'r isddosbarth hwn ar y groes 13.6% o holl gynganeddion y bardd, a 15.1% o'r holl linellau croes—ffigwr sy'n cyrraedd 20% a rhagor mewn 10 cywydd unigol. Yn wir, dyma'r gynghanedd sydd yn 30% o linellau'r cywydd *Pwy'n y siroedd pan sorren*'.

Edrychwyd yn fanylach ar union natur y cynganeddion croes o gyswllt, ac y mae sawl ystyriaeth sy'n haeddu sylw:

Croes o gyswllt	474	100%
y cytseiniaid <i>f, n, r</i>	151	31.9
cytseiniaid eraill	274	57.8
eraill (gw. isod)	49	10.3

Yr adran olaf sy'n cynnwys y cynganeddion mwyaf diddorol, ac yma gwelir:

i. 17 croes o gyswllt gymhleth lle y benthycir rhagor nag un gytsain i gwblhau'r gyfatebiaeth.

ii. 15 llinell ewinog lle y digwydd y caledu yn safle'r benthycia wrth i ddwy gytsain ddylanwadu ar ei gilydd, y naill ar ddiwedd y rhan gyntaf a'r llall ar ddechrau'r ail ran.⁵³

⁵² Sef cynghanedd groes gytbwys acennog a chytbwys ddiacen, a chroes anghytbwys ddisgynedig.

⁵³ J. Morris-Jones: CD §388–92.

iii. 12 sydd yn amrywiad ar y math a drafodwyd uchod, ond mai lledfenthycy cytsain galed a wneir. Croes o hanner cyswllt yw'r rhain.⁵⁴ Cynnwys y mwyafrif y cyfuniad cytseinol *nt*, a holltir y gytsain galed yn ddwy feddal *d..d*, ac un o'r rhain a fenthycir i gwblhau'r gyfatebiaeth:

Dewra' oeddynt o wreiddyn (3.4)
 O dir Dwywent a'r Deau (9.32)
 Od aeth henaint i'th ddynion (11.61)
 Derbyn rent Harri, benrhaith (21.58)
 Dy boeni hwnt heb un hawl (54.27)
 Na deunaw gynt yn y gad (6.66)

Nid yw'r olaf ar yr un ddelw â'r lleill gan fod hon yn gynghanedd groes o hanner cyswllt sydd ar yr un pryd yn un gymhleth.

Patrymau acennog cytbwys sydd i'r enghreifftiau uchod, ond anghytwys yw'r ddwy a nodir nesaf. Yn y rhain, felly, rhaid i'r gytsain galed yn y cyfuniad *nt* yn yr orffwysfa ateb cyfuniad cyfatebol yn y brifodl ac ar yr un pryd ateb y gytsain feddal *d*:

Derwas gynt a'i rwysg yntau (15.18)
 Ar dai'r saint a roes yntau (47.2)

Nid yw'r bardd yn gwbl gyson wrth lunio cynganeddion hanner cyswllt gan iddo ar naw achlysur ddewis benthycy'r gytsain galed yn hytrach na'r feddal:

Tid aur o Went yw dy ran (5.36)
 On'd da'r fynwent a'r faenawr (55.1)

ac ymhellach 21.8, 37.36, 38.29, 46.32, 46.34, 47.42, 50.31.

Yr un egwyddor sydd ar waith yn y llinellau hyn:

Gair gwŷr ieuanc â'r Greal (36.7) *c > g..g*
 Addysg eilwaith, os gwelwn (3.33) *th > dd..dd*
 Blaenau hap o lwynau hon (10.31) *p > b..b*
 Heb roi cwmp i'r ewig hon (55.54) *p > b..b*

⁵⁴ *Ib.* §393. Gwelir Lewys Glyn Cothi yn ateb y cyfuniad *nt* ag *nd* yn gyson yn ei ganu mewn llinellau croes rheolaidd a thraws:

Mwnt Nicoláus, mae'n dŷ clyd (GLGC 6.5)
 Duw nef a'i hollsaint a wnaeth (*ib.* 7.11)
 ond y tad, berchen tŷ well (*ib.* 56.10)
 bint fyw oll dan ben dy fys (*ib.* 67.4)

iv. 5 llinell sy'n cynnwys y bai cyffredin camosodiad, ond eu hynodwydd yw mai'r gytsain/cytseiniaid a fenthycir a gamleolir:

Arwydd y sydd i'r oes hon (4.11)
 On'd yw barod yn berwi (4.37)
 Wythran o'i ffrwyth yn ei ffriw (8.16)⁵⁵
 Mawr oedd ei air am a ddêl (13.37)
 Od wyd, dilid hyd elawr (11.57)

Y mae'r olaf yn fwy anghyffredin gan ei bod yn enghraifft arall o gynghanedd groes o gyswllt ewinog sydd hefyd yn cynnwys y bai camosodiad.

Cytseiniaid nad atebir mohonynt

i. Y mae 191 llinell o blith y rhai ac ynddynt gynganeddion croes yn cynnwys cytseiniaid canolgoll (*f, m, n, r*).

ii. Gelwir sylw yn y nodiadau at y llinellau hynny ac ynddynt *f* ledlafarog, ac *m, n, r* wreiddgoll neu berfeddgoll.

iii. ni chyfeiriwyd at y cynganeddion trychben gan fod cynifer ohonynt; cyfrifais 44 llinell lle y ceir sillaf gadarnleddf yn yr orffwysfa. Unsill yw'r geiriau *dadl, llafn, llethr, cefn, aml, cwbl, &c.*, ond y gytsain gyntaf yn unig a atebir yn y brifodl.⁵⁶

iv. Lle y digwydd y bai twyll gynghanedd, crybwyllir hynny yn y nodiadau.

Beiau eraill yn ymwneud â'r cytseiniaid

i. Gwelwyd sawl enghraifft o'r bai camosodiad, ac o'r bai crych a llyfn. Gweler y nodiadau.

ii. Ar chwe achlysur atebir cytsain galed gan un feddal:

$c = g$ (3.20; 6.58; 21.40)
 $t = d$ (24.69; 51.51)
 $th = dd$ (56.13)

⁵⁵ Gellid dadlau mai croes o gyswllt sy'n cynnwys *r* berfeddgoll yw hon a'r nesaf, gw. Thomas Parry, 'Pynciau Cynghanedd', B x (1939-40), 2.

⁵⁶ *Ib.* §244 a 19.5n isod.

Y mae'n bur debyg fod clust y bardd wedi ei dwyllo ar yr achlysuron hyn, ond efallai nad ystyriai Siôn y gwall yn un difrifol a bod y llinellau uchod yn gymeradwy yn ei olwg. Diwygiwyd ambell linell lle y ceid y bai hwn, a lle yr oedd diwygiad amlwg yn ymgynnig, e.e. 44.17, ond yn betrus y gwnaed hyn.

Ffurfiâu llafar

Un arwydd o'r dirywiad a'r modd y collodd beirdd ail hanner y ganrif eu gafael ar eu crefft oedd eu tuedd i dderbyn a defnyddio ffurfiâu llafar. Digwyddant yn bur reolaidd yng ngwaith Siôn Ceri. Fe'u ceir fynychaf yn y brifodl, a'u swyddogaeth, felly, yw cynnig i'r bardd ddewis helaethach o odlau.

i. yn achos terfyniad berfol ail berson unigol y gorffennol, *cymerest* (23.47), *gwelest* (25.35), *ffrwyneſt* (42.22).

ii. ffurfiâu tafodieithol ar enwau priod megis *Cedewen* (9.55) ac enwau cyffredin: *wheigen* (13.11), *tylles* (13.16)—rhai ac iddynt flas lleol *sieting* (9.67)—a berfau, *neitio* (13.16, 22.49, 49.20) ac *eiste* (1.49, 2.9).

iii. yr oedd cynnal odl mewn awdl yn gryn brawf ar allu a dyfeisgarwch y beirdd fel y prawf yr awdl a ganodd Tudur Aled i Siôn Grae, Arglwydd Powys.⁵⁷ Defnyddiodd ef ansoddeiriau megis *llawruddiog*, *dur-helmog*, *gwregysog*, *erchwyniog*, *gwareddog*, &c. Dewisodd Siôn ddefnyddio'r un odl mewn dwy o'i awdlau (cerddi 9 a 50), a bu'n dda ganddo wrth ffurfiâu a therfyniadau a berthynai i'r iaith lafar ar y ddau achlysur, e.e. *lloned*, *barwnied*, *deilied* (9.54, 61, 64 yn yr awdl i Rys ap Morys ab Owain), ac *aped*, *llyged*, *ddeilied*, *cwrseried*, *lloned* (50.43, 46, 47, 75 a 76 yn yr awdl farwnad i Syr Rhys ap Tomas).

Sylwyd bod Siâms Dwinn, ac Wmffre Dafis yntau, yn chwannog i ysgrifennu ffurfiâu llafar yng nghorff llinellau lle nad yw'r odl na'r gynghanedd yn mynnu hynny, e.e.

Ac yno rhoi wheigen rhydd
Ym o gyweth am gywydd. (13.11–12)

Di a gosest dy gasau (15.39)

Mabwysiadwyd rhai o'r ffurfiâu hyn gan fod Siôn Ceri ei hun, fel y dangoswyd, yn eu harfer o dan rai amodau.

⁵⁷ TA II.

Cerddi y mae ansicrwydd ynghylch eu hawduraeth

Cerai, balch yw cwrs y byd (Cywydd merch, cerdd 56)

Trafodwyd cyfansoddiad cynganeddol y cywydd uchod, tt. 13–14. Er ei fod yn annhebyg i weithiau dilys Siôn, fe'i derbyniwyd yn betrus am nas priodolir i'r un bardd arall.

Y fun a gaid fwyna'i gwedd (Cywydd merch, cerdd 58)

Fe'i priodolir (mewn un ffynhonnell ym mhob achos) i Ddafydd ap Gwilym, Ieuan Deulwyn ac Oraihian. Er i Thomas Parry farnu bod yr 'arddull yn debyg i'r 15g.',⁵⁸ awgryma'r dystiolaeth llawysgrifol mai Siôn Ceri yw'r awdur. Ceir cryn amrywiaeth ymhlith y llawysgrifau o ran trefn y llinellau.

Y ferch wychaf o'r chwechant (Cywydd merch, cerdd 57)

Priodolir hwn drachefn i Ddafydd ap Gwilym ac i Ieuan Deulwyn, ond hefyd i Robin Ddu a Siôn Tudur. 'Y mae'n llawer mwy rhugl na gwaith neb o'r 14g.', datganodd Thomas Parry,⁵⁹ gan ildio hawl Dafydd ap Gwilym arno, ac ni allai Enid Roberts dderbyn ei fod yn waith dilys Siôn Tudur.⁶⁰ Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod sawl fersiwn o'r cywydd, os ystyrir nifer y llinellau a'u trefn (a'r darlleniadau unigol, er nad yw hyn mor amlwg). Y mae'n arwyddocaol mai i Siôn Ceri y priodolir y cywydd yn y llawysgrifau hynny sy'n cynnwys y fersiwn llawnaf, ac fe'i hawlir iddo ar y tir hwn ac ar gorn llawysgrifau cynnar megis Llansteffan 163 sydd o'i blaid.

Y Grog aurdroediog drydoll (Cywydd i Dduw a'r Apostolion)

Fe'i cynhwyswyd ymhlith gweithiau Ieuan ap Rhydderch yn IGE,⁶¹ ond fe'i priodolir mewn rhagor nag ugain llawysgrif i Hywel Dafu, sef Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys. Un copi sydd wrth enw Siôn Ceri; yn llaw Wmffre Dafis y mae hwnnw, Bodewryd 1.

Plwyfhardd sydd brifffordd a bryn (Cywydd Curig)

Crybwyllir y cywydd, a'i briodoli i Siôn, yn Edward Hanmer a H.W. Lloyd, *The History of the Parish of Llangurig* (London, 1875), 311–30; gweler hefyd HPF iii, 283–93. Nid yw'r cywydd, hyd y gwyddys, ar glawr.

Lewys Fychan ymwannwr (Erchi march gan Lewys Fychan o'r Ystog)

Canodd Siôn iddo ar ddau achlysur (cerddi 19–20), a thadogir y cywydd hwn arno yn Bodley Welsh e 4, ond Owain ap Llywelyn ab y Moel a'i piau

⁵⁸ GDG clxxxvii.

⁵⁹ *Ib.*

⁶⁰ GST ii, xlv.

⁶¹ IGE LXXXII.

yn ôl chwe llawysgrif arall, a chynhwysodd Eurys Rolant y cywydd ymhlith ei weithiau ef yn *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*.⁶²

Oedran Crist didrist edrych (Llosgi tŵr Eglwys Powls)

Llosgi tŵr yr eglwys yn 1561 yw testun yr englyn, a barnwyd na fu Siôn yn canu mor ddiweddar â hyn. Fe'i priodolir mewn llawysgrifau eraill i Syr Owain ap Gwilym ac i Siôn Tudur.⁶³

⁶² GOLIM cerdd 10.

⁶³ GST cerdd 225 a ii, 651–4.

1

Moliant Siôn Llwyd ab Ieuan, Gwern-y-gof

Pwy'n cynnal pen iau kannwr?
 Pwy'n dwyn y gamp? Pond un gŵr?
 Pleidiwr ffair paladr a ffyn;
 4 Pwy'n flaenwalch penfelynwyn?
 Yw, bôn a brig i'w ben bras,
 O deŷrnwaed y deyrnas.
 Ni châi wenith a chwynnyd
 8 Dywys yn ller, yd Siôn Llwyd.
 Arwydd yw, ir oedd Ieuan,
 Arglwydd y tir, eurgledd tân.
 Un wyd o'r hen waed yrhawg
 12 Oedd am hoedl Adda Amhadawg.
 Paun yw'r gŵr, pen ar Geri,
 Pen foch oll, pennaf ych chwi.
 Trwy Faelienydd, blaenwydd blaid,
 16 Trwy Ddwywent â'r Tordduaid.

Dugost air; dwg oes derwen
 A dwg iau, Ffwg deg, a'i phen.
 Llwyth Siancyn drwy fyddin draw,
 20 Llwyth Ririd, lle i'th oreuraw.
 Arwydd y caem roddi côr
 I'th rywiogaeth o'th ragor.
 Uwch wyd fry no choed y fron,
 24 Uwch ym obaith o'ch meibion,
 Ac nid hir gennyt aros
 Ar warrau'r rhain aur a rhos.
 A'r ferch y sydd ar fraich Siôn
 28 Sy wir gares i'r Goron:
 Merch Wilym o'r uchelwaed,
 Margred wych, mae'r gair 'i daed.
 Derwas i'w wlad a roes wledd,
 32 Drasau llawn, dros holl Wynedd.

Aed gadarn waed a godwyd
 Yn is, un llin, no Siôn Llwyd.
 Gelli, ir waed, gwellhau'r ys,
 36 Gydeiste gydag ustus.

Gwalch a waedai'i glych ydwyd
 A gosawg llên gwisgi llwyd.
 Troes ar ôl y treiswyr aeth
 40 Trwy Geri yt ragoriaeth,
 A dwyn erioed yn yr iau
 Eich hun dros eich hen drasau.
 Dwg gannwyll yn deg gennyd;
 44 Doech â'r bêl er dechrau'r byd.
 Yma, gwyliwch, 'mogelynt
 Lias dwyn gwayw 'Lystan gynt.
 Un o'th wledydd ni thlodwyd
 48 Eto sy'n llaw yt, Siôn Llwyd.

Cydeiste fry, cedwaist fraint,
 Cawn ywch hyn cyn eich henaint.
 Cais dynnu pob cwys danad;
 52 Cai blasau; dêl cwbl o stad.

Ffynonellau

A—Bodewryd 1, 320 B—Brog 2, 374^v C—J 101 [= RWM 17], 493

Amrywiadau

3 BC ..paladr ffynn 5 ABC ..yw.. 7 ABC ..chwnyd 9 A arwydd ir.. 10 BC ..y
 tan 14 A pan.. 17 A ..deg., BC dvg does air.. 21 C ..kaen.. 22 BC ..ath.. 27
 BC ..ferch sydd.. 30 ABC marged.. 31 A dewras., BC ..i wlad.. 35 ABC gelli
 r..i rys 37 ABC ..waedai glych.. 49 ABC kyd eistav.. 51 A..bob..

Moliant Huw Llwyd, Gwern-y-gof

- 4 Huw o Geri, hug euraid,
 Hardd o'r blaen *yr* hyrddi'r blaid,
 Blodau'r holl bleidiau a'u rhan,
 Brig glasterw, barc Elystan.
- 8 Bu lana' gwaed, blaen ac ôl,
 Barwn trwyadl, braint reiwl.
 Hardd ar feilch *yr* hyrddi'r farn,
 Huw, egwydydd Hu Gadarn.
 12 Eiste i'th ddadl, os doeth ydwyd,
 Huw, ais hen llew o Siôn Llwyd.
 Y wlad wen, aelaw dynion,
 Heiniar Huw yw hanner hon.
 O waed henieirll y tynnir
 Trwy iawn waed yt ran o dir,
 16 A'i rent a'i dir hwnt y dêl
 Dan freichiau edn o Frochwel.
 Nerth o Einion wrth Ynyr;
 Yn iarll y'th gawn â'r llwyth gwŷr.
 20 Dau wely, tud y wlad hon,
 Deutu fydd d'etifeddion.
- 24 Merch Forys âi 'mraich f'eryr,
 Merch un lliw âi 'mraich hen Llŷr:
 Mahallt a'i heurwallt yw hon
 O gadwynau gwaed Einion.
 Henwaed aeth hon i'w dethol;
 Huw, dry Duw had ar d'ôl.
- 28 Hyn o wlad fawr, hen lid fu,
 Huw a ddichon heddychu.
 Bu drwy'r tir yn bowdwr tân;
 Bu gas; aeth yn bacs weithian.
 32 Cydgenedl fal coed gwinwydd,
 Cysona bawb, cas ni bydd.
 Gwal wyt ti'n gwylid heol;
 Gwladwyr da gwelid ar d'ôl.

36 Nid ai fan ond a fynnych;
 Nid tyrfa iawn ond tra fych.
 Cornor gwaed yn crynhoi'r gwŷr,
 Cywion orig hen eryr,
 40 Gair yt aeth: gŵr wyt tithau
 A'u ceidw fyth a'u cadfâu.
 Deiliaid cawn dwywlad cennych;
 Dy wŷr a saif ar dir sych.
 Ni fynnai Huw o fewn hon
 44 Anllywodraeth na lladron.

Bo i'th wyneb o waith hynny
 Barch. On'd da wyd berchen tŷ?
 Doeth a dewr wyd i'th darian;
 48 Y doeth erioed aeth â'i ran.
 Oes dewr gwynias, d'roganwyd,
 Nad aud â'i ran? Di-daer wyd.
 Rhai a fyn o'u rhwyfaniaeth
 52 A'u rhuo'n ôl eu rhoi'n waeth.
 Gallud â'th arf gwyllt i'th ôl
 Daro'r hwy a' drwy'r heol.
 Na fwrw'r gras fry o'r grudd
 56 Wrth anras, arth ewinrudd.
 Od yw'n waedwyllt d'anwydau,
 Synnwyr, Huw, sy'n ei warhau.
 Edrych yr wyd ar eich rhan
 60 Yn wyth hydrach no'th oedran.

O chewch henaint chwe einioes,
 A fynnoch chwi fo'n eich oes.
 E fu'r gair fawr i Geri;
 64 Ef â'r heol ar d'ôl di.
 E fydd cael o fodd calon
 A fynno Huw o fewn hon.

Ffynonellau

A—Pen 98, 21 B—Bodewryd 1, 338 C—Brog 2, 376^r D—J 101 [= RWM 17], 495

Amrywiadau

2 A ..i hvrddi r., BCD ..i hurddai r.. 4 A ..n barc.. 5 D ..waed.. 7 A ..i hvrddi r., B ..i hyrddai r., CD ..i hvrddai r.. 9 B eiste th., CD eistav.. 11 A ..i dynion 14 B ..ranny tir, CD ..waed trayan y tir 15 BCD i.. 16 BCD ..dyn.. 17

BCD a nerth einion..henwaed 18 *BCD* ..or llwyth gwaed 19 *A* dy wely ty
 dy., *B/CD* ..tad/y tad.. 23 *A* [23–4] 26 *CD* ..ar i ol 27 *A* [27–8], *B* ..kenedl fv
 29 *A* ..trwyr..ar tan 31 *CD* ..kred.. 32 *D* kyssana.. 37 *CD* ..gwaed kynn.. 40
A ..cedwi.. 41 *CD* deiliad.. 42 *A* ..wir.. 43 *A* ..fynny., *CD* ..fynn.. 50 *A* nid..
 52 *BCD* ai rhvain ol i rhain aeth 55 *CD* nai fwrw gras., *BCD* ..i lawr or.. 60
BCD yn wych hyder nach.. 61 *BCD* ..ach einioes 62 *A* ..a fo.. 63 *A* 64–63

Moliant Ieuan Llwyd ap Dafydd, Bachaethlon

- Am waed Dafydd mae tyfiad:
 Ieuan Llwyd wych yn lle'i dad.
 Dau Ieuan Goch, doniau gwin,
 4 Dewra' oeddynt o wreiddyn.
 Gorwyr un, gŵr ariannwyd,
 Wyr i'r llall yw'r eryr llwyd.
 Pren o Fadog cangog hir,
 8 Pen gwaed impyn a godir.
 Iach o Wilym uchelwaed,
 Iach Einion wych yn un waed.
 Cadair gref, coed ir eu gwraidd,
 12 Ceri, mwy saif ceirw Maesyfaidd.
 Cadau un rhyw, coed yn rhest,
 Ceirw â hirgyrn Caer Hergest.
 Cornor llwyd yn crynhoi'r llu,
 16 Carw gwiw osglog hir gasglu.
- Er llwydo'r gwallt, llew dewr gwych,
 Am yr oedran mae'r edrych.
 Gwyn ei fam a'i gwinnai fo,
 20 Ac nid hen y cnawd tano.
 Natur gleisiad hir glasu;
 Gwelais yn fab; glaswyn fu.
- Ar wŷr uchel yr awchiwyd
 24 Ewin a llaw Ieuan Llwyd,
 Llew dewr amgylch llu'r dromgad,
 Llwdn y gloch llydan ein gwlad.
 A'i blaid, o bai i'w ledol,
 28 I'r un twll yr aent i'w ôl.
- Da waith yw rhoi doeth yrhawg,
 Di-fai ydyw, 'n dafodiawg.
 Ni chyll dyn, a challed oedd,
 32 Gair o'i ddadl, gŵraidd ydoedd.
 Addysg eilwaith, os gwelwn,
 Sy yn irhau synnwyr hwn.

- 36 Gŵr yw ni ddyd gair yn ddig
Ar ei ddadl gref urddedig.
Ni thyr aur wrth roi'r arian,
Na thrwy sud ni threisia wan.
- 40 Enaid cywiriaid Ceri,
Un o feirdd Ieuan wyf fi.
Gwaith y glêr yw gweithio'i glod,
Ac yn f'ymyl gwnaf amod:
44 Oer fwriais i arferoedd
I fannau pell; f'anap oedd.
Nid af ŵyl, e'm diofalwyd,
Onid o'r llan i dai'r Llwyd.
Gweilch Einion a gylchynaf,
48 Gosawg hir agos y caf.
I'w dai weithian y deuthum;
Hir o beth, yn herwa bûm.
Yno dof fyth, nid af awr
52 O'i dai'r ŵyl hyd yr elawr.

Ffynonellau

A—Llst 30, 279 B—Brog 2, 215^v C—J 101 [= RWM 17], 290 D—Llst 35, 204 E—BL Add 31056, 101^v F—Llst 133, rhif 483 G—LlGC 5474A, 324 H—Bodley Welsh f 1, 28^v I—BL Add 31067, 216^r J—BL Add 14989, 44^r (llau. 45–52)

Amrywiadau

3 B–H ..donav..., I ..yn donnau.. 4 GH ..ei.. 11 BC ..coed ar.. 12 EI ceirw mawr cawr.. 13 GH ..vn., A–E ..rhiw.. 14 BCEI keirw hirgyrn.. 15 GH 16–15 19 A–FI ..gwnai.. 20 A ..gnawd.. 26 E–I ..in.. 27 BCE–I ..baen.. 28 F ..yn ol 32 F ..a ddadl.. 33 B–EG–I a dysg., GH ..gwiliwn 34 AC ..iachav., GH ..hirhau., G ..synwyrâu.. 35 GH ..ddyr gair o.. 36 GH grafia r.. 37 B–FI ..roi arian, GH ..air.. 40 GH ..oi.. 41 BCEGHI ..gwthio., FGH ..ei., GH ..r glod 42 GH ..f amod 43 EI er a fwriais oi., GH ..fwriais fy.. 46 EI ond.. 48 EI ..a gaf

Marwnad Ieuan Llwyd ap Dafydd, Bachaethlon

Dŵr hallt oedd drwy holl dyddyn;
 Diwreiddio stad, urddas dyn.
 Dwyn Ieuan Llwyd a wnâi'n lladd;
 4 Deuddengwlad oedd i'w angladd.
 Ucha' man, o chymynwyd,
 Fydd 'n y llan fedd Ieuan Llwyd.
 Llw m y cawn lle mae cannoch,
 8 Llanw i'w gwr, llin Ieuan Goch.
 Union wyd, Duw, 'n anad dim:
 Rhoi dialedd ar waed Wilym.
 Arwydd y sydd i'r oes hon
 12 Roi dinistr ar waed Einion.
 P'le daw had y pleidiau hyn
 Pan grinodd y pen gronyn?
 Ergyd gwn ar goed gwinwydd;
 16 Urddas fal ar ddisiau fydd.

O châi fyd a chyfodiad,
 Ewyllys Duw oll i'w stad,
 Hyder byw, hud yw'r bywyd,
 20 Hudol i bawb hoedl y byd.

Dewr fu Ieuan dyrfaoedd;
 Dwyn ei ran yn dynn yr oedd.
 Arwydd yw 'ni rodd Ieuan?
 24 Nid oedd raid nodwydd i'w ran.
 Dygai yno'n deg ennyd
 Ar un gair ei ran i gyd.
 Calan oedd, coeliwn iddaw,
 28 A gwychder oedd, ac awch draw.

Mae'n greulon mewn gwrolaeth
 Ei feibion ef, heb un waeth.
 Llyna bawb llawen o'u bod
 32 Yn lle Ieuan yn llewod.
 Breugoed ir, brig y dwyrain,
 Blodau'r holl bleidiau yw'r rhain.

36 A'i wraig lân rywiog lonydd
 Yn wylo ddoe'n ôl ei ddydd.
 On'd yw barod yn berwi
 Dagroedd hallt o'i gruddiau hi?
 40 Un o'i feirdd, yn oferddyn,
 Ydwyf; tost fydd adfyd hyn.
 Y galon fydd gloia'n f'ais
 O dra wylo a dreuliais.
 Y mae'n torri, maint hiraeth,
 44 A'i eisiau ef y sy waeth.

Ni welir mwy i lawer man
 Fyth ewythr o fath Ieuan.
 48 Un o'i eiriau ni yrrwyd
 Ar far a llys, f'eryr llwyd.
 On'd oer ar hwn dario 'rhawg
 Od yw fud ei dafodiawg?
 Annoethiaid byth wedi'i ben,
 52 Berwi caen', a bair cynnen.

Y wlad aeth, wyled weithian,
 Heb waetha' i ni byth yn wan.
 56 Llwyd yw cymell aur ceimion
 O'i fyw yn hir o fewn hon.
 Aur i saint a roes yntau
 Er byw yn hir heb wanhau.
 Ef aeth er hyn fyth yrhawg
 60 At Duw Iesu, ein t'wysawg.
 Eled, nofied wlad nefol,
 Awn ninnau i nef wen 'n ei ôl.
 Eled gŵr o wlad Geri
 64 I'r un trŵn aur lle mae'r Tri!

Ffynonellau

A—BL Add 14989, 44^r B—BL Add 31067, 224^r

Amrywiadau

1 *B* y.. 3 *B* ..wna n.. 8 *AB* lloynwy gwr.. 9 *A* vniowyd.. 11 *AB* arwydd
 ssydd.. 21 *B* ..dur fonedd 26 *B* or.. 36 *AB* ..ddaw.. 51 *A* ..wedi ben 54 *A*
 ..waeth ai i ni.. 59 *AB* ethfaeth.. 63 *B* ..gler..

Moliant Morys ap Dafydd ap Morys, Ceri

- Mawl at wŷr aeth mal y trig:
 Meibion Dafydd bendefig.
 Dewrion fu wyrion Forys;
 4 Dwyn ar ôl un dyn yr ys
 Mawl i ti, mal etewyn,
 Morys, dy wayw ym mrest dyn.
 Ni'th ddeil wayw, 'n ddu, a'th law 'n ddig,
 8 Ni thyf onnen i'th fenig.
 Llaw fain wych, llafn a awchiwyd,
 Llew, dyn clau chwyrn, llwdn cloch wyd.
 Gwalch wyd yn gwylio'ch adar;
 12 Doen' i'th gylch bob dyn a'th gâr.
 Gwell o'th ôl gall a'th wyliai
 Nog wyneb un gwan o bai.
- Llawn yw awch oll yn och chwi
 16 A rhy lawn o'r haelioni.
 Un flas, neu yn felysach,
 Â'r peran wyd o'r pren iach.
 Adwaen ei ddull; dyn neu ddau,
 20 Y mae'n us eu mynwesau.
 Gwenith wyd, gwyn aeth i'w us;
 Rhyg noeth yw rhai gwenieithus.
- Dy blaid o'n hynafiaid ni,
 24 Derw a'u 'sgyrion dros Geri.
 Nai oedd Einion addwynwych,
 Fab brawd Tudur waywddur wych;
 'Tifedd cadr o'r paladrlwyth
 28 Cyfan o Elystan lwyth.
 Tŵr Brochdyn yn un a wnaid,
 Tir ddwywaith o'r Tordduaid.
 Gwaed Fredudd gwedi'i frydiaw,
 32 Faich, âi'n dy rudd, Fychan, draw.
 Ef âi eryr o Feurig
 I'r lle nid âi iarll na dug.
 Dêl i'th gof dalaith gyfan;
 36 Tid aur o Went yw dy ran.

Llwyth Gruffudd, llin onwydd Llŷr,
Llwyd o Wynedd, llid Ynyr.

40 Môr wyt ti ym muriau tŵr
A naint gweinion ŷnt, gannwr.
Ceisio dy rwystro di'r ys,
Ac nid mawr gennyd, Morys.
44 Berw eiriau'n bwrw uriad;
Bloddest oedd heb lwyddo stad.
Ni bu yn dynn neb yn d'ŵydd;
Ni bu feilchion heb folchwydd.
48 Caen' hwy fagu cenfigen
A chwithau'n barch aeth yn ben.
Lladd feilch, lluoedd a fylchwyd;
O doedi'u lladd, didwyll wyd.
52 Rhai a weniaith, rhyw waneg,
Ac a wna'r twyll gan air teg.
Dofai erbyn dy fawrbwyll;
Union yw d'air, ni wnai dwyll.
56 Pwyll i ddewr, pell a dduriwyd,
Nog aur oedd well, gŵraidd wyd.
Duw a seiniodd dy synnwyr,
Dithau'n gall, doethion a'i gŵyr.

60 Rhyw gyngor, rhywiog angall
A lesai'i gael, iso i gall:
O throi i'r iawn eithr ar od,
Dywaid reswm da drosod.
64 Na fyn dolc o fewn dy waith,
Na chweryla â châr eilwaith.
Na thro di er ethrod, was,
Na'th air erddo, na'th urddas.
N'ad y gweiniaid i gwynaw,
68 N'ad ŵr o'th wlad awr o'th law.
E ddaw cennyd ddau cannwr;
N'ad un a'i dop dan y dŵr.
72 Na châr ymladd, chwerw amlwg,
Gan un drwy waith gwenwyn drwg.
Na thro ganwaith ar gynnen;
Athrywyn byth a thro'n ben.

Ffynonellau

A—Pen 100, 309 B—Bodewryd 1, 249 C—Broq 2, 367^r D—J 101 [= RWM 17], 482 E—Llst 133, rhif 96 F—Bodley Welsh e 4, 44^v

Amrywiadau

4 *A–F* ..i rys 5 *ABE* molit ti., *CD* mal., *F* malvt ti., *C* .. terwyn 12 *F* don.. 18 *CD* ..wr pren.. 22 *F* a.. 23 *F* ..och..chwi 29 *F* ..vn ucha wnaid 31 *A–F* ..gwedi frydiaw 32 *B* ..ai dy.. 36 *E* ..yn dy.. 37 *E* ..lliw.. 38 *E* llwyth.. 39 *F* ..a.. 40 *ADE* ..maint.. 41 *CDF* ..Rys 44 *BCD* ..oedd vn heb.. 45 *F* ..bvon dynn.. 50 *ABEF* ..dwedi lladd.. 51 *CD* rhai o.. 53 *F* dofa..fyrrbwyll 54 *CD* ..wna., *B* ..na.. 60 *A–F* a lessai gael.. 61 *A* ..thorri., *E* ..thorri., *F* ..ar.. 67 *F* na aid ir gweiniaid gwynaw 73 *F* ..ryw.. 74 *E* y th rown byth athro n ben, *F* ..athro n..

Moliant Siôn ap Rhys ap Morys, Mochdre

- Mae o Einion ymwanwr,
 Mynnai'r gamp, mae'n orau gŵr.
 Mae hwp arfau mab hirfawr,
 4 Mae llun gwych mal Leon gawr.
 Mae grym mewn y gŵr yma,
 O dywed hwn, ei dad da.
 Mae gwayw Siôn, mwya'i gas ef,
 8 Myn ei weithdrafn, mewn wythdref.
 Mae cledd du yn gyrru'n gwaith,
 Mentr teilwng, mewn tair talaith.
 Er ffo dewrion lle bôn' byth
 12 A chilio gwych wehelyth,
 Ni ffy Siôn, hoff yw ei swydd,
 Er gwarae gŵr â gorwydd.
 Gwas dewrwyth a gais daraw,
 16 A'i gweryl aeth gar ei law.
 Gŵr yw Siôn a gurai saith,
 Gŵr dinam, garw diweniaith.
 Ni rôl'i gefn er ei gyfarth;
 20 Sein ar ŵr mai Siôn yw'r arth.
- Gŵr yw Siôn gorau y sydd
 Ar gofion â'r gwayw efydd:
 24 Llew glân o Elystan lwyth
 Lle daliodd llu a'i dylwyth.
 Llew gwyn o Frochdyn a'i frig
 Lle mae arwydd llew Meurig.
 Sarff i'w gas, Syr Ffwg o ŵr,
 28 Os am ynys ymwanwr.
 Dyged o Gorbed y gair
 Draw, farwn, byth drwy fawrair.
 Ym Mochdref mae ef am waed
 32 At ais agwrdd t'wysogwaed.
- Trig ar fwng trwy Geri fawr,
 Traws flinwalch, teiroes, flaenawr.
 Nid ennill neb o'i dynion;
 36 Am droi swydd ymdaro, Siôn.

- Ni fyn Siôn union anair;
 E fyn â'r ffyn ofni'r ffair.
 E fyn gael fo iawn i gyd;
 40 A fynnodd a fu ennyd.
 Ef yw'r bw i fawr a bach
 Heb ochel; ni bu wychach.
 Dewr yw Siôn a dyrys yw;
 44 Drwy gedyrn fal draig ydyw.
 Oen diddig oni ddigier,
 Obry'n eu mysg brawn a mêr.
- Ei wraig a rydd, rywiog ran,
 48 O'r gorau aur ac arian.
 Ei bwyd rhoes, heb wad y rhydd,
 Odidog, a'i diodydd.
 Gwen gu lân gan galennig,
 52 Gwen bur ddoeth, gwn, heb awr ddig.
 Lloer Siancyn, gwreiddyn graddol,
 Lle'dd ŷnt had,—llwyddiant i'w hôl!
 Lleian gwyrael Llangurig,
 56 Lloer ei bro, lliw aur ei brig.
- I gyd hefyd gad, Dofydd,
 Gwen a Siôn ddau cannoes hydd.
 A'i gŵr êl o'i gwerylon,
 60 Ac er y sydd gorau Siôn.
 Ni bu Rys, wynebwr well
 Yn eich hoedl oedd na Chadell,
 Na Morys yn y mawredd,
 64 Nac Einion wych, gwn, un wedd,
 Nac Elystan aig lwystad,
 Na deunaw gynt yn y gad.
- 'Y Nudd yw, Siôn oedd o'i serch,
 68 Aelaw rhoddion, ail Rhydderch.
 Nerth Einion wrth ei ynys
 Y sy 'mhob braich, Siôn mab Rhys.
 Nerth Dduw i Siôn, wyrthiau saint,
 72 I'w dâl hynod êl henaint!

Ffynonellau

A—Pen 100, 358 B—Bodewryd 1, 308 C—Brog 2, 372^v D—J 101 [= RWM 17], 490 E—Llst 133, rhif 113 F—BL Add 14901, 8^r G—BL Add 31067, 201^r H—Bodley Welsh e 4, 37^r

Amrywiadau

3 *BCD* ..pvrfawr 4 *FG* ..llyn.. 5 *ABEFG* y mae grym y.. 7 *A-H* ..mwy ai.. 9 *H* ..gyrvn y.. 12 *AFG* na.. 19 *A-H* ..roi gefn.. 24 *EGH* ..oi.. 34 *G* ..flinfalch..flaenfawr 35 *CD* ..o einion 46 *EH* ..braw n eu mer, *FG* obry n mysg.. 52 *H* ..gwenn eb.. 53 *CD* llorf.. 56 *H* ..oi bron.. 58 *AFG* ..dav.. 59 *CD* ar.. 64 *H* [64]

Awdl foliant i Fathau Goch ap Tomas ap Rhys, y Drenewydd

- 4 Maint Arthur wayw dur o diroedd—cedyrn,
 Ceidwad saith o ynysoedd,
 Mentria ynys mewn trinoedd;
 Math gwayw chwyn Mathau Goch oedd.
- 8 Mathau Goch, danoch dynion—a 'mgynnull,
 Mae gennyd y Ford Gron;
 Mae'n well saig mewn y llys hon,
 Ni chair llai, no Chaerlleon.
- 12 Bord Gron Gaerlleon, gwŷr llys—yn wastad,
 Un ystod â mab Rhys;
 Beth aeth â gradd byth i'th grys?
 Hap a bonedd pob ynys.
- 16 Pob ynys fal gwŷs, aml gweision—Tomas
 Tu yma i dŵr Pablon;
 Pe bai ladd ieirll pobl a ddôn'
 Powys danad, post Einion.
- 20 Post Einion, gwna sôn gannoës hyd—yn d'ôl
 Am roi d'aur a'th fwydydd;
 Pedwar llyn, powdr, llawenydd,
 Pob rhyw saig fal pupr y sydd.
- 24 Er sydd o wledydd ni lidian'—dynion
 Hyd yr aeth Elystan,
 A thrillu, a'th wŷr allan,
 Âi drwy'r tir a'r dŵr a'r tân.
- 28 Awch tân yw d'anian, yn donnau—brydion,
 Llew dynion llwydwinau;
 Awch dur oedd uwch dy ruddiau,
 A llain oedd awch llew neu ddau.

32 Dau Einion, gwaed yn un gynt,
 Da iawn o hil Dywyn hwnt;
 Drwy Fuellt dewra' fuant,
 Drwy Heiliarth draw yr huliont;
 Drwy Glwn gwaed Raglan a Gwent;
 Doed yn drawst d'adain drostynt.

36 D'adain a gaid, dau dân gwn,
 Da ddewis waed oedd Sioes wen;
 Dwy did aur rhudd doed ar hon,
 O'i deutu rhoed at ei rhan;
 Da iawn yw gwaed Ieuan Gwyn,
 Dewis oedd; dwyoes uddun!

44 Dwy oes chwe einioes, a chynnydd—i gael
 Gweled goresgynnydd;
 Duw Iesu rhoed oes yr hydd
 I chwi dan eich adenydd.

48 Eurwÿdd d'adenydd, eryr llwydwinau,
 Eryr o geraint, ac euro'u gwarrau;
 Arglwyddi o Geri, gorau—gwedi Arthur,
 Aur a main eglur ar eu mynyglau.

52 Yr oedd, o chawn d'adael, radd eich hen deidiau;
 Awr y dydd a wylw'n euro dy ddolau,
 A'th ymwan draw allan, a drylliau—dy waywyr
 O'th naws, rym wythwyr, a'th enw'n Syr Mathau.

56 Euraid yw'r galon i roi d'aur y gwyliau,
 A chlod tri Rhydderch, a chael eto raddau;
 Un dyn gwedi nawnyn, down ninnau—lle'r wyd,
 Iawn waed Dafydd Llwyd, etifedd wellhau.

60 Edrych am y gwledydd, dur awch *am* glwydau,
 A milwyr yn dwyn, mal awyr, yn donnau;
 O bai, dy dad, gwelad gwaliau—dur allan,
 A'i blaid y sy lydan o blad a saeledau.

64 Da Rhys a'u cedwis wedi dwyn siacedau,
 Dout at ethol, da eto wyt tithau;
 Dôn' weithian, ŵr glân, ar eu gliniau—atad
 Dan wasgu danad; dôn' i wisgo d'ynau.

- []
 []
 68 A'th ffyn hirion gwynion fal gynnau—'n taro,
 A'r llu wedi'i glwyfo, a'r llewod â'u gleiffau.
- Doeth iawn a diddig dy waith yn y dyddiau,
 Ti yma, dilidwalch, twyma d'aelwydau;
 72 Doethion dioerion d'eiriau,—dihoced,
 Da iawn, digon aeddfed yw dy gneddfau.
- Maint Arthur mewn gloywddur â'i gleddau,
 Minnau't, Rys, a thorfoedd, maint Iorys i'th arfau.
 76 []
 []

Ffynonellau

A—Card 2.623 [= Haf 13], 90^v B—BL Add 31067, 207^v

Amrywiadau

2 B ..saith ynysoedd 7 B ..y saig mewn llys.. 9 AB ..caer.. 18 B ..d air ith.. 28 B ..uwch.. 32 AB ..i huliont 33 AB ..glwm.. 46 A ac..eurllew.., B ac..eurlliw gwarau 47 A arglwydd.. 52 AB ..ath rym.., B ath..enw syr.. 53 B ..dair.. 54 AB ..o Rydderch.. 57 B ..uwch.., AB ..ynt glwydau 68 B ..gwedi glwyfo.., A ..gwedi i.. 70 B ..d aelodau 73 B ..glewddur.. 74 AB minnau Rys.., B ..ath..

Moliant Morys ab Owain, Aberbechan

- Morys aeth am air seithwyr,
 Mab Owain, llwyth meibion Llŷr.
 Gŵr a'i ofn drwy gryfion draw
 4 Ac â nerth y gwan wrthaw.
 Brau awchwayw dur, braich ei dad,
 Braint arglwydd, barwn teirgwlad.
 Llaw fain gytgam, llafn gwaetgoch,
 8 Llew a dynn gwlan, llwdn y gloch.
 Un dyn a'i wlad yn ei lwyth
 Yn dwyn ystod yn ystwyth.
- Blodau o'r Blaenau yw'r blaid,
 12 Benwyn o'r bonion euraid.
 Llaw a throed o'r coed, ŵr cain,
 Llygad yw holl Gedewain.
 Gwaed Deuddwr yn goed heddiw;
 16 Wythran o'i ffrwyth yn ei ffriw.
 Pwysai lu gwŷr,—pa sawl gwaith?—
 Pwys derwgoed, Powys deirgwaith.
- Mil a ofyn, mal Ifor,
 20 Am ŵr o stad mawr ei stôr.
 Mi welwn fan mal yn fêl,
 A bron iach a bryn uchel.
 Marcio dau 'mro Cedewen,
 24 Man i gael aur mewn gwal wen:
 Gŵr a gwraig aur eu gwregys;
 Gwaed ieirll oedd i gadw'r llys.
 Molwyd draw mal y trihael,
 28 Mwy'r gair at hon, Margred hael.
 Rhan Dudur o'r hen dadoedd,
 Rhan a llwyth o'r henieirll oedd.
 Gwawr o haf, gorau yw hon,
 32 Gwir ffyniant, o gorff Einion.
 Da dyd i weiniaid diodydd,
 Da dyry faich, di-daer fydd.
 Llanwai â'i llaw ei hunan
 36 Llwyth o gwd er llethu gwan.

Aml y rhed, mâl ei rhyw,
 Aml o fan mal i Fynyw.
 Aml bendith fal gwenith gwyn,
 40 Aml yw gwin fal mêl gwynyn.
 Aml yw cenedl, mal Cynan,
 Aml yw â gwledd fal mêl glân.
 Llanw deudir, llin da ydoedd,
 44 Oes gŵr well o sgwïer oedd?

Croestai fry uwch crest y fron:
 Cyntedd enw cant o ddyinion;
 Tŷ ar gandrws, tŵr gwindraul,
 48 Ddiwyrnod teg, ddyrnod haul;
 Dau groesty, dwy gaer wastad,
 Deg oes dyn y dwg ystad!
 Dyn ac un da'n ei gynnal,
 52 Da ŵr doeth, deuwr a dâl.
 Da ŵr â'i fwyd a'i aur fydd,
 Da i roi lliw, dewra' llywydd.

Beilchion draw a ddaw yn ddig
 56 Heb un difai, 'n bendefig.
 Ni fyn Morys fân mawrair;
 E fyn â'r ffyn ofni'r ffair.
 Od â'n ddig deunaw a ddyr
 60 Is ei wregys o oreugwyr.
 Ni wna fawr drwst, nofia'r drin,
 Nid âi ddwywlad i'w ddilyn.
 Da ŵr hael, dewr a helaeth,
 64 Digon o ŵr Duw a'i gwnaeth.

Ffynonellau

A—L1st 53, 75 B—BL Add 31067, 242^r C—BL Add 31061, 130^v

Ffynonellau eraill

Bodley Welsh e 4, 67^r

Amrywiadau

4 C ag yn erthv gwan.. 8 C ..glew.. 10 C ..ystod anysdwyth 11C ..yn blaid 12
 C eb len wyr ond blaenoriaid 13 C ..ir hoed ir hain 14 C ..goydowain 15 B
 ..a gad.. 16 C a than.. 18 B ..dewrgoed., C pyss derwengoed.. 22 B a bon.,
 C ..bryn..bron.. 23 C ..ymrik.. 28 AC ..marged., C mwy gair.. 30 AB ..ar., C
 ..llwyth yr.. 31 C gwawr haf o geri.. 33 C dyd..y gwledydd 36 ABC lwyth..i

lethv.. 37 C ..mil ir hiw 39 C 40–39, C ..a.. 40 B ..gwen.., C ..a.. 41 C aml i..
42 C aml i gwledd ymol glan 43 C ..lle ni dydoedd 44 C llys gwr well
ysgwier.. 47 C torai gan drwr.. 51 C dyn a gwyn duw yn i.. 52 C dewr
doeth.. 54 C ..llyn.. 57 C ..fon.. 61 C ni nai..nofior..

Awdl foliant i Rys ap Morys ab Owain, Aberbechan

- Rhys wyn o Forys, yn farwn—y'th roed,
 A'th rediad fal Syr Bŵn;
 Rhys i gael rhwysg a wyliwn;
 4 Rhos euraid êl, Rhys, ar d'ŵn.
- At Rys trwy'r ynys traw, o'r onnen—fawr,
 Mab Forys ab Owen,
 I'r tyrau ar war tarren
 8 Yma dôi bawb am dy ben.
- Am dy ben deuen' bob dydd—i'w porthi,
 Parthaid yr holl wledydd;
 Aed dros ben wtres beunydd,
 12 A chan a rhost ucho'n rhydd.
- Rhydd rhydd nos a dydd, nesed wyd,—ym d'aur,
 Yma dof yn broffwyd;
 Rhodd Ifor o'i faenor fwyd,
 16 Rhoist di'n ail, Rhys deneulwyd.
- Chwi, Rhys, drwy Bowys draw bioedd—y gwaed
 O gedyrn daleithioedd;
 Rhan teidiau a'u rhent ydoedd,
 20 Rhan y fam a'r hynaif oedd.
- Hen lwythau Blaenau, bawl onwydd—Deuddwr,
 Trôi gannwr trwy gynnydd;
 Hen Einion fawr, hwy'n un fydd,
 24 Hael fry ydyw hil Fredudd.
- Hil Fredudd, blaenwydd y blaid,—o'r Gwestyd,
 Gystal â barwniaid;
 Weithian i'w dwyn o'th hen daid
 28 Isa' gwŷr yw sgwieiriaid.

- Ysgwieiriaid blaid, blodau—marchogion,
 Merch agos prif iachau;
 Y ddyn wych oedd yn eich iau
 32 O dir Dwywent a'r Deau.
- Brig blodau Deau, hen deioedd—Mawd wen,
 Am waed ieirll o Wentoedd;
 Brawd ei thad brau a doeth oedd,
 36 Bost euraid Bowys diroedd.
- Rhandiroedd mawr oedd yma i Rys—i'w cael;
 Cai eilwaith d'ewyllys;
 Rhown flaen yr hen Fêl Ynys
 40 I'w rhifo i'th wledd, rhof a'th lys.
- Awn i'r llys a garwn, anarlloes, agored,
 Yno y down yn fynych, iawn dynion fyned;
 Yno y tariaf, od af, wedi yfed—gwinoedd,
 44 A rhoi a wnair gwisgoedd a'r hen aur o gasged.
- Neuadd o fewn gwaliau, noddfa ynn ei gweled,
 A phawb âi wledd o'i mewn, a phobloedd yn myned;
 Ac ni bydd nos a dydd, eisteddedd—pawb ynti,
 48 Ni wn i was ichwi, na newyn na syched.
- I dario i'r un man o dir rwy'n myned,
 A maith gydag urddas ymaith gydgerdded;
 Yma y bydd y fort rydd i fwrw trwydded,—yr hon
 52 O baud, wych galon, wybod eich gweled.
- Os gŵr fai freufwyn, ysgwier efrifed,
 E'ch impiwyd olynol, â champau dy loned;
 Os cyfraith teiriaith, torred—tros Gedewen,
 56 Y doethion a dawen', dithau yno dywed.
- Maen wyd o rinwedd mwy no dyn a r'aned,
 Mynwair o waith Rydderch, mewn arian y'th rodded;
 Fal y trihael dy gael od yw galed—cannwr,
 60 Mor wych, glana' marchwr, meirch gloywon, merched.
- A rhoi llu o frenin, o ieirll a'i farwnied,
 E'th rifai, lew gwŷr, i waith rhyfel agored;
 A'th roi di'n llu Harri lle'u heured—milwyr draw;
 64 Ni thwyllir o'th wyliaw na'th holl wŷr na'th ddeilied.

68 A'th wewyr yn llwythau, a'th wŷr yno llithied,
 Ar waed â'th arlwy yr aud, a'th wroled;
 A'th gwrser 'n ei wiw order, neidied—frig sieting,
 A'th enw â, edling, a'th wayw yn waedled.

72 Ni bu Iorys cy-uwch na bai Rys cyuched,
 Ni bu wŷr ers can hil na bai Rys cyn haeled;
 Ni bu Arthur, cai ddur, cyddewred—bob unawr,
 Ni bu rwyg hen drichawr na bai Rys cyn dreched.

Rhys Wyn o Forys yn farwn, &c.

Ffynonellau

A—Pen 100, 344 B—Bodewryd 1, 298 C—Brog 2, 370^r D—J 101 [= RWM 17], 486 E—Llst 133, rhif 109 F—BL Add 14970, 173^r G—BL Add 14901, 7^r H—BL Add 31067, 192^r

Amrywiadau

4 BCDG ..or.. 5 BCD ..ar.. 17 ABE–H ..bowys bioedd.. 21 CD ..bal.. 43 CD yna.. 47 H ..na dydd.. 49 ABEG ..i rwn o dir.., FH ..i rwn mwynaidd o.. 50 CD ..yma ith.., F ..caf ymaith.. 52 ABEFG ..i wybod.., F o baid i..och.. 53 F ..a fai.. 54 ABEFG ..laned 55 F ..y teiriaith.. 57 E/GH ..mwy noddyn/mwyn ddynd a ranned 58 CD mynair waith.. 60 FH ..a merched 61 CD ..frenin ieirll.., EF a rhai.. 63 F ..Harri heured.., A–EGH ..hevrwyd.. 65 A–H nath.. 66 ABEG ..athrylwy.., H ..athrylwy.., CD a thorr drwy aliwns.., F ai waed ath arialwy.. 67 ABE–H ..ni wiw arder.., CD ..gwrser wiw..dros.., F ath arfer gwrser.. 68 CD ..enw yno.., F ..a rydd edling..rudd waedled, H ..rudd yn.. 69 CD ..iorys kai na..wched 70 CD ..kanmil.. 71 CD ..nai wyr kynn..kob ynavr 72 CD ..hendrich na..

Moliant Ieuan Goch Benllwyd, y Gwestyd

Mae hwnt wŵr â maint Iorys,
 Mae hap i wŵr ym mhob bys.
 Ieuan wythran wenithryw,
 4 Wrth dy faint yr aeth dy fyw.
 Mawr ydoedd gorff Mredudd gynt,
 At Adda y tueddynt.
 Gŵr lluosog o'r llysoedd,
 8 Gwyllt o lew dewr, gwalltlwyd oedd.
 Mawr ydoedd awch Mredudd Ddu;
 Mewn ei 'tiffedd mae'n tyfu:
 Gŵr du eglur gwridoglywyd,
 12 Gwyn a choch, ac un awch wyd.
 Carw oeddych cwyreiddwallt
 A graen aur i'w groen a'i wallt.
 Pum priflwyth o dylwyth da,
 16 Pond danun pen wyt yna?
 A gair o ben gwŷr y byd
 Gwŷr gystal ag o'r Gwestyd?
 Acw, osglog, y cesglynt,
 20 Cynefin gwaed Cynfyn gynt.
 Henwaed ei fam, hynod fo,
 Hil wythran Hywel Athro.
 Cryfa' gwaed, cai rifo gwŷr,
 24 Yw carw gwrol Crug Eryr.

Wyth randir aeth i'r undyn,
 Ieuan Goch hael; on'd gwych hyn?
 Mewn dadl mwy no dau ydych;
 28 Mwy'r â gair da Margred wych.
 Merch yngod ym mraich angel,
 Mawr ugain oes Mair a'i gwnêl!
 Blaenau hap o lwynau hon,
 32 Brig gwinwydd o barc Einion.
 Nid awn â'i gwaed, enwog oedd,
 Ond i lwyth neu daleithioedd.
 Nid yw dlawd, nid âi dldion
 36 Dydd di-help; dydd da i hon!

Llaw a rydd llawrodd i wan;
Llaw Dduw a'ch llwyddo, Ieuan.

Llyna gwrnt yn llawn i gyd:
40 Llwyd gostio'n llawr y Gwestyd.
Ni tholiai Dduw i'th law dda;
Naw ffrwd aur ni phrydera.
N'ad yma roi dim ar wŷr;
44 Duw sy i ennyn dy synnwyr.
Cyfraith ddiadwaith ydoedd,
Y cof â dysg hefyd oedd.
Ni wnaud gam yn anad gwaith;
48 Iawn a wnaud; ni wnaen' adwaith.
Ni wn, cynnull naw cannwr,
Neb o'ch gwaed na bai awch gŵr.
Gŵr a gynnail gwŷr gweiniaid,
52 Gwelaf i'n plith golofn plaid.
Dewr â'th lafn dur y'th lifiwyd,
Derwen aur y dewrion wyd.
Y derw o'ch cwr draw y'ch caid;
56 Nid oes drain ond estroniaid.
Dur a thân, dewr, a'th ennyn,
Deall ydd wyd well i ddyn.
Ni thyn ar ddoeth un o'r ddau
60 Waeth ar un no tharanau.

Beth oedd well? Gobeithio'dd wyd,
Byw'n deilwng uwchben d'aelwyd.
Bych hen i ddwyn baich y ddôl,
64 Bwys dy geraint, bost gwrol.
Bid dwy oes dyn bod dy stâl,
Ben cenedl, byw i'n cynnal!
Bid, wyneb y byd, yno
68 Byw trwy Dduw fyth! Boed rhwydd fo!

Ffynonellau

A—Pen 100, 320 B—Bodewryd 1, 269 C—Brog 2, 369^r D—J 101 [= RWM 17], 485 E—BL Add 31061, 186^r F—Llst 133, rhif 100

Amrywiadau

4 *F* ..frait.. 13 *ABF* karw a.. 15 *E* ..oi.., *CD* penn.. 20 *E* kynafon.. 21 *CDE* ..ifan.. 28 *A-F* ..marged.., *D* mwy na.. 29 *E* 30–29 36 *CDE* ..diwedd da.. 37 *E* + i 39 *E* [39–40] 40 *CD* ..gostiawn yn.., *D* ..llawr gwestyd 41 *E* ni tholia..,

CD ..law n dda 42 *CDE* ..na.. 44 *ABF/CD* ..syn/sy enyn.. 46 *E* ..ar.. 48 *E* ar a.. 49 *CDE* ..dav.. 51 *E* ..i gynal.., *CDE* ..gwyr a.. 53 *E* 55–6, 53–4 63 *E* ..yn y..

i llanwai ai llaw i hvnann
 lwyth o gwd i lethv gwann
 aed y gwann wedi giniaw
 ai fol yn drwm oi flaen draw

Moliant Siôn Wiliam, Llandysul

- Da fu'r grwn a dyfai'r gwraidd,
 Dyn a wnaeth Duw'n wenithaidd.
 Gosawg â chorff gwisgi chwyrn
 4 Yw Siôn, dywys hen dëyrn.
 Nid âi un had i wanhau
 O lwyth isel i'th asau:
 Meilir a'i waed, mal yr aur,
 8 Gryg, gannoes, yn graig henaur.
 O Arglwydd, mab eurgledd main,
 Y cai dywys, Cedewain.
 Llawn oedd Siôn yn llan ddyw Sul,
 12 Llwyn dewiswaed Llandysul.
 Arglwydd Arwystl, gledd euraidd,
 Ewch o'r blaen i awchio'r blaid.
 Hil gwinwydd, Hywel, ganwaith,
 16 Fab Ieuan, rhôl, fu benrhaith.
 Mynych oedd, mwy iawn no cham,
 Gwatsio'n ôl gwaed Siôn Wiliam.
 Derwen a gaid o'r un gwÿdd
 20 Deiroes wellwell dros hollwydd.
 Felly draw, fwyell y drin,
 Fu ragor dyfu'r egin.
- Dy wraig wen, diorwag oedd,
 24 Dy ffriw, llew, 'n deffroi lluoedd.
 Gwaed Rys hael gwedi'i roi sydd
 I chwi dan eich adenydd.
 Llariaidd yw'n wir lloer ddi-nam
 28 Sy anwylyd Siôn Wiliam.
 Cydwaed hael,—cedwid Duw hon!—
 Cannaid lân cenedl Einion.
 Coed gwin oedd, cydgynyddir;
 32 Cerdda, Siôn, cai urddas hir.
- Gŵr nod i'r Goron ydwyd;
 Ai'n well o radd no lle'r wyd?
 Y radd, yna'r addunych,
 36 Eto sy'n ôl yt, Siôn wych,—

- Llaw garbron Lloegr a'i brenin
 A llew byw traw lle bo trin.
 Dyn wyd a'i fyd yn dy fodd;
 40 E'i hun oll a'i henillodd.
 Bwa'n ei balf neb ni bu,
 Neb o Loegr, yn ei blygu.
 Yno gan eginyn gwych
 44 Ergyd gwn ar goed gennych.
 Saethu allan saeth wellwell
 Er gado pawb, ergyd pell.
 Lleia' gair yt yn Lloegr oedd,
 48 Gair yt adu'r gart ydoedd.
 Ni wyddwn gamp i ddyd gwych
 Hyd y gwn nad âi gennych.

- Ymadrodd nis medrodd neb
 52 Oedd o'th enau'n ddoethineb.
 Mae hwyl, wen, am haelioni;
 Na chollwch hon o'ch llaw chwi.
 Mae hap, yt aeth, ym mhob tir;
 56 Am eich urddas mwy chwerddir.
 Od wyd, dilid hyd elawr,
 A'th ystod fyth o stad fawr.
 Mawredd a gaf o rodd gŵyl
 60 O chaf einioes ywch, f'annwyl.
 Od aeth henaint i'th ddyinion,
 Aed dwy oes hydd i ti, Siôn.

Ffynonellau

A—Bodley Welsh e 4, 56^r B—Llst 133, rhif 1148

Amrywiadau

1 B ..difai r.. 14 AB ewch blaen.. 18 AB gwytsio.. 25 AB ..gwedi roi.. 32 B cardda.. 38 A llew.. 40 B a hyn..

Marwnad Dafydd Llwyd ap Gruffudd ap Maredudd, Carno

Beth a wnâi ddyn byth yn ddig?
 —Mair, pand wyf?—Marw pendefig.
 Mae'r un gŵr mawr yn gorwedd;
 4 Marw wnaif fi *ym* mron ei fedd.
 Hiraeth mabolaeth y byd,
 Hir y caf, hwyr y cyfyd.
 Hir oedd awr herwydd a wn
 8 Ym fyw, oeres, am farwn.
 Llen fawr i'r llan a fwriwyd:
 Du fydd y llen, Dafydd Llwyd.
 Mab Gruffudd ŵyr Fredudd fry
 12 Mewn erw gul; maen yw'r gwely.

Achub, hau achau Powys,
 Einion a Gwên, yn un gŵys.
 Ni bu, pen o bob bonedd,
 16 Heb lwyn o fin Blaenau i'w fedd.
 Ni roir, ar hwn yr â'r rhod,
 Fyth i Garno'r fath gernod.
 Mae un talwrn? Maint wylaw;
 20 Môr âi dros y muriau draw.
 Mae'r Tŷ Gwyn mawr teg yno,
 Mair,—gwae fi!—mor wag yw fo.
 Cwypm mawr campau a mawredd,
 24 Cornor byth Carno âi i'r bedd.
 Gwyliad a wnaid glod *ein* Nudd;
 Gwlad amddifad am Ddafydd.

Oerodd atom o'r ddeutu
 28 Arwystl fawr; ys da le fu.
 Ugain anos, gwn hynny,
 Gan y wlad hon gynnal tŷ.
 Darfu'r wledd a'r cyfeddach,
 32 Darfu'r byd ar fawr a bach.
 Di-glod yw deg o wledydd
 Heb obaith fawr; Duw, beth fydd?
 Rhai a ddaw fydd â rhodd fach,
 36 Rhai heb allel rhoi bellach.

- Dilesg o gryd hyd elawr;
 Iraidd fu ef â'i rodd fawr.
 E adawodd Duw iddaw
 40 Ddoe gan ei draul ddigon draw.
 Da'n y nef, doe 'n anafwyd,
 Iddo fydd lle, Ddafydd Llwyd.
- Ni chwardd dyn â cherdd, o daw,
 44 Ac ni welai gan wylaw.
 Pa waeth i neb beth a wnâi
 O briddo'r neb a roddai?
 48 Wylais dŵr; ail, os deurudd,
 Annest a wyl nos a dydd.
 Lliw Eigr oedd lle gorweddynt,
 Lluniaidd gorff, llawenaidd gynt.
 Hon oedd drist ei hannedd draw;
 52 Heddiw'n ôl hawdd ynn wylaw.
- Nid wylaf rhag ofn dialedd
 Am y neb aeth mewn y bedd.
 56 Aed i nef o'i dai'n ufudd
 A rhoi oes hir i'r rhai sydd.
 Awn â cherdd, yno chwarddwn,
 Apla'n y tir yw plant hwn.
 Dwyn a wnân' bob dyn 'n ei ôl,
 60 Deg o winwydd digonol.
- Hir gynnal, hwyr oganu,
 Heb bwys ei faich, hapus fu.
 Hap a gafas ei nasiwn.
 64 Hap êl i holl epil hwn!

Ffynhonnell
Llst 53, 164

Darlleniadau

4 ..i mronn.. 17 ..ira rhod 24 ..air bedd 25 ..y nvdd 52 hedd n ol..

Moliant Dafydd ap Hywel ap Dafydd Llwyd, Llanwnnog

- Y mae rhoddion mawr heddiw,
 Oes, lawer rhodd, islaw'r rhiw.
 Mae naw cannyn mewn ciniaw,
 4 Mae ôl eu traed, mil, hyd draw.
 On'd da i'r gwestwyr, tir gwystl,
 Yw Tŵr Eryr tir Arwystl?
 On'd oer oedd ym dario ddydd?
 8 A daed dyfod at Dafydd.
 Ni ddryllia rhodd o'r llaw 'rhawg;
 Nobl a gawn o blwy Gwnnawg,
 Ac yno rhoi wheigen rhydd
 12 Ym o gyweth am gywydd.
 Llyma ennill lle mynnwyf
 Llen y graig; llwynogi'r wyf.
 Drwg yw i rai o dra gwres
 16 Neitio allan o'u tyllles.
 Gŵr o fewn y gaer wyf fi.
 Gwŷr eraill a gâr oeri.
- Arian tawdd yw'r un tyddyn,
 20 Newyddfwyd iach, noddfa dyn.
 Byrddau cwmpas ei wasel,
 Bwydau fydd fal bydaf fêl.
 Ni wedd yma, Nudd ymwrdd,
 24 Draean y bwyd ar un bwrdd.
 Nid yw lai saig, da le sydd,
 Deunaw gŵyl dyn no'i gilydd.
 Er darfod, a'i fod yn fedd,
 28 Y tair afon, nid rhyfedd,
 Ni dderfydd diodydd da
 A'r bwyd aml i'r byd yma.
 Lle'r gwinwydd oll a'r gwenyn,
 32 Lloches deg lle iachus dyn.
 Ni roed yn wŷr wedi Nudd
 O rent Ifor ond Dafydd.
 Dyn a eurwyd yn eryr,
 36 Dewrder gwalch dordor â gwŷr.

- Mawr oedd ei air am a ddêl,
 Mwy hwp ewin mab Hywel.
 Coed Gwên oedd, cydgynyddwyd,
 40 Cynan ac Elystan lwyd.
 Cyff Gwennwys a gynnwys gŵr
 A dwy adain o Dewdwr.
 Nid oes enw hyd y sonioch
 44 At hil a gwaed Hywel Goch.
 Dyn a'i leithig dan lwythau
 A dyn wen oedd dan un iau:
 Gwaed a llin y brenhinoedd,
 48 Gwaed rhai'n uwch i Gatrin oedd.
 Ceirw naw tir yw ceraint hon,
 Cannaid lân cenedl Einion.
 Gwraig oedd, i'w gŵr y gweddai,
 52 Gwell ei rhodd no gallu rhai.
 Rhô'i'n fynych, rhai'n feinael,
 Rhô'i'n fwy 'mhell no'r henfam hael.
 E ddyry hon y ddwyran,
 56 Yntau a rydd hwnt ei ran.
 Dau'n ymryson daioni,
 Dau ŷnt ar ôl dwyn y tri.
 Deuddyn yn cael, ennyn clod,
 60 Dau ni omedd dan amod.
 Dau dda fyth bob dydd a fo,
 Dau gytûn; Duw a'u gato!
 Dau nod aur dan y dwyrain,
 64 Duw Iesu rhoed oes i'r rhain!

Ffynhonnell
 Llŷt 53, 126

Darlleniadau
 2 ..law rhyw

Moliant Lewys Gwyn ab Ieuan, Trefeglwys

- Y carw ffriwlwyd, corff Rolant,
 A ddyly at ieirll ddal y tant,
 Tor iau, Lewys, trwy luoedd;
 4 Tynnu'r llwyth at hen ieirll oedd.
 Mawr yw dy rym ar y drin:
 Mae byw, bual, bob ewin.
 8 Wyth o waliau ni'th *ddelynt*,
 Lewys, gorff Eleias gynt,
 A thrwy heol, o thrawan',
 O flaen dy wŷr fal yn dân.
- 12 Ni chawn awr, a chwi'n wrol,
 Laesu'r did, Lewys, ar d'ôl.
 Ni chaid fyth er gwyched fai
 Enni i'th bais un a'th bwysai,
 16 Llin Dafydd, llwyn a dyfynt,
 Llaw lawn gwin Llywelyn gynt.
 Coffâu'r himp a'r cyff o'r rhain,
 Carw ffyrfwayw, corff hirlfain.
 20 Tapr ystlys top Arwystli,
 A thyrs a dawdd o'th wres di.
 Uwch y nen y'ch enynnwyd,
 A thân o nerth einion wyd.
 24 Mae'r gwaed am aur egwydydd;
 Mêl yw'r gwaed ym moliau'r gwŷdd.
- E roed anian ar d'wyneb:
 Ffortun uwch no pharti neb.
 Er gwynnu'r gwallt gan wŷr gwych
 28 Mae byw nerth meibion wrthych.
 Ir yw dy liw ar dy wlad;
 Ir a glaswyn yw'r gleisiad.
 32 Os hen eryr sy'n arab,
 Iaith Non o ferch a'th wna'n fab.
 On'd da cad o'th wlad i'th lys
 Dyn loywen dan iau, Lewys?
 Lloer ddidwyll, llariaidd ydoedd,
 36 Lloer Hywel wych, lliw'r haul oedd.

- O bu'r blaid yn bwrw blodau,
 Ar eich holl dir ewch ill dau.
 Cydgynnal fal coed gwinwydd,
 40 Cyd-dynnai faich, Catwn fydd.
 Dwbwyl yw stôr dy blas di,
 Di-drai gwledd, doed arglwyddi.
 Trefeglwys, gwlad Bowys bant,
 44 Tir a phennaeth trwy ffyniant,
 Byrddau a gwledd beirdd a gwlad,
 Bu swrn i bwysio arnad.
 Bwyd a gaem; bid i'w gymell,
 48 Pobl aed byth, pawb o wlad bell.
 Bid dy glod ffordd y rhodian',
 Bo drwy'r byd i bedwar ban.
 Bo yt oes bywyd dy wŷr!
 52 Bo yd air tra fo byw d'orwyr!
- Ofni caid o fewn cedyrn,
 Lewys, Uwch Coed lais eich cyrn.
 Is Coed dwy oes y cedwych
 56 Y glod a'r gair, gwladwr gwych.

Ffynonellau

A—BL Add 31061, 123^v B—Bodley Welsh e 4, 22^r C—Llst 133, rhif 1142

Amrywiadau

2 BC ..ddal tant 7 ABC ..ni thelynt 14 BC enni th.. 17 BC koffa r.. 23 B ..gwae.. 26 B a.. 32 A ..wnai n.. 45 ABC byrddav gwledd.. 48 BC pob aed.., B ..paw o.. 52 C ..yt..bywyd.. 53 ABC ofn i..

Moliant Ieuan Gwyn ap Lewys Gwyn, Glynhafren

- Ieuan, ni bo ewin bys
 Ball bower, bw holl Bowys.
 D'aur i bawb dihareb oedd,
 4 Dyrneidiau d'arian ydoedd.
 Tref i wleddoedd trwy flwyddyn,
 Idloes, â gwaed Lewys Gwyn.
 Tëyrn o wŷr, tirion wyd,
 8 Tromlaw uddun tra 'mladdwyd.
 Mae hwp breichiau'r mab brychwyn,
 Mae'n us dy wayw, mewn ais dyn,
 Barwn tir â braint Urien,
 12 Blaidd o iawn had Bleddyn hen.
 Os o henwaed y soniyn',
 Dilys yw gwaed Lewys Gwyn.
 O Dewdwr hen doed y rhyw,
 16 Da wladwr, yn dâl ydyw,
 A dól a thid êl i'th iau
 Derwas gynt a'i rwysg yntau.
 Dy dad,—eilon dwy dalaith,
 20 Tair o du mam, tiriad maith.
- Tarw a breichiau tir Brochwel,
 Taria wŷr beilch, taro'r bêl.
 Trom yw'r wedd, torri mae'r iau,
 24 Tro dy lwyth trwy daleithiau.
 Tair yn un y troen' ennyd;
 Trowch i gael tair i chwi i gyd.
 Rhyw ych â'r bar, rhychor bôn,
 28 Wyt ar wŷr eto'r awron.
 Dugost oll dy gost allan;
 Dithau â'r glod a'th wraig lân.
 Gwenllïan, teg oll i'n tir
 32 Yw gwawr Arwystl, goreurir.
 Y tri ni wŷr, a'u troi'n un,
 Fwrw ei chost, ferch o Westun.
 Iawn yw'ch dwyn yna eich dau
 36 I'r un Ynyr o Nannau.

- Ni chaut, Ieuan, i'ch tuedd
 Dy ran heb wŷr draw'n y bedd.
 Di a gosest dy gasau;
 40 Dig ŷn' hwy wedi gwanhau.
 Aent o'th ôl hwnt i'th ddilyn
 Dan dy draed ennyd i drin.
 Ni wŷl y gwŷr elw o'u gwaith;
 44 Ni bo elw i neb eilwaith.
 Ni all gwŷr oedd yn holl Gred
 Â chwi ymladd a'ch amled.
 P'le gwn waed heb blygu'n is
 48 Heblaw Ieuan ab Lewys?
 Ac yn dy lid gan dy lais
 Can tref cennyt a rifais.
 Ofer yw llan fry a llys
 52 Draw heb Ieuan drwy Bowys.
 O bai'r beilch yn bwrw bolchwydd,
 I neb o'r rhain na bo rhwydd.
 Gwylltia, filwr gwalltfelyn,
 56 Canol y ffair, cawn alw ffyn.
 Ewyrth dewrion wrth daraw
 A'u meistr wyd ym Mhowys draw.

Ffynonellau

A—Llst 53, 367 B—Brog 2, 214^v C—Llst 118, 575 D—J 101 [= RWM 17], 289 E—BL Add 31067, 240^r

Amrywiadau

7 *E* [7–16] 12 *BCD* ..naw hud.. 15 *BCD* [15–16] 19 *A* ..eiliav n.. 20 *A* dair..dvriad.. 26 *A* ..trwy awch i gyd, *B–E* ..chwi gyd 30 *A* dithavr glod di ath.. 31 *B–E* [31–2] 34 *B–E* ..y ferch.. 37 *A* ..chaid..dvedd 41 *A* ..ith ol.. 42 *A* ..don yn dy.. 43 *A* ..welai r..or gwaith 44 *A* na.., *D* ..bv.. 45 *A* ..alle.. 46 *C* i chwi.. 50 *A* ..genyd kynn trafais, *BDE* ..genytt.. 51 *A* ..yn llann..yn llys 56 *B–E* canol ffair..

Moliant Ieuan ap Morys ap Siancyn, Clochfaen

Pwy'n llew trin ar fyddin fawr?
 Pan fai lawnwaith pwy'n flaenawr?
 Pwy draw yn cael powdrian cig,
 4 Palf y cawr, uwch plwyf Curig?
 Plad a dur, plaid a dery,
 Post ar dir Powystir fry.
 Ieuan ffyrf, ewin â ffon,
 8 Yn ysgwâr, â'n ysgyriion;
 Milwr gwrdd mal ar gerddynt,
 Mawr wayw ysgwâr, Morys gynt.
 Coed gwin o Siancyn y sydd;
 12 Cydgenedl yw'r coed gwinwydd.
 E roen' wŷr yr hen eryr
 O flaen y llaill fal hen Llŷr.
 Llwyn ir derw'n llenwi'r darren,
 16 Llewod hil Hywel Llwyd hen.

Dwyn Deau fawr dan dy fys;
 Dy wayw bioedd Dwy Bowys.
 Crwn y dôl wŷr Ceri'n d'ôl,
 20 Pobl Einion, pawb olynol.
 Tros deudir y trawst ydych,
 Trestl aur trwy Arwystli wych.
 Cornor wyd yn crynhoi' i wŷr,
 24 Craffwayw Morys, corff eryr.
 Ni wn *i* ddyn yn ei ddig
 Ond llew neu garw'n Llangurig.

Oen Duw oeddud yn dyddiaw
 28 A llew'n y drin allan draw.
 Caredig i'r câr ydwyd,
 Cyfion a gwych, cefnog wyd.
 Ieuan, cadarn yw'n ceidwad
 32 I rodio'ch tir wedi'ch tad.

O dygir ach,—dy gâr wyf,
 A'th fardd awdl i'th fwrdd ydwyf.

36 Ni bu roi neb o'm barn i
 Hyd dy lin at haelioni:
 Pob rhai a ddaw, pob rhyw ddyn,
 At dy deirbort i'w derbyn.
 Dy wraig, Ieuan, dragywydd
 40 I'r byd yn rhoi bwydau'n rhydd.
 Ni bydd gŵyl heb weddi gwan
 Nac yn llaw-wag Wenllïan.
 Ni lanwai o lawenydd
 44 Eb weiniaid awr o ben dydd.
 Nid âi wan o'i daioni
 Neu dlawd hen i'w dyled hi.

48 Ieuan addwyn wineuddewr,
 N'ad di yn d'ôl ond dyn dewr.
 Myn, er gwg manwyr gweigion,
 Dy ran â phwys dwrn a ffon.
 Aut trwy hafog at ryfel
 52 Eb waetha'r beilch byth â'r bêl.
 Treia'u rhuad trwy'r heol,
 Tyn yn dynn y tannau'n d'ôl.
 Taro fal tri o filwyr;
 56 Torres y gwayw'n treisio gwŷr.
 Tradewr o natur ydwyd,
 Trig â'r gair, trugarog wyd.
 Trem dewrwalch trwm ei darian,
 60 Taer dewr wyd, Duw ar dy ran!

Ffynonellau

A—Card 2.623 [= Haf 13], 136^v B—BL Add 31067, 210^v

Amrywiadau

1 *B* ..y.. 4 *AB* palfu cawr.. 8 *B* ..ag yn.. 13 *B* arhoen.. 15 *A* ..llenwi darren 17
AB dwy.. 21 *AB* ..trwst.. 22 *AB* ..Arwystl.. 23 *AB* ..crynohau wyr 25 *AB* ..wn
 ddyn.. 26 *B* ..garw Llangirig 28 *A* ..llew n drin.., *B* ..lle n y drin.. 38 *AB*
 ..deirbord.. 44 *AB* ..y dydd

Moliant Siôn Colunwy

E ddaw isod y ddwysir
 Yn ôl Siôn wineulas hir:
 Dyn heb wad yn dwyn y bêl
 4 Ar holl randir Iarll Rwndel.
 Wyth o wledydd âi i'th ledol
 A fwriai'r did fawr ar d'ôl.
 Aeth yt iau a thid Hywel;
 8 Euro'r did i'r war y dêl.
 Ewch yn ben ucha'n y byd,
 Ewch am obaith o'ch mebyd.
 Holl einioes â llawenydd
 12 Lle gwnaeth dy famaeth di fudd,
 Blodau iechyd, blaidd uchel,
 Brig yd mewn bragod a mêl.
 Ni thwyllir ach o'th holl wraidd
 16 Heb ran henwaed brenhinaidd.

Dy gadarn blaidd a godir;
 Dy wres a'i tyf dros y tir.
 A geisio gŵr a gwas gwych
 20 Wedi Arthur,—aed wrthych.
 Doe'r enillaist ar neill-law
 Roi troed ar war y tir draw.
 Pleidiwr, a mab hael ydwyd,
 24 —Pwy'n rhoi?—a thi, penrhaith wyd.
 Dy gledd â'r bysedd o'r bôn
 Draw a dduriwyd ar ddewrion,
 Dyn â llafn yn dân llifaidd,
 28 Durfael pawl onn Derfel plaidd.
 Dwyn gwayw a'i awch yn dân gwn
 Drwy oreugwyr fal dragwn.
 Ni'th ddaliodd dyn, e'th welais,
 32 Â bar, rhyw Clwn, heb roi clais.

Ar gedyrn yr og ydwyd
 A gw lith i wan; golaith wyd.
 Ni charud na gochlyd gŵr
 36 Nac un honnaid gynhennwr.

Gwnaud d'ynnau ar gnawd dynion,
 Gwnaud â phawb a gnôï dy ffon.
 Nodud y trum *dan* waed draw;
 40 Nid oedd antur dy ddeintiau.
 Doud erioed hyd yr adwy,
 Dant yn nant, a'u deintio 'nhwy.
 Ni'th hastia un o'th ystâl
 44 Y bo ddwyawr heb ddial.
 Ni chysgud, ni safud, Siôn,
 A'th gwilydd i'th galon.
 O hir feddwl hwyr fyddai
 48 Wybod dy rin heb waed rhai.

Digyffro wyd, deg ei ffrîw,
 A di-chwydd ydych heddiw.
 Ni roud arian ar diroedd
 52 Ond aur yn iawn dewrion oedd.
 Ni wnair â'u hiawn yn wŷr hwy
 Sy'n cael iawn Siôn Colunwy.
 Ewch a thelwch chwe thaliad;
 56 Damwain yw rhoi dimai'n rhad.

Oen gwâr wyd, yn garedig,
 Y tyf yr aur at ei frig.
 Dewr fu weled ar filwyr
 60 Dy ffrîw, gwalch, yn deffroi gwŷr.
 Digia'r beilch! Dwg air y byd!
 Duw a'i cynnal! Duw cennyd!

Ffynonellau

A—Pen 82, 59 B—BL Add 14989, 37^v C—BL Add 31067, 221^v

Amrywiadau

4 *BC* a.. 5 *BC* ..wledydd ith.. 7 *BC* ..hyd iav.. 13 *B/C* blodav r blaid in rraid a
 ael/da hael 14 *B/C* ..bargod am ael/aniael 15 *A* nith welir.. 18 *BC* ..sy oll
 dross y ssir 22 *BC* roir.. 23 *BC* ..mab howel.. 26 *BC* ..a ddiriw.. 28 *BC*
 ..plwyf derfel.. 31 *ABC* ..ath.. 32 *B* ..hiw.., *C* ..Huw.. 36 *BC* na vn.., *A* ..yn..
 37 *ABC* ..tynav.. 39 *A* ..y drym ynn wed.., *BC* ..ty rym yn.. 42 *BC* ..yw
 deintio hwy 43 *BC* [43–4] 48 *BC* ..rym..traï 49 *BC* ..y ffrîw 52 *A* ..avr iawn..
 53 *BC* ..wnai rai.. 54 *BC* ..kael ssiôn.. 55 *BC* ..wetholiad 56 *BC* ..dim yn.. 58
BC ..tyf avr at ty.. 62 *A* ..dv kened, *BC* duw lew gwyn ai deil genyd

Gofyn tarw gan Owain ap Hywel dros Hywel Gethin, Brontyn

Adwen blaid yn dwyn blodau,
 A'i gwyn a dddwg un neu ddau.
 Moliant oedd ym mlaen tyddyn
 4 Ednob erioed yn y bryn.
 Mawr o barch, am aur a bwyd,
 Ym yw Hywel, mwyhawyd.
 Mae i'w wylïo beirdd mal y bu
 8 Wyl uchel yma heb lechu.
 Owain gadarn âi'n geidwad,
 Yn llew dewr unlliw â'i dad.
 Ar wŷr eraill yr awrwn
 12 Yr iau fôn hir a fyn hwn.
 Ni bu'r did na bai ar dynn,
 Ni bu ystod heb estyn.
 Cyffion pendefigion fu,
 16 Caiff Owain eu coffâu.

Clywed cynnal clod cannyn;
 Caent yno hael cynt no hyn.
 Coffâu hen goed, cyffion gwin,
 20 Cannoes encyd cyn Siancyn.
 Gair fu hwnt gwir i'w fwyhau,
 Gair a gynnal gŵr gwinau.
 Glain arian glân i'w euraw,
 24 Glain o dref Golunwy draw.

Gŵr a geisiodd gwregysaur
 Gwreica'n wych; gorau cawn aur.
 Mae henwaed da ym mhen tŵr,
 28 Merch Wiliam, ar uchelwr.
 Arwydd oedd ar y ddeuddyn
 A dddwg ystad ddeg oes dyn.

Hywel ych, wych ei iachoedd,
 32 Gethin, awch gwayw a than oedd.
 Hafod oedd hefyd iddaw,
 Bentwr drud, heb un tarw draw.

36 O chais darw â chest eurych,
 Gofyn darw gan gefnder gwych:
 Arth y'i câi wartheg Hywel,
 A than dwyg eithin y dêl;
 40 Hen gwrtiwr allt yn gawr trin,
 Hen Dwrc aeth, yn darw cethin;
 Barrug o wlith brig y lan,
 Blewdwn leidr boldyn lydan;
 Twyg o gads teg i gedynt,
 44 Toron garth ni ad rhew na gwynt.
 Nid âi un awr i dai neb,
 Nis gad unnos godineb.
 Llynnu bydd allan heb iau
 48 Lloi gant unlliw ag yntau.
 O châi rodres a chrwydro,
 Â'i chwaer a'i fam chwery fo,
 Dragwn byw drwy gan buarth
 52 Heb ochel neb, â chlun arth.
 Dôl gafod yn dygyfor
 O darth a dwst wrth ei dor.
 Llun baril llawn y borau,
 56 Llew obry, 'n gig, llawbron gau;
 Dyrnau gwadd, darnau o gyrrn,
 Dwbl ysgwydd deubawl esgyrn.
 Nid oes o'i war hyd ei swrn
 60 Draw i 'mysgar drum asgwrn.
 Cawr a'i fwng i'r crafangau,
 Cwd yw o gig gwedi'i gau.
 Cenau fal arth cyn ei flwydd,
 64 Gwar gigog ar ei gogwydd.
 Coffr ydyw i'r cyffredin,
 Caead a'i glog hyd y glin.
 Trwynfyr dan het o'r henfath
 68 A rhonell hir hwy no llath.
 Tor hyd y gwellt, traed y gist,
 Tindrwm, capandrwm, pendrist.
 Twmpath—mae unllath?—meinllef,
 72 Tewdwr gwar, wtreswr tref.
 Tir y ddôl, torrai ddeulwyth,
 Tyweirch a'i try mal Twrch Trwyth.

76 Teg yw'r rhodd, nid hagr heddiw,
 Tarw dan bwyth tri eidion byw.

Ffynonellau

A—Llst 30, 477 B—Gwyn 1, 121^v C—Brog 2, 212^v D—J 101 [= RWM 17], 286 E—BL Add 31056, 110^v F—BL Add 31067, 218^v

Amrywiadau

7 *A–D* ..i.. 8 *C–F* mab wyl ychel heb.. 9 *B–F* ..am., *EF* ..godiad 11 *EF* ..a arferwn 12 *A–D* ar.. 14 *B–F* na bai.. 16 *EF* ..gain i.. 18 *EF* ..yn hael.. 21 *EF* gair hwnt., *C–F* ..fowrhav 22 *E/F* y gwin/ugain a gynal gwinav 23 *EF* ..yn.. 24 *EF* glain yw o.. 28 *EF* ..mawr vchelwr 31 *EF* ..wych iachoedd 34 *EF* ..taraw.. 36 *EF* ..i.. 37 *EF* ..o cai.. 42 *EF* blew dew., *AB* ..lleidr.. 43 *EF* twyn.. 46 *BCD* ..y nos.. 47 *EF* llvnio., *B* ..byth.. 53 *EF* doi i.. 54 *EF* ..dy dorr 58 *EF* ..dewbawl.. 60 *A* draw ymysgar., *EF* draw yw.. 61 *EF* cawr yw..er.. 62 *A–D* ..wedi gav, *EF* ..gwedi cav 68 *ABD* a chonnell.. 69 *CDE/F* torr/ton hy gwell.. 75 *A–F* ..yw rhodd..

Moliant Lewys Fychan, yr Ystog

- Pwy'n y siroedd pan sorren'?
 Pan na wŷr pawb pwy'n yw'r pen?
 Palf a yrr plwyfau i orwedd,
 4 Pennaeth gwlad, pan noetho'i gledd,
 A briw d'arf a bryderir,
 Braich Lewys, hawg brychlas hir.
 Blaen Tryffin, o blant Ruffudd
 8 Ni bo'r war heb aerwy rhudd.
 Mae wŷr Ddafydd mor ddifalch;
 Myn waed o bydd mewn dyn balch.
 Ar dreiswyr oer direswm
 12 Dyro fin draw d'arf yn drwm.
 D'osod, y wlad is dy lin
 A'i detholwaed i'th ddeulin.
 Bo urddas ywch, byrddau Siob,
 16 Braint hen wadn Brontyn, Ednob.
 Aer llwydwyn yr holl wledydd,
 Arwystl fawr is dy law fydd.
 Eginodd ffrwyth gwinwydd Ffrainc,
 20 Lwyth Dwy Elfael, i'th dalfainc.
- Yntau, meirion tymhoredd,
 Yn twymo'r wlad, tu yma i'r wledd.
 Tai ac adail,—teg ydynt,
 24 Tiroedd y gwaed da'i wraidd gynt.
 Ffynnu cyff Owain y'i caid;
 Ffynnodd ei gorff a'i enaid.
 Epil i'w ferch apla' fydd,
 28 Adar Gwen ydyw'r gwinwydd.
 Llwyth aeth o'r ieirll hen i'th ran,
 Llwyn wellwell o hyn allan.
- Tair maenor, tir a mynydd,
 32 Tre' Gŵyl-y-fuwch, triagl fydd.
 Tai Caer-ludd tu acw i'r lan,
 Teils faich tai Lewys Fychan.
 Tyrfa i mi tra fo 'mywyd,
 36 A Gwen o'u mewn,—gwyn 'y myd!

Cyflu gwaith capelau gwin,
 Crest y fron, croestai *i* frenin:
 40 Cyrfin gwŷdd cryfion i'w gwau,
 Calch a gwydr cylch eu godrau;
 Corfau, sail Caer Fasaleg,
 Cynglyn o dair conglen deg.
 44 Croesed Mab Mair, nid llai, 'r llys,
 Crist â'i law croesed Lewys!

Rhoed dy Dduw Nêr yt dda'n wych;
 Rhan a gawn o'r rhain gennyh.
 48 Rhoi od ar wŷr hyd yr iau,
 A chywaethog ych chwithau.
 Rhai heb roi i neb, rhybrin ŷnt,
 Dial ydoedd, a dlodynt.
 52 Ni theli d'aur i'th law di,
 A'th laned i'th haelioni.
 Lewys, o bu laes y byd,
 Eto cynnal tŷ cennyd.
 56 Gwen, nid oes gennyd eisiau
 Na bara hen i brinhau.
 Llaw a rydd beunydd i'r byd,
 Llaw dda i gynnull oedd gennyd.
 60 Glân fonedd gwragedd o Gred,
 Gorau Gwen no gwraig aned.

64 Oed y ddâr lwyd o ddaer lân,
 Ail oes fych, Lewys Fychan.
 Hen yw'r derw, hŷn no'r darren;
 Hŷn fo'ch gŵr! Hyna' fych, Gwen!

Ffynhonnell

BL Add 14965, 72^v

Darlleniadau

2 pam.. 38 ..kroestai frenin 39 kyrfian.. 49 rroi.. 53 ..lais.. 54 ..tv.. 61 ..o
 ddaiar.. 63 ..yw derw hyn no..

Moliant Lewys Fychan, yr Ystog

- Oes faich ar Lewys Fychan?
 Oes glod a roes gwlad i'w ran?
 Cynnal yr ardal yr wyd,
 4 Caer gwinllan, y carw gwynllwyd.
 Dy wlad ar dy law ydoedd
 A dwy neu dair danad oedd.
- 8 Da gwedd o'th rinwedd a'th ras
 I fôn d'arddwrn fynd urddas.
 Darnia graffwayw, dwrn Gruffudd,
 Dawn Duw a roed yn dy rudd.
 12 Aeth y ffriw o'th ddeffroad
 Â phryd a dull ffriw dy dad.
 Lewys, gledd, awchus, gloyw ddur,
 Fychan, eto fo'ch natur.
 Gwreichionen drwy'r onnen draw
 16 Aeth yn danllwyth yn d'unllaw.
- O'th wyth hil y'th ddetholaf,
 A phen wyth gyff ynn y'th gaf.
 Mawr yw gennym o'r gwinwydd
 20 Fwrw dau dir; fyrred y dydd!
 Buellt, Arwystl, bell diroedd,
 Bryn eto'n aur Brontyn oedd.
 24 Llwythau brig o'r goedwig gadr,
 Llwyn gwaed ail llin Gadwaladr.
 Yr oedd adain urddedig
 Ednob erioed yn y brig.
- 28 Maint dy rym mewn natur oedd,
 Mwya' wrsib i'r Marsoedd.
 Cae cadarn a'u coc ydwyd,
 Cleddau ffyrf Clawdd Offa wyd.
 Mae a'i bwys draw ym mhob stryd;
 32 Mae'n llai grŵn ynn Lloegr ennyd.
 Ofn dy lais ar Sais y sydd,
 Oes, ar f'einioes, Hir Fynydd.

36 N'ad i'r ymyl i dramwy,
 Nesaen' hwnt, eu nasiwn hwy.
 Eryr glew wyd ar war glyn;
 Hwyttau, adar hwnt ydyn'.
 40 Dy wŷr a saif ar dair sir,
 Dy ddeiliaid oedd a welir.
 Dy ddeublas, wedi'i ddyblu,
 Dwy neuadd fawr, d'annedd fu.
 44 Gwalau ydyn' i'r gwledydd
 Ac aelwyd fawr y glod fydd.

Gair o sôn am haelioni
 Aeth rhag ei daed i'th wraig di.
 Rhoddion Gwen rhwydd iawn a gaid
 48 O'r llaw gynnu i'r llu gweiniaid.
 Aed y gwan wedi'i giniaw
 A'i fol yn drwm o'i flaen draw.
 Ni wyl ef yn ôl yfed
 52 O'r barth i'r llawr borth ar lled.
 Ni ad Duw orig, oed derwen,
 Laesu gair Lewys a Gwen.
 56 Dau acw'n rhoi deucan rhodd,
 Dau gymar nis degymodd.
 Dŵr Iesu, bu dros ei ben,
 I'r ddau wyneb, Urddonen.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 72^r B—BL Add 15000, 167^r

Amrywiadau

2 AB ..roed..o ran 7 B ..gweddai.. 9 B [9–10] 23 AB ..brig koedwig kadr 24
 A ..ael., B ..vel.. 41 AB ..wedi ddyblv 49 AB ..wedi giniaw

Moliant Syr Rhisiart Herbert

Pwy'n iarll hir, pen yr holl iaith?
 Pwy hwnt elwir pont eilwaith?
 Pob dyn oll, pawb âi dan un,
 4 Pen wyt heddiw, pont uddun.
 Troest, wŕ y god, tros Dair Gwent;
 Tro, bwrw eilmodd trwy Barlment.
 Tri, Syr Rhisiart, tros reswm,
 8 Tri llew trwy Went â'r llu trwm.
 Ai chwith dwyn eich iaith danad
 Na chwaith ei dwyn ucho i'th dad?
 Ewch—nefoedd i'ch hynafiaid!—
 12 Uwch Hafren; ewch i fwrw naid.

Awch nawnyn gwych âi'n y gŵr,
 Naw caine aur naw cwncwerwr.
 Un o Wentoedd a 'neintiwyd,
 16 Arthur o Went wrth wŕr wyd;
 Ffyrfa' gŵr, ffyrf ei gerrynt,
 Ffwg tir o gorff Ector gynt.
 Mwy byw arddwrn mab urddol;
 20 Main yw chwe dug mewn eich dôl.
 Marchog wyd meirch a gedwir,
 Mawr yw'ch corff o'r marchog hir.
 Melyn yw'r haul mal yn rhod
 24 Am war angel mawr yngod.

Gwaed aeth a ffrwyth gyda'th ffriw
 Godwin Iarll, gadwyn eurlliw.
 I'th war deulwyth aur dilin;
 28 Aros gloi aur is y glin.
 Aeth arwyddion i'th ruddiau:
 Gwaed Urien hen gadarnhau.
 Bu i'r holl ynys berllannoedd;
 32 Blodau'ch hen bleidiau chwi oedd.
 Mae'r un cefn mawr a'n cyfyd?
 Cynnal bwys canol y byd.
 Ar un ganllaw, 'r oen gwynllwyd,
 36 Uwch nen tir i'ch neiaint wyd.

- Herbart, un o'r Brytaniaid,
 Ni'th wnaeth Duw yn waeth no'th daid.
 Mae'r cwrt rheiol yn d'ôl di,
 40 Cainc aur hir Cyngor Harri.
 Iawn i'th waed, yno'th edir,
 Ddewis dy swydd, ustus hir.
 Ymwesgaist di 'mysg ystad;
 44 Maent hwy yno'n mynd tanad.
 Mae enw a gair mwy nog oedd,
 A mwy torri'r materoedd.
 Gŵr i ddwyn gair oedd yno;
 48 Gair o'th fin a'i gwerthai fo.
 Os y ddadl iso ddwedi,
 Hwyt-hwy a dau ond tydi.
 Hawdd i chwi fyth, heddwch fo,
 52 Wrth synnwyr werthu sy yno.
 Beth a wnaen' byth yn unawr
 Be baech i'w mysg, bwbach mawr?
 A bod y byd heb dy ben,
 56 Am lysoedd ymliasen'.

- Dos di i osod ustusiaith,
 Derbyn rent Harri, benrhaith.
 Bwrw di o'r fainc, bradwyr fu,
 60 Bell gamraint, bw holl Gymru.
 Bwrw, gaterwen, brig teiriaith,
 Bôn iau'r dysg, ben ar dy waith.

Ffynonellau

A—Llst 30, 414 B—Gwyn 1, 96^r C—Brog 2, 216^v D—J 101 [= RWM 17], 291 E—BL Add 31067, 230^v F—BL Add 31061, 168^r G—Llst 35, 50 H—Llst 133, rhif 448 I—CM 5, 161 J—Gwyn 5, 64

Amrywiadau

1 G–J [1–48] 5 F torest.. 6 F dro..bwy.. 7 F tir.. 8 ABE ..ar llew.. 10 A–E ..chwith.., E/A–D ..ai dwyn och gwaith dad/ach dad, F ..ai dwyn.. 11 D/F ..i nevoedd eich/ach.. 12 F ..wych.. 13 F awch yn naw yn vn ewch yn wr 18 AB ffwk.., F ffwc hir.. 19 F ..lid ddwrn.. 20 F ..yn ych dol 22 F ..korff marchoc.. 23 E ..y rhod, F ..yr od 25 D ..o.., F ..ai..gydai.. 28 F ..i gloi.. 29 F ath.. 31 A–F bvr.. 32 A–E ..deidiav.. 33 F maer yr.. 35 F ..llaw oen.. 38 EF ..wnaeth yn.. 39 F mae kwrt.. 40 ABE ..air.. 42 F dewis..diysus.. 43 F ymwasg.. 44 F ..yma.. 45 F ..enw gair.. 46 F .. torir y materoedd 47 F ..oddiyno 48 F ..gwrth efo 49 D 52–51; 49–50, F [49–50] 51 F ..a fo 52 F ..a

fyno, *J* [52] 53 *E* ..wnawn.. 54 *CDF-I* ..oi.. 57 *H* dos i., *IJ* dos di ossod., *F*
..di osod divsdvswaith 59 *F* bwrw or faink y bradwyr a fv 60 *A-F* ..o holl.,
F ..gamrrwys..

Moliant Mastr Rhisiart Herbert

- Yr eryr cryf ar wŷr Cred,
 O'r llwyth henieirll y'th aned.
 Mab yn tynnu, 'n bont ennyd,
 4 A gawn yn ben; gwyn ein byd!
 E fu anap i fanwyr
 Gael o fin Gwent golofn gwŷr.
 Bwrw â'th ddwyfraich byrth Hafren,
 8 Beisia ffordd Bowys i'w phen.
 Caeth yw gwŷr, cywaethog wyd,
 Caeth i henllew cethinllwyd.
 Mynnwch dir â min eich dart,
 12 Moes i'w drasau, Mastr Rhisiart.
 Dwg dalaith unwaith inni,
 Duw a wna tair danat ti,
 Post Dwywent,—Powys, Deau,
 16 A bwrw ffrwyth holl 'Berffro i'th iau.
 Cai ar wryd Caer Urien,
 Craig a thŵr caer y gath hen.
- O mewn y gaer maen' i gyd
 20 Y cawn eilfainc canolfyd.
 Nid wyf, byth nid af fi bell,
 Ond yn disgyn dan d'asgell.
 Ni wn ysgwydd un wasgad
 24 Neu ais dyn yn nes i'w dad.
 Hawdd tra fu ym mlaen lluoedd
 Hau'r berau tân; Herbert oedd.
 Mab, wyt wr, mebyd doriad,
 28 Marchog o Went, Mair a'ch gad!
 Trichawr mal teirw a awchiwyd;
 Trech ar wŷr no'r trichawr wyd.
 Derwen ymysg y drain mân,
 32 Uwch a galawnt y'ch gwelan'.
 Brwyn ydynt, byrion adeg,
 Bryn wyt ti, nai brenin teg.

- 36 Dygo urddas dy gerddynt,
 Darian Bendigeidran gynt.
 Mae'n gymwys mewn y gemau
 O bai le hwn heb leihau.
 40 Y ddau ddefnydd oedd unfaint,
 A gwyn dy fyd gan dy faint.
 Ni cheraist di'n ochr ystad,
 Nac un ernis, gwân arnad.
 44 N'ad weithian, eu d'rogan draw,
 Wneuthur ebwch o'th reibiaw.
 Nid yw oer yn y darian
 Ond ebwch gŵr dibech gwan.
 48 E wŷr dewrion ar d'wryd
 Fynd i'th bais fendith y byd.
 Iawn yt am hyn neitio 'mhell;
 Naid diarhebol nid rhybell.
- 52 Mae berw atom ein brutwyr
 I dri lle gael dryllio gwŷr.
 Brân yn saig brenin y sydd,
 Blin yw dwyn blaen 'i adenydd.
 56 Môr cadarn am Iorc ydwyd,
 Mur gwyn teg am war Gwent wyd.
 Deffro i'n dydd; dy ffrïw'n dân
 A dyr garliaid i'r gorlan.
 60 Rhyfedd, mewn anrhydedd rhed,
 Nad edrychant dy dreched.
 Rhydd dewiso guro'r god,
 Rhydd un treigl; rhwydd hynt rhagod!

Ffynonellau

A—Card 2.623 [= Haf 13], 138^r B—BL Add 31067, 213^v

Amrywiadau

10 AB ..henlliw.. 11 AB mynech.., A ..y dart 29 B ..teirw awchiwyd 30 AB tri ar.. 33 B ..burion.. 34 AB a.. 44 A ..ith.., B wneuthur ith.. 47 AB er.. 51 B ..mae brutwyr 53 B ..sais.. 54 B ..blaen adenydd 57 AB ..vn dydd.. 61 AB ..ddewiso..

Moliant Edwart Llwyd ap Dafydd Llwyd, y Trallwng

Pwy'n ŵr gwych, pen ar a gaid?
 Pwy o nyth y penaethiaid?
 Cnawd ieirll yw'r cenau dewrllwyd;
 4 Cnot fydd llin cnawd Dafydd Llwyd.
 Llenwi'r ffair oll yn wŷr ffyn,
 Llewod Edwart Llwyd ydyn'.
 Llawen yw'r wên, llawn o wrid,
 8 Llew blaenllym lle bai lawnlid.
 Syr Gruffudd, ddart onwydd tân,
 Syr Ffwg ydoedd, sarff waywdan.
 Di-flin wyd o flaen y wart;
 12 D'enw sy raid yn Syr Edwart!

Brenhinwaed, burion henwydd,
 Brochwel fab, ar eich ôl fydd:
 Brig gwŷdd, yn barcau oeddynt,
 16 Breichiau hen goed Brychan gynt.
 E gynyddodd gwinwydden
 Lwyn wrth hil Einion Yrth hen.
 Dôl Wennwys hen dan nesáu
 20 Draw o baladr drwy boliau.
 Carw â phlaid, corffol ydych,
 Cinast, yn ail Constan wych.
 Llwyth wyth o'r ieirll aeth i'th ran
 24 Lle mae pella' eu himp allan.
 Ffortun uwch no pharti neb
 Aeth o Wennwys i'th wyneb.

Dyfal yw gwawd, o flaen gwŷr,
 28 Aeth fry, Edwart, i'th frodyr.
 Gwn ar 'y mharch gan roi 'mhwys
 Gylchynu gweilch o Wennwys.
 Punnoedd gynt, pân oedd gyntaf,
 32 Peisiau ag aur pwys a gaf.
 Beirdd a gais byw ar ddau gant
 Heb wlad rhagor ble trigant.
 Bo urddas hir; bardd yw Siôn
 36 Yma i'r trimab mawr trymion.

40 Nid wyd ar ôl, nid ai draw,
 Nid ych, Edward, i'ch oediaw.
 Gwawd a wnaf gwedi 'nyfod;
 Gyda chwi fyth gedwch fod.

44 Câr Ffwg yw'r corff a gerais;
 Cryfa' dim yw corfau d'ais.
 Taro'r bêl, anturia'r byd,
 Torf, a'i ganol, tref gennyd.
 Trawst aur ydych trwy strydoedd,
 Tair lleng wŷr i'r Trallwng oedd.
 48 Y gwayw mawr a gymerest,
 Â gwaed o'i frig hyd y frest.
 Y mae dart llym, Edwart Llwyd,
 Mewn beilchion man y bylchwyd.
 52 Ni fwriwyd d'arf ar iad dyn
 A gâi eiriach ei gorun.
 Taro saeth lem trwy saith wlad;
 Dur chwynr ydyw'r awch arnad.
 Dewr wyd o bai droi dy bwys,
 56 Dewra' ganed o'r Gwennwys!

Ffynhonnell
 Brog 1, 207

Darlleniadau
 22 kinastr.. 31 ..pann..

Moliant Gruffudd ap Dafydd Llwyd

- Pwy'r gwayw mawr, pur gymeriad,
 A gadwai'r tir gwedi'r tad?
 Pwy'n wychaf pen a awchiwyd
 4 —Gruffudd—yn lle Dafydd Llwyd?
 Dwg gledd wedi'r mawredd maith,
 Cadwaladr yn cadw eilwaith;
 Brig gwŷdd Syr Gruffudd a'i sêl,
 8 Breichiau Gwennwys a Brochwel.
 Dy lwyth o hen dalaith oedd,
 O bren henwaed brenhinoedd.
 Pendefig o frig y fro,
 12 Palf a bonedd plwyf Beuno.
 Iach Hywel ywch a heuwyd,
 Awch hen llew, iach Ieuan Llwyd.
 Ffrwyth, Ruffudd, adenydd dur,
 16 Ffordun wyt, ffriw da'i natur.
 Gwarden wyd, gŵr hyd y Nordd,
 Gorau stwff o geirw Staffordd.
- Da fu d'eni, dwf dinam,
 20 Da eto fu dad dy fam:
 Braich ystad yr haelwlad hon,
 Brig coronig Caereinion.
 Mae'r llaw addwyn mor lleiddiad;
 24 Yn llawer twrn â llaw'r tad.
 Mae enw a nerth mwy no neb
 A iach Wennwys i'ch wyneb.
- Y carw chwimwth, cyrch ymwan,
 28 Cenau llew gwyllt, canllaw gwan.
 Caine o stad, cwnwest ydwyd,
 Cael awch a nerth—clau chwyrn wyd.
 Pleidiwr ffens, paladr a ffon,
 32 Plad am wŷr, pleidiau mawrion.
 Cadw'r wlad lle bu'r tad tau,
 Gyr drawsyr i gau'r drysau.
 Llew gwaedwyllt, llywia gedym,
 36 Llaw Nudd, â chorff lluniaidd chwyrn.

Na fydd wyllt; na faedda wŷr
 Yn y tir onid herwyr.
 Myn gariad mwy nog eraill,
 40 Myn d'ofni er llochi'r llaill.
 P'ynnag a gâi hap ennyd
 E fyn barch tra fo'n y byd.
 Mil yt a ddwg mawl atad,
 44 A mawl y tyn mal y tad.

Melys yw dwyn gwawd milwr,
 Mêl a gwin yw moli gŵr.
 Puro gwawd pêr a godir
 48 Browysgarw teg braisg o'r tir.
 O'r haelion ar a heliwyd
 Nid oedd un i'r nod ydd wyd.

Dof natur da iawn ytyw
 52 Dy wraig wen, dioriog yw:
 Catrin yn rhoi gwin i'r gwŷr,
 Cainc o irwaed cwncwerwyr.
 Y gwreiddyn a gâi ruddaur,
 56 At ei frig y tyf yr aur.
 Da y dôl, enw dadannudd,
 Merch Ieuan wych ym mraich Nudd,
 Wŷr Dafydd, ir ei dyfiad,
 60 Fychan, gleddyf arian gwlad;
 Gwraig wen deg garedig wych,
 Gwawr Phylib a'i gorff haelwych.
 On'd da hefyd yn tyfu
 64 Achau'r fam wycha' ar a fu?

Gŵr wyt, aeth gair yt weithian,
 Gruffudd wallt melynrudd mân.
 Trig yn d'air mwy no theiroes,
 68 Tyred gyda'r gred â'r Groes.
 Tros ben pedeiroes y bych!
 Tro ag urddas tra gerddych!

Ffynonellau

A—Pen 100, 228 B—Llst 133, rhif 68

Amrywiadau

9 AB tylwyth..talaith.. 11 AB bendefig.. 12 AB balf..blwyf.. 16 B ..wyd..

Moliant Wmffre Cinast

- Mae aerwy gwyn am war gŵr;
 Aur fo i'w weled ar filwr.
 Ni bu'r war heb oreurad;
 4 On'd aur yt oedd yn dre tad?
 Marchog addwyn march goddaith
 A gair ar frig y gaer fraith.
 Dy rest ar ôl, dair ystryd,
 8 Wmffre Cinast, ffair cennyd.
 Gwres yw ar y groes heol,
 Gwewyr a thân, gwŷr i'th ôl.
- Gorau, o bai ragor byd,
 12 Gael o undyn y glendid.
 Aeth o'i ledol, ni thlodynt,
 Syr Rhosier, gwrs ar sir gynt:
 Gwewyr gwynias, gwŷr gennyd,
 16 Cinast, ar war can ystryd.
 O dair llin y darllynynt
 Arglwydd ac Iarll eurgledd gynt.
 Er cael euro'r colerau
 20 Coron a ddug câr neu ddau.
 A'r carw nawcainc o'r Cnwcin,
 Gwaed ieirll oedd i gadw'r llin.
- Dyro d'eryd ar Deirgwent;
 24 Dy fraich oedd dros Dofr a Chent,
 A'th law arian a'th lurig
 Ym mwng y Trallwng y trig.
 Dwyn tir Brochwel uchelwaed,
 28 Dwyn iau y dref dan dy draed.
 Tyn eto lwyth, tant y wlad;
 Deunawtir a dynn atad.
 N'ad, Duw, a'th lwyth eto i'th law,
 32 I aelwyd Powys letbeiau.
 Gormodd, a'th greodd o'th grud,
 I'th hen dalaith on'd elud.

- 36 Meddylia'r modd a welest,
 Uniona'r ynn yn y rhest.
 Mygr wyt ti yn magu'r tân,
 Moes waith ym Mhowys weithian.
 Natur, heniarll y trinoedd,
 40 Yn dân byw yn d'wyneb oedd.
 Y ddraig wen a dd'roganwyd,
 Dâr Owain wych y drin wyd;
 Dwyfron y wlad a'i chadair,
 44 Dyrnau Ffwg, derwen y ffair.
 Ni'th bwysai ddyn i'th bais ddur;
 Nid un nerth ond enw Arthur.
 Wyth o dylwyth nid elynt,
 48 Wmffre, i alw gwaith Ffrolo gynt.
 O daw trafod at ryfel,
 Oddi ar bawb ydd ai â'r bêl.
 Myn di d'enw mewn dadannudd;
 52 Ymdrech yr wyd am dorch rudd.
 Y ddôl wen ni ddeil unawr.
 Ych urddol fych â'r ddôl fawr.

Ffynonellau

A—Pen 100, 350 B—Bodewryd 1, 302 C—Brog 2, 372^r D—J 101 [= RWM 17], 489 E—Llst 133, rhif 111 F—BL Add 14901, 7^v G—Pen 69, 145 H—BL Add 14975, 291^r I—Pen 87, 129 J—Card 4.10 [= RWM 84], 665 K—LIGC 2033B [= Pant 67], 87^v L—BL Add 31067, 198^v

Amrywiadau

1 *K* ..ar.. 2 *CD/B* ..fo a/fo welad.. 3 *BCDGHJ* ..bo r.., *E* ..wawr.. 5 *GHJK* ..meirch.., *I* ..merch.. 6 *CD* a gur.., *GHJ* ai gawc.., *I* ag ai gair.., *K* ai gau.. 7 *GHJK* dvriaist.., *I* dyrnaist ar dol.. 14 *CD* Roser..ser.., *IK* ..or.. 19 *CD* avr kael evrir.. 21 *G* ..kvn.., *K* carw.. 22 *CD* ..i gyd or.., *G-J* a.., *I* ..ierll i.., *JK* ..iarll.. 23 *J* ..ergyd.. 24 *G-K* ..aeth.., *I* ..ddofr.. 25 *CD* ..ith.. 28 *ABEFL* ..i draed, *G-K* ..iad.. 29 *C* ..dy wlad, *I* ..tanat wlad 31 *A-FL* ni ad.., *GHJK* nad ti.., *I* nat ath..oth.. 32 *G-K* i wlad.. 33 *G-K* ..ith grvd 36 *A-FL* ..rym.., *I* ..rai.. 37 *GH/JK* mygv r..ti magav r/magu r.., *I* 38-7, *I* magv r wyt di r mwg ar tan 39 *GHIK* ..henieirll.., *J* ..yn y.. 41 *CDG-K* draig..droganwyd 42 *GHJK* ..vwch.., *I* derwem yn ywch.. 47 *G-K* ..nith delynt, *I* ..oth.. 48 *CD* ..gwyr ffrilig ynt, *I* ..aill gwaith ffaro.. 50 *D* ..i ddoi.. 51 *CD* ..dadenydd, *E* ..enw.., *FL* myn d enw.., *I* a myn di enw..devnydd 53 *CD* ..ddeili.. 54 *I* ..ir..

Marwnad Wmffre Cinast

- Llwyn o waed ieirll ennyd oedd,
 Llew Powys oll a'i pioedd.
 Nid oes gwaed na dewis gŵr
 4 Ond y mangoed am ungrwr.
 Gwaedoliaeth hen goedlwyth aur,
 Gwar Cinastr oedd graig henaur.
 Mae'n carw llwyd mewn côr y llan,
 8 Wmffre Cinastr, ffrïu Cynan.
 Yn llawr ei fedd lle'r âi fo
 Llwythau henieirll aeth yno.
- Da oedd y corff, dyddio caid,
 12 Daioni Duw i'w enaid!
 Mewn rhyfel mae'n oer hefyd
 Mastr Wmffrai na bai'n y byd.
 Dwyn ei ran yn dynn yr oedd
 16 Ar draws, dewrion, dros diroedd.
 Efô'n ymladd fu'n amlwg
 O flaen y ffair fal hen Ffwg.
 Bu trwy wyneb y trinoedd
 20 Bileinllew mawr; blaenllym oedd.
 Llew, 'n greulon, llawn gwrolaeth,
 Llaw'n ei dop, henllew, nid aeth.
- Llaw ddyn nis lladdai ennyd;
 24 Llaw Dduw gwyn a'n lladd i gyd.
 Oer yw cwyn ei wraig heno
 Roi'n ei grys raean a gro.
 Oer ydd âi ar wedd ewyn
 28 Y dagroedd gwaed o'i grudd gwyn.
 Nid yw'r dref ond ar drafael
 Ysgar hon â'i sgwïer hael.
 Mae wylo trwch am lew trin
 32 Acw 'neucwr y Cnwcin.
 Torri mur tir a moroedd,
 Troi llong ar y Trallwng oedd.
 Cwyr ar Erbîn, cau'r eurbyrth,
 36 Crynu nen caer Einion Yrth.

40 Llom yw'r wal lle mae'r wylaw;
Llefain a droes llif Noe draw.
Llyn du allan y dianc
I foddi'r dref oedd ar dranc.

44 Oes am einioes ymwanwr
Un dyn nad âi dan y dŵr?
Deuwell oedd o'm deall i
No byw uddun eu boddi.
48 Darfu'r llan, a'r dref, a'r llys;
Duw, e bioedd Dwy Bowys.
Pen naw gwlad, a'u pinagl oedd,
Poen yw torri pen tiroedd.
Da wr gwirion, dewr gwrol,
Drwg i ni drigo'n ei ôl.

52 Da farwnwaed a freiniodd
Duw 'n y trŵn; doe yno trodd.
Draw 'gwae fi!' 'rhawg, drwg fu'r hwyl,
Duw—gwae finnau!—dug f'annwyl.
56 Dwywaith hen waed aeth yn wan:
Duw a dorrai did arian.
Ni châi lew trin, a chlod draw,
Oes i aros ei euraw.

60 Euro meibion o'r mebyd
Yn iawn a gawn yno i gyd.
Ni bo'r gwŷr, bu ragoriad,
Weithian i'w tir waeth no'u tad!

Ffynonellau

A—Llst 30, 411 B—Gwyn 1, 95^v C—Brog 2, 213^v D—J 101 [= RWM 17], 287

Amrywiadau

9 *D* ..roi fo 25 *A* ..y wraig.. 28 *A* dagreuoedd.., *B* dagroedd.. 35 *A-D* ..erbyn..
40 *B* ..soddi r.. 44 *CD* yw byw.. 61 *A* ..bvr..

Gofyn hug gan Owain ap Siôn, Llwydiarth, dros Syr Robart

- Capten Powys wen y sydd,
 Corff Owain, uwch Caer Ffawydd:
 Owain ieuanc wineuwyn
 4 A rwygai'r ffair a'r gwŷr ffyn.
 Owain mab Siôn ym mhob sias
 Drwy gannwr fal draig wynias.
 O chai sawd, awchus ydwyd,
 8 Awch Arthur wych wrth wŷr wyd.
- Mae trwy farn yma tra fych
 Ar Gelynin wŷr glanwych.
 Hael ai wrth lys Heiliarth lân,
 12 Hael fych o Hywel Fychan.
 Dewis gwaed yn d'ais y gwedd;
 Gwaed Llŷn a geidw holl Wynedd.
 Llwyth dau,—henieirll y'th dynnwyd,
 16 Llew byw, sai/ holl Bowys wyd;
 Llath aur gledd llwyth arglwyddi,
 Llew grae chwyrn yn Lloegr ych chwi.
 Mae o Wennwys ymwanwr;
 20 Ai llai nog awch llew'n y gwŷr?
- Yr oedd i ti wreiddiau teg
 A rôl hyder i hedeg.
 Os Dwy Wynedd sy danad,
 24 Ar dy stôl yr wyd o stad.
 [Ni'ch a]mheuan' chwi 'mhowys;
 [Ni ch]ais dyn balch estyn bys.
 [A]wch dy dad uchod y dêl
 28 [I]'r ffair wych â'r ffrîw uchel.
 Od wyd fal dy dad, filwr,
 Dieisin yw d'asau, 'n wŷr:
 Yn llew llwydwyn lle llidych,
 32 Yn ymladd er nawmlwydd ych,
 A phen at wŷr, a phont aeth,
 Ac eneidle'r genhedlaeth.
 Rhyfedd, nis cyrredd ceraint,
 36 [Enn]i dy fyw yn dy faint.

- 40 Nid wyd rhy fawr, da dro fydd,
 Ni wn gannwr un gynnydd.
 [Y] mwya' ei gorff yma i gyd,
 Ei ddau nerth oedd wan wrthyd.
- 44 Y llaw, er rhoi llawer rhodd,
 I chwi, Owain, ni chaeodd.
 Syr Robart, dan wart, dy nai,
 A thrinoedd, *uthr* ewynnai.
 Mae o fwriad am farwn
 Geisio hug i asau hwn.
- 48 Dwyn byth y mae dan bwyth march
 [Bai]s hoeled Bowys alarch.
 Aed i ymosod â meysydd,
 O fewn y bais ofn ni bydd,
 (O bai'n un ffrae bannu'n ffres
- 52 Bwn lliain heb un llawes,
 Gwae liain teg, *hw*lawnt oedd
 Â gwaith edau, 'n gaeth ydoedd.)
 Ac ni thyr ei gwneuthuriaeth
- 56 Na gwn, sawd, na gwayw na saeth.
 Ni welid draw yn ôl trin
 Man heb hoeled mewn pilyn.
- 60 Clwyd o liain, *clud* lawer,
 Cain maels hug canmil o sêr;
 Mân o fol maen y felin
 Neu glwt o rew'n gwyllo trin.
- 64 Syr Robart drwy'r fowart draw,
 Dôl i hael wedi'i huliaw.
 Ni'th edy fyth adwy fer
 Y wisg, Owain ysgwier.
- 68 Gŵr ywch, minnau gorchmynnais
 Yn fyw y bydd ef a'i bais!

Ffynhonnell
 Pen 84, 229

Darlleniadau

4 ..rwygai ffair.. 16 ..sai.. 44 ..ith rew yn ai 53 ..tec alawnt.. 59 ..klyd.. 64
 ..wedi hiliaw

Gofyn march gan Owain ab Ieuan, Dolobran, dros Hywel ap Maredudd

Y gŵr ffriwlwyd, gorff Rolant,
 A ddyly at ieirll ddal y tant,
 Owain ddewr a'i wayw'n ddwyran,
 4 Ail Ieuan Teg, linon tân.
 Mae'r glod a'i dyrnod arnaw
 —Mwyfwy trig ym Meifod draw!—
 A'r ddau adail ar ddeudir:
 8 Mechain hwnt oll, Mochnant hir.
 Ni thyn neb lwyth yn ei blaid
 Na baen' wyth o benaethiaid.
 Ei gael o gyff gwely gwin
 12 Yw cael enaid Celynin.
 Gwaed Dafydd yn goed hefyd:
 Llwyth o ben holl ieithau byd.
 Nid edwyn na dyn na dau
 16 Fan heb lin Iefan Blaenau.

Dug enw a chorff digon chwyrn,
 Do, 'n faedd coed, anfodd cedyrn.
 Dyn ym aeth dan ymwithiaw
 20 O'r dŵr a'i draed ar dir draw.
 Er bw anwyr ar bennaeth
 Llaw'n ei dop, henllew, nid aeth.
 Am ych isod ni chawsant
 24 Oblegid hyn blygu tant.

Duw a roes gost ar was gwych,
 Duw anfonai da'n fynych.
 Derwen ir â dwrn eryr,
 28 Doen' a wedd d'enni o wŷr.
 On'd hardd oedd drwy diroedd draw
 Gweled dyn â gwlad danaw?
 Gŵr erioed geirwir ydoedd,
 32 Gair Ieuan Teg a'i rent oedd.
 Doeth gadarn yn ei farn fydd,
 Dewr a hael drwy heolydd.
 A ddaw orig un dderwen
 36 Grin yn holl Gaereinion hen?

- Rhodd barwn rhwydd heb eiriach;
 Rhoi cynw byr o hacnai bach.
 O bu yntau'n ei bwyntiaw
 40 Gan Owain dri gwanwyn draw,
 Fy swydd bennaf sydd beunydd
 Roi mawl ar hyd amler rhudd.
 Ebrwydd fydd, a'r hydd i hwn,
 44 Bwyth i Hywel be thawwn.
 Mab a'i gyr heb ei guriaw,
 Mredudd, drwy Faelienydd draw:
 Darn ir hoyw'n dyrnu'r heol,
 48 Drych a wna edrych 'n ei ôl;
 Dyrnau tân yn darnio tir,
 Dirwyn mellt draean milltir.
 Hobi main heb ymennydd,
 52 Rhyw big fal yr hebog fydd.
 Mae ôl ei draed mal y drin,
 Mae'n rhoi'i agwedd mewn rhygyn.
 Y ffordd i'w gwau ffwrdd a gâr,
 56 Ffrwst olwyn ffres i dalar;
 Rhwygo rhiw rhag yr hëyrn,
 Ffriw carw'n ffo rhag cyffro cyrn.
 Llygaid oedd lliw gwaed iddaw,
 60 Llawnaid yr iwrch allan draw.
 Llun carw ffyrf, llawn yw corff hwn,
 Llew adeingryf llydangrwn;
 Main ei glust ym min y glyn,
 64 Mwnwgl alarch mewn gloywlyn.
 Blewyn isel a welais,
 Brawn baedd yn berwi'n ei bais.
 Edn i Heiob dan Hywel
 68 I fwrw ei dân 'fory dêl.

Ffynonellau

A—Brog 2, 375^r B—J 101 [= RWM 17], 494

Amrywiadau

19 B dym.. 23 AB am vwch.. 29 B ..hawdd.. 43 AB ..ir hydd ar.. 53 B ..mel..
 54 AB ..rhoi agwedd..

Moliant Wmffre ap Dafydd, Llanbryn-mair

Y llew dof â lliw Dafydd,
 A'i wychder oedd uwch dy rudd.
 Gwisg gadwyn, gosawg ydych,
 4 Am *ei* ffriw aur, Wmffre wych.
 Â'r llafn dur o'r llaw fain deg,
 A gwayw main, ac â maneg.
 8 Llwyth Hywel, â'r llath haearn
 Lle'r âi dy wayw'n llawer darn.
 Ewch ym mlaen chwemil o wŷr;
 Chwemil oeddych o ymladdwyr.
 Pyst euraid Powys, derwen,
 12 Pumil o'r himp, Meilir hen.
 Os galw gwaed, osglog wŷr,
 Adda Moel oedd y milwyr.
 Tybiais fyth at dy bais fod
 16 Tân awch y Tywyn uchod.
 Cornor drud yn crynhoi'r drin,
 Coelia, enaid Celynin,
 Os gwladoedd, osglau ydynt,
 20 Heb lwynau gwaed Blaenau gynt,
 Ni chawn fan o'ch hen fonedd
 Na bai uwchlaw neb â chledd.
 Gradd yn uwch nog yr oedd neb
 24 O fodd dynion fydd d'wyneb.

Yr oedd sôn, arwydd y sydd,
 Fynd i'th dwf fendith Dafydd.
 Ffynnodd ei gorff ei hunan,
 28 Ffynned i'th gorff fendith gwan.
 Mae golud, yma gwelir,
 Mae bywyd teg ym mhob tir;
 Mae byw a gras ym mhob grudd
 32 Yma'n tyfu maint Dafydd.
 Aeth, bu lesiant, i'th blasoedd
 Dy wraig o waed, rywiog oedd.
 Chwaer Elen uwch yr aelwyd
 36 A barai i bawb aur a bwyd.

- E roed cinio i raid kannyn;
 Ieuan ei thad a wnaeth hyn.
 Ni bu ac ni allai bod
 40 Ferch wrda fwy ei chardod.
 E fu'i thad yn geidwad gwych
 Ar Gelynin, wr glanwych.
- Wmffre waedwyllt am ffrydoedd,
 44 Min dy wayw mewn y dyn oedd.
 Dewr a brwd i dreio brau,
 Da'r arhoud ar y rhydiau,
 A thrwy'r heol, o threwir,
 48 Dwyn llath o onn, danllwyth hir.
 Dy weled di'n dal y tant
 A ddwg inni ddigioniant.
 Dyna'r glod, y dyn; â'r glêr
 52 At hwyldant, y tad haelder.
 Dy aur rhuddion,—da'u rhoddwyd,
 Dyro i'th feirdd d'aur a'th fwyd.
 Dy ffrîw, llew, 'n deffroi lluoedd,
 56 D'air â i bell, dihareb oedd.
 Dy wyneb di a enwir;
 Deiroes aed hwnt dros y tir.
 Dy oes fal y dewisen',
 60 Dafydd a Mawd, fydd. Amen.

Ffynonellau

A—Bodley Welsh e 4, 26^v B—Llst 133, rhif 667

Amrywiadau

4 AB am ffrîw.. 7 A ..or.. 10 B chwe oeddech.. 12 B ..o himp.. 36 A ..barai bawb.. 37 B ..cinio raid.. 40 A ..o wrda fwy chardod 41 A ..fv thad.., B ..thad geidwad.. 44 AB ..mewn dyn.. 48 B ..llath on o.. 49 A ..dala tant 53 B ..da rhoddwyd 55 B ..n llew..

Moliant Rhys ab Ieuan ap Dafydd Llwyd, Talerddig

- Y gŵr digabl gwridogwyn
 A wnaeth gwellt yn wenith gwyn,
 Ar hwn fyth y rhown y farn
 4 I hau gwedi Hu Gadarn.
 Â gwenith glân y gwnaeth glod,
 Gwyn a rhudd gwaun yr hyddod.
 Mae'r Fâl agos yn glosydd,
 8 Ac eto 'r Fâl gwatwar fydd.
 Ni bu rwn tir neu bren teg
 Heb wib ceirw o bob carreg.
 Dôl a bron yn deilio i'w brig,
 12 Dêl urddas i Dalerddig.
- I Rys heddiw'r â'r swyddau,
 Fradwr hydd, a'i fryd ar hau;
 Llew gwynias, llaw ag onwydd,
 16 Llwyd i roi hawl lleidr a hydd.
 Un fodd ag Ieuan fyddai,
 A llid y gwalch llwyd a gâi.
 Gwin yw y gwaed gan y gŵr,
 20 Gwenith had Gwên a Thewdwr.
- Mae'r stil fyth am Arwystl fain,
 Mae hwp arfau'r mab hirlfain.
 Ai byr iawn y bar onwydd?
 24 Byr. O chât farch, byrrach fydd.
 Onnen iddo ni nyddwyd
 Dan fraich llew adeinfrych llwyd.
 O'i ddwrn ef âi'n ddarnau fil
 28 —Ba waeth iddo?—beth eiddil.
 Ef âi'n us i fan isel
 Y naill â'r arf yn lle'r êl.
 Ni rydd awr ar y ddwyran
 32 O'i ddwrn—nid gwiw—ddyrnod gwan.
 Ni rôl Arthur â'i werthyd
 Lai no'i bwys ar lu'n y byd.

Y gŵr yn ôl gair a wnaeth
 36 A gais men ac ysmonaeth:
 Codi meirch ar geirch i'r gwynt,
 Cynhaliaeth cŵn a helynt;
 40 Ychen, â'r cyrn uwch no'r côr,
 Men ac aradr mewn goror.
 Arddwyr a gweithwyr a gâi,
 A dau lân a'i dilynai.
 Trywyr meinion trwy'r mynydd:
 44 Tri chi hwnt yn trochi hydd.
 Minnau gawn er mwyn ei gŵn
 Beisiau hyddod bes haeddwn.
 E rydd alarch urddolwaeð
 48 Lifrai tros lafur eu traed.
 Ac yno, 'n un gaenen od,
 Gwŷr anhuddai grwyn hyddod.

Fy mwriad ar fy marwn
 52 Fyth, yr hawg, foethau ar hwn.
 O saetha'r ŵyl saeth i'w ran,
 Ble saethaf o'i blas weithian?
 56 Rhai a ddywed, rhyw ddeall,
 Hanner lliw i hwn a'r llall.
 Ni wyra Rhys air yrhawg;
 Ni ddof yno'n ddaufiniawg.
 Un drws yw fry dros y fron
 60 I fynd wythoes fendithion.
 Byr oedd ddwbl bara ddeubwn,
 Byr oedd â'u hyd byrddau hwn.
 O bwn nid â i ben y dydd
 64 Nac ar bwn o gwrw beunydd.
 Deg agos hyd y gegin,
 Dau bob awr a dwy bib win.

Er y sydd o air a sôn
 68 Nid yw'n dlawd na dwyn dledion.
 Duw a rannodd da'r ynys;
 Deugain rhan yw digon Rhys.
 Dawn cael un dyn calonnawg;
 72 Duw fo rhwydd i'w dyfu 'rhawg.

Ffynonellau

A—Pen 87, 22 B—Llst 53, 155 C—BL Add 31067, 244^r D—Pen 82, 31
(angh.)

Amrywiadau

3 *A* ..hwnw.., *AC* ..rown farn 4 *A* o hav.. 5 *A* ar.. 7 *BCD* 11–12, *A* mae.., *C*
mae n.. 8 *C* ..eto n val gwatev ar vydd 9 *C* ..na.. 10 *BC* ..keirw bob.. 11 *A* ..a
brig, *B* ..i brig, *C* ..deilio brig 12 *C* dal..dol.. 13 *BC* ..a swyddav 16 *A* ..lleidr
hydd 19 *A* ..ywr.., *C* ..yw gwaed.., *D* [19–20] 21 *A* ..ysdal.., *C* ..hil.. 23 *C*
..bars.. 25 *BC* ..naddwyd 27 *A* [27–8] 29 *A* efan os.. 30 *ABC* ..air arf ain.. 31
A [31–4], *C* ..er.. 33 *BC* arthvr ni roe.. 34 *B* ..le n.. 35 *A* ..yw n ol.. 38 *A*
kynhaliech.., *C* cynheiaeth.. 39 *A* ochen ai.. 41 *A* arddwyr gweithwyr.., *D*
[41–2] 45 *A* ..a gawn.. 48 *BC* ..dros..i draed 51 *A* ..am.. 53 *B* ..saethai.., *C*
..vaethai..vaeth.. 54 *C* ..vaethav.. 58 *A* ..ddodd..ddiddoniawg 59 *BC* y.. 62 *A*
..a hyd.. 65 *AD* [65–6] 71 *A* dyw n..

Moliant Morys ab Owain, Rhiwsaeson

- Mae un gŵr mwy nog eraill,
 Mal oen a llew 'mlaen y llail:
 Mae'r genedl ym mrig ynys,
 4 Mae'r saith wlad, Morys, i'th lys.
 Maint Owain mewn minteioedd,
 Mwy no sawd am ynys oedd.
 Iawn i'r gwalch, yn aur gylchwyd,
 8 Wisgo'r aur; ysgwier wyd.
 Ni chair ynoch air annoeth
 Ac ni chad gan eich tad doeth.
- Arwain oll oedd i'r un llys
 12 Lle bu wewyr holl Bowys:
 Cwrt gwyn â'r certi gwinoedd,
 Cyfle gwin Cyfeiliog oedd.
 Amod hir, yma tariwyf,
 16 Morys hael iawn, marsiel wyf.
 Pen cenedl,—pwy a'n cynnwys?—
 Awn ar un pen i roi'n pwys.
 Y mae'n eisiau, myn Oswallt,
 20 Dilin gŵr dolennog wallt.
 Rhoist i feirdd, rhestia f'arddwrn,
 Dy wisg a'th aur, dwysg i'th ddwrn.
 Rhoi a wnaid, rhiain ydoedd,
 24 Yt wraig o waed, rhywiog oedd.
- Morys, ail Emrys eilwaith,
 Ab Owain, 'r hwn oedd benrhaith,
 Barwn llwyd obry'n y llan,
 28 Bryn Mair, di-brin am arian.
 Bryn o dir barwnwaed oedd,
 Bronnen llethr brenin llwythoedd.
 Gwaed llawn a gaid oll ynod
 32 Gwenwynwyn, frig onnen frod.
 Llwythau Rydderch lle'th wreiddiwyd,
 Ni bu'n llesg, ab Ieuan Llwyd.
 Niwr Dduw erw ar ddaearen
 36 Heb lwyn o himp Blaenau hen.

Gofyn tarw gan Forys ab Owain, Rhiwsaeson

- Oes gwayw irwydd ysgyrion,
 —Oes!—a gŵr braisg is gwar bron?
 Bwrdd a llys i'r beirdd oll oedd,
 4 A Siob Powys a'i pioedd.
 Owain dewr, enyniad oedd,
 Fal hen llew, o flaen lluoedd.
 I'w neuadd fawr iawn oedd fod
 8 Yn ôl Owain ei lewod.
 Efô, Morys, fy marwn,
 Âi'n ŵr hael unair â hwn.
 On'd rhyw enaid rhianedd
 12 O Fryn Mair fu rannu medd?
 Gair ddegoes gwŷr a ddygwn:
 Gorau'n y tir geraint hwn;
 Ceirw o dir cwr y darren,
 16 Cynafon hil Cynfyn hen.
 E roed cof ar waed cyfan;
 Gwenwynwyn dug onwayw'n dân.
 Gwaed Rhydderch âi'n goed rhuddaur;
 20 Gan Bowys deg âi'n byst aur.

 Prydyddion, parod oeddynt,
 A roen' gost ar Owain gynt.
 Byw ar hwn y bu'r rheini;
 24 Byw ar ei fab yr wyf fi.
 Mae'i aur gennym ar gynnydd,
 Aml drwy deg mal dŵr a dydd.
 Mae'n ei lys ym min y lan
 28 Ryw gwarel aur ac arian.
 Un o'i fath, Owain, a fydd,
 O'r un glod, i arwain gwledydd.
 Dau farwn a dyf orig
 32 I'r ddau fôr oedd o'r ddau frig.
 Pob un o'r rhain, pawb yn rhydd,
 A gâi olud ei gilydd.

- Gorau rhodd a gair yrhawg:
 36 Twrc o fol tir Cyfeiliawg.
 Tarw Forys, torrai furoedd,
 Trilliw gwych, troëlllog oedd.
 Breichiau i'r clai, brych yw'r clog,
 40 Broch glân, brych gwialennog.
 Beth o'i ôl byth a welais?
 Brawn y baedd obry'n ei bais.
 Beili fydd, bu elw o'i fod,
 44 Buchesydd, â buwch wasod.
 Min a gân trwmp mewn gwynt draw,
 A'r wich oedd arwach iddaw.
 Mae gwisg hydd am y gwas cau;
 48 Mae'n borthor mewn buarthau.
 Mae'n was glân mewn y wisg gled
 A'r gown er awr y'i ganed.
 I'w oes e gâi wisgo'i w'n
 52 A marw ynto, mi a w'rantwn.
 Llwyth ir braisg uwch llethr y bryn,
 Llun tŷ rhoed llawn, to rhedyn.
 Cefn y gŵn cyfan a gad,
 56 Cyff ir â dull coffr dillad.
 Trom yw cuwch y trumog hwn:
 Trem Sais yn tramwy sesiwn.
 Ei ddau gorn a ddwg arnaw,
 60 Dwy lath drwy iad, deulwyth draw.
 Mae tâl a gwallt mwltai gwych
 Mewn tywyllfron mantellfrych.
 Mae'r cefnen ym mrig cyfnos,
 64 Melyn a rhudd, ym mlaen rhos.
 Mae gwiail aur mewn ei glog
 A man tywyll mewn taegog.
 Magu wrtho mae gwartheg
 68 Gwychion tal ac ychen teg.
 Ai gwir yw rhoi gwra i'r rhain?
 Os gwir yw, nis gŵyr Owain.
 Ef a roes hwn Forys wych,
 72 Y tarw penfras tapinfrych.

Ffynonellau

A—Llst 30, 372 B—Brog 2, 210^r C—J 101 [= RWM 17], 283 D—Card
 2.15 [= RWM 16], 88 E—LIGC 5273D, 93^r F—LIGC 20574A, 185 G—
 BL Add 31056, 130^r H—Gwyn 1, 75^v I—BL Add 31067, 204^r

Amrywiadau

2 *E* ..is ger., *F* ..sy gar bron 3 *EF* ..y beirdd.. 5 *ABCGH* ..enynid., *EF* ..oi dir ennyd.. 6 *A* ..lew., *G* ..ymlaen.. 9 *E* ef a.. 10 *C* ..ais.. 11 *BC* ..rhiw.. 12 *G* ..frv i.. 15 *E* ..cewch y.. 17 *I* erioed..y cyfan 18 *DGI* gwenwyn..onwayw dan, *F* ..deg.. 19 *F* ..yn goed.. 20 *G* ..deg yn bost.. 25 *EF* mae aur.. 26 *G* ..dro deg fel.. 29 *G* ..o fath.. 30 *DI* ..glod arwain., *E* yr.. 32 *EF* ar ddeufawr., *I* ..ar.. 33 *BC* pob or.. 36 *G* ..i fol.. 37 *C* ..foroedd 38 *E* ..a oedd 39 *BCDI* ..ir clog, *E* breichiau r.. 42 *A* barwn., *G* ..akw.. 47 *G* ai gwisg.. 49 *C* ..mewn gwisg.. 50 *EF* roi r gwn., *ABDEGHI* ..yr., *C* ..or., *F* ..r awr.. 52 *DI* ..mi wrantwn 53 *B-EGI* ..llether brynn 54 *G* llawn to rhoed llvn tv.. 56 *AH* ..koffr y.. 57 *G* ..cvwch tremiog.. 58 *G* ..tremio.. 59 *E* ..ddug.. 60 *B-GI* ddwy..ddevlwyth.. 61 *A* ..mwklai.. 63 *GI* mae r cefn., *D* mae y cefn.. 65 *BCDI* mann., *F* ..am i.. 69 *E* ..gwr y rhain, *F* ..gwr.. 70 *F* ..fydd.. 72 *DFI* ..trapinfrych

Moliant Morys ab Owain, Rhiwsaeson

Mae i Bowys ŵr ym mhob sias
 A mwg aur am ei guras:
 Gŵr a wnâi'r gwewyr yn us,
 4 Gwinau mawr ag enw Morys.
 Ei ffrîw fydd a'i ffurfeiddiad
 Â gwên deg Owain ei dad.
 Arthur ddewr, ni thorrai ddyn
 8 O'r llaw, ail, ŵyr Llywelyn.
 Ar war paun a ry'r punnoedd
 Fo â'r rhod aur, fy rhaid oedd.
 Llwynau gwaed, llew'n ei gadair,
 12 Llyna bren mes Llanbryn-mair.
 Mawr yw stil Morys i'w dwyn,
 Meilir gwaed, aml aur gadwyn.
 Cynfyn hen cyn ei fanhau,
 16 Ynyr oedd un o'i wreiddiau.
 Rhan Rydderch o'r hen wreiddyn
 A rhoi dail aur hyd ei lin.
 Rhan a gaiff er hÿn ac iau
 20 O'r bêl; enaid i'r Blaenau!

Aur i'n dwylo'r Nadolig,
 Morys, draul Emrys, a drig.
 Y Pasg eilwaith pes gwelwn;
 24 Cyn yr haf y cawn aur hwn.
 Ofer gennyf ar gannyn
 Ddewis hael gwell ddyw Sul Gwyn.
 Trihael ydoedd trwy wledydd;
 28 Efô fu'r hael fwyfwy rhydd.
 I'w dai, ennill daioni,
 O gallaf fynd, gwell wyf fi.
 I dai Forys hyd f'arwyl
 32 Ato â'r gerdd y tair gŵyl.
 Clod i ŵr, clywed ei waith,
 Fan y delwyf fynd eilwaith.

Wedi'i warhau, daear hwn
 36 Hyd y Fâl y dyfalwn.

Tywys glân mewn tes a gw lith,
 Trigeinerw y ty'r gwenith.
 Bara can a brig gwinoedd
 40 A brag, ceirch o'i barcau oedd.
 Beth, awr, hefyd—byth rhyfedd—
 O bai wraig lân heb roi gwledd?
 Ni wyl beirdd wyliau y bôn'
 44 Un trwy'i hil ond tra haelion.

Nid âi neb ond a'i wayw'n us
 I'r radd fawr yr oedd Forys.
 E fyn barch y fan y bo
 48 Neu'r dwrn a'r irwaed arno.
 Eled ef a'i wlad o'i ôl
 Wedi i ddoethiaid ei ddedhol.
 Os ar ddadl, nis hir ddwedan',
 52 Y farn a roir fry'n ei ran.
 Morys, enny'n mae'r synnwyr
 Mal aur coeth â'r mêl a'r cwyr.
 Iesu'n llenwi sy'n llonydd
 56 Synnwyr a gras yna i'r grudd.
 Efô dyf, fwyfwy dyfiad,
 O 'wyllys Duw'n well ei stad.
 Aeth y dewr â thid arian,
 60 Aed yr aur glwyd ar w'r glân.
 I'r war gedir aur gadwyn!
 Iesu rhoed oes hir i'w dwyn!

Ffynonellau

A—Pen 100, 368 B—Bodewryd 1, 318 C—Brog 2, 373^v D—J 101 [= RWM 17], 491 E—BL Add 14901, 9^v F—Llst 133, rhif 117 G—BL Add 31067, 189^r H—Llst 53, 56 I—Card 2.15 [= RWM 16], 91 J—CM 244, 55^r K—CM 204, 32^v L—CM 12, 445 M—Tn, 44

Amrywiadau

1 *H* mae bowys.. 3 *H* ..wna r.. 5 *I* a..a.. 9 *CD* ..rydd y.., *HI* ..roe r.. 10 *ABE–GJ–M* ..ai rhod.., *CDH* ..a.. 11 *AEFGJK* ..y.., *I* ..llawn.. 14 *BCD–GJKM* ..am.. 15 *H* ..kynevin hav, *I* ..fwynhau 18 *I* ..rhyd.. 19 *A–GIL* ..nag.. 20 *H* ..ar.. 35 *ABE–GJ–L* wedi wrhav.., *CDI* wedi warhav.., *H* wedi wyr hav.., *M* wedi i wr hau.. 36 *M* i yd.. 37 *I* ..yw.. 38 *CDI* ..erw tir y.., *EG* ..erw tir.., *H* ..erw tir a.. 40 *H* brag haidd yn i barke i ddoedd 44 *A–HJ–M* ..trwy hil.., *HI* ..ond rhai.. 46 *C–EGHM* i.. 47 *H* ..yn y.. 48 *I* ne ar..waed.. 49 *M* ..yn.. 50 *A–L* wedi ddoethiaid.. 54 *H* ..y mel or.. 55 *JK* [55–6], *ABL* ..llenwi [], *CDM*

..yn llonydd 56 *ABEGLM* ..yn y., *CD* ..yn i deg rydd, *I* synwyr faith sein wir
a fydd 57 *A–GJKM* efo a.. 60 *B* aeth., *L* ..wyr.. 61 *M* yw..

Gofyn march gan Owain ap Hywel, Plasmadog

- Owain braff a'i wayw'n y brig,
 A'i nod weithiau'n adwythig,
 Ewch o'r blaen i awchio'r blaid,
 4 A chan llafn i chwi'n llifaid.
 Awn i'r ffair, Owain, â'r ffyn;
 E ddaw cennych ddau kannyn,
 8 Gwas gwych o wŵr, gwisgi chwyrn,
 Gosawg Hywel, gwisg hëyrn.
 Gwaith y llaw gwthio lluoedd;
 Gwaith Ieuan wych, Gethin, oedd.
 Taro ym mlaen tir Mael ennyd;
 12 Deutu Gwy dy waed di i gyd.
 Tiroedd, Owain, Tordduaid,
 A'u dyblu, oedd yn dy blaid.
 Trôi ddwywaith yt radd, Owen,
 16 At D'wysog Cyfeiliog hen.
 Daear, o throes dir i'th ran,
 Dafydd Llwyd a fydd llydan.
- Braich y wlad, Brochwel, ydwyd,
 20 Barwn mawr iawn Bryn Mair wyd.
 Nid âi eithin yn d'wythi;
 Ni thyf ond aur o'th fewn di.
 Y gwŷr a gawn gorau i gyd,
 24 Y wlad, cynnal, aed cennyd.
 Gorwledydd, gwrol ydych,
 Gan lais gŵr gwineulas gwych.
 Gŵr glân gyda gwraig lonydd,
 28 Gwawr deg fain garedig fydd.
 Oedd enw gwraig i ddwyn gwregys
 Mor wych erioed â merch Rys?
- Rhoddion i feirddion ef aeth:
 32 Meirch, ugain, i'w marchogaeth.
 Hydd a gawn heddiw gennych,
 Hacnai glân acw'n ei glych.
 Mae yn ormodd dy rodd draw:
 36 March chwyrn i ddwyn merch arnaw.

Ni fargeinia fo'r gwanwyn
Er y bunt aur ar ben twyn.

- 40 Dragwn Hu drwy gan heol,
Dwg ei rawn yn deg ar ôl.
Dwyfron frowysgron freisgref,
Da galon gron, dwyglun gref.
Nid teneuwag tenewyn;
- 44 Asen a'i dwg iso'n dynn.
Mwng ni ostwng yn wastad;
Gwrych a saif goruwch ei siad.
Ber yw'r glust o bai roi'r gloch,
- 48 A'i ddau lygad oedd loywgoch.
Ffroenau yn dwyn ffwrn yn dân,
Ffriw'n wych, ebol ffroen chwiban.
Un a ddaliai yn ddolen
- 52 Â bys o bai bwys ei ben.
A thraed at waith, rhediad hydd,
Nid traed yn' ond rhyw 'denydd.
Nid ofnai lyn dwfn lonaid;
- 56 Dros y cae dyrysa'i caid.
Cerddediad carw a ddoedais;
Carn a dry rhag gŵr neu drais.
Llewychai dân, lluchiad oedd,
- 60 Lle'i 'sgidiau'n llosgi ydoedd.
- Onest i wŵr yn ei stad
Ollwng hwn yn llaw 'nghennad:
March Owain ym mraich heol.
- 64 Merch Rys ni ad march ar ôl.

Ffynonellau

A—Llst 118, 484 B—Brog 2, 211^r C—J 101 [= RWM 17], 285 D—BL
Add 31067, 237^v E—Pen 95, 99 F—LIGC 20574A, 171

Amrywiadau

1 E ..a.. 6 A—DF ..ddeg., F a.. 9 AD..llew.. 12 EF ..ti gyd 15 A ..at.. 17 A—
D/E tir ath roes/ith oes dayar.. 18 F ..o dir.. 21 E ..y.., F nid a.. 22 E ..oth
fin.. 24 F ..oed.. 37 A—E ..y gwanwyn 39 E [39–64] 40 BCF ..ar i ol, F dwg
rawn.. 49 A—D ffroen., F ..ffrwyn.. 50 F ffroenwych.. 53 A—D ..ai waith.. 54
F ..ynn., D [54] 55 A—D ..dwfn i.. 56 A—D ..dryssa.. 58 A—D ..akw yn i.. 59
F ..lluchod.. 60 F lle sgiadiav.. 62 A—DF ..hwnw..

Moliant Rhys, Cenarth, a Sioned ei wraig

- Mae un gennym mewn gwinwydd
 (Oes gem ar Fars, Gymru, fydd?)
 Uwch gwŷr fal edn llwch gwin;
 4 Ar Genarth mae'r eginyn.
 Awn oll, ir awn, yn wŷr llys
 I flaenor y Fêl Ynys:
 Rhys, gŵr rhwysg Gei o Warwig,
 8 Rhod Duw fry aur 'r hyd dy frig.
 Nid âi dyn wedi dy dad
 Na thridyn i'th fawr rediad.
 Gwŷr yn rhugl a gryn rhagoch
 12 Y Mars, a gwayw Morys Goch.
- Ni wn fonedd yn f'ynys
 Na châi ran ynoch chwi, Rys:
 Dafydd Goch,—'nid yfodd gwin?—
 16 Dyn rhwyddiach, dwyn ei wreiddyn.
 Bonedd Hywel ab Einion
 Yw blodau haf, bleidiau onn.
 Coed Rhydderch, caterw oedden',
 20 Cawr â ffrîw hawc Riffri hen.
 Aro, ystîl gref Arwystl gron,
 Wrth rieni Gwerthrynion.
 O naw stad, onest ydwyd,
 24 O frig ieirll hen, freugarw llwyd.
- Rych chwi'n wŷr, awch hen eryr,
 Ac o nerth ugain o wŷr.
 Maint *Arthur* y'th fesuren'
 28 Ac eilwaith hyd Galâth hen.
 Nerth Adda hyd North oeddych
 A brydai' *i* liw'n briodol wych.
 Syr Lawnslod yw'ch cyfodiad,
 32 Syr Gwalchmai pan gurai gad.
 Sawl, âi wydr y saeledau,
 Sarff â grym Syr Ffwg *i*'r iau.

36 Maleiswyr a 'mlîwiasant
 Dy weled di'n dal y tant.
 Och, filwr, fod ywch falais
 Na thramgwydd am swydd un Sais.
 40 Dy fwrw'n y glud, farwn glân,
 Fraw dwys, a fwriadasan'.
 Ni ddodaist dy ddwy adain
 Mewn glud, eryr drud, na drain.
 44 Biliau fil heb elw a fu,
 Brud uchod, i'ch bradychu.
 Ni hybud pan oeddud iau
 Rebeliwns er eu biliau.
 48 Tâl, a doeth y talud wir,
 A chelwydd mwy ni choelir.
 Ni ad Harri naturiol.
 Na thyr yn wan; na thro'n ôl.
 52 Gŵr o waed, a'i gân ydwyd,
 A gŵr yr iarll, geirwir wyd.

Costio a wnaud, cwestiwn oedd,
 Gynt, bennaeth, gant o bunnoedd.
 56 Dugost oll dy gost allan;
 Ni chostiai ŵr â chist wan.
 Ni ddygud, rhannud aur rhudd,
 Er dy gost erioed gystudd.
 Doethost heb dario wythawr
 60 Drwy nen y genfigen fawr.
 Twf erioed, tyfu'r ydych,
 A thyfu byth fwyfwy bych.

64 Mae'ch gwŷr, awch eryr, i'ch ôl,
 Mae'ch da gennyh digonol.
 Llawn o'r bwyd a'r llyn ar barth,
 Llysiau cawn llys y Cenarth:
 68 Sinsir, graens, sens orau o Gred,
 Sinamwn o law Sioned.
 O'i llaw, gwen, nid llai'i gynnydd,
 Adar bwn, fenswn a fydd;
 72 Ffesont i goffâu oesoedd,
 Ffein i'w dwyn, a pheunod oedd.
 Ac yno,—chwardd!—gwin a chan,
 Y cai eleirch y Calan.

76

Dy dŷ, Rys, yw'r glaerlys gled;
 Tŷ mal Sin yw teml Sioned.
 Trigain hoes y trigi'n hon!
 Teirows gwedi i'r to wyrion!

Ffynhonnell

Bodewryd 1, 68

Darlleniadau

2 ..kymry.. 18 ..honn 26 ag on nerth yn gain.. 27 ..aryth.. 30 ..brydai liw.. 33
 selav wydr.. 34 ..yr iav 35 ..amlasant 53 ..wnevd.. 69 ..llai gynnydd 78
 ..gwedi r..

Moliant Rhys, Cenarth

Rhedwch yn bont, rhoed chwi'n ben,
 Rhys, gwayw Iorys, rhwysg Urien,
 Rhòl Einion o'r haelioni,
 4 Rhan eich holl rieni chwi.
 Rhys, di-ofn y rhoist afael,
 Rhodd aur a chost Rhydderch Hael.
 Gair gwŷr ieuanc â'r Greal,
 8 Gŵr mewn tir Garmon a'i tâl.
 Ellyma'r glyn lle mae'r glod;
 Lle'dd wyd, Rys, llaw Dduw drosod!
 Mab, oddi ar bawb oedd â'r bêl,
 12 Morys Goch am rwysg uchel,
 At fesur y tyfasoch
 Y twf oedd gynt Dafydd Goch.
 Ni bu egin, hebogwaed,
 16 Heb wenith, Rys, ben a thraed.

Dy wayw o fewn Deau fydd
 Draw a'i flaen drwy Faelienydd.
 Aderyn wyd a dwrn arth
 20 Draw ar gannwr drwy Genarth.
 Acw maen' hwy cymin hun
 Ac â chornor gwych arnun.
 Ewch chwi allan â'ch hollwyr
 24 I chwyddo beilch oedd heb wŷr.
 E fu'r llid yn fôr llydan,
 Ac o chai lid, gochel wan.
 Mwy a' perygl, mab hirwylch,
 28 Myned hen gwan at un gwylch.
 Nid â, wyl, y dialwr
 A ludd y gwan i ladd gŵr.
 Er a chwardder o'ch urddas,
 32 'Mogel di gyrch, magl dy gas.
 Nid rhaid yno trwy d'ynys,
 Ac o bydd rhaid, gwybydd, Rhys,
 Mae byw a ffrwyth, y mab ffres,
 36 Wyth o lewod i'th lawes,

- Arddwrn Ffwg ar ddarnau ffon,
 Arthur ynys Werthrynon.
 Gwaed ar fin y gwayw dur fydd;
 40 Gwna i wŷr cedyrn gnoi'r coedydd.
 Pwy ni lefai pan lifen',
 Bwyell y tir, mab llwyd hen?
 Braen iawn oedd bren ni naddwyd,
 44 Bar awch drwy'r mêr, breichdrwm wyd.
 Maint dy wayw'n drwm yntun draw
 Am wisg oedd *i* 'mysgwyddaw.
- Deled gwŷr, dwywlad a gaf,
 48 Draw'n drwch neu d'air yn drechaf.
 Os eu dannedd a 'stynnan',
 Mynnwch chwi, Rys, mwy no'ch rhan.
 Ni chymynan' â'ch maneg,
 52 Nid rhaid i wan, ond trwy deg.
 Eryr ymysg yr ieir mân
 Wyd i'w mysg od ymwasgan'.
 Ni chaem haeach ym Mhowys
 56 A geisiai ran gwas i Rys.
Od oes diolch, distawen',
 Doed yno bawb, d'ado'n ben.

Ffynonellau

A—Pen 82, 109 B—Bodewryd 1, 70

Amrywiadau

2 *A* ..gwiw.., *B* ..morys.. 5 *A* ..diofyn.., *B* ..dwfn.. 17 *B* ..a fydd 19 *A* ..ar.. 20
A ..kanwr drwyr kenarth 21 *A* ..kymynhvn, *B* ..kimin hyn 28 *AB* vned.. 31 *B*
 ..ach.. 32 *A* ..gylch.., *B* ..di gwysel dy.. 33 *A* ..ynon.., *B* ..yna.. 37 *B* ..ffyrf..
 39 *A* ..dewr.. 44 *A* ..drwi mer[] 46 *AB* ..oedd ymysgwyddaw 47 *B* doed.. 48
A ..dy roi [] 49 *B* ..danedd ysdynan 57 *AB* nid.. 58 *A* ..yna.., *B* ..dady n..

Moliant Siâms ap Rhys, y Mynachdy

Teyrn oes yn teyrnasu,
 Tyn ar faint y nawyr fu.
 Mae enwau'r rhain mewn y rhòl;
 4 Mae naw'n werth mewn un warthol.
 E ddôi erioed y ddwy ran
 I chwi, Siâms, achos ymwan.
 Milwr a droech mal ar dranc;
 8 Mae byw cryf ym mhob crafan.
 Un wyd a ddwg yn dy ddydd
 Yr iau flaen ar Faelienydd.
 Milwr hy 'mol yr heol,
 12 Main ydoedd iarll mewn dy ddôl.

Os hen diroedd sy'n deiran,
 Siâms ap Rhys y sy 'mhob rhan.
 Darn o'th waed ar ein iaith oedd,
 16 I ti lwythau'r taleithioedd.
 Trwy Gymru o'i deutu dôn',
 Trwy'r Clawdd hyd dir Celyddon.
 Achau Gwent fraisg uwch gwynt fry
 20 Yw detholwaed i'th wely.
 Iarll oedd i'r llys heddiw,
 A'i braint o nen Brontyn yw.
 Ni chyll dawn eich holl dynion
 24 O bai lwyn teg o blant hon.

Y beirdd i'r un bwrdd a red;
 I'r un man yr wy'n myned.
 Ni ffo' i i wrthyd, ni pherthyn,
 28 Ni rown i d'ôl er un dyn.
 Nid âi gall i newid gŵr;
 Ni châi ennill â channwr.

Uwch wyd no haeach o wŷr;
 32 No chyw'r îar uwch yw'r eryr.
 Difarwaidd yw dy ferrais;
 Dyn wyd â byw dan dy bais.

36 Awch o'th ôl, ucho'th welwn,
 Tân o fewn gwynt neu faen gwn.
 Aeth gwrïd ac awch i'th grud gynt,
 A thân, yno'th enynnynt,
 40 A llaeth fegis lle'th fagwyd
 O fronau llew, farwn llwyd.
 Nid âi o fewn adwy fer
 Llew berwedig llai'i bryder.
 Ni ddaw rhag ofn ddôr i gau,
 44 A'th agosed i'th gasau.

Maen' isod wŷr mewn ystad,
 Ucho swrn, â chas arnad.
 N'ad i'th gylch onid a'th gâr;
 48 Ni chyll edn o'ch holl adar.
 Y maen', dy wŷr, myn dy ran,
 Yn barc hefyd, brig cyfan.

Ni wn—oes arnoch un siwrnai?—
 52 Er maeddu beilch ormodd bai.
 Ni edy air yn y dydd,
 Uchel iawn, o châi lonydd.
 Anodd i wŷr yn ei ddig
 56 Odde' ormodd o ddirmyg.
 Oen didaer ennyd ydwyd,
 Ebolydd llew a blaidd llwyd.
 Ofer yw llu, ef âi i'r llawr,
 60 O bai lonydd y blaenawr.
 Ef allai bawb, felly bydd,
 Nofio llyn a fai llonydd.
 Nid un gair o don gorwyllt
 64 Llyn marw gwâr â llanw môr gwyllt.
 Nid yw ystwyth dy ostwng
 Lle nid â fyth llaw'n dy fwng.
 Ni chair gennych hir gwynaw,
 68 Nid hawdd, dros newid dydd draw.
 Ni theriaist wrth wŷr o stad;
 Nid hwyr dwyn y tir danad.
 Ni ddwg eich iaith ddeg o'ch hyd.
 72 I ddiawl eithr a ddeil wrthyd!

Ffynonellau

A—Pen 100, 315 B—Bodewryd 1, 263 C—Bodewryd 1, 170 D—Brog 2, 365^v E—Llst 133, rhif 98

Ffynonellau eraill

Bodley Welsh e 4, 63^v

Amrywiadau

1 *CD* y.. 2 *CD* ..fraint..frv 3 *BCD* ..vn rhol 4 *BCD* ..naw nerth.. 6 *CD* ywch siamas.. 7 *E* ..drych.. 9 *BCD* ..ddaw.., *E* ..ddug.. 10 *BCD* ir.. 12 *D* ..yn dy.. 13 *CD* ..darian 14 *BC* ..Rys ymhob.., *CD* ..mab.. 16 *CD* ..lwythav taleithioedd 17 *B* ..a.. 18 *ABE* ..tir.., *C/D* ..o/i dir.. 25 *CD* beirdd.. 27 *ABCE* ..ffo.., *D* ffo.., *CD* ..oddi.. 33 *C* diofered.., *D* dioferedd dy.. 36 *CD* ..fain.. 38 *CD* ..enynt 42 *A–E* ..llai bryder 49 *CD* maen.. 53 *D* [53] 59 *C* ..o fair llawr, *D* ..ef air llawr 63 *ABE* [63–4] 64 *D* ..llanw mawr.. 72 *ABE* ..eirth..

Moliant Ieuan Gwyn ap Siâms ap Rhys, Clwn

- Mae o Rys dyn mawr ei stad;
 Mae'r dynion i 'mroi danad:
 E roed hen ieirll o'r tu'n ôl
 4 Yt draw, Ieuan waed rheiol.
 Mawr yw gwledd drom arglwydd draw;
 Mae un castell mwy i'n costiaw.
 Mwg a sens yn magu sydd,
 8 Mur Colunwy, 'mrig glennydd.
 Lle ystod yw llys dy dad
 Lle ni thâl llai no'th ddwywlad.
 Gweled ydd wyf gael dy dda;
 12 O'i dai, Siâms, neidies yma.
 Ei fardd ydwyf o'r ddeudy;
 Mae bywyd teg ym mhob tŷ.
- Oes dur ag awch—nos da i'r gŵr!—
 16 Ond i Siâms yn dy simwr?
 Ni wnaeth Duw ewin i'th dad
 Na braich na bai i roi awchiad.
 Nid oes o'i fath, dewis fu,
 20 Ond dy hunan yn tynnu.
 Awch hwn a gewch yna i gyd,
 A'r un twf arnad hefyd.
 Twf oedd i'r etifeddion,
 24 A thyfu byth fwyfwy bôn'.
 Dau lwyth o'r ieirll dal i'th ran,
 A dal ystod Elystan.
 Gwaed Powys i gyd pioedd,
 28 A'th waed o lwyth Awdlai oedd.
 Talaith gynt o'i lwyth a gaid;
 Tair a ddaw i'r Tordduaid.
 Blaen llaw yn blino lluoedd,
 32 Bys gŵr fal dwrn Basgrfild oedd.
 Nid âi Arthur ond wrthyd
 Neu Einion hen yn un hyd.
 Cynnull waed, canllaw ydych,
 36 Cai'n nes dy blaid, cwnstabl ych.

- Down i lysoedd dyn laswen;
 Di-wg yw gan deg ei gwên.
 Merch Edwart, mor wych ydoedd,
 40 Mwg o'r aur am ei gwar oedd.
 Crofft, Glyndŵr, milwr moliant,
 Cyff Hanmer, tynner bob tant.
 Ef air â chyff y ferch hon
 44 Fry chwegwaith o fraich Wgon.
 Nid air ennyd yr unawr
 Na chair gwledd merch arglwydd mawr.
 Arched feirdd—hir iechyd fo!—
 48 Roi cannoes i'r wraig honno.

- Dy wayw'n rhest, Ieuan, ir oedd,
 Dy ffrïw i ennyn dyffrynnoedd.
 D'arf âi dros y dyrfa draw,
 52 Dy wayw'n danllyd yn d'unllaw.
 Y ffon a gaiff Ieuan Gwyn,
 Ac ni chodai gan' chwedyn,
 56 A rhoi byth *oddi* ar y banc
 Wythwayw'n gryf i'th un grafanc.
 Afryw i chwi, freichiau arth,
 Roi dy gefn er dy gyfarth.
 Aent hwy, wŷr da, hwnt ar d'ôl
 60 A rhoi i Ieuan yr heol.
 Saith awr â chledd sethrwch wlad;
 Sarn yw dynion swrn danad.
 Treia folchwydd trwy feilchion,
 64 Trechaf wyd, torrwch iau fôn.
 Tref Glwn, tra fo goleuni,
 Tref wych yw hon tra foch chwi.
 Tŷ gwych, yr iarll, teg yw'ch rhan,
 68 Tragywydd y trig Ieuan!

Ffynonellau

A—BL Add 14989, 79^r B—Bodley Welsh e 4, 23^r C—Llst 133, rhif 1143

Amrywiadau

3 *A* ..iarll.. 4 *A* ..waeth.. 5 *BC* ..gledd.. 6 *A* ..mwyn in.., *BC* ..mwyn.. 8 *A* ..kleyynydd 9 *BC* ail..lys.. 12 *A* o.. 13 *A* ..ddevdv 14 *A* ..tv 18 *ABC* ..bai roi.. 19 *BC* ..a fv 21 *BC* ewch.. 24 *A* ..i bon 29 *BC* ..o lwyth.. 30 *BC* tai ar ddawn y.. 31 *BC* ..llanw yn blaenv.. 32 *AB* ..dwyn.. 33 *BC* nid arthvr.. 34 *B* nai.. 35 *B* ..kennllan., *C* ..canllan.. 36 *ABC* keiness dy., *BC* ..kwnstab.. 38 *A* ..i gan..

39 *C* ..mawrwych.. 41 *A* [41–2] 43 *BC* [43–4] 45 *ABC* ..ar enyd.., *B* ..er vn awr 47 *A* ..yr.., *B* arch.. 48 *B* ..kann ir.., *C* ..cann [] ir.. 49 *C* ..yr.. 50 *BC* ..ffriw ennyrn.. 55 *ABC* ..oi ar.., *B* ..throi.., *C* ..thri.. 56 *A* wythwaiw gryf.., *BC* ath waiw n.. 60 *BC* ..rroi Ievann.., *C* ..ir.. 67 *BC* ..ir.., *C* ..ieirll..

Moliant Owain ap Gruffudd ap Maredudd Fychan, Llanbister

- Gwae rai—na châi yr un chwyrn!—
 Os cywir a wisg hëyrn.
 Gwÿr hwnt oedd gorau o'n tir,
 4 A chywiriaid ni cherir.
 Y rhai oerion o'r herwyr
 A'r lladron oll âi draw'n wÿr.
 Y byd aeth heb wad weithian
 8 I faglu oll a fo glân.
- O throed gwaith i athrod gwÿr
 I'r tir, Owain a'r triwyr,
 12 Wÿr Fredudd, arf Riwedawg,
 Fychan, rhown f'achwyn yrhawg.
 Rhestio gwÿr ar osteg oedd
 Er eu stad er Awst ydoedd.
 O bu daring bedeirawr
 16 Rhod wedi'u mynd, rhediad mawr,
 Aeth rhai da i athrod Owain;
 Annoeth y rhoent waith, y rhain.
 O gwÿl y gwÿr elw o'u gwaith,
 20 Acw'n wylo cawn eilwaith.
 Aethan' drwy waith o'u hen dref
 A di-nidr y dôn' adref.
- Ni ad Duw weled hyd dilyw
 24 Owain â ffrwyn yn ei ffriw.
 Bo'i roi'n rhydd, barwn rhoddiad;
 Bys ei law a bwysai wlad.
 O delir, gwaed a wylaf
 28 I'w lety'r wÿl, ato'r af.
 O'i filio ef a welad
 Ellynny dwyll i'w hen dad.
 A'i biliodd ef,—i ble'dd ân'?—
 32 Os gŵr fydd, nis gorfyddan'.
 Un o'i feddwl ni feiddien',
 O'i law, roi bil ar ei ben.
 Gwell i w'r drwy gellwair draw
 36 Gael ei ladd no'i g'wilyddiaw.

- Chwerthin yn ei fin a fydd,
 Arhoi bil hir *heb* oludd.
 Ef a welir o'i filiaw
 40 Fwg mawr o dref Wigmor draw
 Neu dorri'r mur derw a'r main,
 Y wal dew, i weld Owain,
 Ac o wraidd y gaer eiddil
 44 Dryllio'r porth draw, a llu'r Pil.
 I'w dir a'i dai adre' dêl,
 A'r treiswyr i'r tir isel.
 Aen' o'u cwr yn eu ceorydd
 48 Gant yn rhwym ac yntau'n rhydd.
 Dau well oedd i'm deall i
 Fwrw rhwym ar ferrau'r rheini.
- Amcan aeth, a'm cwyn weithian,
 52 Ei fwrw'n y glud, farwn glân.
 Iawn i Owain a'i neiaint
 Ar rai'n dost arwino daint,
 Owain rym, ewin yr arth,
 56 Ac *i'w* gefn a gâi gyfarth.
 Ei gael yn oen â gwlan aur,
 A'i gnoi, hwn, i'w gnu henaur.
 E gair yn llew gerwin llwyd
 60 Â llid ynto lle deintwyd,
 A'i nerth, farwn, wrth f'eiriol
 Yw'r gwn tân â'r gwynt o'i ôl.
 Gorau llidio gŵr llwydwyn;
 64 Garwined arf ar groen dyn.
 Owain, gŵr oedd yn ei grud,
 E rôl swml hir i'w symud.
 O roi'r glŷn ar ŵr glanwych,
 68 Ei ddysgu oedd i was gwych.
 Bu yn y ffair ben a phont,
 A'i wlad dano, 'n lytenont.
- Llwy'r y bu'r iarll ar y bai
 72 Ddwyn ei swydd. Onis haeddai?
 Rhaid yw dwyn, rhediad unawr,
 Rhest os myn yr ustus mawr.
 E dynn yr iarll dan aur wedd
 76 Ar du Owain o'r diwedd.
 N'ato Duw, neitied *i'w* wart,
 Nas dewis e'n ystiwart!

Ffynonellau

A—Llst 133, rhif 646 B—LIGC 5474A, 335 C—Bodley Welsh f 1, 41^v

Amrywiadau

10 *BC* ..trowyr 16 *ABC* ..wedi mynd.. 19 *ABC* o wyl.. 25 *B* bo roi n.. 30 *A* ..twyll.. 34 *AC* ..er.. 36 *B* gai ei.. 38 *ABC* ..y bolydd 44 *B* ..pyrth.. 49 *BC* ..om.. 52 *BC* ..yn glud.. 56 *ABC* ..oi.. 66 *A* ..ei.. 77 *ABC* ..oi..

*Gofyn main melin gan Lewys ap Tomas, Llanbadarn,
dros Fathau Goch ap Tomas, y Drenewydd*

Pwy oll â gair pell i gyd?
 Pwy â'r ffyniant praff ennyd?
 Llew dewrwych llwyd a eurir,
 4 Lewys wayw tân, leisiad hir.
 Ni bu ddôl na bai ddeiliad,
 Ni bu ddau dir heb dda'i dad.
 8 Aelwyd gron y wlad a'i gras,
 Ail twymwyd aelwyd Tomas.
 Tir a golud tra gweloch
 Y tyfodd gwaed Dafydd Goch.
 12 Hir fu ystad gwlad a'i gwledd,
 Hwy tyfo ei hetifedd.
 'Ntwy i gynnal tai i gannyn,
 Yntau o'u hôl,—on'd da hyn?
 16 Mae fo'n gallu tynnu tant,
 Mur a phen mawr ei ffyniant.
 Mewn ei ardal mae'n wrda,
 Ac arwydd dwyn gwreiddiau da.
 20 Ni bu yma i neb amarch
 (Un waed yw pawb) ond eu parch.

Yr oedd o wraidd y ddau Rys
 Ferch lawen ar fraich Lewys.
 24 Dau ac yn un Duw a'i gwnâi,
 A gwaed gwrdd a gydgerddai.
 Beth a leinw byth olynol?
 Blodau'r holl blaid ar ei hôl.
 28 Llauer bort rydd, ni bydd barn,
 Llawn o'i bwydau'n Llanbadarn.

Y mae rhodd yma i wŷr Rys.
 Ni myn lai no main Lewys.
 32 Ni fâl un o'i felinoedd
 Eisiau main nadd; hwsmon oedd.
 Mathau ifanc math Ifor
 A fyn er mawl fain o'r môr:

- 36 Dwy garreg wedi gweiriaw
 A fâl yd drud yn flawd draw.
 Maen rhewedig mewn rhodau,
 Maen crwn gwyllt mewn cerwyn gau;
 40 Maen ni thry yma na thraw,
 Maen ffrom oedd mewn ffrâm iddaw;
 Un draw yn rhydd a dry'n rhod,
 Un a gwsg yn ei gysgod.
 Arth gwyn, a'i rwnc wrth gnoi'r yd
 44 Â dwy olwyn a'i dilid.
 Gwalop hwn a'i glep yno,
 Cloc blin y felin yw fo.
 Taro'n ddig is trwyn y ddôl,
 48 Treio gwenith trwy'i ganol.
 Yd o'r pin yn dropio oedd,
 Ysgydwed, ei saig ydoedd.
 E bawr hwn obry henyd;
 52 O'i bwyll yr â i beillio'r yd.
 Y mae'n gyflym mewn goflawd
 Eurych fry ar ucha'i frawd.
 Tarth o flaen torth aflonydd,
 56 Traensiwr o faen, trwynsor fydd.
 O gorwedd ar ddiwedd yd,
 Dŵr y cafn draw a'i cyfyd.
 Ni thynnir o'i nyth unawr,
 60 Nid ân' o'r llofft wen i'r llawr.
 Golchai ddyn o gylch y ddau
 Yd a blawd o'u dwbledau.
 Dau gawg o'r allt, di-goeg rodd,
 64 Dau grynfaen, deg o'r unfodd;
 Dwy leuad grech deuled grwn,
 Dorau yn' o dir Annwn;
 Dau fwcled cawr, fawr a fu,
 68 A dwy foth, wedi'i fathu;
 Dwy radell daear ydynt,
 Dorau di-wraidd dordor ynt;
 Dau faen nadd, e'u defnyddiwyd,
 72 Doed yd wrth lef dwydorth lwyd,
 A'r gair draw i'r gŵr a drig
 A rôl'r ddwydorth urddedig.

Ffynonellau

A—LIGC 3050D [= Mos 147], 358 B—Bodewryd 1, 395 C—Brog 2, 368^r
 D—Pen 103, 23 E—Pen 77, 396 F—Pen 112, 37 G—Bangor (Mos) 9, 18^r
 H—Bangor (Mos) 11, 148 I—LIGC 5272C, 151^v J—BL Add 14976, 214^r
 K—LIGC 1246D, 377 (llau. 1–56) L—Pen 84, 23 M—Pen 151, 35^r N—
 LIGC 644B, 55^r O—LIGC 642B, 68^r P—BL Add 14966, 258^r Q—BL
 Add 14971, 124^r R—Llst 133, rhif 1179 S—BL Add 14969, 216^r T—BL
 Add 24980, 58^r U—BL Add 15000, 165^r V—LIGC 170C, 159 W—Pen
 239, 354 X—BL Add 14977, 121^r Y—Card 2.15 [= RWM 16], 418 Z—
 Card 2.68 [= RWM 19], 745 (llau. 1–56) a—Card 2.40 [= RWM 26], 157
 b—J 101 [= RWM 17], 484 c—Card 4.10 [= RWM 84], 379 d—BL Add
 31067, 185^v

Ffynonellau eraill

Brog 1, 322 Esgair 1, atodiad 2 LIGC 783B, i CM 11, 602 BL Add 14882,
 77^v HCad, 15

Amrywiadau

1 *BIN* ..gaid., *EFOQW* ..gawn., *L* ..ar.. 4 *D* ..dan..ir 5 *HKZ* ni ddylau., *F*
 ..bai i., *EFOQW* ..ddeiliaid, *LRX* ..ddaliad 6 *EFOQW* ..daid, *HKPZ* ..dda i
 dir hebddo i. 8 *Cb* ..twymed., *E/FOQW* ail waed twym/twymyn.. 10
CEFORWXb etivedd.. 11 *AGJSTUVcd* ..yw., *L* ..i bo., *BCILNRXb* ..i
 gwlad., *EFHKOPQWza* ..i wlad ai wledd, *Y* ef fv., *DM* ..yn gwlad., *C* + i
 12 *CDEFOb* a.. 13 *EFOQW* 14–13, *BI* yntwy gynnal., *HKPza* ..n cynnal tai
 cannyn, *ABCEGJR–WYbcd* ..tai ganyn 15 *AGJSTUVYcd* y fo n..tynnv r.. 16
BCEFIJNOQSUVWYza–d ..a., *A* ..ar.. 17 *AGJS–VYcd* [17–18] 21 *AGJMS–*
VYc e ddoe.. 23 *UV* [], *EFOQW* dav ag vn ynt., *P* ..ag vn vn., *K* ..ag un
 ein., *Y* dau ag vn da.. 24 *AGJSTUVYcd* y.. 25 *HKZa* beth lowna.. 26 *Cb*
 ..holl bleidiav ar hol, *B* ..yn blaid., *LMRX* ..yr hain., *AGJSTUVYcd* ..hen.,
N ..ha i., *I* ..rhad y blaid.. 27 *HKPza* ..lle i bydd.. 28 *BNY* ..bwyd yn.,
H/Kza/P oll/oll an/oll au bwydau n., *G* ..ai.. 31 *W* 32–31 32 *HKZ* ..maen
 anhwsmon.. 33 *a* ..maeth.. 34 *B* ..mael.. 35 *d* ..wedi i., *V* ..gyweiriaw 37
HKPza i mae n rhedeg.. 38 *N* ..krv., *T* ..gwyh.. 39 *L* [39–40], *KZ* mae n
 nythu yma n nithiaw 40 *K* ..ffrom drud..draw 41 *BIN* vn yn dra., *KZ*
 ..rhwydd., *Za* ..yn troi n., *ASU/GPTY/JMVcd* ..yn/yna/yn a dry n., *BCNb*
 ..y rhod 42 *X* ac.. 43 *L* arth genav rwth i., *HKZc* ..a., *RX* ..rwyg.. 44
HKPza ..yn.. 45 *Y* i glap hwn., *HKZ* ..paun., *BEFHKNQWza* ..glap.. 46
T [46], *EFOQW* ..ir.. 47 *EFHKPQWza* troe., *T* tario n., *KPza* ..yd uwch.,
AGJS–VYcd ..vwch.. 48 *UV* treia., *ALTZ* ..trwy ganol 49 *BCHIKLNZab*
 [49–50], *AGPTY* ..i., *EFO* ..tropio.. 50 *DFMQRWX* ysgydwyd., *E*
 ysgydwad., *Y* ysgydiad.. 51 *B* ..bair., *BIN* ..o bvr.. 52 *BJKMNSUVac* o.,
PYa ..ir a ballv r., *FOQW* ..ai., *ACDGHJ–MRS–VXZbcd* ..ballv r.. 53
AJSUVd ..gyflawn.. 55 *ABGHJKLPR–VXYZcd* ..oi.. 56 *L* traensiwr fawr., *a*

..flaen., *BKTVa* ..trwynsvr.. 59 *H* [59–62], *D* ..thynid.. 60 *RXa* ..a., *BIN* ni ddon., *L* ..a oi lofft..i lawr 62 *MNQ* ..ddwbledav 63 *G* dvg., *B/IN* ..o radd/rad.. 64 *I* ..dig., *Cb* ..grynva.. 65 *AGJPS–VYcd* 67–8, 65–6, *H* [65–8], *EFOQW* ..gwres., *X* ..groch.. 67 *Q* [67–8] 68 *A–EGIJL–OR–Xa–d* ai., *BGNPRUVXYa* ..wedi fathv, *AC–FIJLMOSTWbcd* ..wedi fethv 69 *Q* [69–70] 71 *H* [71–4], *B/IN* dav/da o nadd.. 72 *BINQ* daw., *CJLMSUVa–d* doi., *PY* dad., *EFOW* ..o iwrth lef.. 73 *L* y., *DL* ..i.. 74 *AEFGJMO–WYcd* a roe., *X* a ddode..

i

gwaed Rhys chwith yn goed dras ynt
gwayw a chornor gwydch arnynt

Moliant Rhisiart ap Rhys ap Dafydd Llwyd, Gogerddan

- Syr Rhys oedd dros orsedd draw
 Saint Iorys â'i wayw'n taraw.
 Saetha i ennill saith ynys,
 4 Siort y pren, Rhisiart ap Rhys.
 Siryf at dwyts arfau tân,
 Saetha wledydd, saeth lydan.
 I'ch llaw chwithau lle chwythynt
 8 Acw tyr gwayw Ector gynt.
 Ffresa' dim, ffrwst i ymwan,
 Ffwg at ei wayw, ffagod dân.
 Ffraeth Frytwn, ffrwythfawr ytwyd,
 12 Ffriw ddewr a chorff Rydderch wyd.
 Gosawg i'w glych, gwisgi glân,
 Gwalch gwiw gwrdd gweilch Gogerddan.
- Dwyn ydd wyd ewinedd arth,
 16 Dwrn hebog, draw 'neheubarth.
 Tro d'ewinedd trwy d'ynys,
 Tyn wŷr y Llwyd hen i'r llys.
 Naw cant o wŷr cennyt oedd
 20 I'th dai, Risiart, o'th drasoedd.
 Dafydd Llwyd a fyddai llyn
 Wedi cynnull dau cannyn.
 Ni welas dyn lai o stad
 24 I chwi undydd no'ch hendad.
 Wrth fodd llew, arth Ddafydd Llwyd,
 A theirw Einion y'th raeniwyd.
 Rhan Dewdwr, yr hen deidioedd,
 28 A Rhodri Mawr, rhydrwm oedd.
 Ni chaf waed na chyfodai
 Dau Ddafydd Llwyd; oedd fodd llai?
 Edn y coed, edeiniog hir,
 32 Wedi hedeg Deheudir,
 Amau heol ym Mhowys
 Na roir yn rhan wyrion Rhys.
 Rhan a gawn o'r rhain gennyh;
 36 Rhaid oedd gael anrhydedd gwych.

- Rhisiart, wayw Rhys, o'r Tywyn,
 Rhwygyd y ffair rhag dy ffyn.
 Gŵr yn rhoi gwewyr yn rhest,
 40 Gwŷr yn ôl a gornelest.
 Brau cai ymlid, brig Camlan,
 Braisg wyd ymysg brysgoed mân.
 Bwrw, ustus Aberystwyth,
 44 Beilch i'r llawr, a bylcha'r llwyth.
 Ni ddôl Arthur oddi wrthyd
 Â'r un gair a'i ran i gyd.
 Ni ddaw'n iawn i ddyn unoed
 48 O lidiaw draw led ei droed.
 Ni chaf yr un uwch ei frig;
 Nid yw'ch oed ond ychydig.
 Tors aur dros y teirsir draw,
 52 Trwst Deheubarth troist heibiau.
 Tor wayw bonfras trwy Benfro,
 Tyr drwy feilch, taradr yw fo.
 Tair sir a 'stynnir i'w stad;
 56 Tyrd unwaith â'r tair danad.
 Ar Dduw byth roedd obeithiau
 Roi'r Deau'n llwyr ar d'un llaw.
 Y radd gynnar oedd gennyd:
 60 Ariannu gwar yna i gyd.
 O chaf waed â chyfodiad,
 A gorchest yw gyrchu stad,
 Aerwy rhuddaur y rhoddych,
 64 Aros art aur, Risiart wych.

Ffynonellau

A—BL Add 14976, 77^r B—LIGC 872D, 333 C—Gwyn 1, 147^v D—Card 4.10 [= RWM 84], 351 E—CM 12, 623 F—BL Add 31067, 179^v

Amrywiadau

9 A–F ..ffrws di.. 10 A–F ffawk.. 11 A–F ..fredyn..ydwyd 13 C ..gylch.. 17 D tarro.. 19 A–DF ..kennyd.. 23 ADEF ..welais.., BC ..is o.., DE ..is lai stad, F ..is lai o.. 25 ABF ..dafydd.. 27 D raen.. 28 A–F i.. 44 BC y..llawr bylchia r.., C ..gwyr beilch.. 53 E ..benfras.. 54 A–D tyrt.., EF dyrt.. 55 E ..sir estynnir ei.. 60 C ..yno.., D arianau..

Moliant Wmffre ap Hywel ap Siancyn, Ynysyemaengwyn

Mae llew glân ymhell â'i gledd,
 Mae'n dynnaf mewn Dwy Wynedd.
 Mae nod urddol mewn d'arddwrn,
 4 Mae ffrwyth y wedd, Wmffre, i'th ddwrn.
 Mynwair haeddaist mewn rhuddaur;
 Mae'n rhyw ei dwyn mewn rhod aur.
 Dal er beilch yn dy law'r bêl,
 8 Darnia'u hëyrn, dwrn Hywel.
 Aml wyrion, a milwriaeth,
 Siancyn yt dros nawcan traeth.
 Un wyt ti yn y Tywyn
 12 Aeth â'r did a'th iau ar dynn.
 Tynni gŵys atun i gyd;
 Tannau Gwynedd tyn gennyd.
 Edn y gwalch wyd yn y gwynt;
 16 Eraill, adar oll ydynt.

I'th henwaed aeth hyn o dir
 O'th ewinedd ni thynnir.
 Od oes dwy wlad is dy law,
 20 Eiste weithian i'w 'stwythaw.
 Ai anodd rhoi i Wynedd rest?
 Ei ffriw unwaith a ffrwynest.
 Sawd a weles i dalaith;
 24 Siryf a roes arf ar waith.

Gwŷr gennyd, yn graig wynias,
 Doen' wedi r'gloi dan wydr glas.
 Mylais coed yw maels cedyrn
 28 Am ffriw a chorff Wmffre chwyrn.
 Â gwayw Einion ac Ynyr
 Y maes a gaid ymysg gwŷr.
 Dwy Wynedd oedd dan y ddau,
 32 Doen', eich iaith, danoch chwithau.
 Aerwy gwyn, wŷr i Ginast,
 Aur y dêl o war hyd wast,
 A llwyth â gwraidd oll i'th grys,
 36 A llew bioedd holl Bowys.

Holl iachau'r ieirll i chwi'r oedd:
 Holl Gred a holl Loegr ydoedd.
 Ef aeth eu gwaed, fyth y gwedd,
 40 I ti, enaid Dwy Wynedd.

E gair i aros gorwyrion
 Iarllles o Went i'r llys hon:
 Llath aur brenhinllwyth Urien
 44 A lloer bert Iarll Herbert hen.
 Ef âi'r gannaid fry gennyich,
 Ferch hawc o Went, farchog gwych.
 On'd iawn at hon dynnu tant,
 48 I'r Ddwy Wynedd urdduniant?

Mawr oedd hap, mae arwydd hyn,
 Mae'r gwaed da ym mrig Tywyn.
 Am Hywel y mwyhaud;
 52 Yma'r aeth gras mawr i'th grud.
 Aml gair yt, aml gwŷr atad,
 Aml iawn yw gwledd ym mlaen gwlad.
 Aml ceirw meirw, aml cwrw a medd,
 56 Aml yw'n gwin ym mlaen Gwynedd.
 Yma'r aeth dawn mawr i'th dad;
 Yma eto mae atad.
 Yma'r oedd gael mawredd gwych;
 60 Ym myw Gwynedd mae gennyich.
 Yma'r aeth hap môr a thir.
 Am eich gwaed yma'ch gedir.

Ffynonellau

A—Pen 100, 230 B—Bodewryd 1, 27 (collwyd rhannau o'r testun) C—
 Llst 133, rhif 69

Amrywiadau

9 B ..wirion.. 13 C tynnu gwas.. 44 B ..bort..

Cywydd i gymodi'r bardd ag Owain

	[]on
	[] dy linon
	[]
4	[]
	[]nwydd brav
	[]sg yntav
	[]yrn
8	[] dan chwyrm
	[] gwin
	[]in
	[]ayw n ys
12	[]
	[]g trin
	[]enin
	[] na dav
16	[] achav
	[]ael
	[] nor da hael
	[]ych ydwyd
20	[] a dethol wyd
	[]yd ar delyn
	[] gwar yr oen gwynn
	[]r wrth goegwyr ith gaid
24	[]n dwyn llafn yn dan llifaid	

Da dŷ gwyn, doed i'w gynnal,
 Ac i'th fwrdd, gwenith y Fâl.
 Bwyd ar hwn heb oedi 'rhawg
 28 Beirdd llys, byrddau lluosog.
 Cinio, a gwahodd cannyn,
 Heb roi gwaeth no bara gwyn.
 [D]wyn bragod i'th dŷ'n bregeth,
 32 [] bwrdd, a gwin beth.
 [] e i hap a'i werin
 [] wr]aig well ei bara a'i gwin:
 [Gwen]lian wych, ganllaw'n iaith,
 36 [Gwra]ig wen heb garu gweniaith.

Doeth didaer, [da i'th dai ydwyd],
 [Da] wrth wan, a diwar[th wyd].
 Rhyw bonedd, rhoi heb u[]
 40 Bord rydd heb air du e[].
 Da y dôi, enw dadannudd,
 Merch Ieuan wych y[m mraich Nudd].
 Da wyd ermoed, awd[],
 44 Da, Duw, yn dy dŷ, Owa[in].

 Dyn wyf wedi'i anafu;
 Dy fâr ers encyd a fu.
 Caredig cywir ydwyf
 48 Ywch dan un ach, d[y nai] wyf.
 Minnau a gaf mwy nog wyth
 Rent o wyllo'r un tylwyth.
 Gwenllïan, gwynlliw ewyn,
 52 *Perwch*, ymheliwch am hyn.
 Berw wyd, Owain, bar diwyd,
 Bwrw i'r llawr y bâr a'r llid.
 Moes law i 'mwystlaw am air,
 56 A maddeuwch am ddeuir.

Ffynhonnell

Bodewryd 1, 26

Darlleniadau

26 ath.. 27 ..oedio r.. 41 da doe.. 45 ..wedi anafy 49 a mine.. 52 berwch.. 53 barr wyd..

Moliant Robert ap Rhys, Plas Iolyn

- Y mab a'i enw 'mhob ynys
 Hyd y mae pridd wyd, mab Rhys.
 Un dyn cryfa'n dwyn crefydd,
 4 A theirw a seirff o'th wŷr sydd.
 Mastr Robart, rymus dribwrdd,
 A'r beip o win ar bob bwrdd,
 Bywyd ynn heb oed unawr
 8 Basg, aur mab ysgwier mawr.
- Mawr yw d'aur, Mair, a dyrrodd,
 Mawr oedd air Rhys, mor dda rhodd.
 Gwir yw nid yw gair, nid aeth,
 12 Heb ei ennill o bennaeth.
 Eich hynaif chwi a hanoedd
 O'r cawr gwych o'r creigiau oedd.
 Codaist o'u blaen, cedwaist blaid,
 16 Cadau mawrion Coedmoraiad.
- Yma'ch cad, yma'ch codir,
 Mor draws â dwyn môr dros dir.
 O rhoech chwi wg yn rhy chwyrn,
 20 Ofni caid o fewn cedyrn.
 Niwr Dduw un o'r Ddwy Wynedd
 Nad ofna clap deufin cledd.
 Dy fariæth yw dwfr a tân;
 24 Od oes gwg nid ysgogan'.
 Aen' o'th ôl yna i'th ddilid
 A rhoen' i lawr yr hen lid.
 Eiddil yw gwŷr i ddal gwart,
 28 A mwstr heboch, Mastr Rhobart.
- Llyma fan lle 'mofynnir:
 Llawenydd holl Wynedd hir.
 Da, lew, gennyf, Dôl Gynwal,
 32 Drigain oes drigo'n ei wâl.
 Tŵr mal Iorc, teirmil i'w wledd,
 Trysor gwin tair sir Gwynedd.

- 36 Od yw to'r wal hyd y trŵn,
 Y mae'r gwin ym mrig Annwn.
 Un wyd, a'i wledd, nid ail, ŵr,
 Nid âi'n waeth no dwy neithiwr.
 No lli'r medd ni ellir mwy
 40 Na llai gwin no holl Gonwy,
 A mwy o ddyn yma ddêl,
 Na llai rhif, no llu rhyfel.
 Diddig iawn ydoedd gennyd
 44 Dy wên ar bob dyn o'r byd.
 O chyhyrddwch â cherddawr,
 E chwaddai fynd â'ch rhodd fawr.
 Ni chaid deulwyth na'ch talen'
 48 Âi ar y llong o wŷr llên.

- Wrth hynny, awr y'th aned,
 Ennill gair oedd yn holl Gred.
 Da rhoes y Tad ras i ti
 52 Acw'n d'wyneb cyn d'eni.
 Nid âi'n wyneb deunawyn;
 Nes digio Duw nis dwg dyn.
 Dysg i ryfeilch d'ysgrifen,
 56 Doctor o hyd Ector hen.
 Aeth afon dysg o'th fewn di,
 Aeth olynol i'th lenwi.
 Pe bai uwchben pab eich bod,
 60 Pêr yw blaen parabl ynod.
 Pwy'n a arwain pân euraid?
 Pe mynnych hwn pam na chaid?
 Cymro'ch caem, cym euro'ch cob,
 64 Cymer wisg, cymar esgob,
 A chais radd, achos ruddaur;
 Cyfod, dy ras, cai feitr aur.

Ffynonellau

A—J 140 [= RWM 15], 378 B—Brog 3, 590

Amrywiadau

8 B kaf.. 9 AB ..dair.., B ..ai.. 10 B ..i rhodd 13 AB ..hynaf.. 17 AB ..gedir, B
 ..gaed.. 23 AB ..far aeth.. 25 B an.. 26 AB a rhon.. 28 A mwstwr.. 33 A
 twrnial.., AB ..teirnal.. 37 AB ..ai wr 41 B ..a ddêl 45 B ..chyhyrddych.. 46 B
 e a.. 47 AB ..ach.. 53 B ..ai yn.. 57 AB 58–57 61 B ..y.. 63 AB ..kemeuroch..
 64 A kymar.. 65 A achlvst radd.. 66 AB kyfyt.., B ..rad..

Marwnad Tudur Aled

- Troi llawngwyp trwy holl angerdd,
 Trawiad gwn trwy iad y gerdd:
 Trwy Dduw y treiodd awen,
 4 Tad *urdd* beirdd, Tudur oedd ben.
 Och o'r floedd ddechrau'r flwyddyn!
 O chuddiwyd, och Dduw a dyn!
 Y *bêl* wenwyn o *blaened*
 8 Bwriodd un crair beirddion Cred:
 F'athro hoywdwf weithredoedd;
 A'i air da ym erioed oedd.
- Gan farw dysg gwae ni, Fair deg,
 12 Gwae am rewi'r Gymraeg.
 Gwyrodd o'i ben gerdd y byd;
 Gwelaf foddî'r gelfyddyd
 A'r awen fawr o'r trŵn fu;
 16 Trwy awch ennyn tri chanu.
 Rhoi i ni ein rhan a wnaeth;
 Ni rôî'n gŵr iawn ragoriaeth.
 Doe'r âi yn fud, derwen fawr,
 20 *Dudur Aled*, ar elawr.
- O'i fwnwgl ef, yn ei glog,
 Ef âi'r freugerdd fawr frigog:
 Ei gywydd braisg oedd y brig,
 24 Eilwaith awdl yn blethedig;
 Diwygiai gerdd deg ei gwaith
 Doe, ac englyn digongliaith;
 Dewis dyn dan destun deg,
 28 Di-rwystr y dôî ar osteg;
 Gwraidd *yr* holl gerddau a'u had,
 Gordd fêl y gerdd ddyfaliad.
 Myn Dwynwen, mwy nid annwyl
 32 Meirch od aeth; merched a wyl.
 Nithio'i gerdd a wnaeth i gyd,
 Gwenith yno gwnaeth ennyd.
 Main gwyrthiau, mewn y garthen,
 36 Y gyrrai bob gair o'i ben.

40 Wylais draw. Lewys a drig,
 Môn; Wynedd, mae yn unig.
 Beth a wnâi ych byth yn wâr,
 Bôn cymwys, heb un cymar?
 Iawn yma oedd yn y man
 Werthu hwn wrtho'i hunan.
 44 Ef aeth, o'i fod fyth i'w fedd,
 Ddicter gan ddoctor Gwynedd.
 Gŵyr Syr Rhys, *gŵr o'i sir* aeth,
 Gwir ddaearu'r gerddwriaeth.
 48 Rhoes Duw ar hwn, rhwystyr hir,
 Lai'n ei hoedl yn Neheudir.
 Aros un ŵyl wers a wnaeth;
 Ef â'r ŵyl yn farwolaeth.

52 Nid un gennad, a'i gwanodd,
 Newidiai'i fyd, on'd o'i fodd?
 Oni bai'i fod yn y bedd
 Ni chanai 'Yn iach!' Wynedd.
 56 Rhestio'n cerdd; rhoes Duw'n y côr;
 Rhoes yn unman Rhys Nanmor.
 Y gaer oedd *i'r* gweryddon,
 Gardd a had y gerdd yw hon.

60 Diwedd fu y canuoedd,
 Diweddwyd dysg, di-ddowt oedd.
 Er bod heddiw'r byd diddim,
 Eithr nid oes athro na dim.
 64 Ni throed un, athro da i wŷr,
 Eithr, y Tad, athro Tudur.
 Wylofain wnaef fi lifoedd,
 Alwynau dŵr, laned oedd.

Ffynonellau

A—Card 2.68 [= RWM 19], 574 B—CM 10, 451 C—LIGC 170C, 111

Amrywiadau

4 *A* tad yr., *BC* ..radd beirdd 5 *B* ..ddechreu flwyddyn 7 *ABC* ..fel.. flaened
 15 *A* ..trwyn., *B* ..ar irwyn fu, *C* ..ar wyn a fu 20 *ABC* tudyr.. 24 *A* ..owdl
 blethedig 29 *ABC* gwreiddiau holl.. 31 *C* mae.. 35 *BC* ..gwarthen 36 *A* ..i
 ben 45 *ABC* ..gwyroes ir aeth 46 *AB* ..ddeau ar.. 47 *BC* ..y rhwysdr.. 48 *A* lai
 o., *C* lai na i.. 50 *ABC* ..ai r.. 51 *BC* ..a., *ABC* ..gwahodd 52 *ABC* newidiai

fyd.. 53 *ABC* ..bai fod.. 55 *ABC* resdio kerdd.. 57 *ABC* ..y gweryddon 64 *A*
eithr tad.. 65 *A* wylof a.., *BC* ..rwyf fi..

Moliant Tomas Pennant, Abad Dinas Basing

- Pe bai lys y pab a'i wledd,
 Pwy'n well ynn, pen holl Wynedd?
 Arglwydd Dinas, gwledd Donwen,
 4 Basin hael, bo'i oes yn hen;
 Yr eryr gwyn ar wŷr, gant,
 A rôl'r punnoedd, o'r Pennant.
 O'th ôl yna y'th alwn
 8 Draw, 'r abad hael, drwy'r byd hwn.
 Nid oedd ofer dy ddyfod,
 Tomas, uwchlaw Tems â chlod.
 Ennill yr wyd oll ar wŷr
 12 Air da pawb, wŷr da pybyr.
 Oes wŷr *astrus* a rwystrodd
 (Oni bai'r wŷl) i neb rodd?
 Wedi'ch gwyliau da'ch gwelwyd;
 16 I'th dŷ, ddyw gwaith, diddig wyd.
 Dy rodd fydd y dydd y dôn',
 Barod oedd, i brydyddion.
- Brau ych, henllew brych wynllwyd,
 20 Bugail y gwŷr, baglog wyd.
 Aeth gras aml i'th grys yma,
 Ac e roed dysg ar waed da.
 Y mae'r iachoedd mor uchel,
 24 Ganwaith, mewn gwenith a mêl.
 Ni chawn oll uwch y naw llwyn
 Un iach isel a'i chyswyn.
- Eon wyd, âi wres yn draeth,
 28 Ac eneidle'r genhedlaeth.
 Llwyddiant oll oedd ddwyn i ti
 Llwybr a ffawd holl broffwydi.
 Ail Pawl wyd, helpa wledydd,
 32 Tithau'n sant weithian y sydd.
 Adnewyddai neuaddoedd,
 Tai Dduw a'i saint, addas oedd.
 Hen fynachlog â'r clog glas,
 36 Wycha' teml, i chwi, Tomas:

- Tai mal gwalau teml Gwlen,
 Tŷ mawr bob tymor ei ben;
 Plwm ar frig cerrig yn cau,
 40 Palisoedd heb hoel eisiau.
 Yr oedd adail urddedig
 Ar d'ôl draw, a dail a drig,
 A gweithio mur, a gwaith mwy,
 44 Gwyn afrifed, Gwenfrefwy.
 Dechrau ar lled ochrau'r llyn,
 Da diweddych dy dyddyn
 A gwalau serth eglwys hon,
 48 A chloi'i phen uwchlaw ffynnon.
 E gaiff redeg o'i ffrydoedd
 Geirw o'th fur iach, gwerthfawr oedd.
 Main gwridog mewn gro ydynt,
 52 Man *âi* friw gwaed Gwenfrefwy gynt.
 Dŵr *âi*'n afon drwy'r nefoedd,
 Diolch i Dduw, d'olchi'dd oedd.
 E *wyr i*'ch gŵyl, ar *arch* Gwen,
 56 Deirawr ddwyn dŵr Urddonen.
 Awr ni ad hwn arnad haint!
 Ni wyl hwnnw liw henaint!
- Dafnau o fewn d'afon fu:
 60 Dwfr a chwys deufraich Iesu.
 Duw a *rôl* yt ar dy ôl
 Deiroes, abad wrsibol.
 Holl abadiaid llu bedydd
 64 Acw'n dy fyw cennyd fydd.
 A bod naw abad yn un,
 Tydi oedd y tad uddun!
 Oen Duw ag aur yn dy gob,
 68 Ewch a gwisgwch hug esgob!

*Ffynhonnell*BL Add 14999, 78^v*Darlleniadau*

3 ..gwedd.. 4 basing.. 6 a roes.. 7 ..ynai thylywn 13 ..as dros a.. 15 ..gweliaw
 dai.. 16 y dy dduw.. 19 ..wyllwyd 24 ..a nel 27 ..traeth 35 henvyn a chlog..
 39 plwn.. 45 ..ochrav llyn 48 ..chloi ffen.. 51 ..mwyn gro.. 52 manav friw..
 55 ewyrach gwyl ar ych gwen 61 du a rydd..

Marwnad Tomas Pennant, Abad Dinas Basing

- ..Aur yma'n hir i'w mwynhau
 Ar dai'r saint a roes yntau.
 E g'weiriai frig y gaer fry,
 4 E gâi dâl, ac a'i dyly.
 Ni ddaw adwaith, na ddoden',
 Seiri naw oes ar ei nen.
 8 Gwaith gwalau gwaeth y gwelwn,
 Gwenfrewy hael, gan farw hwn.
 Sy o dâl dros adail draw,
 Tragwyddol y trig iddaw.
- 12 Rhannwyd gynt, er hyn nid gwaeth,
 Aur a bwyd o'r abadaeth.
 O chaid i'r enaid a rodd,
 Myn Garmon, e gâi ormodd!
 16 O dyly'r gŵr dâl o'r gwaith,
 Aed i'r enaid ar unwaith.
- 20 Anwiw byth ynn obeithio
 Abad o'i fath, *neb*, ond fo.
 Nid enillid o nawllath
 Oni bai'n fyw neb un fath.
 Oedd addas, un a weddai,
 Un o waed hwn yn y tai.
 24 Ni bu yno neb anael,
 Ni bo'n y tai neb ond hael.
 Mae'r awran un mawr 'n ei ôl
 Wedi *i* ddoethiaid ei ddethol:
 28 Un a gostiai yn gystal,
 Un a wnaeth ynn iawn â thâl.
- 32 Er bod draw'r abad rhywiawg
 Y gair â i'r hen garw 'rhawg,—
 Gŵr y rhoed gair a rhediad
 Yn ei oes deg yn ei stad.
 Gwaed dau lwyth, gyd-daleithioedd,
 Gwyn a choch, gan ei awch oedd.

- 36 Ych bôn gwyn uwchben Gwynedd,
 Weithian ef aeth yn ei fedd.
 Bu yn y byd ben abadoedd,
 Beuno hwnt ail, Benant, oedd.
- 40 Urddo'u cyrff, a rhwydd y caid,
 Ardduniant i'r ddau enaid!
 Eled fyth i'w wlad, efô,
 At Duw, Benant, a Beuno!

*Ffynhonnell*BL Add 15057, 18^r*Darlleniadau*

18 ..fath ond y fo 26 wedi ddoethied.. 32 ac..

Moliant Wiliam ap Siôn Edwart, y Waun

Oes gŵr gwych a wisg aur gart?
 Oes, wayw nawdarn Siôn Edwart.
 Mawr wyd, Wiliam, i'r dalaith,
 4 Meirch a gwŷr, a mawr yw'ch gwaith.
 Ysgwïer â'i goler gwyn
 Ych chwi, unfaint â Chynfyn.
 Ail Trefor o Faelor fu,
 8 Purdeg ŵr, pâr dy garu.
 Y sôn oedd dros Wynedd draw
 Wneuthur aur i'th oreuraw
 Eithr yr hen Arthur a'i hyd
 12 Aeth, o Iorwerth, i'th wryd.

Os dynion y sy danad,
 Ym mrest y Waun mae'r ystad,
 A'r dalaith erioed, Wiliam,
 16 Dan fawd gwaed Ednyfed Gam.
 Darnia'n fellt, yr onnen fawr,
 Dart ryfel Dudur Trefawr.
 Dy waed o'r hen deidiau 'rhawg
 20 A gwaed Harri'n gyd-diriawg.
 O'r rhandir mawr, hen deirw Môn,
 Y cair gŵr acw i'r Goron.
 Rho Duw, teg yw rhediad hwn:
 24 Rhôi i ti randir y Trwyndwn.
 Gruffudd ddewr, gorff a dduriwyd,
 O Faelor oedd fal yr wyd.

Aur i'th gaer, gwŷr a'th garant,
 28 A gwraig well nog o wŷr, gant.
 Gorau gwaed, a gwraig, ydoedd:
 Gwaed trwy hen ieirll, Gatrín, oedd.
 Gwedi troi gwaed y trihael
 32 Gwaed Siôn Hŵgs i gyd sy'n hael.
 Gair da iawn, Eigr a Dwynwen,
 Gwenfrewy, cyff Gynfrig hen.

- 36 Mawr yw gennym wraig annwyl;
 Morc aur oedd ym er cerdd wyl.
 Menig er cynnig aur cudd
 A rodd Ifor i Ddafydd.
 40 Menig Wiliam yw'n golud:
 Menig aur o'u mewn i gyd.
 Ni ddôi *un* llong, ddeunaw llwyth,
 Âi *i*'th dai, Wiliam, a'th dylwyth.
- 44 Gweled cynnull gwlad cennyh,
 Gwŷr Swydd y Waun, gorsedd wych;
 Maelor hyd ymlau'r Rhos,
 Iâl a Thegeingl, lwyth agos;
 48 Dwy Faelor hyd y Felallt;
 Dy dir â hyd y dŵr hallt.
- 52 Gŵr o stad, a gras Duw oedd,
 Gwylien' wrthych gael nerthoedd.
 Corff Rolant, craff yw'r olwg,
 Corfau dur ffens, cryfder Ffwg.
 Cawr, a gŵr braisg hir garbron,
 Cwrdd â'u dannedd cerdd dynion.
 56 Cur d'elynn, y carw dulwyd,
 Cur dy gas, Caradog wyd.
 Gwŷr dewrion gyr di *i* orwedd,
 Gochel wan â gwayw a chledd.
 60 Tra fych mewn tyrfa uchod,
 Digied wŷr glân, dwg di'r glod.
 Dwyn cynnydd deunaw kannyn;
 Didrahaus ydwyd er hyn.
 64 Y nawyr gynt a wnâi'r gwaith;
 Dwg ran y deg ar unwaith.
 Dyro'r rhif ar deirw rhyfel!
 Dithau'n iarll, a Duw a'th wnêl!

Ffynonellau

A—Brog 2, 366^v B—J 101 [= RWM 17], 481 C—BL Add 14989, 78^r (llau. 11–66) D—BL Add 31061, 161^v (llau. 1–6, 9–10)

Amrywiadau

4 B ..gwyr mawr.. 12 AB ..ai.. 22 C ..agkwr goron 24 C rroi ti.. 27 ABC ..gair.. 28 C ..gwell.. 34 AB gwen fry w kyff.. 36 AB mork a rodd vm.. 41 AB/C ..ddoi n llong/y llong.. 42 ABC aith.. 43 AB ..kynnydd.. 44 AB ..ych 49

C gwyr.. 53 *C* [53–4] 57 *ABC* ..di orwedd 59 *C* 60–59 64 *AB* ..rann deg.. 65
AB dyro rhif.. 66 *C* ..iarll duw..

Gofyn bwclod gan Forys ab Ieuan, Llangedwyn, dros Forys Goch

Mae yngo gledd ym mwng gwlad:
 Mab i ymladd am bumwlad.
 Ni bu fan heb ei finiaw,
 4 Morys, drwy wŷr y Mars draw.
 Mab i adu bw ydwyd;
 Mwya' sôn ym Mhowys wyd.
 Hap yw i'r balf, hypio'r bêl,
 8 Fu hap Ieuan ap Hywel.
 Llew yn geidwad Llangedwyn,
 Fal oen y daw, 'n flaena' dyn.
 Sôn i fannau sy'n fynych
 12 Roi'r aur ar gyw'r eryr gwych.
 Iau a thromwedd y'th rwymwyd
 Rhodri Mawr, rhaeadr ym wyd.
 Draig a'i phen drwy Gyffiniaid,
 16 Dewr dewr fflwch dordor â phlaid.
 Gwaed Gwennwys yn goed gwinwydd,
 Gwyn o'th fewn fal gwenith fydd.
 Ni thynnwn lwyth yn un wlad
 20 Na bai'n neitio'i ben atad.

Afal ydych o flodau,
 Gwin o bur bren, gwynber brau.
 Llawn awch oll yw ynoch chwi,
 24 A rhy lawn o'r haelioni.
 Awch aeth i'r fraich wythwyr fry,
 A nerth union wrth hynny.
 Oer, o dôi lid ar dy law,
 28 Osod dyn a'i siad danaw.
 Dau lid ar dy law ydoedd:
 Anaf dyn neu'i fywyd oedd.
 Iawn sarhad yn y sir hon;
 32 Mwy a ddygai'r meddygon.
 Lliw dy ffrw lle deffrowyd,
 Llew, dyn clau chwyrn, llwdn cloch wyd.

Mae byw eto mab atoch;
 36 Mor wisgi arf Morys Goch.

- Gwisgai ddur, gwasg y dderwen,
Gruffudd hael gorff Adda hen.
Ni chêl un eich haelioni;
40 Moes dôr o aur i'm meistri,
—Olwyn ifanc lawn afael—
A meichiau wyf am ei chael.
Bwced diarbed derbyn,
44 Brith ei dôr, rhag brathu dyn.
Brodiodd merch barwydydd mân,
Briallu'n berwi allan;
Gwnïo'i rhodd o gnau rhuddaur,—
48 Gwreichion melynion mal aur.
Mae cnotiau fal pinnau pen,
Dur efelydd, drwy falen.
Nyth i edn aeth o'i du'n ôl;
52 Nithio gwenith o'i ganol.
Drych un llaw yn lluddiau lladd,
Drws amlwg ar draws ymladd;
Cryn eurborth crwn i erbyn,
56 Caid,—on'd teg?—cadw enaid dyn.
Lloer hwlont lliw aur hoelion,
Lle ing y rhoir llaw 'ngwar hon;
Llen a gwydr llawn egwydydd,
60 Lle i gadw dwrn, llygaid y dydd;
Llen a bair cerdd, llun wybr cau,
Llech o dân lluchedennau;
Lliw tridis yn llaw tradewr,
64 Llawrodd y dyn, llariaidd dewr;
Lleuad alawnt lle delwyf.
Llyna'i chael,—llawenach wyf!

Ffynonellau

A—Pen 86, 281–2, 287–8 B—LIGC 6681B, 86 C—LLGC 3050D [= Mos 147], 370 D—CM 14, 100 E—BL Add 14873, 82^r F—BL Add 14976, 207^v G—BL Add 14969, 191^v H—Card 4.10 [= RWM 84], 423 I—LIGC 18B, 339 J—BL Add 31067, 182^v K—LIGC 170C, 171 L—BL Add 15000, 158^v

Amrywiadau

1 DE ..gwledd., I ..min.. 3 L [3] 5 FGI–L ..Adam., H ..adwn.. 7 K ..oi.. 8 F–L yw., BDE ..vab.. 10 KL ..daw a.. 11 FIJ ..fanavr., GHKL ..faner.. 15 HJ ..a.. 17 C ..gweinwys.. 20 C ..oi.. 22 B–L gwyn, A ..ber., E ..gwinber.. 23 A–E ..oedd.. 27 H ..dae.. 29 CF–L ..ai., F–JL ..dylav., K dan..dylan.. 30 D

anap., *ACF-L* ..nei fowyd., *B* ..a difowyd., *DE* ..ai.. 31 *BDE* ..ssy raid.. 33
ABDEL ..da i.. 37 *F-L* gwisgi.. 40 *J* ..in meistr ni 45 *E* ..march.. 47 *B-K*
 gwnio rrodd., *L* gwnio r., *FHIJ* ..o gan., *G-J* ..rrvddvr 48 *CF-L*
 a..melonion mvr 50 *ABDE* ..drwy i.. 51 *I* ..du ol, *K* ..ar.. 53 *C* ..llidiaw.. 55 *I*
 ..ddurborth..dderbyn 56 *CF-L* ..keidw.. 57 *FHIJ* ..haelion 60 *AB* ..gadw r..
 63 *C* llyn., *F-L* llvn., *G* ..llaw r., *FH-L* ..llaw n.. 66 *E* ..oi..

Awdl farwnad Syr Rhys ap Tomas

- Cleddau y Deau y dydd—y torred,
 Tiroedd Cred nis gorfydd;
 Caem ŵr yn rhoi Cymru'n rhydd
 4 Cyn tlodi cant o wledydd.
- Meirwon fydd gwledydd, goludog—i'r brain,
 Gwae'r Brenin coronog;
 Mudion yr aem dan yr og
 8 Marcio dyn mawr cadwynog.
- Marchog cadwynog, hyd ynys—a'i lled
 Llai ydoedd, ŵyr Emrys;
 'N amser iôr yma, Syr Rhys,
 12 Môr Groeg hyd emau'r gwregys.
- Syr Rhys, gwae'r ynys goronawg—ar d'ôl,
 Gwae'r dalaith am farchawg;
 Syrthio'r wlad—serth—oludawg
 16 A soddi'r holl swyddau 'rhawg.
- Tarianawg farchawg fu erchwyn—cadoedd,
 Ceidwad Ynys Brydyn,
 Tarw amlwg tyrau Emlyn,
 20 Trist ar d'ôl y troes Duw'r dyn.
- Duw mawr yn un awr a wnaeth—wylo gwaed
 I lawr gyda'r hiraeth,—
 Dŵr dilyw o dra dialaeth;
 24 Darn y sydd o'r deyrnas waeth.
- Teyrnas aeth yn waeth, ewch weithian,—y gwŷr,
 I guro Cad Gamlan;
 Dydd dreigl â diwedd d'rogan;
 28 Du arwybr oedd ar dair brân.

- 68 Caem wŷr â gallu, Cymru, a golled,
Caem wŷr â swyddau, Cymru, a sodded;
Caem wŷr am lysoedd, Cymru, ymliased,
Caem werin efydd, Cymru, anafed;
Cymru o'i deutu dweted—am Syr Rhys,
- 72 Ceidwad tair ynys: cadwed Duw'r ened!
- Cadwen' art heddiw, cadwyn aur todded,
Croeso i selio curas a saeled;
Cu oedd cau'r siroedd, cuddio'r cwrseried,
- 76 Ceirw uwch y llannerch a'r ceirch eu lloned;
Cwmpodd teirw, crynodd tir Cred—yn awawr,
Cablwyd hyd y llawr cwbl hyd a lled.
- Cwmpo Deheubarth, campau da hybed,
- 80 Costio llu a gwŷr cestyll agored;
Cawr nesa' i Arthur, coronau syrthied,
Croes Duw am Ddeau, Crist a'm maddeued;
Cair uwch ei fedd o'i orwedd ddaered,—feirch gwychion,
- 84 Cladd oer, bryd dynion, cleddau'r Brutanied.

Ffynonellau

A—Llst 38, 89 B—Llst 133, rhif 786 C—BL Add 31067, 227^r D—Llst 133, rhif 936 E—LIGC 5474A, 222

Amrywiadau

1 *E* ..torres 2 *DE* treiodd cred tragofydd 3 *DE* ..wyr.. 6 *DE* ar.. 7 *C* ..yr an.. 9 *ABC* y..., *C* ..ynys lled 11 *D/E* mesurodd/messur oedd yma.. 12 *DE* mae r grog dan.. 15 *DE* syrthia r..syth.. 16 *DE* o., *C* soddi r.. 17 *DE* trugarog.. 18 *C* ..Prydyn 20 *DE* ..yn d ol troes Duw bob.. 21 *DE* y Duw mawr yn awr.. 22 *A* ..lawer..., *E* ..gida hiraeth 23 *B* ..diluw dra..., *D* ..d alaeth, *E* ..dylaeth 24 *DE* darn sydd..yn waeth 25 *ABC* y dyrnas..., *DE* ..waeth weithian.. 27 *D/E* ..dreigil/i dreigl diwedd.. 28 *A* ty..., *DE* du wybyr.. 29 *ABC* kan..., *C* ..i bran..am Rys, *D/E* ..i/a hedfan..yn hast 30 *ABC* drwyr..yn drowaner 31 *ABC* ..hyd awyr.. 32 *E* ..chwin ben.. 33 *D* ..hyd hyn.. 35 *D/E* tair..crywaith/trywaith iddyn 36 *ACDE* ..keirw..., *B* ..cenew..., *DE* cyrrau y grog.. 37 *DE* ..cur enaid ar med 38 *DE* cryn saith..cryn y.. 39 *BC* ..brytid..., *C* ..twyned, *DE* ..oll wybr.. 40 *C* caer rwys..., *E* ..gadarn yn..., *DE* ..ymysgydwed 41 *B* ..dafedd..., *C* ..dofed dy..., *DE* ..ai dwy faingc..ei..., *E* ..ys dofed.. 42 *C* ..union..., *DE* ..un hygarw Rheged 43 *ABC* ..ked a doped, *D* ..wyt yn ateb, *E* cedyrn.. 45 *C* car..., *DE* cau r deri..afnai cadarn.. 46 *C* ..d eni lloegr..., *CD* ..caen.. 48 *C* cadarn.. 49 *D/E* cwit oeddem/dda oedd..dydd/ddydd annyned 51 *CDE* ..fedw gwrddion..., *E* ..ar ei.. 52 *A-E*

[52] 53 *ABC* [53] 54 *ABC* kymru., *AC* ..drwy., *DE* cryn., *D* ..crwyn terw awched, *E* ..y crwyn.. ..awched 55 *DE* ..caen.. 56 *C* ..ach., *DE* can oes eich.. 58 *AB* ..yw y mewn., *C* [58], *DE* cloi ia i mewn clywen.. 59 *ABC* ..am farchog.. 60 *AB* ..an llafar., *C* ..unllafar., *DE* cawn fyddin fyrdd yn llawr caer llefed 61 *B* ..ynni., *D* canu mawl heb ymay., *E* canmawl heb enni.. 62 *D* cawn aml o nython., *E* cawn aml yn ochain..nyched 63 *DE* ..aml., *E* ..yn fudion.. 64 *E* can.. 66 *D* ..aml wylaw., *E* ..aml wb wylaw.. 68 *A* ..kymru sodded, *E* ..wyr o.. 69 *DE* [69] 70 *E* [70], *D* cania y oer a fydd a fodded 71 *DE* ..o dautu.. 72 *DE* ..cedwid., *D* ..denaid 73 *DE* cadwyn aur heddyw., *E* ..rhodded 74 *ABC* korysso seilio.. 75 *DE* [75] 76 *C* ..uwch llanerch., *DE* ..llenneirch.. 77 *C* ..cwynodd., *DE* [77] 78 *D/E* caplwyd/cwplwyd hwy o hyd i lawr o.. 80 *ABC* kosti., *C* ..lliw., *DE* castio.. 81 *AC* y., *D* ..y coronau.. 82 *AB* ..a., *C* ..y., *D/E* ..Duw Amen dan Crist wyn madded/maddeued 83 *AC* kei., *ABC* ..y orwedd., *B* cau., *DE* cloi ch bedd i orwedd ar., *E* ..ddaeredd.. 84 *A* ..brud., *DE* clawdd aur brut union..

Moliant i'r Drenewydd

- Y dref fydd, da ryfeddod,
 Heb wad uwchlaw'r byd â'i chlod,
 Tref i mi tra fo 'mywyd,
 4 Newydd fawr barch, noddfa'r byd.
 Tref, adail tyrfa ydwyd,
 A nyth y paun i'w thop wyd.
 Tref onest yn trefnu stad
 8 Ac â chornor gwych arnad.
 Eglwys i Fair ar glos fydd,
 Â mwg aur o'i magwrydd.
 Eglwyswyr yn galw Iesu
 12 A'r organ fawr ar gân fu.
 Angylion Duw yng nglan dŵr,
 Bawb, a wrtheb aberthwr.
 Cadair braff, coed aur ei brig,
 16 Clych a chwyr, calch a cherrig,
 A'r tŵr oll a'r tair allawr,
 A'r tair un modd â'r trŵn mawr.
- Erw ar fin yr afonydd,
 20 Yr India Fawr un dai fydd.
 Duw a eurodd daearen;
 Dewr gŵr gwych, diwair gwraig wen.
 Diwall rhoddion dull Rhydderch;
 24 Dewr dewr mab, a da ordr merch.
 Pawb da'n un, pob dyn ynod,
 Pell a'u clyw, pwy well eu clod?
 Ni chêl yno'ch haelioni,
 28 A daed eich hen deidiau chwi.
 Gan eich plant, nawcant yn iau,
 Y caid aur o'u cadeiriau.
 Duw, ni chawn, doen' ychwaneg,
 32 Wyneb un dyn heb wên deg.
 Oered wledydd ar dlodion;
 Yr haul haf yw'r heol hon.
 Ni bu lôn heb lawenydd
 36 Ond yn ei stad nos a dydd.

Da waith a gŵyl doethaf gwŷr
 A da'u trwsiwyd, wtreswyr.
 Pleidiau 'mhob heol ydoedd,
 40 Barwniaid teg eu braint oedd.
 Buarth yn ail i byrth nef,
 Baradwystraul bwrdeistref.
 Ni bo i'th dyrfa byth derfysg;
 44 Cordiwch, mae cariad i'ch mysg.

Aur o randir yr Indiaf
 Yma o'u cyd mi a'i caf.
 Dechrau'r byd, iach arbedwyd,
 48 'Niwedd f'oes fy noddfa wyd.
 Amod hir, yma tariwyf
 I fyw'n eich plith, fynach plwyf.
 E dynn pawb at wyneb haul
 52 O fryn oer i fron araul.
 Mwyna' gardd, man i gerddwr,
 Man glân dyn mewn y glyn dŵr.
 Manna'r oedd mewn yr eiddi,
 56 Mudo i nef, yma down ni.
 Gwelwn, odiaeth glân ydwyd,
 Gair tra fych, gorau tref wyd.
 Wyth o Rufain a'i threfydd
 60 A'i stâl fawr is dy law fydd.
 Cai radd hon, cyrraedd hynny,
 Cadw hen fraint Cedewain fry.
 Can gwlad oedd cawn glod uddun;
 64 Cymerwch air Cymru'ch hun.
 Cai fyth barch a'r cyfoeth bid!
 Cai'r holl glander, cell glendid!

Ffynhonnell

BL Add 31061, 160^r

Darlleniadau

6 ..nyth pavn.. 53 mwyia..gerddawr 54 ..mewn glyn..

Moliant i Groesoswallt

Tyrfa wych tra fo iechyd
 Tref oedd ben tyrfaoedd byd:
 Tref Oswallt, tir y fesen,
 4 Tref â rhwysg Troea fawr hen;
 Traethen rhwng tair o ieithoedd,
 Tŷ Dduw a'i saint, addas oedd.
 Teg yw'r haul at y gaer hon,
 8 Tai â seigiau'r t'wysogion;
 Tai o rŵm mawr, tyrau main,
 Tai, glendid teg, o Lundain.
 Trefydd pob tir a rifwn;
 12 Oes lawer tref islaw'r trŵn?
 Nid adwaeniad y dynion
 O'r teirmil hwnt tre' mal hon.
 Lliw tai Affric lled dyffryn,
 16 Lloches deg lle iachus dyn.
 Cyd newydd-dai coed nadd-deg,
 Cyplu tai, capelau teg,
 A lliw gwal galch, llogel gwyn,
 20 Ac un tuded gan tyddyn.
 Plasau adail,—Powls ydoedd,
 Pryd a sail Paradwys oedd.
 Parth Heiob gynt, pyrth heb gau,
 24 Perl euraid yw'r parlyrau.

Nid goludog t'wysogion
 Yr India hir on'd yw hon.
 Mae'r trysor mawr a'r trwsiad,
 28 Mae gras Duw, mae gwŷr o stad.
 Gardd iso mag urddas mawr,
 Gwŷr dilesg o grud i elawr.
 Da wŷr i Dduw draw oedd oll
 32 Heb amherchi'i bum harcholl:
 Gwŷr o ddysg â gradd ysgol,
 Gwŷr Duw, a chant gwrda i'ch ôl.
 O chwech cant, uwchuwch y'ch caid,
 36 Isa' gwŷr yw sgwieiriaid;

Rhyw arglwyddi'n rhoi gwleddoedd,
 Rhan a'r llwyth o'r henieirll oedd;
 Da wŷr â gwaith dur ac onn,
 40 Da wragedd diorweigion;
 Da feibion gwychion ddydd gŵyl,
 Da ferched difai orchwyl.
 Mae rhianedd heulwedd hwnt
 44 Mewn damasg â main diemwnt.

Ni nodais dyn wedi stad
 Ond wtreswyr da'u trwsiad.
 Bwrdeisiaid yn bwrw disoedd
 48 Am bib o win i bawb oedd.
 Wyth o wledydd, a thlodion,
 Â i'r cinio hir acw'n hon.
 Mae i 'nhafod, bob man hefyd,
 52 Bib osai draw bob ystryd.
 Byrddau na chost beirdd ni chaid
 Heb hon, nyth y penaethiaid.
 Rhoi'r aur i'r glêr, hir yw'r glod,
 56 Rhannu'r aur, hen eryrod.

Nid oes gosod esgusaw,
 Ni chaem un drwg o'ch mewn draw.
 Ni chawn o dir eich hen daid
 60 I neb erw na bai euraid.
 Can gwlad oedd, cawn glod uddun,
 Cymerwch air Cymru'ch hun.
 Gair heddiw, gwŷr a'i haeddodd,
 64 Âi Gymru 'rhawg am roi rhodd.
 Y gair erioed, gorau'r aeth,
 I chwi; nef i'ch hynafiaeth!
 Gair da fo 'rhawg i'r dwfr hallt!
 68 Gair oes oesoedd, Groesoswallt!

Ffynonellau

A—Brog 2, 217^v B—J 101 [= RWM 17], 292

Amrywiadau

6 AB tv.. 9 B ..a.. 32 AB ..amherchi bvm.. 35 B a.. 37 AB rhiw.. 51 AB mae n hafod..

Cywydd i Dduw

Y Grog ddoluriog, Dduw lwyd,
 Gwythi'n waed, gethin ydwyd,
 Llun Duw gwyn, llawn wyd o gur,
 4 Llyna ddelw'n llawn o ddolur.
 Dull yw 'n ôl merthyroliæth,
 Gwirion gnawd, y Gŵr a'n gwnaeth:
 8 Dwyllaw a thraed fawrwaed fu,
 Iad a bron wedi braenu.
 Dagrau yn is dy groen oedd:
 Dagrau gwaed, y Grog, ydoedd.
 Oen wyd a'i friw dan ei fron,
 12 Trist wyneb, tros y dynion.

Da fu *i* adail dy fudaw
 Dunos o dre'r Dinas draw.
 Rhoi *bwys* ar Drefeglwys draw,
 16 Rhoi dy nerth; rhaid ynn wrthaw.
 Dy nerth i bob dyn wrthyd,
 Dy ras i bawb dros y byd.
 Ni bu ywch haint heb iacháu
 20 Â dwfr ennaint dy fronau.
 Efryddion ddyinion bob ddau
 Aeth i redeg o'th radau.
 E'th glyw'r byddar gwâr gwirion,
 24 E'th wyl un dall, a'th law'n don.
 Chwysu dy waed; chwys a dŵr
 Aeth i borthi d'aberthwr.

Dafydd ddewis ufudd sant
 28 *A'th* ofalodd i'th foliant.
 Ei swydd yno sydd enwog:
 Swydd er gras weddio'r Grog.
 Ni bu ddy' heb weddiwr;
 32 N'ad ynn gael newid ein gŵr.

Bu oer iawn wers o'm barn i
 Cwyn dynion cyn dy eni.

36 Bu hollfyd i gyd dan gŵyn,
 Bu dro mawr, bedair morwyn:
 Mynd i uffern, oerwern oedd,
 Er un afal o'r nefoedd.

40 Tad, Mab, Ysbryd Glân dianair,
 Ac yn oed Mab o gnawd Mair,
 GwirDduw, o'th gorff gwrdd e'th gaid,
 Gwir ddyn a garodd enaid.
 Da i dyrfa diderfyn
 44 Duw'n caniatáu dwyn cnawd dyn.
 Dwyn mabolaeth a wnaethost
 Fal oen, Duw ofal yn dost,
 A mynd erom yn d'orwedd,
 48 A marw o'r byd mawr i'r bedd,
 A thrachefn o'th ddyrchafiad,
 Duw wyt ti, ŵr deau Tad,
 A'th ddwfr waed ir a'th fron dau,
 52 A'th loywaed a'th welïau.

Wedi y byd y daw barn,
 A chodi gwan a chadarn;
 Dwyn holl blaid hynafiaid nef,
 56 Dynion unoed, i nawnef.
 Llu gwyn oll a gynulli,
 Llaw ddeau Tad, lle'dd wyt ti.
 Un da eled yn d'olwg;
 60 Arall a droir i'r lle drwg.
 E gair yno bob gronyn,
 Noeth yn ei dâl, a wnaeth dyn.

64 Galw d'enw i gael daioni;
 Gair Un, Duw nef, gwrando ni.
 Dêl ennill dy lawenydd!
 Duw gwyn a'n rhoes, dwg ni'n rhydd!

Ffynonellau

A—LIGC 6499B, 557 B—LIGC 668C, 67

Amrywiadau

2 B ..wyd 5 B ..nerthuriolaeth 8 AB ..brenv 13 AB ..fv adail.. 14 B ..dre i.. 15 AB ..pwys.. 28 AB iaith.. 29 B y.. 30 B ..or gras.. 31 B ..ddydd.. 32 B ..iw

gael.. 43 *AB* da ydiw i.. 48 *B* marw.. 50 *AB* ..or deav.. 53 *B* ..i barn 56 *B*
..wnaed i..

Crog Aberhodni

- O gwyliwn dai a glân dŵr,
 Awn garbron ein gwir Brynwr.
 Aber, a thir heb warth oedd,
 4 Hodni, afon hyd nefoedd.
 Yna ydd wyd yn y ddôl,
 —On'd 'nafus?—un Duw nefol;
 Yr un Gŵr â'r henw gorau
 8 Byth, ac â phawb i'th goffâu;
 Oen gwâr iawn yn goronog,
 Iesu â'r gras ar wir Grog.
 Credwn faint, cariad ynn fu,
 12 Cur a phasiwn corff Iesu.
 Noeth, iawn ieuanc, i'th neuadd
 Y cawn dy lun cyn dy ladd.
 A fu lun a foliannwyd
 16 Yn nes i lun Iesu lwyd?
 Un oed yna'n y dinas,
 Eurwaith lun, â'r awr y'th las;
 Gwineuo hwyl a gwanhau,
 20 Glasu yngod â gloes angau;
 Ac er cyfoeth, Gŵr cyfiawn,
 Godlawd wyd a gwaedlyd iawn.
- Mae gwayw—alaeth ym—gweli,
 24 Oes, er nâd, haws arnat ti,
 Dy roi yma'n dy rywmau
 Yn noeth dros dyn i'th dristáu.
 Dy boeni hwnt heb un hawl,
 28 A dwys driniad estronawl,
 A thrwy amarch i'th rywmau
 Ar faen drud o Rufain draw.
 Oer o fyd ar wŵr a fû,
 32 A'th ufudded i'th faeddu:
 Dy gnawd oll yn archollion
 Ban waedai frath ben dy fron;
 Dy iad euraid i dariaw,
 36 Trwyddewau drain trwyddi draw;

Y chwys oedd i'ch hawsáu
A wnâi'r claf Iôn o'r clwyfau.

40 O thyfodd o waith Efa
Dy boen a'i dug i ben da,
Dyn a gedwis Duw'n gadarn;
Da noddfa wyd yn Nydd Farn.
44 Mae'n gwbl yma ein gobaith,
Iesu, dy ras, o dair iaith.
Caen' y deuddeg cyn dioddef;
Duw, dy gnawd a'n dwg i nef.
48 Eu bwyd oedd heb ado un,
Diod oedd dy waed uddun.
Da yn un y down ninnau;
Un rhodd â hon i'n rhyddhau.
52 Dy obaith, Fab, da beth fu,
Dy ras, Un Duw a'r Iesu.
Dy garu i'th deg irwaed,
D'ofni gan y dafnau gwaed.
56 Dy alw i gyd wyl a gwaith,
Dy 'ddoli, Fab Dduw, eilwaith.
Dechrau o'th raddau a'th wres
Y doeth f'enaid o'th fynwes.
60 Fy niwedd fyd, fy nawdd fo,
Fynd atad f'enaid eto.

Ffynonellau

A—BL Add 31061, 42^r B—LIGC 11087B, 17^v (llau. 1–26) C—Llst 117, 40

Amrywiadau

1 BC ..dvw..y dwr 3 ABC ..werth.. 4 BC ..y nefoedd 5 BC dwv.. 7 BC ..or henw.. 8 A ..ag ffawb.. 10 BC ..or gras.. 11 BC ..y kariad.. 13 A yn oeth.. 18 A eithrwaith.. 20 B glasv i gyd or.., C ..i gyd gloes.. 21 ABC ..y gwr.. 24 A ..nad oess.. 28 C ..dros dyliawl 31 C ..fodd ar yr awr vv 34 A pan.., C kyn dy vrath agw yn dy fron 35 A ..i araw 36 A trwyddewe drwyddo.. 38 AC ..kleifion.., C a wnar..oi.. 39 C othofid.. 40 C o.. 41 C ..a gedwi yn.. 43 C yno yn gwbl ymae.. 46 A ..dvg.., C ..ai dvc.. 48 C ai diod.. 49 AC dan vn.., C ..ydiw i.. 50 C ..hyn yni.. 56 C dyddol bob duw.. 57 C ..ath..

Awduraeth

C ni wni pwy ai kant

Llwchaearn

On'd da'r fynwent a'r faenawr?
 Uchod y mae iechyd mawr.
 Gair aeth draw, gwyrthiau a drig,
 4 Lle mawr yw Llamyrewig.
 Llawer aed i'r lle'r ydwyd,
 Llwchaearn wyn, llew chwyrn wyd.
 Mewn y pall mae wyneb hael,
 8 Mae hap canfod mab Cynfael.
 Ach o'r unfraich arianfryd;
 Da iawn yw cael dyn o'u cyd.
 Cefnder y'th rodder, a thrig,
 12 Beuno, dwyfol bendefig.

Dithau yn ŵr, Duw a'th wnaeth,
 Da wysg, abad, esgobaeth.
 Doethost di er gweddiaw
 16 Iso i fryn dros Hafren draw.
 Clywech yno'r clych unwaith
 Yn canu gynt cyn y gwaith.
 Crys a wnaud, cai ras yn ôl,
 20 Yn rhawn oedd yn rhinweddol.
 Naw mis, naw nos doethost di
 A naw dydd yn dy weddi,
 A'th ddeulin hwnt i'th lanhau
 24 Ar faen glasoer fu'n gleisiau.

Acw, eilwaith, y coeliynt,
 Yn wir, ywch gael naw arch gynt.
 Un o dair oedd yn dy raid,
 28 Gadech hon i gadw'ch enaid.
 Ail, gwrthod pob pechod pur,
 Ac annoethed eu gwneuthur.
 Cedwaist orchmynnau'n ceidwad,
 32 Ceraist di'u dwyn, Crist dy dad.
 Llyna dair oll yn dy ran
 Aeth i filoedd a'th folan'.
 Ola' tair a welut ti
 36 A ddaw ynn o ddaioni.

Dynion a da danad oedd;
 Iach yn' wrthych a'ch nerthoedd.
 Nawfed ran, fod yr enaid,
 40 Nefoedd i'r hwn a fydd rhaid.
 Nertha ni wrth y nawarch.
 Dy nawdd i bob dyn oedd barch.
 Ymwardwr mawr ydych,
 44 Milwr sant mal Iorys wych.
 Tra phryder, tri phry' ydoedd,
 Tri a fu'n lladd, trefn well oedd.
 Mae un, a dim mwy nid êl,
 48 Yn dwrch yngod, archangel.
 Gobrwy'i ladd, gwiber, o law;
 Iorys oedd a'i ras iddaw.
 Llywiech ewig, Llwchaearn;
 52 Neitiodd i bwll hyd Dydd Barn.
 Ni chaid einioes i'ch dynion
 Heb roi cwyp i'r ewig hon.
 Dy fagl, fab, difwgl fodd,
 56 Dy firagl a'i difyrrodd.

Doed o ras byth, Duw, dros ben
 D'wyrthiau hyfryd wrth Hafren.
 Dy firagl oedd hyd fôr glas
 60 Draw a ddyblwyd i'r ddeublas.
 Lle da wellwell dwy allawr,
 A pharhau mae offrwm mawr.
 Seintwar yw dy ddaear di;
 64 Sant yw'r ustus hwnt trosti.
 Iacha' darn uwch y deyrnas
 Enlli draw; nid llai dy ras.
 E gair, gwan a'i gŵyr, gennyh
 68 Firagloedd gant, f'arglwydd gwych.
 Gwirion di-fai,—gwrando'i farn,
 Gwellhaech euog, Llwchaearn.
 A'th waith uddun a'th weddi
 72 Am iawn a cham a wnaech chwi.

Oed am un a'i dymunodd
 A saif ar Rys yw fy rhodd.
 Gwelwyf oll gael f'ewyllys:
 76 Gwna wyrthiau 'rhawg; nerthu Rhys.

Ffynonellau

A—LIGC 13067B, 28^r B—BL Add 10313, 228^r C—Pen 100, 347 D—Bodewryd 1, 300 E—Brog 2, 371^r F—J 101 [= RWM 17], 488 G—Llst 167, 222 H—Llst 133, rhif 110 I—BL Add 14901, 7^r J—BL Add 31067, 195^r

Amrywiadau

1 *ABD* ond ar., *CHIJ* ond or., *G* kad ar.. 4 *F* ..llann., *H* ..yn.. 5 *C-FHIJ* ..aed dyn lle r.. 6 *G* ..llaw.. 7 *AB* mewn pall.. 9 *AB* aech ar., *EF* ..arianfyd, *G* arch ar.. 14 *C-FHIJ* do/dy wisg abid., *AB* ..wisg.. 15 *C-FHIJ* ..dan weddiaw 16 *AB* is i fryn dir dros., *IJ* ..fryn hafren.. 17 *C-FHIJ* ..yno klych., *B* ..i klych.. 18 *AB* ..gwyl.. 19 *AB* ..mae gras., *EF* krist a wnai.. 20 *AB* ..oen., *CDHIJ* ..a oedd rhinweddol, *EF* ..a oedd oen.. 23 *D* aeth.. 24 *AB* ..glas oedd yn., *F* ..fv r.. 32 *A-J* ..di dwyn.. 33 *B* llyma., *H* ..yn dyn dy ran 34 *C-FIJ/H* aeth/ath filoedd., *CHIJ/D* ..oth/ith ofalan, *EF* ..oth ddyfalan 35 *CHIJ* ..tir.. 39 *AB* ..ir.. 44 *AB* ..siors.. 45 *G* tro ffyrder.. 48 *AB* vwch ingod yn., *C-FHIJ* yn drwch.. 49 *AB* ..ai., *A-FHI/G* gobrwy ladd/lladd., *J* gobrwy [] 50 *AB* siors.. 51 *B* llowies.. 54 *F* ..kwynn.. 57 *CDH* doed ras dw byth dros dy benn, *I/J* doed/doe ras Duw dros dy ben 59 *ABDEF* + i, *G* ..fro.. 64 *J* ..ystlys.. 67 *AB* e gaer., *G* ..gwir.. 68 *AB* fragl i.. 69 *AB* ..gwrando farn 70 *AB* gwellewch.. 71 *C-FHIJ* ..nerth..wrth.. 73 *AB* ..ar vn., *H* ..am hyn y.. 74 *C-FHIJ* ..fwy rodd 76 *AB* ..nertha., *G* ..rhag..

i

y dwr oedd wedi chwyddaw
aeth yn draeth weithian draw
noethi ffordd a wnaeth oi ffen
dwrthiav hyfryd wrth hafren

Cywydd merch

- Cerais, balch yw cwrs y byd,
 Do, 'n unfodd ôd, yn ynyd:
 Bwrw serch heb ei erchi
 4 Ar ddyn wen yr oeddwn i.
 Gwaywyr ynof o'i chofion
 Y sydd er pan welais hon.
- 8 Megais, fal y min magod,
 Aderyn rhydd a dry'n rhod.
 Crug a dyr, fal craig, ei dad,
 A'i fagwriaeth fu gariad.
 12 Cyfaillt, gan wen y'i cefais,
 A fydd dan afargoed f'ais.
 Annoeth ytyw, ni ddetyd,
 Mal rhew yn ymyl y rhyd.
 16 Nid a' oddi wrthi, nid oes
 Ymron, w'r, am hir einioes.
 Nyddodd gwen fal gwialen goll
 Dridiau fy nghalon drydoll.
- 20 Ni chaf ddail ar wialen
 Nac awr iach mwyach am wen.
 Marfol wyf am ail Morfudd;
 Mawr ddrwg ym yr olwg rydd.
 24 Tywyllwg i'r wg a roes
 Y fun ni ddyry f'enioes.
 Ni welaf ddail wialen
 Gan y llif am gannwyll wen.
 28 Crinion megis bonion byllt
 Ym laswydd am ail Esyllt.
 Carai fi, meddai hi'i hun,
 Wrth eraill, aur ei thoryn.
 32 Dwedyd gweniaith, odidawg,
 Addo; er hyn ni ddôï 'rhawg.
 Dyn a fo'n treiglo pob trum,
 Gwenaith yw, gwywo wneuthum.
 36 E fydd ei gapan efô
 Â dau wyneb o i dano:

40 Glaswyn ing gloesion angau,
 Gwen, a hir wyd i'm gwanhau.
 Myned o gariad meinir
 Mal dalen aethwydden ir.
 Gwanhau megis gan hëyrn
 Mewn astell a chastell chwyrn.
 44 Yma yr wyf am yr og,
 A gwen ni thalai geiniog.

48 Fy mhoeni trosti, nid rhaid,
 Feinael, onis tâl, f'enaid.
 I'r ddaear o garchar gwen,
 Iesu, ymgais oes amgen.
 Bil a wnafl, soniaf is allt,
 Danfonaf i'm dyn fanwallt.
 52 Cennad a llatai cynnil
 A bair ym ateb o'm bil.
 Bûm ennyd o'i bai, meinwar,
 Herwr; bûm hir ar ei bâr.
 56 Daliodd fi, rhoed adolwyn,
 Iawn gyfraith ym, f'anrhaith fwyn.
 O bydd oed dydd, bydded hon
 Gyfaillt ac ustus, gyfion.

Ffynonellau

A—Llst 134, rhif 456 B—Llst 47, 378 C—LIGC 21290E, rhif 454 D—Card 5.44, rhif 41 E—BL Add 31067, 233^r

Amrywiadau

2 *A-E* ..ody n.. 5 *C* ..o.. 9 *A* kry.., *B-E* kryg.. 12 *B-E* ..avargod.. 13 *AD* ..ny thetyd, *BCE* ..nyth ddetyd 16 *ABDE* ym ronnr.., *C* [] einioes 19 *C* [19–20] 22 *A* ..ddrwg am olwg.. 27 *ABCE* krynion.. 29 *A-E* ..hi hvn 32 *A* ..ar hymn.. 35 *E* [35–6] 37 *E* 38–37 38 *B-E* ..hir yw.. 40 *C* ..hir 42 *A* ..kestyll a chestyll.., *B-E* ..kastell.. 44 *A-E* ..thalaf.. 45 *C* ..ny raid 57 *BE* bv ddav oetydd.. 58 *A-E* ..a..

Cywydd merch

- Y ferch wychaf o'r chwechant,
 A'i phryd yn wyn fal ffrwd nant,
 Lloer deudir, lliw'r ôd ydoedd,
 4 A'i lliw a'i llun wellwell oedd.
 Ni ddymunwn ddim wannach
 No'i grudd dan ael feinrudd fach.
 Ei phryd yw fal ffrwd ewyn;
 8 Afiachus wyf achos hyn.
 Cwrel yw'r grudd, lludd wellhau,
 Calch gwyn yw cylch ei genau.
 Gwae f'ais! od oedd gwefus dyn:
 12 Fal gwin neu fêl y gwenyn.
 Ar wen deg er ein digiaw
 Fyth is y drem foethus draw,
 Gleiniau lleddf, goleuni llus,
 16 Gwisgi olwg esgeulus.
 Rhodded oll yn rhudd a du
 I hon ael i'w hanelu.
 Aseth ail oedd i saeth lem,
 20 Ddwyael estron ddulastrem.
- Gwan ydwyf ac annedwydd;
 Gwisg o'i serch i'm gwasgu sydd.
 O bai benyd bob unawr,
 24 Blin oedd ym heb lonydd awr.
 Ni chawn orwedd ychwaneg
 Mwy no'r rhod wyllt; mae'n rhy deg.
 Rhedeg fal y waneg flin,
 28 Rhodio fal rhod y felin.
 Afon wyllt o fewn alltoedd
 A'i dŵr fal un drafael oedd.
- Fal y troes tros bumoes byd
 32 Adda, 'mhoen oedd 'y mhenyd.
 Aros beunydd, wres boeni,
 Ac aros help o'i gras hi.
 Oni chaid, un wych ydyw,
 36 Ni wn fodd yn iawn i fyw.

- Addo 'Caf' a ddwg gofal;
 Enbyd oedd oni bai dâl.
 Dibech oedd, a da be chaid,
 40 Luddio i hon ladd ei henaid.
 Mae'r wenlloer mor ewynlliw;
 Ni bu'n y llan neb un lliw.
 Ni ddug fy nghof a'm gofeg
 44 Yr un ond un, feinwen deg.
 Ar ei grudd fal eira grwn
 Y mae grisial. Ymgroeswn!
 Gwnaeth ei thâl ofal afiach.
 48 Gwneled f'un ened fi'n iach!

Ffynonellau

A—Llst 163, 41 B—Llst 118, 410 C—J 138 [= RWM 16], 158 D—CM 23, 98 E—LIGC 3487E, 29 F—BL Add 31067, 235^r G—Llst 49, 86 H—BL Add 14966, 370^r I—BL Add 14969, 247^r J—LIGC 5269B, 304^r K—BL Add 31100, 82^v L—LIGC 1553A, 257 M—Card 1.2 [= RWM 12], 314 (llau. 1–23) N—CM 27, 328 O—Llst 133, rhif 576 P—LIGC 1246D, 40 Q—Card 4.10 [= RWM 84], 112 R—CM 5, 45 (llau. 1–38) S—Brog 1, 153 (llau. 1–38)

Ffynonellau eraill

T—Bangor 556, 21 U—Bodley Welsh f 5, 90^v

Amrywiadau

1 HO ..o.. 2 K a., B ..y nant 3 LM lle i dywedir., NOPQ ..doedir., GH ..dudur., BCEFLM ..lliw od., D ..ydiw 4 D ..yw 6 DIJRS nar., K na.. 7 CE ..sydd fal y., GHRS ..yw y., K ..a wn fal.. 8 CEGHLMR ..o achos.. 9 GH ..yw grydd.. 10 CEKL ..y genav 11 G ..fais ydyw., H ..yw.. 12 CEKO ..fal y gwenwyn 13 GH mae r..ara n.. 14 CDEH–KN–Q ..fwythvs.. 15 M–Q [15–16] 16 GH ..ddisgeulys 17 B–FN–Q rhoddwyd.. 19 IJK [19–20], CE/GHLM ..oedd/yw ail.. 20 LM du..di., N–Q i hael..hoiwy lwysdrem 21 B–HN–S + i 22 N ..gwisg[], OP ..gwisgo.. 23 GH ..boenus., LM ..benna.. 24 N–Q ..oedd eb lawenydd.. 25 N–Q [25–6] 26 E–IKRS mwy na., IJK ..rhod oll.. 27 N–Q cerdded., DGHN–Q ..flaened., GH ..oedd flin 29 DGH [29–30], IJK a fai n.. 30 IJKP a.. 31 B–FRS ..wrth., N–Q ..troes bvmoes y.. 32 C/E adde/adda am hon ydiw.. 33 BF–KN–S ..wers., C/E ..wres ai/i.. 34 N–Q ..heb i.. 35 GHN–Q [35–6] 36 BDEFRS/C ni wyddwn fodd i ddyn fyw/i fyw 37 CE ..i ddwyn., IJK ..ddvk.. 38 GHL ..yw.. 39 GH [39–40], N–Q 41–2, 39–40; IJK/L ..oedd da bai/byth o., N–Q ..oedd dybio o.. 40 N–Q lvdd., C lvddio hon., K/IJ ..vn/i vn.. 41 N–Q ..em., GHN–Q ..arianlliw 42 ABCE–HLN–Q na., C ..bo.. 43 GH [43–4], IJK ..gofal 44 BDF/CE onid vn wineuwenn /

winwydden., *IJK* ..irwen dal, *N-Q* ..winav.. 45 *N-Q* [45-8] 46 *BCF* ..mae
r.. 48 *A* ..vn., *CE* gwneled fened..

i

eurwyd y gwallt ar iad gwenn
ar od vnos yw r donen

Awduraeth

A-F Siôn Ceri, *GH* Dafydd ap Gwilym, *IJ[K]* Siôn Tudur, *LMT* Ieuan
Deulwyn, *NOPQU* Robin Ddu, *RS* dienw (collwyd y diwedd)

Cywydd merch

Y fun a gaid, fwyna'i gwedd,
 Fal lluwch ar fol y llechwedd,
 Ai llai ddoe yn lladd ieuainc
 4 Lliw ei ffriw no llu o Ffrainc?
 Lleian i gael llun a gwedd,
 Llin fanwallt llawn o fonedd.
 Llonnai'r ael allan ar wg;
 8 Lladdai fil â'i lleddf olwg.
 Mae gradd o galch i'w grudd gwyn
 Gwedi'i roi gyda'r ewyn.
 On'd un enw ynn dan nawnef
 12 Gruddiau 'nyn â graddau nef?

Eginodd, ffynnodd i'w phen
 Gnotiau aur o gnawd hirwen.
 Mae rhòl ddwbl o'r haul ddyblyg,
 16 Modrwyau fflam yn dri phlyg;
 Ton o hil tân a heulwen
 Yn nyblyg gwallt noblog gwen;
 Mân blethau canhwylau cwyr,
 20 Mellt a wnaeth malltan neithwyr.
 Mae'n berwi aur mewn y brig;
 Mae'r wen ym mor wenwynig.
 Mae'n glaerwyn mwnwgl eryr,
 24 Mae lliw gwen yn mallu gwŷr.
 Mae lliw'r calch yn mallu'r cof,
 Mae gwyn yn magu ynof.
 Mae gwayw ym mhob gewyn
 28 Heb wybod, aeth, i bob dyn.

O meddylwn am ddolur,
 Mae blaenau nodwyddau dur.
 Eos hefyd sy afiach
 32 Tra fo ar big tryfer bach.
 Blinach yw ym heb lonydd;
 Blaen y berth o'm bol ni bydd.

- Oer iawn a blin yw'r iâ'n blaid;
 36 Oerach hanner ochenaid.
 Mawr yw poen un â'r pwn iâ;
 Mwy poen ym heb hon yma.
 Sonier am lawer o les,
 40 Sôn am wen sy'n 'y mynwes.
 Ni chaf, f'annwyl,—och finnau!—
 Nes dotio wers wastatáu.
 Hynt a wnaif hwnt a nwyfo;
 44 Mae natur iwrch mewn y tro.
 Mewn ei nawdd mae, 'nyn, iddi
 Ai 'myw ai dwyn 'mywyd i.
 Nid yw, enaid y dynion,
 48 Ofer, 'y mhwynt, farw am hon.
 Fy nyn, achos fy nichwen,
 Fy newis gael f'einioes, gwen.

Ffynonellau

A—Pen 86, 278 B—LIGC 6681B, 90 C—LIGC 6471B, 137 D—CM 14, 101 E—Llst 134, rhif 454 F—Llst 47, 376 G—Card 5.44, rhif 39 H—LIGC 970E, 504 (llau. 1–32) I—LIGC 21290E, rhif 453 [llau. 1–7] J—LIGC 5269B, 256^v K—CM 5 i, 354 L—Bangor 13512, 136 M—Llst 15, 108 N—LIGC 834B, 211 [llau. 1–8] O—Llst 166, 165 P—CM 23, 68^v Q—Pen 239, 356 R—Pen 245, 173 S—Card 4.156 [= RWM 64], 565 T—CM 448, 140 U—Card 5.10ii [= RWM 49], 53 V—BL Add 14866, 134^f W—BL Add 10313, 58^f X—Pen 76, 72 Y—Card 2.114 [= RWM 7], 635 Z—Llst 118, 409 a—Llst 155, 15 b—Bangor (Penrhos) 1573, 239 c—BL Add 31067, 177^f

Amrywiadau

1 *E-HOPb* ..vwyn.. 2 *ABD* ..y llwch..vol llechwedd, *EXY* ..voly llechwedd
 3 *ST* ..lliw.., *C* ..oedd.. 4 *Pb* i lliw ffres.., *ST* gwaeth.., *C* ..ffrud.., *X* ..ffris..,
BDPXYZb ..nor.. 5 *E* ..a gas.., *RSTW* ..i gwedd 6 *CE-HX* llvn.., *Z* llwyn o..,
E ..y vvn.., *a* ..llwyn o.., *AZ* ..llawn vonedd 7 *C* llin aur fel ar llan ar fwg, *E-H*
H llvn aur ael allan.., *DQRSTVWc* ..or.. 8 *E-I* ..oi.. 9 *Y* a.., *E-IQ-TVWc*
 gradd o galch.., *EGHI* ..sy ny.., *F* ..yn y.., *Q* ..yw ei.., *RVWc* ..su yw.., *S* ..yw
 y.., *T* ..su yr.., *U* ..mae.., *a* ..gradd galch am i.., *Z* ..o gylch i.., *b* ..a.. 10 *AB*
 gwedir.., *C-ILOPRSUYWY-b* gwedu roi.. 11 *CTW/DQRVc* ..enw dan/yw
 dan.., *E-ISUZa* ..enw dan y.., *JL-O* ..dav.. 14 *Y* gantid.., *E-I* ..ar.. 15 *F* mae
 r.., *QUVYc* ..mae r.., *RSTW* ..yr.., *J* ..hawl.. 16 *QUVYac* ..o.. 17 *J-O/Za*
 tan..ton/tonnav.., *F* ..tonnav.., *U* ..tynnai.., *CXY* ..o.., *DQ-TVWc* ..ne.. 18 *Pb*
 ..noble.. 19 *S* canhwyllau yw r caerau.., *XY* modrwyav.. 21 *A-D* ..yn y.., *C*
 ..berw o aur.., *A-DJKM-Pb* mae.., *J-OZ* ..am y.., *L* mae r berwig.., *Pb*

..berwr., *Z* ..barrav.. 22 *Z* mae r vn enw mor., *DJO* ..yn., *b* ..vn.. 23 *BD* + *i*, *CE-QSUWb* ..glaerwen., *a* ..i mwnwgl.. 24 *a* ..gwyn.. 25 *C* 26–25, *a* ..can.. 26 *Pb* ..gwenwyn yn.. 28 *E-I* ..yn darfod yn 30 *QVZac* mal., *AB* ..blaenav r., *E-I* ..brathav.. 31 *N* [31–2], *C* o sefid., *E-IY* oes..a sy., *L* foes.. 32 *DX* ..vae., *E/F-I* ..vo i/vor big y., *Ca* ..y tryfer., *D* ..draenen., *Pb* ..y dryfer., *X* ..y drayan., *Y* ..y drain.. 33 *a* ..ydwyf., *EF* ..ym yw., *C* ..ony bae.. 34 *ST* blaenau r., *C* ..bach., *EFGI* ..ber.. 35 *Z* ..y blaid 36 *CPZb/J-O/EF* ..fy/yw/ywr vchenaid, *D* ..yn yw r., *QRVWc* ..hyn yw r., *U* ..yno yr., *ST* ..hyn yr.. 37 *C* mawr poen vn ar y., *DJNO* ..or., *FGI* ..ym., *I* ..prenn.. 38 *M* ..yw.. 40 *XY* swn., *X* ..sydd i.. 41 *D-GI-b* ..unawr.. 42 *C* ..hwnt., *D* ..o wres.. 43 *D-GIQRUVWZac* ..i.. 44 *ABUXY* ..yn y.. 45 *Z* mynny., *C* ..mae vn., *DJ-WZc* ..mae n iawn., *EFGIU* ..weddi 47 *Pb* ni ad.. 48 *FJ-Pb* over yw.. 49 *ST* aniachus yw., *D-GI-RUVWZbc* y fun., *Pb* ..iachvs., *EFGI* ..eglor vynygl wenn

i a phawb yn dyfalv ei phenn
i ganwyll y mrig onnen

Trefn y llinellau

A-D 1–28, 31–4, 43–4, 41–2, 35–40, 29–30, 45–6, 49–50.

E-I 1–20, 23–4, 21–2, 25–50.

J-O 1–20, 23–4, 21–2, 35–8, 31–4, 39–50.

Pb 1–20, 23–4, 21–2, 25–6, 29–36, 39–50.

Q-TVWc 1–20, *i*, 23–6, 29–36, 39–46, 49–50.

U 1–8, 11–12, 9–10, 13–20, 23–6, 29–36, 39–46, 49–50.

XY 1–4, 7–8, 5–6, 13–14, 17–20, 23–4, 39–44, 31–3.

Z 1–4, 7–8, 5–6, 9–24, 39–40, 29–36, 41–50.

a 1–4, 7–8, 5–6, 9–20, 23–6, 39–40, 29–34, 41–3

Awduraeth

Siôn Ceri, ac eithrio: *U* Ieuan Deulwyn, *X* Oraihian *Y* Dafydd ap Gwilym *H* dienw (collwyd y diwedd)

Llyma ddau englyn orchest a fu rhwng Siôn Ceri a Hywel ap Syr Mathau

Efô i'w feio, fawai,—fo efô
 A fwyfwy ef yfai;
 Yfai fawai fo feiai;
 4 Fwyfwy fu i'w fyw ei fai. S:C:

Ei wau a'i weau o wŷy—i'w fawai
 O feiau a fu fwy;
 Efô a yf (â fwyfwy
 8 Ei fai ef) a yfai fwy. H:M:

*Ffynhonnell*BL Add 15047, 199^v*Darlleniadau*

1 ..i veio.. 6 ..vv i.. 7 ..a vv..

Llyma awgrym llaw

a	bawd i vyny	b	mynagvys i fyny
c	grudd	d	kwrr min
dd	devkwrr min	e	llygad
f	arddwrn	ff	devfys arddwrn
g	gen	h	genav
i	bys bach i vyny	k	klust
l	ystrip bron	ll	dav strip
m	tri bys i fyny	n	devfys i fyny
o	talken	p	gwastad y pen
r	gen	s	braich
t	pen y trwyn	v	bys i wared
w	devfys i wared	y	elin

Llyma'r awgrym yn englynion

- M tribys, N deufys, A'n dyfod—ar fawd,
 I ar fys bychan yngod;
 Bys blaen tyn U a fyn fod,
 4 W yw'n deufys yn dyfod.
- FF ar bwyned dreined, T ar drwynyn—blaenfain,
 B yw'r blaenfys, meddyn';
 Ystrip bron L yw'r gronyn,
 8 LL yw dau â llaw y dyn.
- Y P yw gwastad y pen,—Y elin,
 O eilwaith y talcen;
 E yw'r llygad a'r llugen,
 12 S ar ôl braich, G yw'r ael bren.
- R gên, C yw'r grudd, D ar gwr—d' enau,
 Dwy D yna ar y ddeucwr;
 H âi led law genau gŵr,
 16 K ydyw'r clust cyd â'r clwstwr.

Ffynonellau

A—BL Add 15047, 207^r B—BL Add 31055, 23^r

Amrywiadau

2 *B* I ywr bys.. 3 *B* ..blaen llyn.. 4 *B* ..yw deuvys.. 5 *A* ..treine.., *B* ..ar vine trinet T yw r trwynyn.. 6 *B* ..bys blaen.. 7 *A* ..giewyn, *B* ystric.. 8 *B* ..y ddav a llaw ddyd 9 *B* P.. yw r elin 10 *B* ..yw r.. 11 *A* ..ar llegen, *B* ..erllygen 13 *A* ..gen grvdd gien d.., *B* C ywr grvdd R a D ar.. 14 *B* A davddy ar.. 15 *A* H av.., *B* H ah heblaw.. 16 *B* ..glust..glowstwr

Trefn y llinellau

B 1–8, 13–16, 9–12

Awduraeth

B Dienw

Nodiadau

1

Siôn Llwyd ab Ieuan ap Maredudd ap Hywel ap Maredudd ap Hywel ab Adda ap Madog ... Elystan Glodrydd, WG1 a WG2 'Elystan Glodrydd' 36. Cartrefai'r teulu yng Ngwern-y-gof, rhwng Ceri (Llanfair-yng-Ngheri gynt) a'r Drenewydd. Daliai Ieuan swydd fforestydd Ceri yn 1457, gw. E. Rowley-Morris, 'History of the Parish of Kerry', Mont Coll xxv (1891), 21.

5 **pen bras** Gw. GLD 20.60n.

7 *n wreiddgoll.*

16 **Tordduaid** Lleucu, merch Cadwgan ap Phylip Dorddu, oedd gwraig Hywel ap Maredudd, ond yr oedd Gwenhwyfar, nain Siôn o du ei fam, hithau, yn un o ddisgynyddion Phylip Dorddu, WG1 383. Cyfeiria Iolo Goch at y tylwyth yn ei gywydd clera adnabyddus: *Ymlynais ym Maelienydd ... Ger tai meibion ... Phylip ... Dorddu*, GIG XIV.35–8. Nid oes cyswllt amlwg rhwng Phylip Dorddu ei hun a Gwent, ond priodasai Elen Gethin, gw. 3.14n, â Thomas Fychan o Hergest, a dyma sail yr uniaethu mynych â'r dalaith yn y canu. Yr oedd Gwenhwyfar, nain Siôn, ac Elen Gethin yn ddwy chwaer.

18 **Ffwg** Syr Fulk Fitz Waren; ffigwr hanesyddol a droes yn arwr chwedlonol, gw. DNB vii, 223–4.

19 **Siancyn** Priodasai Maredudd ap Hywel â Mawd, merch Siancyn ap Gruffudd ap Rhirid (ll. 20) ap Hywel, WG1 492.

20 **goreuraw** Gweld dyrchafu Siôn Llwyd yn farchog yw deisyfiad y bardd, h.y. ei addurno â nod aur. Cyfeirir yn fynych yn y canu at addurno ag arian, sef y lliw a ddynodai radd ysgwier, e.e. 7.45–52; 25.1–6; 33.59–62.

21 **côr** Dyry GPC 555 yr ystyr 'cân' (= 'clod, moliant'), a gweddai hynny yn y cyd-destun hwn.

24 **meibion** Huw Llwyd, gwrthrych y cywydd sy'n dilyn, a Morys. Yr oedd i Siôn a Marged, ei wraig, dair merch.

28 **cares i'r Goron** 'Yn annwyl yng ngolwg y Goron'.

30 **Margred** Ei wraig; merch Gwilym ap Gruffudd Derwas ac Elen, merch Dafydd Llwyd o'r Drenewydd oedd hi (gw. cerdd 7).

- 34 Tybed a ddylid diwygio'r ll.: *Yn is i'n llin ... ?* Y mae *llin* yn air mwys a all olygu 'llinach' neu 'linell o farddoniaeth', gw. GPC 2180–1 a cf. *côr* ll. 21.
- 36 Twyll gynghanedd g, neu gamosodiad g.d = d.g.
- 46 'Lystan Elystan Glodrydd.

2

Daliai *Hugo ap John Lloid* swydd rhingyll Ceri yn 1540, ac yr oedd yn un o'r rheithwyr ym Maldwyn yn yr un flwyddyn, gw. 'Sheriffs of Montgomeryshire', *Mont Coll* ii (1869), 368–9.

- 1 **hug euraid** Arwydd o statws a chyfoeth ei pherchennog. Mantell felly a roes Syr Rhisiart Gethin i *fab Siankyn y glyn*, HS X.
- 10 **hen llew** Trafodir y calediad yn Treigladau 27–9. Digwydd *hen Llŷr* yn ll. 22, ac yn 16.14, a cf. *Brau ych, henllew brych wynllwyd* (46.19), ond *hen lid* yn ll. 27, a thrachefn yn 44.26.
- 16 **Brochwel** Dangosodd Enid Roberts fod tri Brochwel, ac na wahaniaethid rhyngddynt yn y llyfrau achau, gw. 'Gwehelyth', *Mont Coll* ix (1967–8), 55–6; 'Hen Nantcriba', *ib.* lxiii (1973–4), 170. Y tri oedd Brochwel ab Aeddau (10g.), Brochwel ab Elise (8g.) a Brochwel Ysgithrog (6g.).
- 17 **Einion** Merch Einion ap Llywelyn ap Meilir Gryg oedd gwraig Hywel ab Adda, WG1 705, ac arddelai'r teulu Frochwel fel un o'i hynafiaid. Enwir Einion arall yn ll. 24 isod. Addas yma hefyd fyddai'r e.c. *einion* sy'n digwydd yn 14.22.
- Ynyr** Un o gyndeidiau Gruffudd Derwas.
- 22 **Llŷr** Gw. TYP² 427–30 o dan *Llŷr*^{1–3}.
- 23 **Mahallt** Gwraig Huw, a merch Morys (ll. 21) ap Dafydd ap Morys ap Madog ab Einion o Fochdre; yr oedd yr Einion hwn yn un o hynafiaid Sioned, nain Huw o du ei dad, WG1 400. Canodd Siôn Ceri i dad Mallt (gw. cerdd 5).
- 26 Deisyfir y bydd i Huw a'i wraig etifeddion. Tybed ai ar achlysur eu priodas (neu yn fuan wedyn) y canwyd y cywydd? Y mae'n bur debyg mai cyfeirio at y seremonïaeth briodasol a wna'r ymadrodd *mynd ym mraich* (ll. 21) a ddefnyddir mor fynych yn y canu defodol.
- 30 **pacs** 'Blwch a gusenid gan offeiriad, cusan', ond yma 'heddwch', sef y gwrthwyneb i *cas* yn yr un ll., gw. GPC 2665, GDG 539.
- 44 Pair trefn y cytseiniaid yn y ddau air, *llywodraeth* a *lladrad/lleidr*, eu bod yn cael eu cyfosod yn fynych yn y canu cynganeddol, e.e.

Anllywodraeth a lladrad, WLI LXXVII.51; *Na lleidr nac anllywodraeth*, GLD 1.56; *Nac anllywodraeth, nac un lladrad*, GGI² LXX.48.

- 46 Gwahlenir yr a. a'r e. yma gan ffurf ferfol, megis y rhennir dau e. cysylltiedig yn ll. 41 uchod. E. a rh. cysylltiedig a holltir yn ll. 25.
- 55 *n wreiddgoll*. Deusill yw *bwrw* yn y ll. hon.
- 61 **chwe einioes** Digwydd *chwech* yn fynych o flaen llafariad, gw. Treigladau 134 a cf. 35.55 *O chwech cant*.
- 63 **fawr** Yr a. yn draethiadol, 'yn fawr'. Hepgorir y geiryn yn ar achlysuron eraill: 40.67 *Dau fwced cawr, fawr a fu*, 53.7 *Dwylaw a thraed fawrwaed fu*. Tâl nodi, serch hynny, fod Siôn ar brydiau yn rhoi i rai enwau genedl anghyffredin, e.e. *coedwig* ? (20.23), *sarff* ? (23.10), *ffriw* (24.16), *cefnen* (32.63), *gwg* (56.23), a geill mai enghraifft arall o hynny sydd yma.

3

Gwrthrych y cywydd hwn a'r nesaf yw Ieuan Llwyd o Fachaethlon yng Ngheri, ap Dafydd ab Ieuan Goch ap Llywelyn ab Ieuan ap Gwilym ... Hoedlyw ap Cadwgan, WG1 a WG2 'Elystan Glodrydd' 22; L. Dwnn: HV i, 288. Merch Cadwaladr ap Gruffudd Wyn ap Cadwgan ap Gruffudd Dwn ap Phylip Dorddu oedd ei wraig, WG1 381. Ganed eu mab, Siôn, yn 1523, gw. E. Rowley-Morris, 'History of the Parish of Kerry', Mont Coll xxvii (1893), 86.

- 3 **dau Ieuan Goch** Yr oedd Ieuan yn wŷr i'r gŵr a enwir uchod, ac yn orwyr i Ieuan Goch ap Madog (ll. 7) ab Einion (ll. 10), Mochdre, sef taid ei fam, WG1 400.
- 12 **Maesyfaidd** Cynhwysai'r sir newydd a ddaeth i fod wedi'r Deddfau Uno gantref Maelienydd, gw. WATU 184. Dyma'r ffurf y buasai Siôn Ceri, yn ddiau, yn gyfarwydd â hi. Digwydd ar wyth achlysur yng nghanu Lewys Glyn Cothi, ac y mae'r gynghanedd neu'r odl yn cadarnhau dilysrwydd y ffurf ar saith o'r achlysuron hynny. Parthed cysyllt yr olaf â Phylip Dorddu a'i ddisgynyddion, gw. 1.16n. Ceir wyth sillaf yn y ll. hon.
- 14 **Caer Hergest** Cyffelybir hynafiaid Ieuan i'r Fychaniaid a drigai yn Herast, neu Hergest, yn swydd Henffordd. Tomas, mab Syr Rhosier Fychan, a Gwladus, ferch Syr Dafydd Gam, a ymsefydlodd gyntaf yn Hergest, gw. ByCy 936, a chysylltir ei frawd, Rhosier, â Thretŵr. Un o ddisgynyddion Phylip Dorddu oedd gwraig Tomas, sef Elen Gethin, merch Cadwgan ap Dafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu. Mab Gwladus o'i phriodas â Wiliam ap Tomas, y Marchog Glas o Went,

- oedd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a cheir gan Siôn ganu i ddisgynyddion ei frawd, Syr Rhisiart Herbert (gw. cerddi 21 a 22).
- 15 Ceir ll. nid annhebyg yn y cywydd blaenorol (2.37).
- 17 *r wreiddgoll.*
- 20 Cyfatebiaeth $g = c$. *Knawd* a ysgrifennwyd yn y lle cyntaf yn Llst 30.
- 21 *n wreiddgoll.*
- 25 *r berfeddgoll.*
- 30 **tafodiog** ‘Cynrychiolydd cyfreithiol, dadleuwr’, ond geill mai’r bardd ei hun yw’r tafodiog yn 4.50.
- 33 *a dysg* sydd yn y rhan fwyaf o’r llsgrau., a dyma’r darlleniad gorau, ond dyry hyn l. ac ynddi dwyll gynghanedd *d*.
- 37 *n wreiddgoll.*
- 45 *n wreiddgoll.*
- 46 **llan** Ai Llanfihangel-yng-Ngheri?

4

- 11 Cynghanedd groes o gyswllt sydd hefyd yn cynnwys camosodiad r.dd = dd.r. Felly hefyd yn ll. 37 isod (n.d = d.n).
- 23 **rhodd** Ffurf 3 un.grff.myn., a ffurf a ddefnyddir yn gyson gan y bardd. Trafodir ei tharddiad yn WG 67.
- 30 **ei feibion** Siôn a Rhisiart. Eisteddai Rhisiart ar y fainc ym Maldwyn yn yr unfed mlynedd ar bymtheg ar hugain o deyrnasiad Harri VIII, gw. ‘Sheriffs of Montgomeryshire’, Mont Coll ii (1869), 378.
- 35 Nid enwir ei wraig yn y cywydd hwn, nac yn yr un blaenorol, ac nis enwir yn *Welsh Genealogies* ychwaith.
- 38 **dagroedd** Y ffurfiau ll. *dagrau*, *deigr(au)*, a’r ll. dwbl *dagreuoedd* a restrir yn GPC 921.
- 45 *n wreiddgoll.*
- 47 Canmolir Ieuan am iddo ymwrthod â’r arfer o ddwyn achosion cyfreithiol yn erbyn ei geraint a’i gymdogion.
- 48 *r wreiddgoll.*
- 50 **tafodiawg** Cyfeiriad at y bardd ei hun, os atalnodir y cwpled fel a ganlyn: *On’ d oer ar hwn dario ’rhawg, / Od yw fud, ei dafodiawg?*
- 51 *n wreiddgoll.*
- 55 **aur ceimion** Yr arfer o offrymu i Dduw yn y gobaith yr adferid ei fywyd i’r ymadawedig. Ond bernid hefyd y byddai darn arian wedi ei

blygu yn dwyn lwc dda i'w berchennog, gw. GLM VII.53 a XCV.21, ac ymhellach D.J. Bowen, 'Camu arian', LICy xviii (1994–5), 369–70.

60 **at Duw** Trafodir y calediad yn Treigladau 386.

64 *n* berfeddgoll.

y **Tri** Y Drindod.

5

Morys ap Dafydd ap Morys ap Madog ab Einion ap Hywel ap Tudur ... Elystan Glodrydd a gyferchir yn y cywydd hwn, WG1 a WG2 'Elystan Glodrydd' 47. I gefnder Morys, Siôn ap Rhys ap Morys, y canwyd y cywydd sy'n dilyn.

2 *m* wreiddgoll.

7 *n* wreiddgoll.

21 Gellid atalnodi yn wahanol: *Gwenith wyd gwyn, aeth* ('galar, poen') i'w *us*.

25 Gelwir Morys yn *nai* (= 'disgynnydd') Einion ap Hywel.

26 'Mab [i Hywel] a oedd hefyd yn frawd i Dudur'.

29 **Brochdyn** Tangwystl, merch Gruffudd ap Siancyn ap Siôn Brochdyn (a chwaer yng nghyfraith Syr Gruffudd Fychan), oedd mam Dafydd, WG1 138.

30 **Tordduaid** Trydedd wraig Dafydd oedd Maltt, merch Maredudd Fychan (llau. 31–2) ap Maredudd ap Hywel ap Phylip Dorddu, WG1 382, a thebyg mai hi oedd mam Morys.

33 **Meurig** Llwyd ap Meurig Fychan ab Ynyr Fychan (ll. 38) o Nannau. Gwenhwyfar, ei ferch, oedd gwraig Maredudd ap Hywel, WG1 77.

Y mae'r odl yn afreolaidd, ond tâl nodi mai *feirvg* sydd yn y llsgrau. Yn y cywydd sy'n dilyn, fodd bynnag, odli'r *brig/Meurig* (6.25–6).

36 **Gwent** Gw. 1.16n. a 3.14n.

37–8 **Gruffudd ... / Llwyd** At linach Marged, gwraig Morys, y cyfeirir yn y cwpled hwn. Merch Morys Fychan ... Gruffudd Fychan ap Gruffudd Llwyd, Trefeglwys, oedd hi, WG1 465.

43 **berw** Yn ddeusill (neu *bwrw*).

51 **gweniaith** Ffurf 3 un.pres.myn. *gwenieithio*.

56 *n* wreiddgoll.

63 *n* wreiddgoll.

64 *n* wreiddgoll.

- 65 *n wreiddgoll.*
 66 *r berfeddgoll.*
 68 *n wreiddgoll.*
 69 Cf. 34.6.
 70 *n wreiddgoll.*
 71 *n wreiddgoll.*

6

Siôn ap Rhys ap Morys ap Madog ab Einion, WG2 719, sef cefnder Morys ap Dafydd (cerdd 5). Cyhoeddwyd testun o'r cywydd (yn seiliedig ar lawysgrif BL Add 14901) a chyfieithiad yn HPF iii, 265–9.

- 4 **Lleon** *A guedy gaelet ohonav y gyuoeth yn tagneuedus yd adeilvs dinas yg gogled yr enys hon ac y gelwis o'e enw ehun Caer Lleon, BD 25.*
 5 *n berfeddgoll y gellid ei hosgoi pe dilynid darlleniad y llsgrau. eraill, ond y mae'r darlleniad a ddewiswyd yn cynnal y cymeriad llythrennol.*
 8 **gweithdrafn** Trafodir y gair *trafn* yn GDG 546. Cynigir mai ei ystyron yw i. 'ffynhonnell, trigfan'; ii. 'un sy'n cyflenwi'; iii. 'arweinydd, arglwydd'.
 22 **ar gofion** 'Ar gof, ar dafod leferydd'.
 26 **Meurig** Methais â chanfod yr enw hwn ymhlith hynafiaid Siôn, ond gw. 5.33n.
 27 **Syr Ffwg** Gw. 1.18n.
 29 **Corbed** Ann, merch Pys Corbed o Lai, oedd gwraig Madog ab Einion o Fochdre.
 35 *n wreiddgoll.*
 51 **gwen** Priodasai Siôn â Dyddgu, merch Siancyn ap Llywelyn ap Hywel ap Rhys, WG1 167. Trigai disgynyddion ei brawd, Ieuan Gwyn, yn Llangurig.
 58 Cyfatebiaeth *g = c*. Prawf y cwpled a ganlyn mai eg. yw *cannoos*, ond eb. yn GPC 414: *Dwyblaid gwlad mewn dybliad gloes / Deiliaid cenedl dau cannoos*, GGH 81.49–50.
 61 **wynebwr well** Treiglid *gwell* yn fynych ar ôl enwau gwrywaidd, gw. Treigladau 341–3.
 64 *n wreiddgoll.*
 68 Ni threiglid eg. gynt ar ôl *ail*, ond gw. Treigladau 43.
 70 *n berfeddgoll.*

Awdl i Fathau Goch o'r Drenewydd, a mab Tomas ap Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion, WG1 a WG2 'Elystan Glodrydd' 45, a L. Dwnn: HV i, 314–15. Yr oedd yn ustus yn 1543, yn 1554 a 1555, gw. JPWM 125, a bu'n siryf Maldwyn yn 1548, gw. 'Sheriffs of Montgomeryshire', Mont Coll ii (1869), 398–402, ond 1550 yw'r dyddiad a roddir yn LSEW 263. Ei ail wraig oedd Joyce (Sioes, ll. 36), merch Ieuan Gwyn ap Siâms ap Rhys, WG2 1018; canodd Siôn Ceri i'w thad ac i'w thaid (cerddi 37 a 38).

Bu'r teulu yn croesawu beirdd ar yr aelwyd er dyddiau Dafydd Llwyd. Canodd wyth bardd i'w wŷyr, Tomas ap Rhys, ond hyd y gwyddys, Siôn Ceri yn unig a ganodd i fab hwnnw, gw. NBSD 193–208. Ar ran Mathau y canodd Siôn ei gywydd i erchi main melin (cerdd 40).

Y Mesurau

1–28: cadwyn o englynion unodl union

29–40: 2 bennill yn cynnwys proest dalgron

41–4: englyn unodl union

45–76: 8 gwawdodyn byr (sy'n cynnwys llinellau deg sillaf at ei gilydd)

Ceir yn un o awdlau Tudur Aled 'fesur' tebyg i'r hyn sydd yn llinellau 29–40, gw. TA VI.53–58, GSRh 10.69–74, 12.83–8 a J. Morris-Jones: CD § 550. Nid oes cyrch-gymeriad rhwng diwedd yr awdl a'i dechrau, ond ailadroddir y geiriau *Maint Arthur* yn yr englyn agoriadol ac ar ddechrau'r gwawdodyn olaf. Er nad oes bwlch yn y ddwy lsg., bernir bod dau gwpld yn eisiau, sef llau. 65–6 a 75–6. Afreolaidd yw hyd y llinellau yn ail ran yr awdl, sef llinellau 45–76, a thueddu at ddeg sillaf yn hytrach nag at naw a wneir yn yr holl benillion.

- 4 **Math** fab Mathonwy, yn hytrach na'r e.c., er mai prin yw'r cyfeiriadau yn y canu at y cymeriad chwedlonol hwn, gw. TYP² 448–50.

Mathau Goch Diau fod enw'r noddwr yn dwyn i gof enw'r milwr y canodd Guto'r Glyn am ei wrhydri ar faes y gad yn Ffrainc ym mhedwardegau'r 15g., gw. GGI² III; CLC 229. Fe'i cyffelybir hefyd i Arthur, a datblygir y syniad trwy gyfeirio at lys y brenin yng Nghaerlleon, ac at y Ford Gron.

- 9 Y gynghanedd yn mynnu'r diwygiad, oni dderbynnir mai enghraifft arall o'r bai caled a meddal sydd yma, a threiglir e.p. yn gyson ar ôl eb.un. yn y canu, cf. *merch Forys* (2.21), *hil Dywyn* (7.30), *rhan Dudur* (8.29), *o wlad Geri* (4.63). Ond ceir yn y canu hefyd enghreifftiau o dreiglo e.p. ar ôl eg.un. ac e.ll., cf. *tarw Forys* (32.37), *llwythau*

- Rydderch* (31.33), *llwyth Ririd* (1.20), *nerth Dduw* (6.71), *post euraid Bowys* (9.36).
- 14 **tŵr Pablon** Ceir *Pab(i)lon* gan Huw ap Dafydd (GHD 19.50), Lewys Daron (GLD 3.85) a Lewys Môn (GLM LV.2, LXXVI.2, LXXXIII.46). Ond y mae'n amlwg yr ystyriai'r beirdd *Bab(i)lon* yn ffurf gyfochrog, gw. GLM XL.61, LI.31; GLD 19.57.
- 21 Y mae'r gyfatebiaeth rhwng y cyrch ac ail l. y paladr yn rheolaidd yn yr holl englynion ac eithrio'r un dan sylw. Disgwylid gair fel *hodyn* ('tywysen ifanc') neu *hydyn* ('tyner, addfwyn') + terfyniad enwol *-aeth* i gynganeddu â *dynion*.
- 26 **llew** Fe'i ceid ar arfbais Mathau, gw. 'Sheriffs of Montgomeryshire', Mont Coll ii (1869), 398.
- 30 **hil Dywyn** Gwraig Dafydd Llwyd oedd Gwenllïan, merch Owain ap Gruffudd ab Einion Fychan ap Gwilym ab Einion Fawr o'r Tywyn yng Ngheredigion, WG1 497. Dyma'r *ddau Einion*. Nid ymddengys fod Siôn Ceri yn ymwybodol fod yr ail, Einion Fychan, yn ewythr i Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG xxxii. Ond yr oedd dau Einion ymhlith hynafiaid Mathau Goch o ddilyn yr ach o dad i dad, sef y gŵr a enwir yn y nodyn brig: Einion ... Einion Fychan ab Einion o'r Graig.
- 31 **Buellt** Cyfeiriad, o bosibl, at Lywelyn, y Moelwyn, o Fuellt. Priodasai ei ferch, Sioned, ag Einion Fychan ab Einion o'r Graig, WG1 358.
- 32 **Heiliarth** Yn y rhan hon o Bowys yr oedd y Neuadd Wen, yn ôl IGE² 385. Yno y trigai tylwyth gwraig Rhys ap Dafydd Llwyd, WG2 1139.
- 33 **Clwn** Hywel Colunwy oedd taid Mathau o du ei fam, WG2 692. Ni lwyddwyd i ganfod y cyswllt rhwng y tylwyth hwn a Rhaglan a Gwent, ond gw. 1.16 a 9.35 a hefyd 37.19. Yn y canu i hynafiaid Mathau, pwysleisir y gwasanaeth a roddwyd i Ddug Iorc ac i Edward IV. Barnai Tudur Penllyn fod Rhys ap Dafydd Llwyd yn *llwyr bwys brenhinllv herbart*, sef Wiliam Herbert o Raglan, Iorcydd amlycaf y 15g., gw. E. I. Rowlands, 'Moliant Dafydd Llwyd o'r Drefnewydd a'i Ddisgynyddion', LICy v (1958–9), 174–84; gwelir awdl Tudur Penllyn i Rys yn *ib.* 177–9.
- 55 **nawнын** Y Nawyr Teilwng, neu'r *naw milwr gwrolaf, ag urddasaf or holl vyd*, gw. TYP² 122; D. Ifans, 'Nawwyr Teilwng Plas Bodwrda', Cylch LIGC xviii (1973–4), 181–6. Fe'u henwir yng nghywydd Guto'r Glyn i Siôn Hanmer, gw. GGI² LXIII. Gw. hefyd GPC d.g. *naw*¹ (b) a'r cyfuniadau yno, hefyd d.g. *nawнын, nawyr*.
- 56 *n wreiddgoll*.
- 57 Y gynghanedd yn anfoddfaol yn y ddwy lsg. gan fod *m* yn y rhan gyntaf ac *nt* yn yr ail heb eu hateb.

- 59 **gwelad** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf amheronol hwn, gw GCC 84–5.
- 72 *n* berfeddgoll.

8

Morys ab Owain ab Ieuan Blaenau o Aberbechan, Llanllwchaearn, WG2 1359. I'w fab, Rhys, y canwyd yr awdl foliant sy'n dilyn. Olrheinir hanes hynafiaid y teulu yn 'Sheriffs of Montgomeryshire', Mont Coll iii (1870), 389–9. Dywedir i Owain wasanaethu Dug Iorc a'i fab, Edward IV.

Bodlonodd copïydd Bodley Welsh e 4 ar gofnodi geiriau agoriadol nifer o'r llinellau. At ei gilydd, y mae'r testun hwn yn cyfateb i BL Add 31061.

- 1 **seithwyr** Ai Saith Gŵr Doeth Rhufain? Ond gw. hefyd GLD 3.3 ac uchod 6.17.
- 8 **gwlan** Cyfeiriad at Iason a'r cnu aur?
- 9 *n* wreiddgoll.
- 10 *n* wreiddgoll.
- 12 **Benwyn** Disgrifio lliw ei wallt a wna Siôn Ceri, a datganodd Owain ap Llywelyn ab y Moel fod yr un gŵr yn *edrych mwy no'i oedran*, GOLIM 15.2. Ond yn yr un cywydd dywedir bod Morys yn *cyffroi bonedd coffr Benwyn*, *ib.* 15.24, er na lwyddodd Eurys Rolant i esbonio'r cyswllt achyddol hwn. Mynnir, fodd bynnag, mai ffurf gysefin yw *Benwyn*, *ib.* 77–8. Tybed ai Bedo Benwyn oedd hwn (gw. cerdd 10), cefnder ei dad yng nghyfraith, Dafydd ap Tudur?
- 15 **Deuddwr** Ail wraig Owain ab Ieuan Blaenau, a mam Morys, oedd Catrin, merch Dafydd Llwyd Deuddwr.
- 26 **cadw** Yn ddeusill; felly *aml* yn ll. 37.
- 27 **y trihael** Nudd, Rhydderch a Mordaf, gw. TYP² 5–6. Enwir y ddau flaenaf yn unigol gan Siôn Ceri, gw. 'Enwau personau'.
- 28 **Margred** Merch Dafydd ap Tudur ap Maredudd Ddu, ond Mawd y gelwir hi yn L. Dwinn: HV i, 283.
- 30 *r* berfeddgoll, ond *ar llwyth* yw darlleniad llsgrau. AB.
- 32 **Einion** Gwraig gyntaf Dafydd ap Tudur oedd Elin, merch Morys ap Madog ... Madog ab Einion, Mochdre, WG2 720. Tangwystl, merch Einion ap Maredudd, oedd mam Dafydd, WG1 399.
- 33 Ni threiglir y gwrthrych yn fynych ar ôl ffurfiau 3 un.pres.myn. y f., gw. Treigladau 189, a digwydd hynny yma, er bod *i weiniaid* yn sangiad sy'n gwahanu'r gwrthrych a'r ffurf ferfol.

- 36 **er llethu** ‘Oblegid y wasgfa sydd ar wan’, neu ‘er bod yr anghenus yn diffygio [o dan bwysau’r ddarpariaeth]’. Gwell, serch hynny, y darlleniad diwygiedig *er llithio*. Dilynir darlleniad Bodley Welsh e 4 yn y fan hon, er mwyn cynnal y cymeriad llythrennol.
- 37 **aml** Yn ddeusill yma, ond unsill ydyw yn y llau. sy’n dilyn.
- 41 **Cynan** Ai’r tywysog o Bowys y canodd Taliesin iddo, a mab Brochwel Ysgithrog, gw. CT xvii–xxiii; TYP² 318–19?
- 57 *n wreiddgoll*.
- mân** A. â grym enwol, ‘dynionach, gwehilion’.
- 58 Digwydd yr un ll. drachefn yn 6.38.
- 59 **dyr** *Dyry* (ll. 34) yw 3 un.pres.myn. *dyroddi*, *dyroi*. Ffurf wedi ei llurgunio sydd yma er mwyn ateb gofynion y gynghanedd a’r odl.
- 62 *n wreiddgoll*.

9

Bu Rhys ap Morys yn siryf Maldwyn yn 1565, ‘Sheriffs of Montgomeryshire’, Mont Coll iii (1870), 389–97. Digwydd ei enw yn gyson ar restrï ustusiaid Maldwyn rhwng 1543 a 1568, gw. JPWM 125–7. Y cywydd uchod yw’r unig ganu a ddiogelwyd i’r tad, Morys ab Owain (yn wahanol i’r hyn a awgrymir yn NBSD 269; cywydd i Forys ab Owain, Rhiwsaeson, yw *Oes gwayw irwydd ysgyrion*, cerdd 32). Arwydd o’r croeso a gâi’r beirdd ar yr aelwyd yn nyddiau’r mab yw’r chwe chywydd ymryson a fu rhwng Huw Arwystl a Syr Ieuan o Garno, a’r blaenaf yn ceisio sicrhau na châi’r llall gymryd ei le yn Aberbechan, gw. NBSD 5–7.

Y Mesurau

- 1–40: 10 englyn unodl union
- 41–72: 8 gwawdodyn byr (ond hyd y llinellau yn afreolaidd)

- 2 **Syr Bŵn** Arwr *chanson de geste* Eingl-Normanaid o’r 12g., *Beuves de Hanstone*. Gw. hefyd TA 561 lle y dangosir mai sillaf ysgafn yw *Bŵn*, a chadarnheir hynny gan yr odl yn yr englyn.
- 20 **hynaif** Ffurf l. *hynaif*, ond gall fod yn unigol hefyd, gw. GPC 1974.
- 23 **Einion** Yr oedd Einion o’r Pant ap Llywelyn ap Meilir Gryg yn un o hynafiaid Rhys. Gw. hefyd 8.32. Ond efallai mai Einion Fawr o’r Tywyn yw hwn, un o hynafiaid Gwenllïan, gwraig Rhys ap Morys, gw. 7.30 a ll. 35 isod.

- 24 **Mredudd** Gw. 8.28 a 32. Gwraig Rhys oedd Gwenllïan, merch Siôn ap Maredudd ap Rhys. Ond teulu ei fam a drigai yn y Gwestyd (ll. 25), ac at ei hach hi y cyfeirir yma. Tebycach, felly, mai i'w thylwyth hi y perthyn y Maredudd hwn.
- 27 **hen daid** Ieuan Blaenau.
- 33 **Mawd** Cyfeirio at wraig Rhys a wneir yn y llau. hyn. Awgrymir bod y ddau ohonynt gyda'i gilydd yn dwyn baich yr un iau. Ond Gwenllïan yw'r unig wraig a enwir yn WG2. Yn ôl L. Dwnn: HV i, 283 a 'Sheriffs of Montgomeryshire', Mont Coll iii (1870), 392, gwraig Morys oedd Mawd, ond Marged yn ôl WG1, a Marged y gelwir hi drachefn yn y cywydd uchod.
- 35 **brawd ei thad** Tair chwaer a oedd gan Siôn ap Maredudd ap Rhys ap Dafydd Llwyd o'r Drenewydd, tad Gwenllïan. Ond yr oedd gan Wenllïan dri brawd: Rhisiart, a briododd â merch Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, Tomas, a Maredudd, WG2 716. Gellid atalnodi'r ll. fel a ganlyn: *Brawd, ei thad ...*
- 46 *n* berfeddgoll.
- 58 *n* berfeddgoll.
- 63 **heured** Mewn un llsgr. yn unig y digwydd y darlleniad hwn; *heurwyd* sydd yn y lleill. Ai ffurf gyfochrog (cf. *ganwyd, ganed*) neu ffurf wedi ei llurgunio i ateb gofynion yr odl sydd yma?
- 64 *n* berfeddgoll.
- 66 Bai crych a llyfn.
- 67 *r* berfeddgoll o dan yr acen.

10

Ieuan Goch Benllwyd ap Bedo Benllwyd ap Gruffudd ap Maredudd Ddu ap Dafydd o'r Gwestyd yn Llanllwchaearn, ap Llywelyn Fychan ... Adda, WG1 131; WG2 268. Ef oedd rhingyll Llanllwchaearn yn 1532, gw. W.V. Lloyd, 'Receivers' account, 6 Henry VIII, of Montgomery, Kerry, and Kedewen', Mont Coll xxii (1888), 12. Bu farw yn 1546. Argraffwyd ei ewyllys gan W.V. Lloyd yn 'Early Montgomeryshire wills', Mont Coll xxiv (1890), 48 (dyddiwyd 26 Ebrill a'i phrofi 30 Mehefin 1546), a gwelir iddo adael ei eiddo i'w fab Gruffudd (ef yn unig a enwir yn WG2), ynghyd ag ugain more yr un i ddau fab arall, Dafydd a Hywel.

Ceir yn BL Add 31061 ddau gwpled nad ydynt i'w gweld yn y ffynonellau eraill, ond digwydd y ddau yn annibynnol mewn cywyddau eraill o waith Siôn Ceri; y cyntaf yn 8.35–6 a'r ail yn 20.49–50.

- 5 **Mredudd** Enwir Maredudd Ddu, sef hen daid Ieuan, isod yn ll. 9. Ai cyfeirio at y Maredudd a enwir yn 8.32n a wneir yma?
Gwenllian, merch Dafydd ap Tudur ap Maredudd Ddu, oedd mam Ieuan Goch, WG1 399.
- 11 **gwridoglwyd** Ieuan *Benllwyd* oedd ei dad, a Bedo *Benwyn* (ll. 12) oedd brawd hwnnw. Ieuan ei hun yw'r gŵr coch.
- 13 **carw** Yn ddeusill.
- 20 **Cynfyn** Gallai Ieuan arddel cyswllt â Bleddyn ap Cynfyn am i Ddafydd ap Llywelyn Fychan briodi gorwyres Einion o'r Pant ... Meilir Gryg. Perthynai gwraig Einion i un o'r teuluoedd niferus a hanai o Fleddyn.
- 22 **Hywel Athro** Nid hwn yw'r gŵr a restrir ymhlith hynafiaid Siôn Wiliam (cerdd 11). Ail wraig Cadwgan ap Dafydd ap Cadwgan (Efa, merch Llywelyn o Grug Eryr, oedd ei wraig ef) ap Phylip Dorddu oedd Tangwystl, merch Llywelyn ab Ieuan ap Hywel Athro, WG1 383, 523. Efallai mai plentyn o'r briodas hon oedd Elen Gethin, gwraig Tomas Fychan, Hergest, maes o law. Merch o briodas gyntaf Cadwgan oedd ei chwaer (neu ei hanner chwaer), Gwenhwyfar, a gallai Gwenllian, mam Ieuan Goch, olrhain ei hach hyd ati. Ym Mryndraenog, nid nepell o Fugeildy, y cartrefai disgynyddion Hywel Athro. Disgrifir y cartref yn un o gywyddau Ieuan ap Hywel Srdwal nas ceir yn HS ond a ddyfynnir yn F.G. Payne, *Crwydro Sir Faesyfed*, ii (Llandybïe, 1968), 54–5. Cynnwys y cywydd y cwpled a ganlyn:
- Hil Ieuan braff hael o'n bro,
Hil wythran Hywel Athro.
- 24 **Crug Eryr** Yn Llanfihangel Nant Melan, Llythfynwg. Disgrifir lleoliad y cartref gan Payne yn *ib.* 33–6.
- 26 *n wreiddgoll.*
- 28 **Margred** Ai gwraig gyntaf (neu ail wraig) a oedd yn perthyn i Ieuan Blaenau ... Einion oedd hon? (Yr oedd Marged, modryb Ieuan Goch, yn briod â Morys ab Owain ab Ieuan Blaenau.) Yr unig wraig a enwir yn WG2 yw Sioned, merch Gruffudd ap Madog ap Gruffudd ab Einion ap Hywel o Fochre, WG1 397–9.
- 33 *n wreiddgoll.*
- 37 Bai crych a llyfn.
- 41 *n wreiddgoll.*
- 43 *n wreiddgoll.*
- 59 *n wreiddgoll.*
- 63 *n berfeddgoll.*

11

Yr unig Siôn Wiliam a restrir yn *Welsh Genealogies*, ac a oedd yn byw yn Llandysul, yw Siôn ap Wiliam ap Dafydd ap Hywel ab Iorwerth ap Hywel Athro, WG1 289; WG2 564. *Gwr or gard hari 8* ydoedd yn ôl y pennawd yn y ddwy lsg., a geilw Siôn Ceri ef yn *gŵr nod i'r Goron*.

7–8 **Meilir ... / Gryg** Nest, merch Llywelyn Fychan ap Llywelyn ab Einion ap Llywelyn ap Meilir, oedd gwraig Hywel ab Iorwerth.

9–10 **Arglwydd ... / ... Cedewain** Nid oes un ffigwr hanesyddol sy'n teilyngu'r disgrifiad hwn. Cododd Llywelyn ap Gruffudd gastell yn y cwmwd, yn Nolforwyn, ond wedi ei gwmp daeth Cedewain o dan reolaeth teulu Mortimer. Ym mhlwyf Aberriw y cartrefai Morgan Goch ap Cadwaladr, taid Siôn o du ei fam, ac efallai mai'r cyswllt hwn sy'n cyfiawnhau'r disgrifiad, yn enwedig gan fod y bardd yn cyfarch Siôn fel arglwydd cantref cyfagos Arwystli yn ll. 13 isod.

13 *r* wreiddgoll.

15–16 **Hywel ... / Fab Ieuan** Nid yw'r enw hwn i'w weld yn yr ach a gofnodwyd yn y nodyn brig.

18 **gwatsio** Cf. *gwaetsio* a drafodir yn GLD 13.9n., o'r *S. watch*.

23 Siân, merch Wiliam Herbert o'r Parc, oedd gwraig Siôn Wiliam, ac anodd credu y collai'r bardd y cyfle i gyfeirio at dylwyth mor flaenllaw gan iddo ganu ar achlysur arall i'w thaid, Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn (cerdd 22). Ond merch Rhys o hil Einion oedd ei wraig yn ôl y llau. hyn.

48 A ddychwelodd Siôn i'w fro wedi iddo beidio â bod yn aelod o'r Gart?

49 *n* wreiddgoll.

59 *m* wreiddgoll.

12

Dafydd Llwyd o Garno, mab Gruffudd ap Maredudd ap Llywelyn Fychan ... Gwên ... Einion, WG2 1601. Nid enwir ei wraig; Anest yw hi, a barnu wrth dystiolaeth Siôn Ceri yn y cywydd hwn, ond ni chyfeiria'r bardd at yr un o'i hynafiaid.

8 **oeres** Gallai fod yn ffurf 3 un.grff.myn., ond bernir mai'r ffurf 1 un.grff. sydd yma, megis yn 38.12: *O'i dai, Siâms, neidies yma*.

16 **Blaenau** Nid yw'r cyswllt yn amlwg iawn, ond nid yw'r ach yn gyflawn yn WG2; ni nodir, er enghraifft, enw mam Dafydd Llwyd. Yr oedd

mam Llywelyn Fychan yn un o ddisgynyddion Einion ap Llywelyn ap Meilir Gryg, ac i'r un cyff y perthynai Ieuan Blaenau.

- 21 [y] **Tŷ Gwyn** Ai dyma gartref Dafydd Llwyd? Rhestrir cartrefi a ffermdai'r cylch gan A. Davies yn 'The History of the Parish of Carno', Mont Coll xxxiii (1904), 137–8, a'r Tŷ Gwyn yn eu plith, ond nid awgrymir pa bryd yr ymsefydlwyd yno gyntaf.
- 39 Bai crych a llyfn.
- 49 **Eigr** Mam Arthur.
- 58 **plant** Gwelir enw un ferch, Lowri, yn WG2.

13

I gangen arall o'r un teulu y canwyd y cywydd hwn: Dafydd ap Hywel ap Dafydd Llwyd ap Maredudd ap Llywelyn Fychan, WG2 1599; L. Dwnn: HV i, 317.

- 5 *n* wreiddgoll.

tir gwystl 'Tir prid'. Digwydd yr un odl yn union mewn cywydd o waith Lewys Glyn Cothi: *Yr eryr o war Arwystl, / aur a gostia ar dir gwystl*, GLGC 191.1–2, lle y ceir sillaf gadarnleddf yn y brifodl sydd yn acennog wrth odli ag *Arwystl* (cf. TA I.24 *Llan y Gwystl yn llawn gwestwyr*), ond yn ddeusill at ddiben y gynghanedd (onid ystyrir y ll. yn un bendrom). Nodir enghreifftiau pellach yn J. Morris-Jones: CD 150.

- 6 **Tŵr Eryr** Prif dŵr Castell Caernarfon. Cyfeiriai'r beirdd ato yn fynych pan fynnent gyfleu cadernid eu noddwyr neu pan fyddent yn disgrifio eu llysoedd, gw. GGI² XVIII.20; IGE² CIII.I.

- 7 *n* wreiddgoll.

- 8 Parthed caledu *dd > d* neu *t* ar ôl *at*, gw. Treigladau 386, a'r ymadrodd *at Duw* yn 4.60; 47.42.

- 9 *n* wreiddgoll.

- 10 **plwy Gwnnawg** Llanwnnog yw'r unig eglwys yng Nghymru a gysegrwyd i'r sant Gwynnog, mab Gildas, gw. LBS iii, 242–7.

- 14 **llwynogi** 'Hela oddi cartref', ond priodol hefyd yr ystyrion 'cysgodi, cuddio, derbyn nawdd'.

- 25 *n* wreiddgoll.

- 28 **y tair afon** Gwyddai Lewys Glyn Cothi am y pedair afon y credid eu bod yn tarddu o'r ffynnon yng Ngardd Eden, gw. LGCD 18.1–4, ond y tair afon a'u tarddiad ym mryniau Pumlumon yw'r rhain, sef Rheidol, Gwy a Hafren. Cyffelybwyd tri mab Owain ap Gruffudd o Riwsaeson

i'r tair: GDID At. A2.47–50 *Tair afon gynt a rifwyd / O ddwyfron Pumlumon lwyd, / Tri garw, a red trwy'r goror / Ac un ymysg eigion môr.*

37 Camosodiad m.r = r.m.

40 **Cynan** Dywed Siôn Ceri isod fod *Gwaed a llin y brenhinoedd* yn rhan o gyfansoddiad ei noddwr, a chyfeiria yma at dri o'r pum brenhinllwyth, sef llwyth Gruffudd ap Cynan yng Ngwynedd, llwyth Elystan Glodrydd, Rhwng Gwy a Hafren (ll. 40), a llwyth Rhys ap Tewdwr yn Neheubarth (ll. 42).

41 **Gwennwys** Un o'r ddau gostoglwyth ym Mhowys.

44 **Hywel Goch** Lleucu, ei ferch, oedd gwraig Dafydd Llwyd.

48, 50 **Catrin ... / ...Einion** Unwaith y priododd Dafydd yn ôl WG2, ac enw ei wraig oedd Gwerful, merch Gutun ap Llywelyn Goch.

62 Bai crych a llyfn, onid yngenir *gytun* ar y goben.

14

Cywydd i Lewys ap Dafydd (ll. 15) ap Llywelyn (ll. 16) yn ôl y tair llawysgrif. Disgynyddion oedd Dafydd a Llywelyn i Gydifor ap Dinawal a drigai yn Nhrefeglwys, ond nid yw'r gŵr a enwir uchod i'w weld yn yr ach. Cynigir mai Lewys Gwyn ab Ieuan ap Llywelyn ap Hywel ap Rhys ap Dafydd a gyferchir, tad Ieuan Gwyn, gwrthrych y cywydd sy'n dilyn, WG1 164–7; WG2 348; L. Dwnn: HV i, 302. Cartrefai yn y Dolau-bach(og) yn Nhrefeglwys; perthynai trigfan arall i'r teulu, sef Glynhafren, ond yr oedd hon ryw chwe milltir i ffwrdd, yn Llanidloes. Yno, fe ymddengys, y trigai Ieuan Gwyn.

1 Cymharer â 28.1 *Y gŵr ffriwlwyd, gorff Rolant.*

6 *m* wreiddgoll.

8 **Eleias** Y proffwyd.

11 *n* wreiddgoll.

13 *n* wreiddgoll.

18 **carw** Yn ddeusill.

22 **einion** Nid oes un Einion yn yr ach, ac o ystyried y cyd-destun, nid oes amheuaeth nad yr e.c. sy'n gweddu orau yma.

26 Gwelir yr un ll. yn 23.25.

27 *r* wreiddgoll.

28 **meibion** Ieuan Gwyn yw'r unig fab a enwir yn WG2. Ond efallai mai awgrymu a wna Siôn fod i Lewys egni ac angerdd gŵr ifanc er gwaethaf ei oedran.

- 32 **Non** Mam Dewi Sant.
- 36 **Hywel** ap Gruffudd Derwas, tad yng nghyfraith Lewys Gwyn. Mallt ferch Hywel oedd ei wraig. Gw. td. 11.
- 40 **Catwn** *Tri dyn a gauas Doethineb Adaf: Cado Hen, a Beda, a Sibli Doeth*, TYP² 128.
- 43 **Powys** Mae'r gynghanedd sain yn mynnu sillaf leddf, ac felly yn 12.13, ond sillaf dalgron sydd i'r e. ar yr achlysuron eraill y'i defnyddir.
- 53 Ymddengys fod y ddau gwpled olaf wedi eu camleoli. Daw'r diweddglor naturiol yn ll. 52.
- 54 **Uwch Coed** Rhennid Arwystli gynt yn ddwy ran, Uwch Coed ac Is Coed (ll. 55), gw. WATU 7. Yn Arwystli Is Coed y mae Trefeglwys.

15

Ieuan Gwyn, mab Lewys Gwyn (gw. y cywydd uchod), a folir yn y cywydd hwn. Yng Nglynhafren yn Llanidloes y cartrefai ef. Ei wraig gyntaf oedd Catrin, merch Tomas ap Rhys, a'i thylwyth hi a drigai yng Ngwestun, gw. llinell 34 a GLGC cerddi 177–9, ond priodasai â'i ail wraig erbyn adeg canu'r cywydd hwn. Gwenllïan, merch Tomas ap Rhys ap Gruffudd o Bontrhydgaled, Llangurig, oedd hi, WG2 1708, ond yn llawysgrif A yn unig y digwydd y cwpled sy'n ei henwi. Gwenllïan yw'r unig wraig a enwir yn L. Dwnn: HV i, 302.

- 15 **Tewdwr** Catrin, merch yr Arglwydd Rhys ... Rhys ap Tewdwr, oedd priod Cydifor ap Dinawal.
- 18 **Derwas** Gw. 14.36n. Disgynyddion Bleddyn ap Cynfyn a drigai yn Nannau.
- 19 **dwy dalaith** Ai Deheubarth (ll. 15 uchod) a thiriogaeth Elystan Glodrydd, Rhwng Gwy a Hafren? Nain Ieuan o ochr ei dad oedd Marged, merch Ieuan ap Gruffudd ac Elen ferch Dafydd ap Cadwgan ap Philip Dorddu ... Elystan, WG1 383. Cynrychiolai mam Ieuan drydedd diriogaeth, sef Powys, trwy ei chyswllt â Bleddyn ap Cynfyn.
- 21 **tir Brochwel** Powys, gan fod i Frochwel Ysgithrog le mor amlwg ymhlith tywysogion cynnar y deyrnas. Cf. CLIH 37 (XI.37c) *Dir Brochuael, hir rygodet*; GCBM i, 15.14 gwlad *Urochuael Ysgithra-c*. Nid ymddengys fod yr un o hynafiaid Wmffre yn arddel cyswllt gwaed â Brochwel.
- 31 *n* berfeddgoll.
- 43 *n* wreiddgoll.

16

Ieuan ap Morys ap Siancyn Goch ab Ieuan ap Gruffudd ap Hywel Llwyd o Glochfaen, Llangurig, WG1 901; WG2 1709. Canodd Huw Cae Llwyd iddo ef a'i dri brawd, gw. HCL1 XXXV, ac ymdrinnir â'r canu i aelodau eraill o'r teulu yn H.W. Lloyd, 'Welsh Poetry, Illustrative of the History of Llangurig', yn Mont Coll iv (1871), 55–74. Enwir Ieuan ymhlith y rheithwyr a eisteddai ar y fainc ym Maldwyn yn 1545 a 1546, gw. 'Sheriffs of Montgomeryshire', Mont Coll ii (1869), 378–9.

Argraffwyd fersiwn anghyflawn ac amherffaith o'r cywydd yn H.W. Lloyd, 'Welsh Poetry, Illustrative of the History of Llangurig', Mont Coll v (1872), 70–3, a'i briodoli i Huw Arwystl, ond llau. 1–44 o gywydd Siôn sydd yma.

- 1 **llew** Yr arwydd ar arfbais Siancyn Goch, gw. Mont Coll ii (1869), 263–73.
- 4 **palf** Diau mai'r e. sydd fwyaf priodol yma yn hytrach na'r f. *palfu* 'trin, trafod, ymbalfalu', gw. GPC 2673.
- 6 Cynganedd wallus. Nid yw hi'n eglur ai cynganedd sain ynteu un groes a fwriedid.
- 9 **cerddynt** Bôn y f. *cerdded* + *hynt*.
- 18 **Dwy Bowys** Powys Fadog a Phowys Wenwynwyn.
- 19 **Ceri** Yma y trigai tylwyth nain Ieuan. Catrin, merch Morys Fychan ap Morys ap Madog ab Einion, oedd gwraig Siancyn Goch, WG1 400.
- 23 *r* berfeddgoll.
- 24 *m* berfeddgoll.
- 25 Rhaid diwygio gan fod y ll. sillaf yn brin.
- 26 Twyll gynganedd *d*.
- 29 Cymharer â'r ll. yn y cywydd i'r Lleian a gyhoeddwyd yn OBWW 60.10.
- 35 *n* wreiddgoll.
- 41 *n* wreiddgoll.
- 42 *n* wreiddgoll.

Gwenllian Nid enwir gwraig Ieuan yn WG2.

17

I gwnstabl Clwn y canwyd y cywydd hwn: Siôn Colunwy ap Hywel ap Meurig, WG2 692. Bu'n un o'r rheithwyr ar y fainc ym Maldwyn ar sawl achlysur ym mhedwardegau'r ganrif, gw. 'Sheriffs of Montgomeryshire',

Mont Coll ii (1869), 369, 374, 376. Rhestrir ewyllys ‘John ap Howell’ o Glwn (dyddiwyd 1550) ymhlith yr ewyllysiau a gedwid yn eglwys gadeiriol Henffordd, gw. H.L. Squires & E. Rowley-Morris, ‘Early Montgomeryshire Wills at Hereford Registry’, Mont Coll xix (1886), 18.

- 4 **Iarll Rwndel** I’r teulu hwn y perthynai arglwyddiaethau Croesoswallt, y Waun, Cawres a Chlun.
- 12 **mamaeth** Lleucu, merch Griffri o’r Cwrt yn Hergest, oedd ei fam. Gwelir ei hach hi yn WG1 514.
- 15 *n wreiddgoll.*
- 21 Cyfeirir yn ‘Sheriffs of Montgomeryshire’, Mont Coll ii (1869), 395 at anghydfod yn dilyn llofruddio gŵr o’r enw Roger Law. Bernid bod gan Siôn Colunwy ran yn yr anfadwaith, a meddiannodd Iarll Rwndel ei diroedd o ganlyniad, ond bu ymyrraeth Harri VIII ar ran ‘one of his sewers, and of his most honourable chamber’ yn gyfrwng i’w hadfer iddo, maes o law.
- 23 **mab hael** *Mab Hywel* mewn dwy lsg., a’r darlleniad yn un ystyrllon, ond ni ellir derbyn hwn gan y byddai’r ll. yn rhy hir. Bai cyffredin yw camddehongli’r talfyriad *hol(l)*, er nad ymddengys mai hynny a ddigwyddodd yn yr achos hwn.
- 28 **Derfel** Gadarn. Ei yrfa gynnar fel milwr sy’n cyfrif am y mynych gyfeiriadau ato yn y canu mawl, gw. LBS ii, 333–6; W. Gareth Evans, ‘Derfel Gadarn—A Celebrated Victim of the Reformation’, Cylchg CHSFeir xi (1990–3), 137–68.
- 36 *n wreiddgoll.*
- 39 Diwygiwyd y ll. er mwyn sicrhau na cheid d..d heb eu hateb, er bod camosodiad n.d.d = d.n. yn y ll. ar ei newydd wedd. Cymharer y gwall yn y ll. wreiddiol â’r ll. hon o eiddo Owain ap Llywelyn ab y Moel: *gwelediad teg y wlad hon*, GOLIM 9.33.
- 40 *n wreiddgoll.*
- 43 **hastia** O’r f. *hastio*. Nodir yn GPC 1826 enghreifftiau o’r e. *hast* a berthyn i’r 16g., ond ni chofnodir enghreifftiau o’r ffurf ferfol.

Gelwir y gŵr sy’n erchi’r rhodd yn Hywel Gethin, a dyma’r unig wybodaeth amdano a ymgorfforir yn y cywydd. Serch hynny, gellir barnu yn weddol sicr mai mab Gruffudd ap Hywel ap Dafydd ap Cadwaladr oedd y gŵr hwn, a brawd Lewys Fychan a gyferchir yn y ddau gywydd sy’n dilyn. Ceir ei ach yn WG1 134; WG2 272. Canodd y bardd Owain ap Llywelyn ab y Moel i

sawl aelod o'r teulu. Diogelwyd dau gywydd moliant o'i eiddo i'r tad a marwnad i'r fam ynghyd â chywydd yr un i Hywel Gethin a Lewys Fychan, gw. GOLIM cerddi 6–10.

Er bod mwy o wybodaeth yn y cywydd ynghylch y rhoddwr, ni ellir bod mor sicr wrth leoli Owain ap Hywel. Dywed Siôn Ceri mai cefnder Hywel Gethin ydyw, ac os edrychir ar deulu mam yr eirchiad, gwelir bod dau ddewis yn ymgynnig. Gwraig gyntaf Gruffudd ap Hywel oedd Marged, merch Ieuan ab Owain o'r Neuadd Wen. Ei brawd hi oedd Ieuan Llwyd, a'i wŷr ef oedd Owain ap Hywel, WG2 1139. Yn Llanfair Caereinion y cartrefai'r teulu hwn. Ysyaeth, nid yw'r 'cefnder' hwn yn esbonio'r cyfeiriadau achyddol yng nghywydd Siôn Ceri.

Cyfeiria'r bardd at Siancyn ac at Ednob yn ei gywydd. Sybil, merch Gruffudd ap Siancyn o Ednob, oedd ail wraig Gruffudd, ac nid annichon mai hi oedd mam Hywel Gethin. Brawd Sybil oedd Hywel, a Gwenllïan, merch Hywel Colunwy (ll. 24) oedd ei drydedd wraig ef, WG2 706. Bu eu mab, Rhisiart ap Hywel, cefnder Hywel Gethin, yn siryf Maldwyn yn 1554, ond nid oes awgrym fod iddo frawd o'r enw Owain. Serch hynny, ar sail y cyfeiriadau uchod, awgrymir mai mab 'coll' yr Hywel hwn, a'i wraig, merch Wiliam (ll. 28), a gyferchir yn rhan agoriadol y cywydd.

4 **Ednob** Gw. GOLIM 9.55n.

11 **awrwn** Ffurf sy'n cyfateb i *awron*, *owran*, gw. GPC 243.

14 *n wreiddgoll*.

40 **cehin** 'Ffyrnig, garw', ond y mae Siôn Ceri yn chwarae hefyd ar enw'r eirchiad, yn union fel y gwnaeth Owain ap Llywelyn ab y Moel wrth ganu i'r un gŵr: *llew Cethin, llyw cywaethawg, / llawenha'r hen llwyn yrhawg*, GOLIM 9.11–12, *Marchog cywaethog Cethin, / mal iarll wyd yn amlhau'r llin*, *ib.* 9.35–6.

43 **cads** Ffurf ar *cad*, 'defnydd gwerthfawr', gw. GPC 376.

cedynt *ced* + *hynt*.

44 Ceseilier *ni ad*, ac felly yn 20.53 a 39.23.

45 *n wreiddgoll*.

47 **llynnu** Yr ystyron a gynigir yn GPC 2275 yw i. 'yfed, cyfeddach'; ii. 'trochi, gwlychu'.

56 **llawbron** Y gynghanedd (a thystiolaeth y llsgrau.) yn cadarnhau'r darlenniad hwn, er mai *llawfron*, gw. GPC 2110, yw'r ffurf a ddisgwyliid ('mynwes; dewrder'), cf. *llawrodd* (10.37).

59 *n wreiddgoll*.

70 **capandrw** Ystyron *capan* yw i. 'clogyn, mantell'; ii. 'penwisg; pren neu garreg uwchben drws', gw. GPC 420.

Lewys Fychan o Wyl-y-fuwch, a brawd Hywel Gethin (cerdd 18), a anerchir yn y cywydd hwn a'r nesaf. Dyddiwyd ei ewylllys 20 Ebrill 1542, gw. H.L. Squires & E. Rowley-Morris, 'Early Montgomeryshire Wills at Hereford Registry', Mont Coll xix (1886), 35. Ceir yn llawysgrif Bodley Welsh e 4 gywydd o waith y bardd 'i erchi march i lewys vachan', ond fe'i priodolir i Owain ap Llywelyn ab y Moel mewn llsgrau. eraill a'i gynnwys yn y detholiad o ganu'r bardd, gw. GOLIM cerdd 10 ac uchod, tt. 18–19.

- 1 Tynnodd Mr Gareth Bevan fy sylw at y cwpled hwn sy'n digwydd yn un o lsgrau. Iolo Morganwg, sef LIGC 13120B, 331: 'Pwyn *Glam*. contractedly for pwy un or pa un—pwyn ydyw ... Pwyn y siroedd pen sorren / Pan na wyr pawb pwyn yw'r pen'.
- 5 Cyfrifais gynifer â 44 ll. anghybwys ddisgynedig sy'n cynnwys sillaf gadarnleddf yn yr orffwysfa. Ateb y gytsain gyntaf mewn geiriau megis *hoedl, cefn, Lloegr, treigl* a wneir fynychaf, ac felly hefyd wrth gynganeddu *Siâms* (37.6, 38.12, 16), a dilynodd y bardd yr un arfer yma.
- 7 **Tryffin** Gw. TYP² 515. Yr oedd Drudwas ap Tryffin yn un o'r *Tri Marchoc Aurdavodiawc oedd yn Llys Arthur*, TYP² 250, 327–9. Er mai prin yw'r cyfeiriadau ato yng nghanu'r Cywyddwyr, cyffelybir tad Lewys Fychan iddo yn un o gywyddau Owain ap Llywelyn ab y Moel: *egin Tryffin wyt Ruffudd*, GOLIM 6.4.
- 8 *n wreiddgoll.*
- 10 *n berfeddgoll.*
- 15 **Siob** Gw. GLD 15.5n.
- 16 **Brontyn** Siôn Bowdler o Frontyn oedd tad Cadwaladr.
- 17 Bydd y gytsain *ll* yn 'llyncu' *l* megis yn 42.38 *Holl Gred a holl Loegr ydoedd*, ond yn yr achos hwn, ni ddigwydd *l* yng nghysgod *ll*.
- 20 **Dwy Elfael** Uwch Mynydd ac Is Mynydd.
- 22 *n wreiddgoll.*
- 25 **Owain** Gwraig gyntaf Gruffudd ap Hywel oedd Marged, merch Ieuan ab Owain o'r Neuadd Wen, ond nid hi oedd mam Lewys.
- 28 **Gwen** Nid enwir gwraig Lewys Fychan yn WG2, ond cyfeiria Siôn Ceri ati droeon yn y cywydd hwn a'r nesaf.
- 29 *n berfeddgoll.*
- 41 **Caer Fasaleg** Cartrefai Ifor Hael yng Ngwernyclepa ym Masaleg.

- 51 Gellid gwella'r ystyr trwy ddiwygio *Ni ddeili d'aur..* ond ceid wedyn gyfatebiaeth gytseiniol *dd = th.*
n wreiddgoll.
- 56 *n berfeddgoll.*
- 61 Rhaid wrth air unsill, *daer*, neu bydd y ll. yn rhy hir.

20

- 21 **Buellt, Arwystl** Mynnir yn y cywydd cyntaf fod i Lewys Fychan awdurdod dros Arwystli a Dwy Elfael (19.17–20). Er nad oedd i deulu agos Lewys Fychan gyswllt â'r ardaloedd hyn, ni ddylid gollwng dros gof y manylder daearyddol ac achyddol a amlygir yng nghanu Siôn Ceri.
- 23 Diwygiwyd y ll. gan ei bod sillaf yn brin, a chan mai eb. yn unig yw *coedwig*, yn ôl tystiolaeth GPC 529.
- 32 *m wreiddgoll.*
grŵn O'r S. *groan*, gw. GPC 1538.
- 34 **Hir Fynydd** Y 'Long Mountain', i'r dwyrain o'r Trallwng. Fe'i hadwaenir hefyd wrth yr enwau Digoll Fynydd a Chefn Digoll. Digwydd cyfeiriadau ato yng nghanu Lewys Môn (GLM LXVII.43), Lewys Glyn Cothi (GLGC 144.43) a Dafydd Llwyd (GDLI 53.10). Ni ddylid cymysgu rhwng y mynydd hwn a'r 'Long Mynd', ryw ddeng milltir ymhellach i'r dwyrain. Ni wyddys am enw Cymraeg ar hwn. (Diolchaf i'r Athro Gruffydd Aled Williams am yr wybodaeth hon.)
- 35 *n wreiddgoll.*
- 43 **gwalau** Naill ai ffurf l. *gwal* ('mur, amddiffynfa'), neu l. *gwâl* ('lloches, noddfa'), gw. GPC 1564–5.
- 53 *n wreiddgoll.*
 Cywasger *ni ad.*
- 57 **dŵr Iesu** Yr Iorddonen, am mai yn yr afon honno y'i bedyddiwyd, *bu dros ei ben.*

21

Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, 1468–1539, mab Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg, a laddwyd wedi brwydr Banbri yn 1469, ap Syr Wiliam ap Tomas, WG1 425; WG2 785–6; L. Dwnn: HV i, 312. Canodd Lewys Môn iddo ef a'i frawd, gw. GLM cerddi LXXXVI, LXXXVII.

Diwedd y cywydd yn unig sydd i'w weld yn llawysgrifau G–J, ynghyd â dechrau cywydd o waith Lewys Môn i Syr Rhys ap Tomas, gweler GLM cerdd LXXXVIII, *Nos da i'r frân is Dofr ennyd*.

5 **gŵr y god** Y god yn arwydd o gyfoeth, gw. GPC 1694. Sylwer ar y modd y cyflwynir yr un syniad yng nghywydd Lewys Môn i Syr Wiliam Herbert: GLM LXXXVII.33–6 *Y gwas dewr, nac ystoria: / gan Dduw mae digon o dda. / Nid oes bag,—dwyoes y bych— / nid oes god nad ysgydwych*. Ond nid annichon mai cyfeiriad sydd yma at y modd y cafodd Pwyll y llaw drechaf ar Wawl fab Clud trwy ei ddal ac yna chwarae broch yng nghod ag ef. Anogir y mab i *guro'r god* yn y cywydd sy'n dilyn (22.61). Y mae'r modd yr ailadroddir y ddau drosiad, *pont a pen*, yn y ddau gwpled agoriadol yn y cywydd hwn ac ar ddechrau'r nesaf yn dwyn i gof swyddogaeth Brân yn ail gainc y Mabinogi. Cyfosodwyd y ddau drosiad ar achlysuron eraill, e.e. 36.1, 27.33, 39, 69.

Tair Gwent Dau gantref oedd yng Ngwent, gw. WATU 81 a 1.16, 9.32 &c., sef Gwent Uwch Coed a Gwent Is Coed. Cynnwys Tair Gwent y ddau hyn a'r Cantref Coch, gw. G 664.

6 Bai crych a llyfn.

7 *Neu Tri Syr*, sef tad gwrthrych y cywydd a brawd hwnnw, sef Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a'u tad, Syr Wiliam ap Tomas, y Marchog Glas o Went. Serch hynny, ymddengys fod y gŵr a gyferchir gan Siôn Ceri wedi ei urddo yn farchog, ac nid annichon mai ato ef, ei dad, a'i daid y cyfeirir. Ei fab oedd Syr Rhisiart Herbert Ddu a folir yn y cywydd sy'n dilyn.

10 Dilynyr darlleniad llsgr. F i osgoi'r twyll gynghanedd.

13 **nawny** Gw. 7.55n.

22 **y marchog hir** Yr oedd y tad yn ŵr o gryn faintioli, ac fe'i hadwaenid wrth yr enw 'y marchog hir', gw. LGC 65.

23 **haul** Arwydd Plaid Iorc y bu'r teulu (a Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yn anad neb) yn deyrngar iddi yn y 15g.

26 **Godwin Iarll** Dangosodd y comisiynwyr a fu'n chwilio ach Wiliam Herbert, ar gais Edward IV, ei fod yn hanu o gyff Herbert ap Godwin ab Elfrid, gw. LGC Dosb I, XXII.32 a'r nod.

28 Deisyfir y bydd i wrthrych y cywydd gael ei ddyrchafu yn aelod o Urdd y Gardas.

30 **Urien** Priodasai Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg, â merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas. Parthed y cyswllt rhwng y teulu hwn ac Urien, gw. DWH i, 117–18.

- 32 Prin yw'r enghreifftiau o'r gynghanedd sain gadwynog yng ngwaith Siôn Ceri, a dilynwyd llsgr. F lle y ceir cynghanedd groes.
- 40 Cyfatebiaeth *nc = ng*, ond geill mai *caing*, gw. GPC 390, yw'r darlenniad cywir.
- 50 **tau** 3 un.pres.myn. *tewi*.
- 56 **ymliasen**' Ffurf 3 ll.amhff.myn. *ymleasu*, *ymliasu* 'lladd'; yn ffig. 'gormesu, ymdaro'.

22

Mab Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, 1468–1539, yw'r Mastr Rhisiart Herbert (Syr Rhisiart Herbert Ddu, maes o law) a gyferchir yn y cywydd hwn, yn ôl tystiolaeth y ddwy lawysgrif: *Moliant Risiart Herbert ap Risiart Herbert ap Syr Risiart Herbert hen*.

- 3 *m* wreiddgoll.
- 18 **caer y gath** Yn y Trioedd yr oedd *Cath Baluc* yn un o *Deir Prif Ormes Mon a uagvyt yndi*, gw. TYP² 47, 485–7. Ai cyfeiriad at hynny sydd yma?
- 29 **trichawr** Ei hynafiaid enwog, a'r tri a fawrygir yn 21.7.
- 34 **nai brenin** Nid yw'r sylw hwn i'w ddehongli yn llythrennol!
- 39 Camosodiad *f.n = n.f* o dan yr acen. Ond nodir enghreifftiau o'r ffurf *denfydd* yn GPC 914.
- 42 *n* wreiddgoll.
- 44 *n* wreiddgoll.
- 46 *n* wreiddgoll.
- 51 *n* berfeddgoll.
- 53 **brân** Arwydd herodrol Urien a'i fab Owain, ond ffurf ar yr e.p., Bendigeidfran, hefyd, a chofier i Siôn gyffelybu hynafiaid Rhisiart Herbert i drichawr (ll. 29).
- 60 *n* wreiddgoll.

23

Cywydd i *dd llwyd ap ed or trallwng* yw hwn, yn ôl y pennawd yn yr unig lawysgrif, ond y mae'n bur amlwg mai Edward, *llin cnawd Dafydd Llwyd*, a folir. Ceir yr ach yn WG1 481; WG2 902: Edward ap Dafydd Llwyd ap Syr Gruffudd Fychan ... Gwennwys ... Brochwel Ysgithrog. Dienyddiwyd Syr

Gruffudd Fychan yn y Castell Coch yn 1447—achlysur a gyffrôdd Ddafydd Llwyd o Fathafarn a Lewys Glyn Cothi, gw. ByCy 294–5. Adroddir peth o hanes y teulu gan Enid Roberts, ‘Hen Nantcriba’, Mont Coll lxiii (1973–4), 167–76.

10 Twyll gynghanedd *g*. Ond efallai yr ystyriai Siôn *sarff* yn eg., ac os felly, priodol diwygio yn *sarff gwaywdan*.

16 **Brychan** Y sant a roes ei enw i Frycheiniog. Bernir mai ef oedd taid Brochwel Ysgithrog, gw. LBS i, 301–2. Cyffelybir Edward, isod, i Einion Yrth, mab Cunedda Wledig.

22 Elin, merch Siancyn Cinast (ac ail wraig Dafydd Llwyd), oedd mam Edward.

Constan Mab Cystennin Fendigaid, a brawd Emrys Wledig ac Uthr Pendragon, gw. BD 86–90. Digwydd y ffurf hon ar yr e. mewn cynghanedd lusg yn GRB 38.7, *Yn Gonstan y’th amcanwyd*.

25 **ffortun** O’r S. *fortune*, gw. EEW 172, ond tâl sylwi mai yn Ffordun yr oedd Nantcriba, cartref Lleucu, gwraig gyntaf Dafydd Llwyd ap Syr Gruffudd Fychan.

27 *n* berfeddgoll.

31 **pân** ‘Ffwr gwyn, brethyn wedi ei bannu’, neu *pan* ‘cwpan cymun, llestr diod’, gw. GPC 2678.

36 **trimab** Ensynia Siôn Ceri iddo ganu i Edward ac i ddau o’i frodyr, ond dyma’r unig gywydd sydd ar glawr i’r teulu (ond gw. y cywydd sy’n dilyn lle y cyferchir aelod o gangen arall).

Canodd Tudur Penllyn (c. 1420–85, CLC 589–90) farwnad i dri o feibion Dafydd Llwyd, sef Rhisiart, Edmwnd ac Olifer, ac i’w hewythr, Cadwaladr ap Syr Gruffudd Fychan, ond ymddengys fod brawd arall, Dafydd Llwyd Fychan, yn fyw ar y pryd (*un sy fyw*, GTP 18.13). Wmffre Llwyd a Rhosier Llwyd oedd brodyr unfam Edward. Bardd arall a brofodd groeso a nawdd y teulu oedd Owain ap Llywelyn ab y Moel, gw. GOLIM cerddi 2–4.

38 *n* wreiddgoll.

51 *n* wreiddgoll.

Gruffudd ap Dafydd Llwyd ap Cadwaladr ap Syr Gruffudd Fychan, WG1 481; WG2 901. Am yr ach, gw. nodyn brig y cywydd blaenorol.

- 12 **plwyf Beuno** I'r sant hwn y cysegrwyd eglwys Aberriw, gw. LBS i, 218, ac yno yr oedd cartref Dafydd Llwyd ap Cadwaladr.
- 13 **Hywel** Merch Hywel ab Ieuan Llwyd ap Dafydd ap Phylip Goch oedd gwraig Cadwaladr, WG1 709; WG2 1362.
- 16 **Ffordun** Gw. 23.25n.
Disgwyliid treigladr ar ôl yr eb. *ffriw* (cf. *ffriw ddewr* 41.12), ond efallai fod yma enghraifft arall o anwadaluwch Siôn wrth drin cenedl enwau.
- 18 **Staffordd** Bu nifer o ddisgynyddion Syr Gruffudd Fychan yn gwasanaethu teulu Stafford, barwniaid Cawres.
- 20 **tad dy fam** Trydedd wraig Dafydd Llwyd, a mam Gruffudd, oedd Gwenhwyfar, merch Llywelyn ap Tudur ap Maredudd.
- 30 *r* berfeddgoll.
- 33 **cadw** Yn ddeusill.
- 45 Un o'r enghreifftiau prin yn y canu o gynghanedd draws gyferbyn.
- 51 *f*led-lafarog.
- 53 **Catrin** Ei wraig, a merch Ieuan ap Dafydd Fychan ap Dafydd ap Phylip o'r Faenor.
- 57–8 Digwydd y cwpled ar achlysur arall, yn 43.41–2.
- 61 Ceir yma gynghanedd draws fantach ac ynddi *r* berfeddgoll, ond ll. ac ynddi *n* berfeddgoll a chamosodiad g.d = d.g os ystyrir mai *deg* sydd dan yr orffwysfa.
- 64 Nid enwir mam Catrin yn *Welsh Genealogies*.
- 69 Cyfatebiaeth $t = d$. Gellid goresgyn hyn trwy ddarllen *dros* ar ddechrau'r ll., ond golygai hyn golli'r cymeriad llythrennol.
- 70 Trafodir yr arfer o dreiglo ar ôl *tra* yn Treigladau 378–9.

Llawysgrifau Card 4.10 [= RWM 84] a LIGC 2033B [= Pant 67] yw'r unig rai sy'n nodi mai i Wmffre Cinast Wyllt y canwyd y cywydd (lle y ceir pennawd yn y lleill, fe'i gelwir, yn syml, yn Wmffre Cinast). Er na ellir cyfiawnhau yr epithet 'Gwyllt' ar sail yr hyn sydd yn y cywydd, ceir cadarnhad mai'r gŵr a folir yw mab Syr Rhosier Cinast ap Gruffudd ap Siôn ap Madog, WG1 65; WG2 129, 131; L. Dwnn: HV i, 326–7 (lle y collwyd y ddwy genhedlaeth olaf). Esbonnir ymhellach yn L. Dwnn: HV: 'Sir Roger Kynaston was father of Humphrey Kynaston, the Wild, who was outlawed in the reign of Henry VII, during which time he took refuge in a cave at Ness Cliff, still called after him Kynaston's Cave'.

- 3 *n* wreiddgoll.
- 6 *ai gawg* sydd yn llsgrau. GHJ, sef y cawg yn chwedl Iarlles y Ffynnon, a cf. GLD 2.17–18: *Gwŷr danad, Siôn Amhadawg, / Gwedi'r corff a gadwai'r cawg*, ond nid yn y llsgrau. hyn y ceir y testun gorau.
- 8 *m* wreiddgoll.
- 18 **Arglwydd ac Iarll** Gweddw yr Arglwydd Strange o'r Cnwcin oedd gwraig gyntaf Syr Rhosier Cinast, a merch Harri Grae, Iarll Tancrffil, oedd Elsbeth, ei ail wraig.
- 21 *r* berfeddgoll. Dilewyd *karw* yn Pen 69, ac ysgrifennwyd *kvn* yn ei le.
y Cnwcin I'r de o Groesoswallt. Meddai'r Cinastiaid ar diroedd yn y cyffiniau, yn Hordley ac yn Morton.
- 22 **cadw** Yn ddeusill.
- 24 **dros Dofr** Gw. Treigladau 386, a cf. 54.26 *dros dyn*.
- 27 **tir Brochwel** Powys, gw. 15.21n.
- 31 *n* wreiddgoll.
- 39 *n* wreiddgoll.
- 41 **y ddraig wen** Cenedl y Saeson, fel yr esbonnir ym mhroffwydoliaeth Myrddin yn BD 103–4, a symbol sy'n cynrychioli tras estron y gwrthrych, ond ei gysylltiadau brodorol a bwysleisir yn ail fraich y cwpled pan sonnir am y mab darogan, Owain.
- 47 *n* berfeddgoll.
- 48 *m* wreiddgoll.
Ffrollo *Gvr mavr aruthyr oed Frollo, ac anuedravl y dewred a'e gedernyt a'e glevder*, BD 155.

26

Crybwyllir yma y galar *Acw 'neucwr y Cnwcin* (cf. 25.21), a rhesymol casglu mai marwnad i'r Wmffre Cinast a gyferchir yn y cywydd uchod yw hon, ond ni ellir barnu'n derfynol gan nad enwir ei dad na'i wraig yn y cywydd. Yr Wmffre arall y gallai Siôn fod wedi canu iddo oedd mab Pysr ap Siancyn ap Gruffudd ap Siôn. Yr oedd Pysr ac Wmffre Cinast Wyllt yn ddau gvinfer.

4 *n* wreiddgoll.

8 *m* wreiddgoll.

Cynan Ni fanylir ar ach Wmffre yn y naill gywydd na'r llall. Parotach yw Siôn Ceri i gyffelybu Wmffre i arwyr chwedlonol a hanesyddol

megis Brochwel ac Owain yn y cywydd uchod, a Chynan, Erbin ac Einion Yrth yn y cywydd hwn. Trafodir yr e. yn G 243–4. Tebyg mai at fab Brochwel Ysgithrog y cyfeirir yn y fan hon.

- 9 *n* wreiddgoll.
- 16 *r* wreiddgoll.
- 28 **dagroedd** Digwydd yr un ffurf yn 4.38. Dyma a gopiwyd yn y lle cyntaf yn Llst 30, ond ychwanegwyd *eu* yng nghanol y gair.
- 34 Cyfeiriad at chwedl y Llong Foel, gw. B.F. Roberts, ‘Ystori’r Llong Foel’, B xviii (1958–60), 338–9 a 347–8 lle y rhestrir dyfyniadau o weithiau’r Cywyddwyr.
- 35 **cwyr** ‘Cannwyll’, yn ffigurol am farwolaeth.
Erbin Ei fab yw arwr y rhamant Geraint, gw. TYP² 355–60, ond *erbyn* sydd yn y llsgrau.
- 36 **Einion Yrth** Mab Cunedda Wledig, ond yr afon Einion a roes ei henw i dref Llanfair Caereinion ac i Gastell Caereinion, gw. G 459.
- 42 *n* wreiddgoll.
- 59 **meibion** Edward (ef yn unig a enwir yn L. Dwnn: HV i, 326–7), Rhosier a Syr Siôn, person Llanysgalog.
- 61 *n* wreiddgoll.

27

Owain ap Siôn ap Hywel Fychan o Lwydiarth, ap Hywel ap Gruffudd ap Siancyn ... Celynin yw’r gŵr y gofynnir iddo am y rhodd. Ceir ei ach yn WG1 17–19; WG2 23; L. Dwnn: HV i, 291. Mydryddodd Simwnt Fychan flwyddyn ei farw—sef 1570—yn ei gywydd marwnad iddo, gw. NBSD 149. Ni welwyd cyfeiriad yn yr ach at Syr Robart, ei nai (ll. 43), sy’n erchi’r hug.

Collwyd rhannau o ymyl y ddalen yn yr unig lawysgrif sy’n cynnwys y cywydd.

- 2 **Caer Ffawydd** Henffordd, gw. G 95; Llst 187, 264.
- 11 **Heiliarth** Merch Ieuan ab Owain o’r Neuadd Wen yn Heiliarth oedd gwraig Hywel ap Gruffudd (cf. 7.32).
- 14 **Llŷn** Yr oedd gan Owain a’i daid gyswllt trwy briodas â theuluoedd yn Eifionydd (nid yn Llŷn). Priodasai Hywel Fychan ag Elen, merch Siôn ap Maredudd, Ystumcegid, a merch Tomas ap Rhys o Fron-y-foel oedd gwraig gyntaf Owain.

- 15 **henieirll** Mam Owain oedd Elsbeth, merch Siôn ap Wmffre Grae ap Harri Grae, Iarll Tancrfil. Gwelir Siôn yn chwarae ar yr e. yn ll. 18 isod.
- 16 Ai *Sae*, sef un o ddisgynyddion y teulu a reolai arglwyddiaeth Clwn yn y 12g.?
- 19 **Gwennwys** Nid yw'r cyswllt yn amlwg iawn. Yr oedd Annes, ail wraig Siancyn, yn un o'i ddisgynyddion, ond nid hi oedd mam Gruffudd.
- 26 *n wreiddgoll.*
- 30 **dieisin** *di + eisin*, 'plisg allanol caled y grawn *ÿd*' yn ffig. 'peth diwerth', gw. GPC 1199; ond gw. hefyd G 464 d.g. *eissyng* lle y cynigir yn betrus yr ystyron 'ing ais, galar calon'.
- 37 *n wreiddgoll.*
- 47 **dan bwyth march** 'Yn gyfnewid am farch'.
- 48 **hoeled** Trafodir *hoeledu* yn GDID 153. Digwydd y be. mewn cywydd i'r Bais o waith Gwilym ab Ieuan Hen, a chyfeirir at enghreifftiau o'r e. *hoeled* (? 'gorchudd o hoelion') yng ngwaith Huw Arwystl. Gweddaï'r ystyr honno yma, ond 'gwaywffon, picell' yn ll. 58 isod. Awgrymir na fydd yr un hoeled yn eisiau yn y wisg ar ddiwedd y frwydr. Ond gellir cynnig dehongliad amgen: bydd y gelyn, yn eu gwisgoedd ysgeifn, wedi eu trywanu, a Syr Robert, yntau, yn holliach.
- 49 **meysydd** 'Maes y brwydro', neu—a hyn sydd debycaf—'cefnidir tarian; un rhan o darian chwarterog', gw. GPC 2312–13.
- 53 **hwlawnt** Gellid diwygio *alawnt* y llsg. yn *galawnt*, ond cynigir mai ffurf ar *holant*, *hwlant*, *hwllont* sydd yma, sef math o liain o'r Iseldiroedd, gw. GPC 1890. Awgrymir na thycia arfwisg ysgafn o liain, ond na fydd y wisg faels fawr gwaeth ar ôl y frwydr.
Cyfatebiaeth caled a meddal, g = -g h-.
- 65 *n wreiddgoll.*
- 68 *n wreiddgoll.*

Ymddengys mai cywydd i Owain ab Ieuan Teg ap Deio ap Llywelyn ... Celynin yw hwn, WG1 17–18; WG2 21, sef penteulu Dolobran, gw. ByCy 537–8. Nodir yn rhestr Enid Roberts o'r beirdd a fu'n clera ym Mhowys i Siôn Ceri ymweld â'r cartref, gw. BHLIP 96, ond wŷr Owain, Dafydd Llwyd a oedd yn un o'r rheithwyr ym Maldwyn yn 1542, yw'r unig noddwr a enwir yn NBSD 86–9. Molwyd Dafydd gan Simwnt Fychan, Wiliam Cynwal a Wiliam Llŷn, ac fe'i marwnadwyd gan Fedo Hafesb a Wiliam Cynwal. Un o ddisgynyddion Syr Gruffudd Fychan oedd gwraig gyntaf

Owain, sef Catrin ferch Rheinallt. Molir aelodau eraill o'r tylwyth yng ngherddi 23 a 24.

- 6 **Meifod** Yno yr oedd Dolobran.
- 8 **Mechain** Yng nghantref Mechain y mae Meifod. Trigai cangen arall o'r teulu—disgynyddion Celynin—yn Llwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, yn yr un cantref.
- Mochnant** Gwenllïan, merch Adda o Fochnant, oedd ail wraig Celynin.
- 9 *n* wreiddgoll.
- 10 *n* wreiddgoll.
- 13 **Dafydd** Ffurf 'lenyddol' Deio?
- 16 **Iefan Blaenau** Tad yng nghyfraith Ieuan Teg.
- 23 Cyfatebiaeth $m = n$, neu m wreiddgoll ac n ganolgoll.
- 29 *n* wreiddgoll.
- 36 **Caereinion** Gŵr o Gaereinion oedd Gruffudd Fychan, un o hynafiaid Ieuan ab Owain o'r Neuadd Wen (gw. 27.11). Ac yn Nolarddun yng Nghastell Caereinion y trigai disgynyddion Gruffudd Fychan, brawd yng nghyfraith Deio ap Llywelyn.
- 42 *r* wreiddgoll.
- 44 **Hywel** Ni fanylir ar ei gysylltiadau teuluol. Fe'i lleolir ym Maelienydd, a'i alw yn fab Maredudd. Cynigir mai Hywel ap Maredudd ap Hywel Blaenau ap Meurig ap Gruffudd ap Cadwgan o Heiob (ll. 67) yw'r eirchiad, WG1 378; WG2 696. Mallt, merch Maredudd Fychan ap Maredudd (gw. cerdd 39) oedd ei fam.
- be thawwn** Y gysefin sy'n dilyn *pe*, gw. Treigladau 376, ond y gynghanedd yma yn tystio i'r modd y bu i'r bardd gamdreiglo ar yr achlysur hwn, trwy gydweddiad yn ddiau ag *o*, gw. *ib.* 374.
- 45 *m* wreiddgoll.
- 56 **olwyn** Trosiad am farch sy'n digwydd yn fynych yn y canu, gw. GPC 2644, ond rhestrir yn *ib.* 2644–5 enghreifftiau o *olwyn* < *ôl* + *gwyn* (sillaf dalgron) '(march) ac iddo bedrain wen'.

Cywydd i Wmffre ap Dafydd, Gellidywyll, Llanbryn-mair, ap Hywel ab Owain ... Meilir. Cofnodir yr ach yn WG1 395–6; WG2 714. Yr oedd Morys ab Owain (cerddi 31–3) yn gyfyrder iddo.

- 12 **Meilir** Gw. uchod, a'r nodyn ar *Celynin* isod, ll. 18.
- 13 **galw** Yn ddeusill.
- 14 **Adda Moel** Mam Dafydd oedd Marged, merch Maredudd ab Adda Moel, WG1 387.
- 16 **y Tywyn** Priod Wmffre oedd Catrin, merch Ieuan ap Dafydd Llwyd (y bardd a'r brudiwr o Fathafarn) ap Llywelyn, ac Elsbeth, merch Siancyn ab Iorwerth o Ynysyngwyn, nid nepell o'r Tywyn. Bu Ieuan ap Dafydd Llwyd yn briod ddwywaith, ond ni nodir yn WG2 1597 pa un o'r ddwy wraig oedd mam Catrin. Awgrymir yn L. Dwinn: HV i, 295–6, mai'r ail wraig, Tangwystl, oedd ei mam, ond gan i Siôn Ceri grybwyll y Tywyn, diogel tybio mai Elsbeth oedd mam Catrin.
- 18 **Celynin** Mawd, merch Ieuan ap Gruffudd ap Siancyn ap Llywelyn ab Einion ap Celynin, oedd mam Wmffre. Ail wraig Ieuan oedd Elen, merch Gruffudd ab Ieuan Blaenau ... Meilir Gryg, WG1 707. Ond nid ymddengys fod cyswllt rhwng Ieuan ap Dafydd, tad yng nghyfraith Wmffre, a Chelynin, er gwaethaf yr hyn a awgrymir yn llau. 41–2.
- 35 **Elen** Yr oedd tair Elen adnabyddus, sef Elen Luyddog chwedl 'Breuddwyd Maccsen', Elen Fannog o Gaerdroea a'r Santes Helena a ddarganfu'r Grog, a hi oedd mam Cystennin, gw. TYP² 341–3; LBS iii, 255–60.
- 39 *n* wreiddgoll.
- 40 *r* berfeddgoll.
- 44 *n* berfeddgoll.
- 60 **Dafydd a Mawd** Rhieni Wmffre.

30

Cywydd moliant i benteulu Talerddig yn Llanbryn-mair, sef Rhys ab Ieuan ap Dafydd Llwyd ... Gwên ap Goronwy, yw hwn. Ond ceir ynddo hefyd awgrym o erchi gan fod y bardd yn deisyf gwisg o groen hydd (llau. 45–50), er na ddyfelir y gwrthrych yn unol â'r arfer mewn cywydd gofyn. Cofnodir ach y teulu yn WG2 1599 a L. Dwinn: HV i, 317. Sioned, merch Ieuan ap Gruffudd Llwyd ap Dafydd o Gaersŵs, oedd gwraig Rhys, ond nis enwir yn y cywydd. Dyma'r unig ganu i'r teulu yn ôl NBSD 231.

Geiriau dechreuol pob llinell yn unig a ddiogelwyd yn llawysgrif Pen 82. Cf. sylwadau Dafydd Huw Evans, 'Lewys Dwinn a'i gariadon', *Dwined*, i (1995), 99n5.

- 4 **Hu Gadarn** Ymherodr Caergystennin, a gŵr a oedd yn enwog fel amaethwr. Cyfeirir ato yng nghywydd enwog Iolo Goch i'r Llafurwr, gw. GIG XXVIII.63–78.
- 6 **gwyn a rhudd** Nid annichon mai cynrychioli arfbais y teulu a wna'r lliwiau hyn. Cf. 47.34.
- 7 **y Fâl** Glyn-y-groes yn GO XIX.42, ond yma, ac yn GGI² LIII.36, y Dyffryn Aur yn swydd Henffordd; gw. ymhellach LGCD 144.
- 20 **Tewdwr** Mab Cadell ... Rhodri Mawr. Cyfleu rhagoriaeth ei noddwr a wna Siôn Ceri wrth ei gyffelybu i un o ddisgynyddion Rhodri a fu'n frenin ar Wynedd, Powys a Cheredigion.
- 21 **stil** Naill ai'r S. *steel* 'cleddyf' (cf. dur) neu *style* 'natur' neu 'enw', megis yn GGH 25.63. Diau fod y bardd yn chwarae ar y ddwy ystyr.
- 25 **nyddwyd** Cf. yr ymadroddion *nyddu dart* (GLGC 203.11) a *nyddu coed* (*ib.* 84.43). Yr hyn a awgrymir yma yw i. nid oedd modd plethu gwaywffon Rhys megis y gwneid ag un ansylweddol a bregus; ii. nid oedd y waywffon yn un hir; câi ei chwtogi gan y mynych ddefnydd a wneid ohoni. 'Gwneud rhywbeth ofer' a olygir gan yr ymadrodd *nyddu derwen* yn y cywydd sy'n dilyn (31.56).
- 31 *n wreiddgoll.*
- 33 **gwerthyd** 'Offeryn pigog at waith nyddu', gw. GPC 1648, neu yn drosiadol, 'gwaywffon, picell'.
Dilynwyd darlenniad Pen 82 gan fod y gynghanedd groes o gyswllt yn amlycach yn y canu na'r gynghanedd draws gyferbyn.
n wreiddgoll.
- 57 *n wreiddgoll.*
- 59 *n wreiddgoll.*

Morys ab Owain o Riwsaeson, Llanbryn-mair, yw gwrthrych y tri chywydd sy'n dilyn. Cofnodir ei ach yn WG1 396; WG2 713 o dan Elystan Glodrydd 43, ac yn L. Dwnn: HV i, 298, 318: Morys ab Owain ap Llywelyn ab Owain ap Gruffudd ... Meilir ... Ithel Gledde ... Ednyfed ab Idnerth. Yr oedd yn aelod o Uchel Reithgor sir Drefaldwyn yn 1545, gw. R. Williams, 'A History of the Parish of Llanbryn-mair', Mont Coll xxii (1888), 35–40. Mari, merch Hywel Fychan, Llwydiarth, ap Hywel ap Gruffudd ap Siancyn, oedd ei wraig, a cheir ach ei theulu hi yn WG2 23. Cyfyrdar Morys yw'r gŵr a gyferchir yng ngherdd 29 (*Y llew dof â lliw Dafydd*).

- 19 **Oswallt** Sant a brenin. Bu ei haelioni a'i natur ddiymhongar yn destun edmygedd yng ngolwg Beda, gw. NCE 10, 810–11. At ei wallt y cyfeirir fynychaf pan grybwyllir ei enw yn y canu, ond ymddengys mai galwadau cynghanedd ac odl sy'n cyfrif am hyn yn hytrach na thraddodiad arbennig am y cymeriad: *Oswallt, fireinwallt frenin*, / *Ysgar glwyf esgair a glin*, GGI² XLIV.49–50; *Neu bryd Oswallt manwallt mwyn*, / *O nef fry ne'r fôr-forwyn*, GHD 23.9–10; *Syr Risiart, os hir Oswallt*, / *Hwy yw dy gorff hyd y gwallt*, TA XLIII.5–6. Dewisiodd Lewys Glyn Cothi enwi Oswallt ar ragor na deg achlysur (gw. GLGC 'Enwau Priod'). Hynodrwydd y bardd hwn yw ei ddysg chwedlonol, ac y mae yn arwyddocaol na chyfeiriodd ar un achlysur at wallt Oswallt.
- 21 **rhestia** Nodir enghreifftiau eraill o'r ffurfiau *rhest*, *rhestio* yn yr Eirfa, ond efallai y dylid ystyried *rest* a *restio* yn ffurfiau cyfochrog, gw. ll. 49 isod, hefyd 39.13 a 39.74 lle y geilw'r gynghanedd am *r* yn hytrach na *rh*.
- 25 **Emrys** Wledig. Trafodir y modd yr uniaethwyd ef â Myrddin Emrys yn TYP² 345–6 a CLC 190.
- 32 **Gwenwynwyn** Mab Owain Cyfeiliog. Annes, ei chwaer, oedd gwraig Ithel Gledde.
- 33 **Llwythau Rydderch** Cf. 7.9 a'r nodyn, a 33.31.
Rhydderch Mam Owain, ac ail wraig Llywelyn ab Owain, oedd Gwenllïan, merch Dafydd ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Parchrhydderch, WG1 179.
- 34 *n wreiddgoll*.
Rhaid cywasgu *Ni bu un* yn ddwy sillaf.
- 35 *n wreiddgoll*.
niwr Gair a grëwyd trwy gywasgu *ni* + *wyr*. Gweler ymhellach 44.21 a'r drafodaeth yn GPC 2586 d.g.
- 36 **Blaenau** Priodasai Owain ap Llywelyn â Thangwystl, merch Dafydd ap Llywelyn ab Ieuan Blaenau, WG1 585.
- 41 *n wreiddgoll*.
- 46 **rhuddgarw** Neu *i'r hyddgarw* 'hydd, carw', yn ffig. 'arglwydd', gw. GPC 1957.
- 47 **naw** Gw. 7.55, a'r cyfeiriad at y Nawyr Teilwng.
- 49 *n wreiddgoll*.
- 51 Collwyd godre'r ddalen yn yr unig lsg.
- 56 **nyddu derwen** Gw. 30.25.
- 57 Wyth sillaf yn y ll.; nid yw'r gynghanedd yn gywir oni chyfrifir *heol* yn ddeusill, ac *arhöid* yn dair.

- 59 **gwyntio'r cledd** 'Chwifio cleddyf', er nad oes enghraifft gyfoes yn GPC 1780.

32

Trafodir hynafiaid Morys ab Owain yn nodyn brig cerdd 31. Os canodd Siôn hwn ar ei ran ei hun, nid amlygir hynny yng nghorff y cywydd gofyn nac yn y llawysgrifau sy'n cynnwys y darn. Pwysleisir y croeso a estynnwyd i feirdd gan Owain, y tad, ac awgrymir bod yr etifedd lawn cyn garediced.

- 4 **Siob** Gw. 19.15n uchod.
- 16 **Cynfyn** Yr oedd Owain Cyfeiliog (gw. 31.32) yn un o ddisgynyddion Bleddyn ap Cynfyn.
- 21 **prydyddion** Canodd Deio ab Ieuan Du i dri mab Owain ap Gruffudd, a disgrifiodd hoffter Llywelyn o gerdd dafod a cherdd dant: *Cywydd serch i ferch a fyn, / A thalm ar grwth a thelyn*, GDID At. A2.23–4.
Ni ddiogelwyd unrhyw ganu arall i Lywelyn nac i'w fab, Owain, er i Ddafydd Llwyd o Fathafarn a Dafydd ap Hywel Swrdwal ganu i'w ddau frawd, gw. NBSD 223–8.
- 40 **broch** 'Mochyn daear', neu 'llid, dicter, cyffro', gw. GPC 330 d.g. *broch*¹ a *broch*².
- 58 Cynigir darlun cyffelyb yng nghywydd Llywelyn Goch i'r Eira: *Cuchiog gwaeth na swyddog sir*, BI B XIV 60.11.
- 63 **cefnen** Fe'i trinnir fel pe bai yn eg., ond eb. yn unig ydyw yn ôl GPC 447.
- 65 *n* berfeddgoll.
- 72 *r* berfeddgoll.

33

- 7 *n* berfeddgoll.
- 15 **manhau** 'Gwneud yn fân, torri'n ddarnau bychain', gw. GPC 2342, ond 'mynd heibio, darfod, peidio' yw'r ystyron sy'n gweddu orau yma.
- 16 **Ynyr** Maltt, merch Hywel Selau ... Ynyr ... Bleddyn ap Cynfyn, oedd gwraig Gruffudd ap Siancyn, un o hynafiaid Mari o Lwydiarth. Ond fe'i henwir yng nghywydd cynharach Deio ab Ieuan Du i dri mab Owain ap Gruffudd, gw. GDID At. A2.30; dilynir ach Morys ab Owain yn L. Dwinn: HV i, 297 hyd at Ynyr ap Cadfarch.

- 32 **y tair gŵyl** Cyfeirir at y tair yn y llau. uchod, sef y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn.
- 35 **gwarhau** 'Dofi', h.y. trin a diwyllio'r tir, ond nid oes a wnelo'r enghreifftiau a gofnodir yn GPC 1584–5 â chyd-destun amaethyddol.
- 43 *n wreiddgoll.*

34

Yn llawysgrif Pen 95 yn unig y nodir mai cywydd i Owain ap Hywel ab Ieuan ap Madog yw hwn, ac ar sail yr wybodaeth gellir cynnig mai hwn yw'r gŵr y disgrifir ei ach yn WG1 380. Ym Mhlasmadog yn Nolfor yng nghwmwd Ceri y trigai'r teulu. Serch hynny, gelwir Owain yn [*ffarwn mawr iawn Bryn Mair*, a chlodforir ei hynafiaid ym Maelienydd a Buellt. Ni chrybwyllir ei wraig yn WG1; *merch Rys* yw hi, yn ôl a ddywed Siôn Ceri yn llinellau 30 a 64.

Y bardd sy'n erchi y tro hwn, ond ymddengys iddo anfon cennad ar ei ran i ddatgan y cywydd ac i gyrchu'r march (llau. 61–2).

- 6 Cf. 5.69.
- 10 **Ieuan ... Gethin** ap Madog Fychan, tad Madog.
- 11 **tir Mael** Ym Mleddfach ym Maelienydd y trigai teulu yng nghyfraith Madog.
- 12 **deutu Gwy** Dyddgu, merch Rhisiart o Fuellt, oedd gwraig Ieuan Gethin, WG1 365. Dyma'r cantref sydd ar lannau gorllewinol Afon Gwy.
- 13 **Tordduaid** Yr oedd Phylip Dorddu yn frawd i Fadog Fychan.
- 15 Sylwer ar yr odl lafar.
- 16 **t'wysog Cyfeiliog** Cyffelybir Owain ap Hywel i'r bardd-dywsog, Owain Cyfeiliog, gw. ByCy 649–50.
- 18 **Dafydd Llwyd** Brawd Owain ap Hywel.
- 22 *n wreiddgoll.*
- 43 *n wreiddgoll.*

35

Rhys ap Morys Goch ap Dafydd Goch ap Hywel ab Einion o Genarth yn Sain Harmon, Gwerthrynion, WG1 793; WG2 1525. Merch Ieuan Llwyd Fychan ap Dafydd Llwyd ap Llywelyn yw'r Sioned a enwir yn y cywydd; trydedd wraig Rhys oedd hi. Ceir ei hach yn WG1 372.

- 3 **edn llwch gwin** Adroddir hanes yr adar hyn yng nghywydd Dafydd Nanmor i Harri Tudur, gw. DN XVI.57–60, 63–4:

Alexsander val eryr
 Bu yn y gwynt vwch ben gwyr.
 Dav o adar a'i dodynt,
 Llwch Gwin ymhob lle vwch gwynt ...
 Bid Harri wedi Edwin
 Iarll uwch Gwent, Adar Llwch Gwin.

edn Yn ddeusill.

- 5 Camosodiad ll.r = r.ll.
 10 *f*led-lafarog.
 19 **Rhydderch** ab Ieuan Llwyd, Parchrhydderch, sef hen daid Elen, gwraig Morys Goch, WG1 179.
 20 **Riffri** Gwraig Hywel ab Einion oedd Dyddgu, merch Dafydd Llwyd ap Hywel ab Adda Ddu o Geri (ll. 29), ap Gruffudd ap Maredudd ab Einion. Griffri a Griffri Ddu oedd dau o frodyr Adda. At hyn, yr oedd gan Ruffudd Fychan ap Maredudd ab Einion fab o'r enw Griffri, WG1 223, 226.
 21 **Arwystl** Merch Gruffudd Goch ... Maredudd Ddu o Arwystl oedd mam Morys Goch; ail wraig Dafydd Goch oedd hi, WG1 227, 223.
 33 **Sawl** Cyfeirir yn fynych at ei ddewrder a'i filwriaeth, e.e. *Edyn gwrrol wyd vn guras, / Arthur, a Sawl wrth roi sias*, GO XVII.13–14. Enwir nifer o arwyr chwedlonol yn y rhan hon o'r cywydd, ac yr oedd hyn yn cyfiawnhau diwygio *selau* y llsg. Ond nid annichon mai ffurf ar *Selyf* yw *selau*, er mai doethineb yn hytrach na glewder y noddwr a gyfleir pan gyfeirir ato ef. Am *Seleu/Selyf*, benthyciad o'r Llad. *Solomon*, gw. PKM 140–1 ar *Preseleu*.
 41 *n* wreiddgoll.
 52 **yr iarll** Teulu Mortimer a feddai'r hawl ar Werthryinion.
 56 *n* wreiddgoll.
 59 *r* berfeddgoll.
 64 *m* wreiddgoll.
 68 Bai crych a llyfn.

- 6 **Rhydderch Hael** Un o'r Tri Hael traddodiadol, ond gw. hefyd 35.19n.
 7 **Greal** i. 'y Greal Sanctaidd'; ii. 'llyfr yn adrodd campau marchogion Arthur'; iii. yn ffig. 'trysorfa gwybodaeth', gw. GPC 1528.

- 8 **tir Garmon** Y sant Garmon a roes ei enw i Sain Harmon. Trafodir ei gyswllt â Gwerthryniion (a'r traddodiad am Glas Garmon nid nepell o Sain Harmon) yn LBS iii, 78.
- 9 **ellyma** Nodir yn GPC 1268 y ffurfiau *fellyna* (< *fel yna*) a *fellynny* (< *fel hynny*), ond ni chofnodir enghraifft o'r ffurf (*fellyma* (< *fel yma*). Collwyd *f* ar ddechrau'r gair, ac yn *ellynny*, gw. 39.30.
- 11 *m* wreiddgoll.
- 21 **cymin hun** *Cymaint* + (*h*)*un*, gw. Treigladau 260–1, GPC 753.
- 27 Cyfleir yr un syniad yn y cywydd i Wiliam ap Siôn Edwart o'r Waun (48.58), sef fod angen bod yn wyliadwrus oblegid y bygythiad o du'r gwŷr gweinion (ac eiddigeddus).
- 28 *m* wreiddgoll.
- 29 *n* wreiddgoll.
- 55 *n* wreiddgoll.

37

Gwrthrych y cywydd hwn yw Siâms o'r Mynachdy yn Llangynllo, a mab Rhys ap Dafydd ap Hywel Fain ... Elystan Glodrydd, WG1 391, 524; WG2 1017–18. Ei fab, Ieuan Gwyn, a gyferchir yn y gerdd sy'n dilyn.

Collwyd rhannau helaeth o lsg. Bodley Welsh e 4. Yr un yw cysail y testun yn hon (a barnu wrth y darnau a ddiogelwyd) â Bodewryd 1, 263.

- 4 Y geiriau *naw un werth* wedi eu cywasgu.
- 11 Neu *milwr Hu*.
- 14 Camosodiad m.s = s.m.
- 18 **y Clawdd** Clawdd Offa.
Celyddon Yr Alban, er na ellir bod yn sicr ym mha ran o'r wlad yr oedd Celyddon. Yno y ffoes Myrddin yn ei wallgofrwydd, gw. YMTh 67.
- 19 **Gwent** Mam Rhys oedd Elen, merch Dafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu, a modryb Elen Gethin. Gweler 1.16n. a 3.14n.
- 21 **iarlles** Mallt, merch Dafydd ap Dafydd Goch o Raeadr Gwy, ap Maredudd ab Einion Llwyd, oedd ei wraig, ond efallai mai cyfeirio at fam Siâms a wna'r bardd yma. Elsbeth, merch Syr Siâms Basgrfild a Sybil (merch Syr Walter Devereux) oedd hi.
- 22 **Brontyn** Ni lwyddwyd i olrhain y cyswllt hwn. Nid enwir y gwragedd yn ach Mallt ferch Dafydd, gwraig Siâms, yn WG1.
- 23 **holl dynion** *ll* yn caledu'r gytsain feddal sy'n dilyn, gw. Treigladau 93.

- 27 Cywasgwyd *Ni ffoaf fi oddi wrthyd*.
- 28 *n wreiddgoll*.
- 30 *n wreiddgoll*.
- 32 *n wreiddgoll*.
- 44 **casau** ‘Gelynyon’, ond *caseion* yw’r unig ffurf l. (un. *cas*²) a nodir yn GPC 435.
- 49 Bai crych a llyfn.
- 50 *n wreiddgoll*.
- 51 Wyth sillaf yn y ll., a rhaid cywasgu *ni wn* yn unsill (ar batrwm *ni wŷr*, 31.35).
- 53–4 Gall y cwpled gyfeirio at barodrwydd y beilchion i greu cynnen (*gedy*, 3 un.pres.myn. *gado*, a *châi*, 3 un.amhff.myn./dib. *cael*), neu at awydd Siâms i wastrodi’r cyfryw (*gedy*, 2 un. pres. *gadu*, GCC 101–2, a *cai*, 2 un. pres. *cael*).
- 58 **eboludd** *Ebol + hydd*, er nas enghreifftir yn GPC 1156, yn hytrach na ffurf ar (*h*)*eboludd*, *heb + goludd*, ‘yn ddirwystyr, yn ddiymdroi’.
- 63 Trinnir *ton* megis pe bai yn eg. Gw. ymhellach 2.63n.
n wreiddgoll.
- 65 *n wreiddgoll*.
- 69 *n wreiddgoll*.
- 71 *n wreiddgoll*.
- 72 *eirth* yn llsgrau. ABE, ond ceir gwell ystyr o dderbyn y cysylltair, er gwaethaf y gyfatebiaeth wallus *thr = rth* o dan yr acen.

Penodwyd ‘Jevan Guyn ap Jamys’ yn siedwr ym Maldwyn yn 1546–7, gw. LPFD XXI, cyf. ii, 430. Ym Maelienydd yr oedd Llangynllo, ond awgrymir yn llau. 8, 65 mai yng Nghlwn y trigai Ieuan. Ymddengys hefyd, a barnu wrth dystiolaeth llinellau 9–14, fod Siâms, y tad, ar dir y byw pan ganwyd y cywydd.

- 8 **Colunwy** Yr ardal i’r de o’r Drenewydd. Ond efallai mai bwriad Siôn Ceri oedd galw sylw at y cyswllt teuluol rhwng Ieuan Gwyn a gwrthrych cerdd 17. Yr oedd merch Ieuan Gwyn yn briod â Mathau Goch o’r Drenewydd (cerdd 7), mab Tomas Prys a Florens ferch Hywel Colunwy. Gwraig gyntaf yr Hywel hwn oedd Lleucu, merch Griffri ap Llywelyn ap Hywel ap Herast, a merch Llywelyn ap Herast oedd gwraig Hywel Fain yntau, WG1 514.

- 19 *n wreiddgoll*
- 28 **Awdlai** Gw. ll. 39n isod.
- 32 **Basgrfild** Gw. 37.21n.
- 34 **Einion** Llwyd Un o hynafiaid Maltt, mam Ieuan.
- 36 **cwnstabl** Ni welais ategu'r honiad hwn, ond gw. y nodyn brig.
- 39 **Edwart** Crofft o swydd Henffordd, gw. DNB v, 110 ... Syr Siôn Crofft, a thad yng nghyfraith Ieuan. Priodasai Siôn Crofft â Sioned, merch Owain Glyndŵr, WG1 100; WG2 343. Syr Dafydd Hanmer (ll. 42) oedd tad yng nghyfraith Glyndŵr. Priododd merch Arglwydd Awdlai ag un o hynafiaid Owain, PACF 282.
- 41–2 Nid yw'r cwpled i'w weld yn BL Add 14989, ond ni ellir ei wrthod ar sail ei gynnwys sydd yn gyson â'r ach fel y cofnodir hi yn WG1 a WG2. Tâl nodi, fodd bynnag, fod pob ll. yn y cywydd fel y'i ceir yn y llsg. hon yn cynnwys cynghanedd groes (ac eithrio'r draws yn ll. 55, ac un gytsain nad atebir mohoni sydd yn hon), ond dwy l. o gynghanedd sain sydd yn y cwpled 'coll'.
- 44 **Wgon** Ffurf ar *Cadwgan*, sef unig fab Elystan Glodrydd? Ond tebycach mai dymuniad Siôn oedd dwyn i gof briodas Elsbeth, merch Harri Wgon, â Watgyn Fychan, brawd yng nghyfraith Elen Gethin, gw. 37.19n. a WG1 243.
- 46 *n wreiddgoll*.

39

Nodir yn y tair llawysgrif mai cywydd i Owain ap Gruffudd ap Maredudd Fychan yw hwn. Nid enwir Gruffudd, y tad, yn y cywydd, ond gelwir Owain yn *wyr Fredudd Fychan*. A derbyn bod seiliau cadarn i'r priodoli yn y llawysgrifau, carwn gynnig mai penteulu Garddfaelog yn Llanbister oedd yr olaf. Cofnodir ach y teulu yn WG1 382; WG2 701–2. Canodd Gwilym ab Ieuan Hen i Faredudd Fychan, a rhestrodd yn ei gywydd y beirdd a fu'n canu ar yr aelwyd. Un ohonynt oedd Llywelyn ab y Moel:

Llywelyn, ganeidwyn gnawd,
 A'i lluniodd, wellau iawnwawd,
 Fab teg, ar osteg aur wystl,
 Y Moel, eurwr mawl Arwystl. (GDID XII.21–4)

Awgrymodd Cledwyn Fychan i'r teulu gynnig lloches i'r bardd hwnnw pan oedd ar herw yn y Canolbarth, gw. 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 291–2. Dau arall a fu ar herw yn y

bymthegfed ganrif oedd Owain ap Gruffudd ap Nicolas a'r bardd Lewys Glyn Cothi, gw. LGCD 15.17–20. Yr oedd Marged, chwaer Owain, yn briod â Maredudd Fychan, a phriododd merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas â Gruffudd ap Maredudd Fychan.

Sonnir yn y cywydd am garcharu Owain. Ymddengys iddo golli rhyw swydd y bu'n ei dal (llau. 71–2) ac iddo gael ei ddwyn i gyfrif. Y mae'r cywydd yn debyg ar lawer ystyr i'r un a ganodd Siôn i Rys o Genarth (cerdd 35).

6 *r* wreiddgoll.

11 **arf Riwedawg** Marwnadodd Lewys Daron ar ôl Wiliam ap Morys o Riwedog, ond ni wyddys am gyswllt rhwng y teulu o Feirion a theulu Garddfaelog, gw. GLD cerdd 23. Ai ffurf ar (*G*)*refodog* ym mhlwyf Llanbister?

13 **gosteg** i. 'cyhoeddiad, datganiad' neu ii. 'heddwch, tawelwch', gw. GPC 1514.

18 *n* wreiddgoll.

19 Twyll gynghanedd *g*, ond geill mai cynghanedd draws fantach sydd yma.

23 *n* wreiddgoll.

Cywasger *ni ad*.

30 **ellynny** Gw. 36.9.

40 **Wigmor** Yno yr oedd prif gartref teulu Mortimer, arglwyddi Maelienydd.

41 *n* wreiddgoll.

44 **llu'r Pil** Y gelyn/y Saeson, ac un o'r *tri llu aeth i Gymru gynt* yng nghywydd Guto'r Glyn i Wiliam Herbert o Raglan, gw. GGI² XLVIII.1–4. Awgrymodd Saunders Lewis mai llu Harold (a goronwyd yn fuan wedyn yn frenin Lloegr) oedd hwn. Lladdwyd Gruffudd ap Llywelyn pan ymosododd ar Gymru yn 1063, a chododd bileri i ddathlu ei fuddugoliaeth, gw. Saunders Lewis, 'Gyrfa Filwrol Guto'r Glyn', YB ix (1976), 95n3. Ond gw. hefyd GPC 2215 d.g. *llu*, lle y gelwir sylw at y *S. peel* 'anrheithio'.

50 Cyfatebiaeth $m = n$ o dan yr acen.

57–8 **gwlan aur ... / ... gnu henaur** Cf. 8.8 lle y sonnir am y *cnu aur*, a GGI² LXXVII.41–2: *Un rhodd fyddaf mewn rhuddaur, / Un wisg â'r myharen aur.*

Mewn un llawysgrif yn unig y ceir gwybodaeth am y gŵr a anerchir yn y cywydd gofyn hwn. Yn BL Add 14966 (un o lawysgrifau Wiliam Bodwrda), nodir mai *Cyw. i ofyn meini melinav i Lewis Tomas o Lann Badarn* yw hwn, sef Lewys ap Tomas ap Dafydd Goch o Lanbadarn Fawr yng nghwmwd Perfedd. Am ei ach, gw. WG1 803; WG2 1539. Ceir yn llawysgrif Brogyntyn 2 un cwpled nas gwelir yn y ffynonellau eraill; gall fod yn ddilys gan mai disgynyddion Rhys Chwith oedd y teulu. Mabli, merch Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd o Ogerddan (a chwaer Rhisiart, gwrthrych cerdd 41), oedd mam Lewys.

6 *n wreiddgoll.*

21 Siân, merch Wiliam Perod o Benfro, oedd gwraig Lewys, ond nid oedd 'dau Rys' ymhlith ei hynafiaid hi. Efallai y dylid atalnodi'n wahanol: *Yr oedd, o wraidd y ddau Rys*, neu ddiwygio'r ll.: *Yr oedd i wraidd y ddau Rys*, a deall mai at dylwyth Lewys y cyfeirir. Crybwyllwyd dau Rys yn y nodyn brig. Ail wraig Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd oedd Catrin, merch Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd; ni wyddys ai hi oedd mam Mabli, ond hynny sydd debycaf, o ystyried pwysy'n erchi'r rhodd.

33 **Mathau** Cynigir mai ar ran Mathau Goch o'r Drenewydd—ac ŵyr Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion—y canwyd y cywydd (gw. cerdd 7). Catrin ferch Rhys oedd ei fodryb.

41 *n wreiddgoll.*

44 **dilid** Be. yw *dilid* yn 44.25, a gorchmynnol yn ll. 57, ond ffurf 3 un.pres.myn. yma.

46 **cloc** Symudiad y maen yn cyfateb i symudiad bys y cloc, ond geill mai ffurf ar *clog* sydd yma, sef i. 'mantell', yn ffig. 'cysgod'; ii. 'craig, clogwyn', gw. GPC 505 d.g. *clog*¹, *clog*².

60 *n wreiddgoll.*

64 **crynfaen** Nodir enghreifftiau yn GPC 623, ac awgrymir mai'r a. *cryn* 'gweddol, helaeth' yw'r elfen gyntaf. Nid annichon mai *cryn*, y 'weithred o grynu' yw'r elfen flaen yn yr achos hwn o ystyried bod i symudiad y maen le pwysig yn y disgrifiad.

67 **fawr** 'Yn fawr'. Gwelwyd cystrawen debyg yn 2.63, *E fu'r gair fawr i Geri.*

Moliant Rhisiart ap Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd ... Cydifor ap Gwaithfoed, WG1 178–9; WG2 363; L. Dwnn: HV i, 44. Eisteddai ar y fainc yng Ngheredigion yn 1543, gw. JPWM 185. Trafodir y canu i'r teulu yn arolwg D. Hywel E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi', LICy x (1968–9), 89–97.

- 4 **siort** Yn tarddu o'r S. *sort* 'natur, math'. Cofnodir y ffurf *sort* yn EEW 179. Am enghraifft arall o'r ffurf *siort*, gw. GGH 11.14.
- 5 **siryf** Yr oedd Rhys ap Dafydd Llwyd yn siryf, yn ôl tystiolaeth Lewys Môn, gw. GLM LXXXII.33–4, ac felly hefyd ei dad yntau a folwyd mewn cywydd gan Ddafydd Nanmor, gw. DN XXIV.1–2, ond nid yw eu henwau i'w gweld ymhlith siryfion Ceredigion yn LSEW 242 (ond bylchog yw'r cofnodion am y cyfnod 1461–1540).
- 7 Twyll gynghanedd *ch*.
- 19 *n wreiddgoll*.
Derbyniwyd darlleniad CM 12 er mwyn osgoi'r gyfatebiaeth *nt = nd*, ond nid annichon fod hyn yn dderbyniol yng ngolwg Siôn Ceri.
- 23 **gwelas** Gwelir i'r terfyniad *-as*, sy'n cynrychioli'r ffurf 3 un.grff.myn., beri peth dryswch i'r copïwyr.
- 25 **Dafydd Llwyd** Ac isod ll. 30. Taid Rhisiart o du ei dad, a'i hen daid o ochr Catrin, ail wraig Rhys ap Dafydd Llwyd. Merch Rhys ap Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion oedd hi, WG1 398, ac yn y Drenewydd y trigai ei thylwyth. Dyma esbonio'r cyfeiriad yn ll. 33 at Bowys.
- 27–8 **Tewdwr ... Rhodri Mawr** Gwraig Cydifor ap Gwaithfoed oedd Lleucu, merch Cydifor ap Dinawal a Chatrin, merch yr Arglwydd Rhys ... Tewdwr ... Rhodri Mawr, WG1 164.
- 37 **y Tywyn** Un o deulu Ynysymaengwyn, y Tywyn, oedd Elliw, merch Wiliam ap Siancyn, a gwraig Rhisiart ap Rhys, WG1 728.
- 39 **rhest** Neu *rest*, 'arestiad, ataliad'.
- 42 **brysgoed** Ni ddisgwyliid treigladd ar ôl *ymysg*, ond dyfynnir yn GPC 341 enghreifftiau o'r ffurf *brysglwyn* a godwyd o ganu Huw Arwystl a Gruffudd Hiraethog. Esbonnir mai camgymryd ffurf dreigledig *prysg* am y ffurf gysefin a roes *brysglwyn*, a gellid cynnig yr un esboniad yn achos y ffurfiau *prysgoed*, *brysgoed*.
- 45 *n wreiddgoll*.
- 51 **teirsir** Ceredigion, sir Benfro (ll. 53) a sir Gaerfyrddin, gan mai dymuniad Siôn yw gweld ei noddwr yn arweinydd yn y De.
- 64 **gart** Ffurf ar *gartr*; y radd uchaf ymhlith urddau'r marchogion.

Ceir ach Wmffre ap Hywel ap Siancyn ab Iorwerth yn WG1 727–8; WG2 1427–8; PACF 237; L. Dwnn: HV ii, 230–1. Gw. hefyd Bob Owen, ‘Cipolwg ar Ynysyemaengwyn’, Cylchg CHSFeir iv (1961–4), 97–118, ac ymdriniaeth Enid Roberts, ‘Cywydd Cymod Hwmffre ap Hywel ap Siencyn a’i Geraint’, *ib.* 302–17. Annes, merch Syr Rhisiart Herbert o Drefaldwyn, oedd gwraig Wmffre. Canodd Siôn i’w thad ac i’w brawd (cerddi 21 a 22). Bu farw Wmffre yn 1545. Gw. ymhellach ‘Anecdotes of Society in Merionethshire’, Arch Camb, first series, ii (1847), 245–7.

11 **y Tywyn** Saif y cartref ryw filltir i’r dwyrain o’r Tywyn.

24 **siryf** Geilw Tudur Penllyn Hywel, tad Wmffre, yn siryf Meirion, gw. GTP 40.37–8. Nid yw enw Wmffre ei hun ymhlith siryfion y sir yn LSEW 260, ond yn ‘Anecdotes of Society in Merionethshire’, Arch Camb, first series, ii (1847), 246, nodir iddo fod yn ddirprwy i John Scudmore, siryf Meirionnydd, yn 1521.

27 **mylais** Ffurf ar *bwlas*, *bwlaets*, ‘eirín gwyllt’, neu air cyfansawdd *mw*l ‘malurion, mân us’ (er na ddyfynnir enghraifft yn GPC 2508 sy’n perthyn i’r 16g.) + *ais*, neu *byl/myl* ‘myl, min’ (enghraifft gynharaf yn GPC 363 o’r 18g.) + *ais*.

29 **Einion** Taid Siancyn.

Ynyr Elliw, merch Gruffudd Derwas ... Ynyr Fychan, oedd gwraig Siancyn.

33 **Cinast** Syr Rhosier Cinast a fu’n gwnstabl Castell Harlech ac yn siryf swydd Amwythig. Ei ferch, Mari, oedd gwraig Hywel ap Siancyn.

43 **Urien** Ystyrïai teulu Syr Rhys ap Tomas (cerdd 50) eu bod yn ddisgynyddion Urien. Priodasai chwaer Syr Rhys â Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg, sef tad Syr Rhisiart Herbert o Drefaldwyn.

44 **Iarll Herbert** Wiliam Herbert o Raglan, Iarll Penfro, ac ewythr Syr Rhisiart Herbert o Drefaldwyn.

Collwyd rhan gyntaf y cywydd, ac nid yw’r hyn a ddywedir am yr Owain y myn y bardd gymodi ag ef yn ddigon i’w leoli. Yr unig un arall a enwir yw Gwenllïan ferch Ieuan, ei wraig, ond nis enwir yn WG1 nac yn WG2. Os yw llinellau 47–8 i’w dehongli yn llythrennol, yr oedd Owain yn ewythr i’r bardd. Mewn un cywydd arall yn unig yr awgrymir bod cyswllt teuluol rhwng y bardd a’i noddwr. *Dy gâr wyf*, ymfalchïai Siôn, wrth foli Ieuan ap

Morys ap Siancyn o Glochfaen (16.33). Ni chofnodwyd enw gwraig yr Ieuan hwn yn WG2, ond geilw Siôn hi yn Gwenllïan. Yr oedd i Ieuan frawd o'r enw Owain, ond Tangwystl oedd gwraig hwnnw, sef merch Dafydd ab Ieuan ap Madog.

26 *n* berfeddgoll.

Diwygiwyd y ll. am mai chwe sillaf a oedd yn fersiwn y llsg.

41–2 Digwydd yr un cwpled yn 24.57–8.

44

Robert ap Rhys o Blas Iolyn a gyferchir yn y cywydd hwn. Mab Rhys Fawr, neu Rys ap Maredudd ap Tudur ydoedd ef, WG2 1331; PACF 204; L. Dwnn: HV ii, 343.

- 5 Digwydd yr un ll. yng nghywydd Tudur Aled i Robert Salbri o Lanrwst, gw. TA XIX.1.
- 6 **peip** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon, gw. GPC 2718 d.g. *peip*. Nodir y ffurf gyfarwydd *pib* yn EEW 148.
- 11 'Y mae'n wir nad yw gair [yn wir] onis haeddwyd ...'
- 16 **Coedmoriaid** Gwraig gyntaf Robert ap Maredudd, ewythr Robert ap Rhys, oedd Myfanwy, merch Dafydd ap Hywel Coetmor, PACF 204, 370–1.
- 17 Cyfatebiaeth $c = g$ yn y ddwy lsg. Diwygiwyd i osgoi hyn.
- 22 *n* wreiddgoll.
- 28 **mwstr** i. 'sŵn, terfysg, anhrefn'; ii. 'gwŷr wedi eu cynnull a'u trefnu', gw. GPC 2514. Os yr olaf: ...*i ddal gwart / A mwstr heboch* ...
- 33 Y darlleniad yn dywyll yn y ddwy lsg., a sillaf yn fyr at hynny.
- 53 *n* wreiddgoll.
- Cywasgwyd y ddau air *âi un*, fel y cywasgwyd *pw y un* yn ll. 61 isod.
- 63 **cym** Ffurf dafodieithol *cymer*, a cf. GHD 27.89.

45

Ymdrinnir â chyswllt Tudur Aled â Chaerfyrddin, ac â Syr Rhys ap Tomas, yn ysgrif Eirug Davies, 'Tudur Aled a Chaerfyrddin', *Barn*, 239/40 (1982–3), 422–3.

- 15 **trŵn** ‘Gorsedd’; gorseddfaine Duw yma, gan y credai’r beirdd mai o’r nefoedd y tarddai eu hawen.
- 18 *n* berfeddgoll.
Cywasgwyd *Ni rôl un gŵr*.
- 27 **dan destun deg** Eg. yw *testun* fynychaf, ond eb. ar ddau achlysur yng nghanu Dafydd ap Gwilym, gw. GDG 35.24, 105.13.
- 29 *r* berfeddgoll o ganlyniad i’r diwygio.
- 32 **meirch ... merched** Er mai ei gerddi defodol yw ei waith pwysicaf, canodd Tudur nifer o gywyddau serch. Gwelir 17 ohonynt yn y gyfrol a olygwyd gan T. Gwynn Jones, TA CXXII–CXXXVIII. Bu’r bardd hefyd yn erchi rhoddion megis bweled, gwalch, bwa, tarw, &c., ar ran ei noddwyr, ond hynodrwydd ei gywyddau gofyn fel dosbarth yw’r lle amlwg a hawlia’r march. Canodd 12 cywydd i erchi march (neu gesig) ynghyd â dau gywydd i ddiolch am y cyfryw, gw. TA XCVIII–CXI.
- 35 **mewn y garthen** Ailadroddir y disgrifiad sydd yn ll. 21, *yn ei glog*, ond efallai mai cyfeirio a wna Siôn Ceri at yr amdo sydd bellach yn gorchuddio’r corff.
- 37–8 **Lewys ... / Môn** Bardd a oedd yn gyfoeswr â Thudur, ac a fu farw ryw ddwy flynedd ar ei ôl, gw. CLC 350 a GLM xi.
- 39–40 **yeh ... / bôn** Ym môn y wedd y lleolid yr yeh cadarnaf. Diau fod yma adlais hefyd o hanes y ddau yeh bannog yn chwedl Culhwch ac Olwen, yn enwedig gan i Lewys Môn ddatgan yn ei farwnad ef i Dudur: *Y glêr hwnt a’n galwai rhawg— / och finnau—’r ddau Yeh Fannawg*, GLM XCI.5–6.
- 45 **Syr Rhys** Syr Rhys ap Tomas. Crybwyllir dau o noddwyr Tudur ym marwnad Lewys Môn iddo, sef Robert ap Rhys o Blas Iolyn a Syr Rhys ap Tomas, gw. GLM XCI.31–6. Yng Nghwrt y Brodyr yng Nghaerfyrddin y claddwyd Tudur, fel y mynegodd Lewys Daron, gw. GLD 25.83–6. Cynigir iddo glafychu ac yntau ar y pryd yn cadw gŵyl ar aelwyd Syr Rhys (*Aros un wyl wers a wnaeth*).
- 51 *n* berfeddgoll.
- 56 **Rhys Nanmor** Bardd Syr Rhys y geilw Lewys Môn ef yn ei farwnad iddo, gw. GLM XC.44, ac nid oes amheuaeth nad oedd yn teilyngu’r disgrifiad. Diogelwyd 11 darn o’i eiddo i Syr Rhys: 8 cywydd (un yn anghyflawn), dwy awdl a dau englyn, gw. MFGLI 3345–50. Bu farw yn 1513, gw. ByCy 792; CLC 526.
- 59 **canuoedd** Ll. *canu* ‘cân, cerdd’, &c., GPC 419.

Tomas Pennant, Abad Dinas Basing, a briododd ag Angharad, merch Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn, WG2 1673; PACF 214. Bu farw yn 1527, gw. DLIM 41.1–4, ond yr oedd eisoes wedi sicrhau mai ei fab, Nicolas, a gâi ei olynu (47.21–8). Nodir y ffeithiau hyn yn Thomas Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (London, 1796), 33–4, a chrybwyllir yno hefyd ganu Gutun Owain a Thudur Aled i'r abad.

Disgrifir yn y cywydd hwn, ac yn y farwnad anghyflawn (isod) o waith yr un bardd, waith yr abad yn adeiladu eglwys o gylch ffynnon Gwenfrewy. Gwnaeth yr adeilad argraff fawr ar y beirdd; cyfeiria Tudur Aled (TA CXXXIX) a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan (DLIM 41) at y fangre a ddaeth yn gyrchfan boblogaidd i bererinion, ac yn ffynhonnell incwm nid bychan i Abaty Dinas Basing, gw. WCh 495. Dymuna Tudur y bydd i Domas gael hamdden i gwblhau'r gwaith:

Am un Abad, mae'n obaith
Y gwyl Duw i glod a'i waith;
Yng nghôr yn Iorc, neu 'Nghaer Non,
Y gorffenko gau'r Ffynnon! (llau. 109–12)

Maint y llif sy'n tarddu o'r ffynnon, a'r wawr goch sydd iddo, sy'n cyfrif am hynodrwydd ffynnon Gwenfrewy.

3 *r* wreiddgoll.

Tonwen Cyfrwng cyfaddawdu yw hi fynychaf, e.e. GLD 14.53–60.

9 *n* wreiddgoll.

11 *n* wreiddgoll.

13 Ensynnir mai ar yr achlysuron cydnabyddedig yn unig, sef y tair gwyl, y croesewid y beirdd i gartrefi'r noddwyr eraill, ond nid felly Tomas, na Gwenllïan o Genarth, a barnu wrth dystiolaeth Lewys Glyn Cothi: *Un wyl uchel ni lechynt, / Na dydd gwaith nac undydd gynt*, LGCD 33.43–4.

25 *n* wreiddgoll.

26 *n* wreiddgoll.

27 Cynganedd bendrom.

52 Ll. wythsill.

m wreiddgoll.

56 **Urddonen** Gwelir yr unrhyw ffurf yn GLGC 51.47, 166.50.

Collwyd dechrau'r cywydd yn yr unig lawysgrif, ond gellir datgan yn ffyddiog ar sail yr hyn sy'n weddill mai'r abad a glodforir yn y cywydd uchod a goffeir.

- 2 *r* wreiddgoll.
- 9 Ac isod, llau. 15–16. Myn Siôn y dylai'r abad dderbyn yn y nefoedd wobr am ei haelioni, a'i draul yn codi'r ffynnon. Trafodais ymateb y beirdd i'r syniad o dderbyn bendithion nefol yn gyfnewid am weithredoedd da daearol yn 'Cywydd Marwnad Gutyn Owain i Guto'r Glyn', YB xviii (1992), 125–36.
- 14 **Garmon** Ar Faes Garmon, nid nepell o'r Wyddgrug, yr honnir i'r Cymry drechu eu gelynion â chymorth Garmon, gw. LBS iii, 56–8.
- 18 *n* berfeddgoll.
- 19 *n* wreiddgoll.
- 21 Twyll gynghanedd *dd* (neu gynghanedd draws drwsogl fantach).
- 22 Nicolas, a olynodd ei dad, Tomas Pennant, yn abad.
- 34 **gwyn a choch** Lliwiau'r arfbeisiau teuluol, cf. 30.6, neu y ddwy ddraig a gynrychiolai'r ddwy genedl, y Cymry a'r Saeson. Merch Siancyn Dôn oedd mam Tomas Pennant (a gwraig gyntaf ei dad).
- 38 **Beuno** Ef a adferodd ei bywyd i Wenfrewy wedi i Garadog dorri ei phen ymaith, gw. LBS iii, 185–96. Adroddir yr hanes yng nghywydd Tudur Aled i'r santes, TA CXXXIX.
- 42 **at Duw** Gw. 4.60.

I Wiliam ap Siôn Edwart y canodd Tudur Aled un o'i gywyddau mwyaf adnabyddus, gw. TA LXIII; OBWV 91. Bu'r gŵr hwn yn aelod o osgorddllu Harri VIII, ac yn gwnstabl y Waun; bu farw yn 1532. Ymdrinnir â'i yrfa, ac â chywydd Tudur iddo, gan D. J. Bowen yn YB xviii (1992), 137–59. Ceir ach Wiliam yn WG1 882; WG2 1686; hefyd yn L. Dwnn: HV ii, 307–8, 327–8; PACF 182; HPF iv, 63–6, sef Wiliam ap Siôn Edwart Hen ab Iorwerth ab Ieuan ab Adda ab Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam ... Iorwerth Fychan ... Tudur Trefor.

- 6 **Cynfyn** Priodasai Adda ag Isabel, chwaer Owain Glyndŵr, ac un o ddisgynyddion Bleddyn ap Cynfyn, WG1 32.

- 10 *n* wreiddgoll.
- 20 **Harri** Tudur neu Harri VIII. Angharad, merch Ednyfed ap Tudur ap Goronwy o Dre Castell, oedd gwraig Ieuan ab Adda. Mab Maredudd ap Tudur ap Goronwy oedd Owain Tudur, taid Harri Tudur, WG1 680.
- 24 **y Trwyndwn** Gwraig Iorwerth Fychan oedd Catrin, merch Gruffudd (ll. 25) ap Llywelyn ab Iorwerth Drwyndwn.
- 25 **Gruffudd** Gw. uchod, neu Ruffudd Fychan, tad Owain Glyndŵr. Ym Maelor Gymraeg yr oedd y Rhuddallt, cartref y teulu.
- 30 **Catrin** Gwraig Wiliam, a merch Siôn Hwgs, WG2 992.
- 34 **Gwenfrewy** Trosiad am Wenhwyfar, mam Wiliam, ond o ran hynny gellid diwygio'r darlenniad heb ddifetha'r gynghanedd: *Gwenhwyfar, cyff* ... Merch Elis Eutun ap Siôn ap Siâms oedd hi. Gwenllian ferch Cynfrig oedd gwraig Siâms Eutun, WG1 894; WG2 1701.
- 37 **menig** Canodd Dafydd ap Gwilym i ddiolch i Ifor Hael am fenig a roesai iddo: *Menig gwynion tewion teg, / A mwnai ym mhob maneg*, GDG 9.15–16.
- 41 *n* wreiddgoll.
- 44 **Swydd y Waun** Yr oedd y Waun yn Nanheudwy, un o'r tri chwmwd a ffurfiai gantref Swydd y Waun, gw. WATU 102.
- 47 **Dwy Faelor** Maelor Gymraeg a Maelor Saesneg ym Mhowys Fadog.
y Felallt Beeston yn swydd Gaer.
- 56 **Caradog** Freichfras, ond odid, gan i Uto'r Glyn ei enwi yn ei gywydd i Siôn Edwart, y tad, gw. GGI² CV.9–10 ac ymhellach TA LVI.55–6 a TYP² 299–300.

49

Methwyd â lleoli'r eirchiad, sef Morys Goch. Enwir dau o'i hynafiaid, Gruffudd ac Adda, ond nid awgrymir yn y cywydd o ba ardal yr hanai. Gŵr o Langedwyn yng nghwmwd Mochnant Is Rhaeadr oedd y rhoddwr, nid amgen Morys ab Ieuan ap Hywel ... Ieuan Gethin ap Madog Cyffin ... Bleddyn ap Cynfyn, WG1 36, 35; WG2 74. Lluniodd ei ewylllys yn 1515, gw. WMW 246, ac fe'i marwnadwyd gan Dudur Aled, gw. TA LXXX.

5 *m* wreiddgoll.

8 *f* led-lafarog.

- 11 Neu *i* (hyd) *Fynnau*, sef yr Alpau, ond gw. hefyd y darlenniadau a gofnodir yn yr amryfal lsgrau.

- 14 **Rhodri Mawr** Un o hynafiaid enwocaf Angharad, mam Bleddyn ap Cynfyn.
- 17 **Gwennwys** Marged, merch Ieuan ap Madog ap Gwennwys, Cegidfa, oedd ail wraig Ieuan Gethin, WG1 479–80.
- 19 *n wreiddgoll.*
- 20 *n wreiddgoll.*
- 40 **tôr** ‘Mantell, clogyn’, ac felly yn ll. 44 isod, neu *tor*, ‘stumog, bola’.

50

Syr Rhys ap Tomas oedd prif gynorthwywr Harri Tudur yng Nghymru, ac yr oedd y swyddi dylanwadol a ddaeth i’w ran wedi’r fuddugoliaeth ar Faes Bosworth yn arwydd o’i gyfraniad allweddol; fe’i penodwyd yn Ustus Caerfyrddin ac Aberteifi ac yn Siambren y De, gw. ByCy 790. Canu i’w hynafiaid ef—Tylwyth Ystrad Tywi—yw’r ail ddo-barth yn LGC, ac y mae rhagor na thrigain o gerddi ar glawr i Syr Rhys ei hun, gw. Eirug Davies, ‘Tudur Aled a Chaerfyrddin’, *Barn*, 239/40 (1982–3), 422–3.

Olrheiniai’r teulu eu hach hyd at Urien Rheged (ll. 42), a’i dair brân ef a welid ar eu harfbais, gw. DWH i, 98–100. Cofnodir yr ach honno yn WG1 330; WG2 645. Diau y barnai Siôn Ceri fod statws ac enwogrwydd Syr Rhys cyfuwch fel nad oedd angen cynnwys enwau’r hynafiaid yn ei farwnad.

Hir a thoddeidiau sy’n dilyn y gadwyn agoriadol o englynion. Cynigir bod llinell yn eisiau yn y trydydd, a hynny ym mhob un o’r llsgrau. Collwyd y llinell ddilynol yn llawysgrifau ABC, ond collwyd nifer o linellau hwnt ac yma yn llawysgrifau DE drachefn (e.e. llau. 69, 75, 77). Yn wahanol i’r ddwy awdl arall sydd ar glawr (cerddi 7 a 9), y mae hyd y llinellau yn rheolaidd yn hon.

- 1 Pan geir cyfatebiaeth odl rhwng y cyrch ac ail ran y paladr, disgwyllir cynghanedd sain. Ceir hynny isod (llau. 29–30), ac yn 7.25–6 a 9.21–2, ond nid felly yn yr englyn hwn. Gellid dilyn darlenniad llsgr. E, *torres*.
- 6 **y Brenin** Harri VIII.
- 7 **yr og** Y defnydd a wnaeth y Cywyddwyr o Chwedl Owain yw pwnc ysgrif Eurys Rolant, ‘Rhamant Hanes y Beirdd’, YB iii (1967); crybwyllir yn benodol, *ib.* 36–7, y cyfeiriadau yng nghanu Tudur Aled i Syr Rhys ap Tomas at yr og a’r cawg.
- 10 **Emrys** Un o’r arwyr cynnar a fu’n gwrthsefyll ymosodiadau’r Saeson, ynghyd â’i frawd, Uthr Pendragon, gw. BD 87; TYP² 345–6. Ond bu peth cymysgu rhyngddo a’r dewin, Myrddin Emrys, ac yr oedd i hwnnw, yn ôl traddodiad, gyswllt â Chaerfyrddin, gw. TYP² 472. Yng

Nghwrt y Brodyr Llwydion yn y dref honno y claddwyd Syr Rhys, a Thudur Aled (gw. ymhellach 45.45n).

11 *n* wreiddgoll.

Cynhelir y cymeriad llythrennol yn gyson yn y gadwyn englynion, ond yn llsgrau. DE yn unig y'i cynhelir yn yr englyn hwn (er nad yn y llsgrau. hyn y digwydd y darlleniadau gorau).

12 **Môr Groeg** Môr y Canoldir, gw. IGE² XLVII.19–28; GLM XXIX.77. Pan oedd Syr Rhys yn fyw, estynnai ei awdurdod hyd at Fôr y Canoldir.

15 *r* berfeddgoll.

18 **Ynys Brydyn** Sef Ynys Brydain, o bosibl, cf. GLILI 23.9n; ond gall gyfeirio hefyd at yr Alban, gw. GLM XXXIII.68, GIG I.26.

19 **Emlyn** Un o'r saith cantref yn Nyfed, a ymgorfforwyd yn rhannol yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd gan Syr Rhys gartref yng Nghastellnewydd Emlyn.

26 **Cad Gamlan** Yno y bu'r frwydr dyngedfennol rhwng Arthur a Medrod; yn ffig. 'brwydr waedlyd, trychineb eithafol', gw. GPC 378.

28 **arwybr** *Garw + wybr*, neu *ar + wybr*, ar ddelw *arlwybr*, gw. GPC 207 a GIG XV.74.

29 **Mastr Rhys** Wyr Syr Rhys. Etifeddodd y gŵr ifanc, a oedd oddeutu dwy ar bymtheg yn 1525, diroedd ei daid, ond Walter Devereux a benodwyd yn Ustus Caerfyrddin ac Aberteifi, a hynny rai wythnosau wedi marw Syr Rhys; ymhen blwyddyn cafodd swydd Siambrlen De Cymru, gw. Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family*, 88–9.

32 Cyfeirir at yr arfer o osod tarianau wyneb i waered er dynodi marwolaeth eu deiliaid yn DWH i, 280.

33 **gafael** 'Dal, meddiannu; meddiant'.

34 **Dinefwr** Cymerth Gruffudd ap Nicolas, taid Syr Rhys, brydles ar yr arglwyddiaeth hon yn 1440.

36 **Caeryw** Yno y cynhaliodd Syr Rhys dwrnameint i ddathlu ei ddyrchafu yn farchog o Urdd y Gardys (*y gart* ll. 73) yn 1505.

38 *r* berfeddgoll.

41 **Ffrainc** Bu iddo ran yn ymgyrch Harri VIII yn Ffrainc yn 1513.

45 *n* berfeddgoll.

46 Cyfatebiaeth $n = m$.

54 *r* berfeddgoll.

teirw Yn ddeusill.

- 66 **am wlyb wylaw** Ond gwell yw darlleniad llsgrau. DE, *aml wb wylaw*.
- 70 **efydd** Ymddengys mai ystyr ddiraddiol sydd i *efydd* yn y fan hon, ond nid felly yn 6.22, nac yn yr enghreifftiau a gofnodir yn GPC 1173. Nid annichon mai gwall sydd yn y llsgrau., ac y dylid diwygio: i. *ufudd* 'isel, gostyngedig'; ii. *efrydd* 'cloff, anafus' cf. *efryddion ddyinion* 53.21—ond ceid wedyn *r* berfeddgoll o dan yr acen.
- 72 **tair ynys** Cymru, Lloegr a'r Alban, gw. TYP² 228.
- 75 *r* berfeddgoll.
- 78 Cyfatebiaeth *t..d = d*.
- 83 **daered** i. eg. 'dyled gyfreithiol; cymynrodd eglwysig; y tâl i wr eglwysig dros y meirw; arian am gladdu'; ii. eb. 'pridd, daear', gw. GPC 878 d.g. *daered*¹, *daered*². Y meirch, fe ymddengys, yw'r rhodd a adawodd Syr Rhys. Parthed yr arfer o roddi rhoddion yn ymwneud â byd ymladd i'r eglwys, cf. GLD 27.49n.

51

- 9 I'r Santes Fair y cysegrwyd hen eglwys blwyf y Drenewydd, ac fe'i hadwaenid gynt fel Llanfair-yng-Nghedewain, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 54–5.
- 36 *n* wreiddgoll.
- 37 *f*led-lafarog.
- 43 *n* wreiddgoll.
- 51 Cyfatebiaeth *t = d*.
- 59 **Rhufain** Yr oedd yn y ddinas saith eglwys enwog yr arferai'r pererinion ymweld â hwy, gw. G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 186–9.
- 60 **stâl** Benthyciad, mae'n debyg, o'r S.C. *stal(le)* 'a seat of honour; a throne', gw. MED d.g.
- 66 *r* berfeddgoll.

52

Canodd Tudur Aled i'r dref a'i thrigolion, gw. TA LXV. Yn ei gywydd enwodd rai o strydoedd Croesoswallt—Beili Street, Stryd Wylw, Stryd y Betris, y Porth Du a Stryd yr Eglwys. Dau fardd arall a ganodd i'r dref oedd Guto'r Glyn, gw. GGI² LXIX ac Owain Waed Da, ond ni ddiogelwyd cywydd yr olaf; tri chywydd o'i waith sydd ar glawr, ac nid yw'r cywydd i

Groesoswallt yn eu plith, gw. MFGLI 2735. Gweler ymhellach GLGC cerdd 208.

- 3 **tir y fesen** Croesoswallt. Galwodd Siôn Tudur Robert Trefor yn *Captan ar Dre'r Fesen fawr. / Nid oes na Chymro i'n dallt / Na Sais yn Ninas Oswallt ...*, GST 103.48–50 a'r nodyn *ib.* ii, 393 lle yr esbonnir tarddiad yr e.
- 5 **tair o ieithoedd** Cymru, Lloegr a'r Alban.
- 9 **rwm** O'r S. *room*, cf. TA XVII.87 a XXXVII.21.
- 13 **adwaeniad** 3 un.amhff.myn. *adnabod*, gw. GCC 98.
- 14 *n wreiddgoll.*
- 23 **Heiob** Llanddewi-yn-Heiob ym Maelienydd. Cyfeiria Siôn Ceri at y lle fel pe bai iddo ryw hynodrwydd yn ei olwg. Felly hefyd Owain ap Llywelyn ab y Moel, gw. GOLIM 11.13–14 *Gwaed Meurig hyd y moroedd, / gwaed Heiob lys gwaed dwbl oedd.*
- 32 **pum harcholl** Pum clwyf Crist a achoswyd gan y tair hoelen, y goron ddrain a'r waywffon a'i trywanodd. Fe'u disgrifir yng nghywydd Huw Cae Llwyd i Grog Aberhodni, gw. HCLI XLIV.15–24. Am yr *h-*, gw. Treigladau 137 a cf. GDG³ 128.47.
- 46 *n wreiddgoll.*
- 47 **disoedd** Y S. *dice* yw tarddiad *dis, disiwr, disio* a drafodir yn EEW 146, ond ffurf l. y gair sy'n tarddu o'r S. *dish* sydd yma (cf. *dismed*, 'dish-meat') er na nodir y ffurf yn GPC 1040–1, 1048 na EEW.
- 48 *m wreiddgoll.*
- 57 *n wreiddgoll.*
gosod i. 'ordeiniad, rheol'; ii. 'cwrs, saig'. Swyddogaeth ansoddeiriol sydd i *esgusaw*, 'ffug, annilys'.
- 58 *n wreiddgoll.*
- 59 *n wreiddgoll.*
- 62 Digwydd yr un ll. yn y cywydd blaenorol, 51.64.

Cywydd i'r Grog yn Nhrefglwys yw hwn, ond dieithr yw'r amgylchiad y cyfeiria Siôn Ceri ato. Ymddengys mai gŵr o'r enw Dafydd (ll. 27) oedd y ficer ar y pryd, ond i'r flwyddyn 1574 y perthyn y cofnod am ddeiliad cynharaf y swydd yn DB 57 (gŵr o'r enw John Johns oedd y ficer y flwyddyn honno), a 'The Vicars of Trefeglwys: 1574–1902' yn Mont Coll liii (1953–4), 40–7.

- 11 Camosodiad *n.d = d.n.*
- 14 **dunos** *Du + nos.* Ceid gwell ystyr, ond sillaf ychwanegol, o ddarllen *duun* ('hyfryd, cymeradwy') + *nos*.
- 19 *n wreiddgoll.*
- 26 Twyll gynghanedd *d.*
- 31 *n wreiddgoll.*
- 36 **pedair morwyn** Y ddadl rhwng Pedair Morwyn y Drindod ynghylch tynged Adda wedi iddo dorri'r gorchymyn. Diogelwyd testun rhyddiaith yn llaw John Jones, Gellilyfdy, gw. Nesta Lloyd, 'Ystoria Pedair Morwyn y Drindod', B xxv (1972-4), 120-4. Gw. ymhellach Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500-1650* (Caerdydd, 1952), 143-4, a'r cyfeiriadau at y ddadl yng nghanu Dafydd ab Edmwnd, Robert Leiaf, Morgan ap Huw Lewis ac Edmwnd Prys.
- 51 *n berfeddgoll.*
- 56 **nawnef** Yr oedd i'r haul ac i bob planed a gylchdroi o amgylch y ddaear ei nefoedd ei hun yn ôl gwyddonwyr yr Oesoedd Canol.
- 62 *n berfeddgoll.*
- noeth yn ei dâl** Trafodir yr ymadroddion 'noethi tâl', 'inc ar ei dâl', a'u cyswllt â'r farn, yn ysgrif E. I. Rowlands, 'Dydd Brawd a Thâl', LICy iv (1956-7), 80-9. Credid bod pechodau'r unigolyn yn cael eu harddangos ar ei dalcen.

54

Eiddo Huw Cae Llwyd yw'r cywydd enwocaf i'r Grog yn Aberhonddu (*Y Gŵr a roes ei wryd* yn HCLI XLIV), ond canodd ei fab, Ieuan, ar yr un testun (*Brodyr aeth i baradwys*, HCLI LI).

Dechrau'r cywydd sydd yn llsgr. LIGC 11087B, ac fe'i dilynir gan ddarn sydd yn perthyn i gyfnod diweddarach (er mai enw Iolo Goch sydd wrth droed y cywydd).

- 13 *n wreiddgoll.*
- 40 Twyll gynghanedd *d.*
- 45 **y deuddeg** apostol.
- 46 *n berfeddgoll.*
- 56 Twyll gynghanedd *d.*

Mab Caranfael ap Cyndrwyn oedd Llwhaearn, a brawd Aelhaearn a Chynhaearn. Ceir ei hanes yn LBS iii, 381–3; Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Woodbridge, 1987), 189–92, a hefyd yn R. Gibbins a B.E. Jones, ‘A History of the Parish of Llanmerewig’, Mont Coll xxxv (1908–10), 81–128, lle y ceir testun o’r cywydd yn seiliedig ar lawysgrif Peniarth 100. Cysegrwyd dwy eglwys i’r sant mewn plwyfi a oedd yn ffinio â’i gilydd, sef Llanllwhaearn a Llamyrewig yng nghwmwd Cedewain.

- 8 Bai caled a meddal, p = b.
- 12 **Beuno** Ei athro, yn ôl LBS. Ymdrinnir â’i gysylltiadau teuluol yn LBS i, 208–21.
- 18 *n wreiddgoll.*
- 26 **naw arch** Sonnir yn LBS iii, 369–74 am y tri deisyfiad a roddwyd i Lleuddad. Rhannwyd naw arch Llwhaearn yn dri dosbarth, y cyntaf ‘yn rhaid’ y sant ei hun (llau. 27–32), a’r ail er lles y pererinion a ddeuai i’w addoli (llau. 33–4). Dwyn bendith yn lleol a wnâi’r trydydd trwy achlesu’r plwyfolion a’u creaduriaid (y seithfed a’r wythfed arch), a thrwy sicrhau iddynt rwydd hynt ar eu taith i’r nefoedd (y nawfed).
- 28 ‘Er nad llafariad mo’r *w* [ansillafog] uchod, eto yr oedd hi’n lled-lafariad; ac fe ellir defnyddio ’r neu ’*n* neu ’*ch* ar ol lled-lafariad’, gw. J. Morris-Jones: CD 197, a’r enghreifftiau, gan gynnwys ‘*ch*, ar d. 198. Prin yw’r enghreifftiau yng nghanu Siôn Ceri fodd bynnag, ond cf. 53.4.
- 45 **tri phry’** Fe’u henwir isod, sef twrch, gwiber ac ewig.
- 48 *n wreiddgoll.*
- 51–2 Ymgais i esbonio enw’r plwyf, sef Llamyrewig.
- 52 *n wreiddgoll.*
- 53 *n wreiddgoll.*
- 66 *n wreiddgoll.*
- 73 Yn unol â dymuniad cyntaf Lleuddad (ll. 26 uchod), marw yn ôl trefn eu geni a wnâi’r canoniaid yn Enlli.
- 74 **Rhys** ap Morys o Aberbechan (gw. cerdd 9). Nodir yn Valor Ecclesiasticus Harri VIII, gw. M. Charles Jones, ‘The Territorial Divisions of Montgomeryshire’, Mont Coll ii (1869), 104; ‘The Sheriffs of Montgomeryshire’, *ib.* iii (1870), 395, mai ef a reolai fywiolaethau Carno a Llanwddyn (eiddo Urdd Marchogion Halston) ynghyd â Llanllwhaearn (eiddo Lleiandy Llanllugan). Dafydd ap Llywelyn oedd ficer Llamyrewig yn y flwyddyn 1537, a Thomas ap Dafydd yw’r nesaf

a enwir, gw. R. Gibbings a B.E. Jones, 'A History of the Parish of Llanmerewig', Mont Coll xxxv (1908–10), 120.

56

- 3 **bwrw** Yn ddeusill.
- 7 **magod** Ffurf ar *magawd* 'dof, wedi ei fagu (yn dda)', gw. GPC 2317.
- 9 **crug** 'Cornwyd, pothell', yn ffig. 'dychryn, gofid', gw. GPC 613–14.
- 13 Cyfatebiaeth *th = dd*, ar ôl diwygio darlleniad anfoddfaol y llsgrau.
- 19 Cynghanedd lusg anghyffredin ac fe'i hailadroddir isod, ll. 25; y tro hwn ysgrifennodd Llywelyn Siôn *wiailen* yn Llst 47.
- 23 **gwg** Eg. yn unig yn GPC 1653.
- 34 Bai crych a llyfn.
- 36 **o i dano** Nis nodir yn GPC 2611, ond cf. yr ymadrodd *o i wrth*.
- 44 Neu gellid cadw'r darlleniad gwreiddiol: *A gwen, ni thalaf* (= bod yn werth) *geiniog*.
- 56 **anrhaith** Gair mwys pwrpasol o ystyried y cyd-destun, sef i. 'trysor, hyfrydwch, cariadferch'; ii. 'ysglyfaeth, difrod', gw. GPC 153.

57

Trafodir awduraeth y cywydd yn y rhagymadrodd, td. 18.

- 25 *n* wreiddgoll.
- 31 **pumoes byd** Rhennid y cyfnod a ragflaenodd Grist yn bum oes. Gw. ymhellach DGG² LXXVII.15–16, GO XXVI.9–10, HG Cref 214–15 a GPC 2928.
- 44 *r* wreiddgoll.

58

Y mae'r dystiolaeth lawysgrifol yn gadarn o blaid Siôn Ceri y tro hwn, ond bod cryn amrywio o ran trefn y cypledu; y mae cynifer â naw fersiwn gwahanol ymhlith yr wyth llawysgrif ar hugain.

- 9 *m* wreiddgoll.
- 12 **graddau nef** Dosberthid yr angylion o gwmpas Duw yn naw gradd.

15 *m* wreiddgoll.

16 *n* berfeddgoll.

22 *n* berfeddgoll.

27 *m* wreiddgoll.

Deusill yw *gwayw*.

32 **tryfer** Sylwer hefyd ar ddarlleniadau D (*draenen*) ac Y (*drain*), ac ymhellach yn ll. 34 y *bach* (llsgr. C), y *ber* (llsgrau. EFGI). Trafodir y modd y defnyddiai'r Cywyddwyr stori gŵr y lleuad a'i faich drain gan Eurys I. Rowlands, 'Y Baich Drain', LICy iv (1956–7), 172–6, ond pwysicach yn y cyd-destun hwn yw ymdriniaeth yr un awdur â'r syniad o fod ar ddraenen (neu gangen, neu bawl), 'Myrddin Wylt', LICy iv (1956–7), 117–19, a'r modd y'i cymhwyswyd at ofynion y canu serch.

37 *m* wreiddgoll

41 *n* wreiddgoll.

42 *n* wreiddgoll.

59

Amlinellir peth o hanes Hywel ap Syr Mathau yn F. G. Payne, *Crwydro Sir Faesyfed*, ii (Llandybie, 1968), 51–3; hefyd yn CLC 287.

60

'Awgrym llaw' y gelwir yr wyddor hon, ond trwy ddefnyddio'r llaw ynghyd â rhannau eraill o'r corff y cyfleir y llythrennau a restrir. Yn hyn o beth, y mae'r wyddor yn bur wahanol i'r un a gofnodwyd yn Haf 24, 638, yn BL ADD 31055, 22^v, ac yn Llst 117, 47, lle y cyfleir pob llythyren trwy ddefnyddio'r llaw a'r bysedd yn unig. Serch hynny, dengys y cyfarwyddiadau yn BL Add 15047 fod sawl llythyren i'w cyfleu trwy ddefnyddio'r bysedd, e.e. 'a—bawd i vynv', ac ym mhob un o'r achosion hyn, cyfetyb y cyfarwyddiadau yn y llawysgrif i'r hyn sydd yn y tair rhestr uchod.

Mydryddwyd pob llythyren, a'r cyfarwyddiadau perthnasol, ac eithrio F. Cynhwyswyd FF, ond anodd cysoni'r cyfarwyddyd yn y tabl â'r geiriau ar ddechrau'r ail englyn.

Dengys y rhestr fod dwy lythyren i'w cyfleu trwy ddefnyddio'r un arwydd, sef cyffwrdd â'r ên (G ac R). Ond, a barnu wrth linell 12, trwy gyffwrdd â'r ael y dynodid y llythyren G.

Nid yw'r holl linellau yn rheolaidd o ran eu hyd, ac ni cheir cynghanedd foddhaol yn llinellau 12 a 15.

- 6 **blaenfys** ‘Mynegfys’, gw. GPC 281 lle y cofnodir un enghraifft o’r 19g.
- 11 **llugen** Ffurf ar *llug*¹ ‘golau, goleuni’, gw. GPC 2221, a’r terfyniad *-en*.
- 16 **clwstwr** ‘Swp’, ond i’r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 513.

Geirfa

Os digwydd yr un gair neu ymadrodd fwy nag unwaith yn yr un gerdd, cofnodir yr enghraifft gyntaf yn unig. Oni chyfeirir at nodyn, ni restrir ffurfiau personol berfau—rhoddir berfenwau yn unig.

- aberthwr** offerennwr 51.14,
53.26
- achub** meddiannu 12.13
- adail** adeilad 19.23, 28.7, 46.41,
47.9, &c.
- adar bwn** adar o deulu'r crëyr
35.70
- adolwyn** deisyfiad 56.55
- adwaith** gwaith neu weithred a
ailadroddir 10.48, 47.5
- adwythig** marwol, niweidiol 34.2
- adduno** chwennyech 11.35
- aelaw** cyfoeth, amllder 2.11, 6.68
- aerwy** torch 19.8, 25.1, 41.63,
42.33
- aeth** galar 58.28; alaethus, yn
peri alaeth 18.40, 39.51
- aethwydden** math ar boplysen
56.40
- afar** trist(wch) 56.12
- afrifed** iawn (â grym adf.) 46.44
- agwrdd** cadarn 6.32
- aig** mintai 6.65
- aml** helaeth 15.46
- amler** march 28.42
- amliwio** edliw 35.35
- anap** 3.44, 22.5
- anarlloes** heb eu clirio (am lestri)
9.41
- anelu** troi, camu 57.18
- anhuddo** gorchuddio 30.50
- anllywodraeth** 2.44
- annoeth** *ll.* **annoethiaid** 4.51
- anras** aflwydd 2.56
- anrhaith** 56.56n
- anwr** adyn, dihiryn *ll.* **anwyr**
28.21
- aped** amr. *ateb* 50.43
- arbed** cadw, cynnal 51.47
- archangel** 55.48
- ardduniant** urddas 47.40
- arddwr** amaethwr, llafurwr *ll.*
arddwyr 30.41
- arian tawdd** 13.19
- ariannu** addurno â cholera arian
3.5, 41.60
- arwybr** 50.28n
- aseth** gwialen, yn ffig. merch
57.19
- astell** ystyllen, yn ffig. carchar
56.42
- astrus** anhydrin 46.13
- athrywyn** heddychu, cymodi
5.74
- aur ceimion** 4.55n
- awch** tanbaid, tanbeidrwydd 4.28,
5.15, 7.25, 8.5, &c.
- awchiad** y weithred o flaenllymu
38.18
- awchio** 3.23, 5.9, 11.14, 22.29,
24.3, &c.
- awchus** 20.13, 27.7
- awdl** 16.34, 45.24
- awran** amr. *awron* 47.25
- awrwn** amr. *awron* 18.11n
- bagl** ffon esgob 55.55
- baglog** 46.20
- banc** bryn 38.55
- bar** gwaywffon 15.27, 17.32,
30.23, 36.44, &c.

- bar** brawdlys 4.48
bâr llid 43.46, 56.54
bardd *ll.* **beirddion** 45.8
bargeinio 34.37
bariaeth llid 44.23
baril 18.55
barth llawr, aelwyd, ?pen uchaf
y neuadd 20.52
barwn 2.6, 6.30, 8.6, 9.1, &c.; *ll.*
barwniaid 9.26, 51.40
bawai dyhiryn 59.1
bedydd gwledydd Cred 46.63
beili 32.43
beisio cerdded 22.8
bêr gwaywffon *ll.* **berau** 22.26
ber coes *ll.* **berrau** 39.50
berw cyffro(us), brwd 5.43,
22.51, 43.53
berwedig brwd 37.42
berwi byrlymu 4.37, 28.66,
49.46, 58.21
bil gwÿs neu gwyn gyfreithiol
39.34, 56.49; *ll.* **biliau** 35.43
bilio 39.29
blaenfys 60.6n
blaenor 6.34, 16.2, 35.6, 37.60
blaenwalch 1.4
blaenwydd 1.15, 9.25
bloddest bloedd 5.44
bolchwydd ymchwydd, balchder
5.46, 15.53, 38.63
boldyn tewrwrth 18.42
boltt saeth *ll.* **byllt** 56.27
borau 18.55
bord 43.40
Bord Gron 7.9 **Ford Gron**, y 7.6
bort 9.51, 16.38, 40.27
both bogel olwyn, tarian 40.68
braen pwr 36.43
braenu pydru, halogi 53.8
bragod math ar gwrw 17.14,
43.31
braisg cadarn 24.48, 32.2, 34.41,
37.19, &c.
brân 22.53n
brau (gŵr) hael, parod 8.5, 9.35,
29.45, 35.24, 41.41, &c.
brawn nerth 6.46, 28.66, 32.42
brein 9.61, 11.37, 19.38, 22.34,
23.13, &c.; *ll.* **brenhinoedd**
24.10 (gw. y **Brenin**)
brest mynwes 5.6, 23.48, 48.14
breugoed 4.33
broch 32.40n
brod gw. **brwd**¹
bronnen llethr fechan 31.30
browys egniol, pybyr 24.48,
34.41
brud darogan 35.44; *ll.* **brutiau**
50.39
brutwyr 22.51
brwd tanbaid, angerddol *b.* **brod**
31.32; *ll.* **brydion** 7.25
brydio llunio, plethu 5.31
brydion gw. **brwd**
brysgoed 41.42n
bual corn yfed, yn ffig. pennaeth
14.6
buchesydd buches 32.44
bw arswyd 6.41, 15.2, 21.60,
28.21, &c.
bwbach 21.54
bwled tarian 40.67, 49.43
bwrtais *ll.* **bwrdeisiaid** 52.47
bwrdeistref 51.42
bwrw cynnyrch 20.20
bydaf nyth gwenyn 13.22
byllt gw. **boltt**
byw bywyd, cynhaliaeth, egni
10.4, 14.6, 21.19, 27.36, &c.
bywyd cynhaliaeth 29.30, 38.14,
44.7
cad llu *ll.* **cadau** 3.13, 44.16
cadair gorsedd 3.11, 33.11,
51.15; *ll.* **cadeiriau** 51.30
cadfâu trefnu yn llu 2.40, 31.38

- cad** grymus, hardd 5.27, 20.23
cads deunydd gwerthfawr 18.43n
cae addurn 20.29, 50.35
caenen gorchudd 30.49
caer y gath 22.18n
cangog canghennog 3.7
Calan 4.27, 35.74
caled crintach 9.59
calennig 6.51
camp 1.2, 6.2, 11.49; *ll. campau* 9.54, 12.23, 50.79
camraint amr. *camfraint* 21.60
cannoos 6.58n
cannwyll, dwyn 1.43
canu *ll. canuoedd* 45.59n
capan mantell 18.70n, 56.35
capel *ll. capelau* 19.37
caedig câr 43.47
carenydd 50.37
carl *ll. carliaid* 22.58
cas gelyn, gelyniaeth, llid 2.30, 6.7, 48.56; *ll. casau* 15.39, 37.44n
casged blwch 9.44
caterwen derwen fawr 21.61; *ll. caterw* 35.19
cau yn cau neu yn amgáu 18.56, 32.47, 40.38, 46.39, 49.61
cedynt 18.43n
cefnen llethr 32.63n
cerddor 44.45, 51.53
cerddwriaeth 45.46
cerddynt 16.9n, 22.35
cert *ll. certi* 31.13
cest bola, cist, howld llong 18.35
cethin rhuddgoch; ffyrnig 18.40n, 22.10, 53.2
cigog praff 18.64
claim 31.59
clap ergyd, sŵn sydyn 44.22
cled gw. **clyd**
cloch 40.46n
clep 40.45
clêr, y glêr 3.41, 29.51, 52.55
cloch, y gloch 34.47 (gw. hefyd **llwddn cloch**)
clod 3.41, 12.25, 18.17, 20.2, 26.57, &c.; **y glod** 14.56, 15.30, 20.44, 28.5, &c.
clog 18.66, 32.39, 45.21, 46.35
